



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion  
The Record of Proceedings**

**Dydd Mawrth, 12 Hydref 2010  
Tuesday, 12 October 2010**

**Cynnwys**  
**Contents**

3	Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister
31	Cwestiwn Brys: Y Swyddfa Basbort yng Nghasnewydd Urgent Question: The Passport Office in Newport
39	Cwestiwn Brys: Llais Defnyddwyr Cymru Urgent Question: Consumer Focus Wales
42	Pwynt o Drefn Point of Order
44	Datganiad a Chyhoeddiad Busnes Business Statement and Announcement
51	Datganiad am Gynigion Llywodraeth y DU ar Ddiwygio'r Heddlu Statement on UK Government Proposals for Police Reform
71	Datganiad am y Strategaeth Addysg Uwch Statement on the Higher Education Strategy
94	Gohirio Rheolau Sefydlog Suspension of Standing Orders
95	Adroddiad Terfynol Holtham Holtham Final Report
124	Dechrau'n Deg Flying Start
145	Cyfnod Pleidleisio Voting Time

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.  
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.  
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.*

**Y Llywydd:** Trefn ar gyfer cwestiynau i'r Prif Weinidog. **The Presiding Officer:** Order for questions to the First Minister.

### **Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister**

#### **Heddluoedd yng Nghymru**

#### **Police Forces in Wales**

**1. Peter Black:** *Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael ynghylch dyfodol heddluoedd yng Nghymru. OAQ(3)3131(FM)*

**1. Peter Black:** *What discussions has the First Minister had on the future of police forces in Wales. OAQ(3)3131(FM)*

**The First Minister (Carwyn Jones):** Llywydd, I understand that you have given your permission for questions 1 and 8 to be grouped.

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Lywydd, caf ar ddeall eich bod wedi caniatáu i gwestiynau 1 ac 8 gael eu grwpio.

Peter, the Minister for Social Justice and Local Government has regular discussions on policing, including meetings with the Association of Chief Police Officers Cymru and the Police Authorities of Wales. Those discussions include debate on the future of policing in Wales.

Peter, mae'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn cael trafodaethau rheolaidd ynghylch plismona, gan gynnwys cyfarfodydd â Chymdeithas Prif Swyddogion Heddlu Cymru ac Awdurdodau Heddlu Cymru. Mae'r trafodaethau hynny'n cynnwys trafodaethau ynghylch dyfodol plismona yng Nghymru.

**Peter Black:** I am sure that you are aware of the Wales Audit Office report, 'Sustaining value for money in the police service'. The report identifies that if the police properly civilianized tasks, they could save up to £14 million and that there were £24 million to £35 million-worth of potential savings to be made that would not hit front-line policing. What work have you done with the Welsh police forces to try to ensure that they implement this report, and start delivering the sorts of savings the Wales Audit Office believes they can make?

**Peter Black:** Rwyf yn siŵr eich bod yn gwybod am adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, 'Cynnal gwerth am arian yng ngwasanaeth yr heddlu'. Yn ôl yr adroddiad hwn, pe bai'r heddlu'n mynd ati'n briodol i roi tasgau yn nwylo dinasyddion, byddent yn gallu arbed hyd at £14 miliwn, gyda'r potensial i arbed rhwng £24 miliwn a £35 miliwn heb amharu ar blismona rheng flaen. Pa waith rydych wedi'i wneud gyda heddluoedd Cymru i geisio sicrhau eu bod yn rhoi'r adroddiad hwn ar waith, ac yn dechrau darparu'r mathau o arbedion y mae Swyddfa Archwilio Cymru yn credu y gallant eu gwneud?

**The First Minister:** Policing is not a devolved function. However, we believe that front-line services, particularly the numbers of police officers and police community support officers, should be protected as far as possible when considering the forthcoming budget settlement.

**Y Prif Weinidog:** Nid yw plismona'n swyddogaeth ddatganoledig. Fodd bynnag, credwn y dylai gwasanaethau rheng flaen, yn enwedig niferoedd swyddogion yr heddlu a swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu, gael eu diogelu cymaint ag y bo modd wrth ystyried setliad y gyllideb sydd yn yr arfaeth.

## Cryfhau Cymunedau Gwledig

**2. Angela Burns:** *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer cryfhau cymunedau gwledig yng Nghymru. OAQ(3)3129(FM)*

**The First Minister:** 'One Wales' sets out the Government's priorities and commitments for communities across Wales, including those in rural areas.

**Angela Burns:** You have an oversight across all portfolios, First Minister. There is real concern in the farming tourism sector that it has lost the level of involvement that is used to have with the Welsh Assembly Government when WAG took in the Wales Tourist Board. The sector is calling for more support for rural tourism and is saying that there is a lack of guidance, a lack of a clear strategy, and that the current strategies are not working as well as they used to. As First Minister, you should be able to bring together the rural and tourism portfolios in order to take another look at this because, as you will be more than well aware, tourism is one of the main bread and butter opportunities, after agriculture, for many people in rural communities.

**The First Minister:** I am surprised to hear that. I have not seen any evidence that, since the abolition of the Wales Tourist Board, the tourism product in rural areas is not receiving the support that it should. However, if there is evidence of that, I would like to see it. In terms of rural Wales, you will be aware that the rural development plan will bring some £795 million to rural communities in the period to 2013. That is a substantial investment in rural Wales.

**Rhodri Glyn Thomas:** A fuasech yn cytuno bod llawer o ardaloedd gwledig Cymru yn dibynnu i raddau helaeth ar wasanaeth trên cyhoeddus o'r ansawdd uchaf posibl? Gall penderfyniad y glymblaid yn San Steffan i beidio â symud ymlaen â thrydaneiddio'r system reilffordd yng Nghymru gael effaith andwyol ar gymunedau gwledig ledled Cymru. Bydd y cymunedau gwledig hynny wedi eu condemnio i wasanaeth eilradd, o

## Strengthening Rural Communities

**2. Angela Burns:** *Will the First Minister outline his priorities for strengthening rural communities in Wales. OAQ(3)3129(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Mae 'Cymru'n Un' yn nodi blaenoriaethau ac ymrwymadau'r Llywodraeth ar gyfer cymunedau ledled Cymru, gan gynnwys y rheini mewn ardaloedd gwledig.

**Angela Burns:** Brif Weinidog, mae gennyh chi ddylanwad ar bob portffolio. Mae'r sector twristiaeth ffermio yn pryderu'n fawr ei fod wedi colli'r cyswllt oedd ganddo o'r blaen gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, ar ôl i Fwrdd Croeso Cymru gael ei ddwyn o dan adain Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r sector yn galw am ragor o gymorth i dwristiaeth wledig ac yn dweud nad oes digon o arweiniad na strategaeth glir, ac nad yw'r strategaethau presennol yn gweithio mor dda ag yr oeddent. Fel y Prif Weinidog, dylech allu dod â'r portffolios gwledig a thwristiaeth at ei gilydd er mwyn edrych eto ar hyn oherwydd, fel y byddwch yn fwy nag ymwybodol, mae twristiaeth yn un o'r prif gyfleoedd bara menyn, ar ôl amaethyddiaeth, i lawer o bobl mewn cymunedau gwledig.

**Y Prif Weinidog:** Mae hynny'n fy synnu. Nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth nad yw'r cynnyrch twristiaeth mewn ardaloedd gwledig yn cael y cymorth y dylai ei gael ers diddymu Bwrdd Croeso Cymru. Ond, os oes dystiolaeth o hynny, hoffwn ei gweld. O ran y Gymru wledig, byddwch yn gwybod y bydd y cynllun datblygu gwledig yn dod ag oddeutu £795 miliwn i gymunedau gwledig yn ystod y cyfnod hyd at 2013. Mae hynny'n gryn dipyn o fuddsoddiad yn y Gymru wledig.

**Rhodri Glyn Thomas:** Would you agree that many rural areas of Wales are dependent on a public train service of the highest possible order? The decision by the coalition in Westminster not to progress the electrification of the rail network in Wales could have a detrimental effect on rural communities throughout Wales. Those rural communities may be condemned to a second-class service that could affect the economy

bosibl, a allai effeithio ar yr economi, ac ar unrhyw fath o obaith i sefydlu busnesau newydd yn yr ardaloedd hynny.

**Y Prif Weinidog:** Mae hynny'n wir. Yr wyf wedi nodi sawl gwaith yn y Siambr pa mor bwysig yw trydaneiddio'r rheilffordd drwy dde Cymru. Os bydd ein cymunedau gwledig wedi eu lleoli lawer ymhellach oddi wrth reilffordd drydan nag ardaloedd eraill, bydd yn anos i ddenu buddsoddiad i'r ardaloedd hynny.

**The Leader of the Opposition (Nick Bourne):** Later this afternoon, we have a debate on the Holtham report and on the issues surrounding funding for the Assembly. I wish to press you on some aspects of that, relating, not so much to the Labour Party here, but the Labour Party at Westminster, to find out what its views are. I believe that there is consensus here that we want to move forward on this. However, there is a block at Westminster, to some extent, because of the attitude of the new Labour leader, who, as recently as September, said,

'we'd be very cautious in reopening a formula that has served us pretty well'.

Have you had any discussions with him? Is that the party's stance, or will there be support at Westminster when we get around to changing the formula?

**The First Minister:** There will be support at Westminster for Holtham. It is right to say that Barnett has served us well—'has', in the past tense—and that is a view that is held by many in this Chamber. However, we now have the evidence from the Holtham commission. It is a piece of work that I believe that all parties in this Chamber will support this afternoon. Certainly, as far as my party is concerned, we will give the Holtham commission our full support.

**Nick Bourne:** I am grateful for that answer, although you have not confirmed whether you have spoken to Ed Miliband, the Labour Party leader, on that specific point that he made. It has been open to criticism and we will need cross-party support at Westminster

and ruin any hope to establish new businesses in those areas.

**The First Minister:** That is true. I have noted many times in the Chamber the importance of the electrification of the railway throughout south Wales. If our rural communities are located much further from an electric railway than other communities, it will be much more difficult to attract investment to those areas.

**Arweinydd yr Wrthblaid (Nick Bourne):** Yn ddiweddarach y prynhawn yma, mae gennym ddadl ar adroddiad Holtham ac am y materion sy'n ymwneud â chyllid ar gyfer y Cynulliad. Hoffwn bwysio arnoch ynghylch rhai elfennau o hynny sy'n ymwneud mwy â'r Blaid Lafur yn San Steffan na'r Blaid Lafur yn y fan yma, er mwyn cael gwybod beth yw ei barn. Credaf fod pawb yn gytûn ein bod am symud ymlaen yn hyn o beth. Fodd bynnag, rydym yn wynebu rhwystr yn San Steffan, i ryw raddau, oherwydd agwedd arweinydd newydd y Blaid Lafur a ddywedodd, mor ddiweddar â mis Medi,

byddem yn ofalus iawn pe baem yn ailagor fformiwla sydd wedi ein gwasanaethu'n bur dda.

A ydych wedi cael unrhyw drafodaethau ag ef? Ai agwedd y blaid yw honno, ynteu a fydd cefnogaeth yn San Steffan pan fyddwn yn mynd ati i newid y fformiwla?

**Y Prif Weinidog:** Bydd cefnogaeth yn San Steffan i Holtham. Mae'n wir fod Barnett wedi ein gwasanaethu'n dda—'wedi', yn y gorffennol—a dyna farn nifer yn y Siambr hon. Fodd bynnag, mae tystiolaeth comisiwn Holtham gennym erbyn hyn. Mae'n ddarn o waith y credaf y bydd pob plaid yn y Siambr hon yn ei gefnogi'r prynhawn yma. Yn sicr, o ran fy mhlaid i, byddwn ni'n cefnogi comisiwn Holtham yn llawn.

**Nick Bourne:** Rwyf yn ddiolchgar am yr ateb hwnnw, er nad ydych wedi cadarnhau p'un a ydych wedi siarad ag Ed Miliband, arweinydd y Blaid Lafur, ynghylch y pwynt penodol a wnaeth. Bu'n agored i feirniadaeth a bydd arnom angen cefnogaeth

in order to move forward on this. Furthermore, Labour's new shadow Home Secretary, Ed Balls, said that Wales disproportionately benefitted from the Barnett formula. Have you had discussions with the top level at Westminster? We will need their support to move forward on the basis that you and I are hoping for.

**The First Minister:** Ed Miliband knows my views on Holtham and on Barnett, namely, that it is coming to the end of its life. That is a point that I have made to him and that I will continue to make to him as we continue with our formal meetings. Let it not be in any doubt that we are fully supportive of the findings of the Holtham commission and the need to reform the Barnett formula.

**Nick Bourne:** As I have said, there is no doubt about that from this end of the M4 and from this end of the political spectrum; I appreciate that that is the case. I am hoping to tease out whether that is the case at the other end of the M4. We have been quite clear. We have said that it is approaching the end of its life. George Osborne has said that he will start with a needs-based assessment across the United Kingdom and, as is acknowledged in this afternoon's motion, the UK coalition Government recognises the concerns raised by Holtham. Will you make sure, as a priority, that the Labour Party at Westminster appreciates the urgency to act in concert on this, so that we have consensus at both ends of the M4 on this important issue?

**The First Minister:** The Labour Party will support the taking forward of the findings of the Holtham commission. The important thing is that those in power at Westminster support it too. I do not want to start an argument on this, given that there has been a level of consensus this afternoon, but it is crucial that we have a commitment from the UK Government to look at a Barnett floor, which could be done at no cost, and without the need to reopen the Barnett formula at this stage. However, it is essential that the Barnett formula is re-examined in good time, rather than being put off for a number of years.

drawsbleidiol yn San Steffan er mwyn bwrw ymlaen â hyn. Yn ogystal â hynny, dywedodd Ed Balls, Ysgrifennydd Cartref newydd yr Wrthblaid, fod Cymru wedi elwa'n anghymesur o fformiwla Barnett. A ydych wedi cael trafodaethau gyda'r lefel uchaf yn San Steffan? Bydd angen inni gael eu cefnogaeth er mwyn symud ymlaen ar y sail rydych chi a minnau'n gobeithio amdani.

**Y Prif Weinidog:** Mae Ed Miliband yn gwybod beth yw fy marn ynghylch Holtham ac ynghylch fformiwla Barnett, sef ei bod yn dod i ddiwedd ei hoes. Rwyf wedi codi'r pwynt hwnnw ag ef, a byddaf yn parhau i godi'r pwynt hwnnw wrth inni barhau â'n cyfarfodydd ffurfiol. Nid oes dim amheuaeth nad ydym yn gwbl gefnogol i ganfyddiadau comisiwn Holtham a'r angen i ddiwygio fformiwla Barnett.

**Nick Bourne:** Fel rwyf wedi'i ddweud, nid oes dim amheuaeth ynghylch hynny o'r pen hwn i'r M4 nac o'r pen hwn i'r sbectrum gwleidyddol; rwyf yn sylweddoli hynny. Rwyf yn gobeithio canfod ai felly y mae hi ar ben arall yr M4. Rydym wedi bod yn eithaf clir. Rydym wedi dweud bod y fformiwla yn nesáu at ddiwedd ei hoes. Mae George Osborne wedi dweud y bydd yn dechrau gydag asesiad sy'n seiliedig ar anghenion ar draws y Deyrnas Unedig ac, fel y cydnabyddir yn y cynnig y prynhawn yma, mae Llywodraeth glymblaid y DU yn arddel y pryderon a godwyd gan Holtham. A wnewch wneud yn siŵr, fel mater o flaenoriaeth, fod y Blaid Lafur yn San Steffan yn sylweddoli'r brys i weithredu ar hyn, er mwyn cael consensws ynghylch y mater pwysig hwn bob pen i'r M4?

**Y Prif Weinidog:** Bydd y Blaid Lafur yn cefnogi bwrw ymlaen â chanfyddiadau comisiwn Holtham. Y peth pwysig yw bod y rheini sydd mewn grym yn San Steffan yn ei gefnogi hefyd. Nid wyf fi am ddechrau dadlau ynghylch hyn, gan gofio y bu peth consensws y prynhawn yma, ond mae'n hanfodol ein bod yn cael ymrwymiad gan Lywodraeth y DU i edrych ar ddull ariannu gwaelodol Barnett. Byddai modd gwneud hynny heb unrhyw gost, a heb orfod ailagor fformiwla Barnett ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod fformiwla Barnett yn cael ei hail-ystyried mewn da

bryd, yn hytrach na mewn blynyddoedd lawer.

**The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams):** First Minister, week in and week out in this Chamber, I have revealed failings in the management and performance of the national health service in Wales. Sadly, the more we examine this, the more we find. The number of unnecessary and avoidable deaths in the NHS has increased from 141 to 191 in three years. That is an increase of more than a third. In North Wales NHS Trust, between October 2008 and March 2009—in just six months—a total of 172 people were severely harmed unnecessarily by the NHS. That is nearly one person a day. In just six months, in the same trust, 50 people died. They were deaths that could and should have been avoided. That is two people a week. Why is this happening?

**Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams):** Brif Weinidog, un wythnos ar ôl y llall yn y Siambr hon, rwyf wedi datgelu methiannau ym mherfformiad y gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru a'r modd y mae'n cael ei reoli. Yn anffodus, po fwyaf y byddwn yn archwilio hyn, y mwyaf y byddwn yn ei ganfod. Mae nifer y marwolaethau diangen a'r marwolaethau y byddai wedi bod yn bosibl eu hosgoi yn y GIG wedi cynyddu o 141 i 191 mewn tair blynedd. Mae hynny'n fwy na thraean o gynnydd. Yn Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Cymru, rhwng mis Hydref 2008 a mis Mawrth 2009—mewn dim ond chwe mis—cafodd cyfanswm o 172 o bobl eu niweidio'n ddifrifol yn ddiangen gan y GIG. Mae hynny bron yn un person y dydd. Mewn dim ond chwe mis, yn yr un ymddiriedolaeth, bu farw 50 o bobl. Roeddent yn farwolaethau y byddai wedi bod yn bosibl eu hosgoi—a dylai eu bod wedi cael eu hosgoi. Mae hynny'n ddau berson yr wythnos. Pam mae hyn yn digwydd?

**The First Minister:** I struggle to see how this relates to the question, Llywydd. It is a question about rural communities.

**Y Prif Weinidog:** Rwyf yn ei chael yn anodd gweld sut mae hyn yn berthnasol i'r cwestiwn, Lywydd. Cwestiwn am gymunedau gwledig ydyw.

**The Presiding Officer:** This is a question from the leader of a party, which we have conventionally accepted as an open question. I think that this even predates the period of the current leader of the Welsh Liberal Democrats. Therefore, it would be helpful if a response could be made.

**Y Llywydd:** Mae hwn yn gwestiwn gan arweinydd plaid. Rydym yn ei dderbyn fel cwestiwn agored felly, yn ôl ein harfer. Credaf fod hyn yn digwydd cyn cyfnod arweinydd presennol Democratiaid Rhyddfrydol Cymru hyd yn oed. Felly, byddai'n ddefnyddiol pe baech yn ymateb.

**The First Minister:** The answer is to be found in the 1000 Lives Campaign. We are proud of the campaign, which has the full support of staff in the NHS. It involves dealing with incidents where harm could be avoided, such as the reduction of pressure ulcers, prescribing errors, the development of deep vein thrombosis and internal bleeding during surgery. You will be aware that it was launched during April 2008 and it has been successful. Since then, it is estimated that more than 29,000 episodes of harm were avoided during the first 12 months of the

**Y Prif Weinidog:** Gellir dod o hyd i'r ateb yn yr Ymgyrch 1000 o Fywydau. Rydym yn falch o'r ymgyrch, sy'n cael ei chefnogi'n llawn gan staff yn y GIG. Mae'n ymwneud ag ymdrin â digwyddiadau lle y gellid osgoi niwed, fel lleihau achosion briwiau pwysau, camgymeriadau o ran rhagnodi, datblygu thrombosis gwythiennau dwfn a gwaedu mewnol yn ystod llawdriniaethau. Byddwch yn ymwybodol i'r ymgyrch gael ei lansio yn ystod mis Ebrill 2008, ac mae hi wedi bod yn llwyddiant. Ers hynny, amcangyfrifir bod mwy na 29,000 o achosion o niwed wedi cael

campaign, up to March 2009.

eu hosgoi yn ystod 12 mis cyntaf yr ymgyrch, hyd at fis Mawrth 2009.

1.40 p.m.

**Kirsty Williams:** With all due respect, the trend continues upwards despite your Government's campaign. The figures have gone up by more than a third. Regardless of whether you listen to the voices inside the Chamber or those outside of it, they will tell you that there are severe problems. Incidents occurring because of infrastructure have more than doubled in three years, resulting in 13 deaths, and incidents occurring from treatment or procedure have more than doubled, with 63 patients having died as a result. What analysis have you carried out of those shocking figures, and what are you going to do about this?

**Kirsty Williams:** A phob parch, mae'r duedd yn parhau i fynd i fyny er gwaethaf ymgyrch eich Llywodraeth. Mae'r ffigurau wedi codi fwy na thraean. P'un a ydych yn gwrandao ar y lleisiau y tu mewn i'r Siambr neu'r rhai y tu allan iddi, byddant yn dweud wrthy ch fod problemau difrifol yn bodoli. Mae digwyddiadau sy'n deillio o seilwaith wedi mwy na dyblu mewn tair blynedd, gan arwain at 13 o farwolaethau. Mae digwyddiadau sy'n deillio o driniaeth neu weithdrefn wedi mwy na dyblu, a bu farw 63 o gleifion o ganlyniad i hynny. Sut rydych wedi dadansoddi'r ffigurau brawychus hynny, a beth rydych am ei wneud ynglŷn â'r sefyllfa?

**The First Minister:** I draw you back again to the 1000 Lives campaign. It is estimated that 29,000 episodes of harm have been avoided as a result of that campaign, which shows its success. You will be aware that 1000 Lives Plus was launched in May, and we will continue to ensure that as much avoidable harm as possible is avoided. That is why the 1000 Lives campaign was introduced in 2008 and why 1000 Lives Plus was launched in May.

**Y Prif Weinidog:** Unwaith eto, tynnaf eich sylw at yr Ymgyrch 1000 o Fywydau. Amcangyfrifir bod 29,000 o achosion o niwed wedi cael eu hosgoi o ganlyniad i'r ymgyrch honno. Mae hynny'n dangos ei llwyddiant. Byddwch yn gwybod i 1000 o Fywydau a Mwy gael ei lansio ym mis Mai, a byddwn yn parhau i sicrhau bod achosion o niwed y gellir ei osgoi yn cael eu hosgoi cymaint ag y bo modd. Dyna pam y cyflwynwyd yr Ymgyrch 1000 o Fywydau yn 2008, a pham y lanswyd 1000 o Fywydau a Mwy ym mis Mai.

**Kirsty Williams:** First Minister, you seem to be incredibly complacent when faced with shocking statistics. You may be unmoved by the numbers involved, but this is a story of individuals, of people and their families, not just of numbers such as those that you have just quoted to me. One example was reported of a patient having damage to their airways and difficulty breathing, exacerbated by a lack of a bed. They were propped up with pillows while a porter went on the hunt for a bed.

**Kirsty Williams:** Brif Weinidog, rydych yn ymddangos yn aruthrol o hunanfodlon gan ystyried yr ystadegau brawychus rydych yn eu hwynebu. Efallai nad yw'r niferoedd sy'n gysylltiedig yn eich poeni, ond mae hon yn stori am unigolion, am bobl a'u teuluoedd, nid dim ond am niferoedd fel y rheini rydych newydd eu dyfynnu imi. Cafwyd un enghraifft o glaf a oedd wedi dioddef niwed i'w lwybr anadlu, ac yn cael traferth anadlu, yn gwaethygu gan nad oedd gwely ar gael. Defnyddiwyd clustogau i'w gynnal tra oedd porthor yn chwilio am wely ar ei gyfer.

First Minister, you will not investigate the £1 billion-worth of waste in NHS Wales and you will not properly investigate your Minister. Will you now commit to investigating these serious and shocking statistics so that we do not see this trend continuing to go upwards?

Brif Weinidog, ni wnewch ymchwilio i'r £1 biliwn o wastraff yn GIG Cymru, ac ni wnewch ymchwilio'n briodol i'ch Gweinidog. A wnewch yn awr ymrwymo i ymchwilio i'r ystadegau brawychus a difrifol hyn fel nad yw'r duedd hon yn parhau i fynd i



fyny?

**The Presiding Officer:** Order. I believe that the leader of the Welsh Liberal Democrats has again strayed into the territory of the ministerial code. It is not appropriate to make reference in the Chamber to matters pertaining to the ministerial code or to any investigations that take place, which are for the First Minister. Indeed, I understand that an investigation has taken place. It is not appropriate to comment on such an investigation during these questions. Otherwise, I invite the First Minister to answer the rest of the question.

**The First Minister:** I come back to the point that we have made before, which is that we hear a lot of talk from the Liberal Democrats about the NHS, but we are improving the NHS. What the Lib Dems want to do is to remove money from it. Why is it that, week after week in the Chamber, we hear the Welsh Lib Dems, once a proud, independent, federal party, acting like the mouthpiece of Westminster? Until last week, at no time did we hear the Welsh Lib Dems saying anything different from the Lib Dems at Westminster. Kirsty, if you truly believe that the NHS needs to improve, the very least you could do would be to lobby your colleagues at Westminster to make sure that more money comes here so that we can run the NHS with the amount of money that is required to do it.

**Kirsty Williams:** With all due respect, if it is a question of money, the figures that I am referring to relate to deaths that have occurred while you have been in charge of the NHS in Wales, and your colleagues at Westminster were in charge of the block grant that came to this nation. This is not just about more money; it is about leadership and making this a priority. Your attitude this afternoon in trying to blame everything that has ever happened on Westminster simply will not wash. You are in charge of the NHS in Wales. It is up to you to prioritise its spending and to get to grips with the unnecessary and avoidable deaths of Welsh patients. It seems that you would rather blame Westminster than step up to the plate

**Y Llywydd:** Trefn. Credaf fod arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi crwydro eto i diriogaeth y cod gweinidogol. Nid yw'n briodol cyfeirio at faterion yn ymwneud â'r cod gweinidogol nac at unrhyw ymchwiliadau sy'n cael eu cynnal yn y Siambr. Materion i'r Prif Weinidog yw'r rhain. Yn wir, caf ar ddeall bod ymchwiliad wedi cael ei gynnal. Nid yw'n briodol gwneud sylwadau ar ymchwiliad o'r fath yn ystod y cwestiynau hyn. Fel arall, hoffwn wahodd y Prif Weinidog i ateb gweddill y cwestiwn.

**Y Prif Weinidog:** Dychwelaf at y pwynt rydym wedi'i wneud o'r blaen, sef ein bod yn clywed llawer o siarad gan y Democratiaid Rhyddfrydol am y GIG, ond rydym ni'n gwella'r GIG. Yr hyn y mae'r Democratiaid Rhyddfrydol am ei wneud yw tynnu arian oddi ar y gwasanaeth. Pam ein bod, wythnos ar ôl wythnos yn y Siambr, yn clywed Democratiaid Rhyddfrydol Cymru—a oedd unwaith yn blaid ffederal, annibynnol a balch—yn llefaru ar ran San Steffan? Tan yr wythnos diwethaf, ni chlywsom Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn dweud dim byd gwahanol i'r Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan. Kirsty, os ydych wir yn credu bod angen i'r GIG wella, y peth lleiaf y gallech ei wneud fyddai pwyso ar eich cyd-Aelodau yn San Steffan i wneud yn siŵr bod mwy o arian yn dod yma er mwyn inni allu rhedeg y GIG gyda'r arian sy'n angenrheidiol i wneud hynny.

**Kirsty Williams:** A phob parch, os yw'n fater o arian, mae'r ffigurau rwyf yn cyfeirio atynt yn ymwneud â marwolaethau sydd wedi digwydd ers i chi fod yn gyfrifol am y GIG yng Nghymru. Eich cyd-Aelodau chi yn San Steffan oedd yn gyfrifol am y grant bloc a ddaeth i'r wlad hon. Mae mwy i hyn na rhagor o arian; mae'n ymwneud ag arweinyddiaeth a gwneud hyn yn flaenoriaeth. Ni fydd eich agwedd y prynhawn yma, yn ceisio rhoi'r bai ar San Steffan am bopeth sydd wedi digwydd erioed, yn dal dŵr. Chi sy'n gyfrifol am y GIG yng Nghymru. Eich cyfrifoldeb chi yw blaenoriaethu ei wariant a mynd i'r afael â marwolaethau diangen cleifion o Gymru a marwolaethau y gellid eu hosgoi. I bob

and take responsibility, which is what I would expect of the First Minister of Wales.

**The First Minister:** The worst type of politician is one who produces an example without giving any details, any names or any contacts. As someone who worked in the courts for many years, I can tell Kirsty that that evidence would never be accepted in court. If she is saying that there are examples of people who have suffered harm as a result of the action or inaction of NHS staff, I challenge her to produce the evidence.

**Kirsty Williams:** I would be very happy to do so. The First Minister needs only ask his researchers and civil servants to turn to the organisation patient safety incident reports, which are widely available on the internet. These are the Government's figures. If you are not aware of them, that makes me even more scared for the patients of Wales.

**The First Minister:** You produced an example, but you did not give any names or context. You read out an example. If you are to produce evidence of individual cases, then produce it; do not just produce hearsay. If you want to have a seventh chance to ask a question, that is up to you.

**The Presiding Officer:** Order. On the order of the questions, I agreed to the grouping of questions 1 and 8, but since the Member responsible for question 8 was not present to ask her supplementary question at the time, I will call question 8 in turn, and I can assure you that any attendant supplementary questions will also be called at that time. That is the appropriate action in this situation.

### Gwasanaethau Iechyd

**3. Paul Davies:** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarparu gwasanaethau iechyd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. OAQ(3)3139(FM)*

golwg, byddai'n well gennyh feio San Steffan na wynebu'r sefyllfa ac ysgwyddo cyfrifoldeb, sef yr hyn y byddwn yn disgwyl i Brif Weinidog Cymru ei wneud.

**Y Prif Weinidog:** Y gwleidydd gwaethaf y gallwch ei gael yw un sy'n rhoi enghraifft heb roi unrhyw fanylion, unrhyw enwau nac unrhyw gysylltiadau. Fel rhywun a fu'n gweithio yn y Llysoedd am flynyddoedd lawer, gallaf ddweud wrth Kirsty na fyddai'r dystiolaeth honno byth yn cael ei derbyn yn y Llys. Os yw hi'n dweud bod enghreifftiau o bobl sydd wedi dioddef niwed o ganlyniad i rywbeth y mae staff y GIG wedi'i wneud, neu heb ei wneud, fe'i heriaf i ddarparu'r dystiolaeth.

**Kirsty Williams:** Byddwn yn fwy na bodlon gwneud hynny. Yr unig beth y mae angen i'r Prif Weinidog ei wneud yw gofyn i'w ymchwilyr a'i weision sifil edrych ar adroddiadau digwyddiadau diogelwch cleifion y sefydliad, sydd ar gael yn eang ar y rhyngwyd. Ffigurau'r Llywodraeth yw'r rhain. Os nad ydych yn ymwybodol ohonynt, mae hynny'n gwneud imi deimlo'n fwy pryderus byth am gleifion Cymru.

**Y Prif Weinidog:** Rydych wedi rhoi enghraifft, ond nid ydych wedi rhoi enwau na chyd-destun. Rydych wedi darllen enghraifft. Os ydych am gyflwyno tystiolaeth o achosion unigol, darparwch dystiolaeth yn hytrach na si rydych wedi'i glywed. Os oes arnoch eisiau cael cyfle arall eto fyth i ofyn cwestiwn, eich penderfyniad chi yw hynny.

**Y Llywydd:** Trefn. O ran trefn y cwestiynau, cytunais i gwestiynau 1 ac 8 gael eu grwpio, ond gan nad oedd yr Aelod sy'n gyfrifol am gwestiwn 8 yn bresennol i ofyn ei chwestiwn atodol ar y pryd, byddaf yn galw cwestiwn 8 yn ei dro, a gallaf eich sicrhau y bydd unrhyw gwestiynau atodol sy'n dilyn hefyd yn cael eu galw bryd hynny. Dyna'r cam priodol yn y sefyllfa hon.

### Health Services

**3. Paul Davies:** *Will the First Minister make a statement on the delivery of health services in Mid and West Wales. OAQ(3)3139(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Mae'r cynllun iechyd gwledig wedi nodi cyfleoedd i gryfhau mynediad i wasanaethau gofal iechyd mewn ardaloedd gwledig, fel y rhai hynny sydd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru.

**Paul Davies:** Yr wyf yn ddiolchgar i'r Prif Weinidog am yr ateb hwnnw. Fel yr wyf yn siŵr ei fod yn gwybod, mae'n anodd i fyrdau iechyd lleol recriwtio meddygon mewn rhai meysydd oherwydd lleoliad yr ysbytai. Mae'n debyg bod fy mwrdd iechyd lleol i yn cael mwy o broblemau recriwtio na byrddau iechyd eraill gan ei fod yn gyfrifol am ardal wledig. Mae meddygon iau, er enghraifft, yn ffafrio dinasoedd yn hytrach nag ardaloedd gwledig er mwyn cael mwy o brofiad o weithio mewn lleoedd prysur. Mae hynny'n creu problemau o ran darparu gwasanaethau i bobl yn fy etholaeth, ac mae tipyn o brinder meddygon yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda. O dan yr amgylchiadau hyn, a wnaiff y Prif Weinidog ddweud wrthym beth mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i gefnogi byrddau iechyd lleol fel yr un sy'n gyfrifol am wasanaethau yn sir Benfro i recriwtio mwy o feddygon?

**Y Prif Weinidog:** Mae'r broblem yn un go iawn, Paul, a bu'n destun pryder ers blynyddoedd mawr. Mae Llywodraethau o bob math yng Nghymru wedi wynebu'r broblem hon. Mae'n anodd denu pobl i'r gorllewin o Gaerfyrddin. Gwyddom fod ysbytai Llwynhelyg a Bronglais wedi ei chael yn anodd iawn recriwtio pobl i'r gorllewin dros y blynyddoedd, heblaw am y sawl sy'n dod i'r ardal i ymddeol. Golyga hynny fod pobl yn dod i'r ardal i weithio am ryw dair blynedd ac yn ymddeol wedi hynny. Mae'n help mawr bod ysbyty athrofaol yn Abertawe yn awr. Golyga hynny fod man dysgu sy'n agosach i'r gorllewin na Chaerdydd, a chredaf y bydd hynny'n help mawr dros gyfnod o amser i ddenu mwy o bobl i'r gorllewin, yn enwedig pobl sydd ar ganol neu ar ddechrau eu gyrfaedd.

**Helen Mary Jones:** First Minister, do you agree that the recruitment of doctors and specialist nurses in west Wales is not helped by the continual scaremongering about the future of those hospitals? Do you further agree that, in the face of the problem with

**The First Minister:** The rural health plan has identified opportunities to strengthen access to healthcare services in rural areas, such as those in Mid and West Wales.

**Paul Davies:** I am grateful to the First Minister for that response. As I am sure he knows, it is difficult for local health boards to recruit doctors in some specialisms because of the location of the hospitals. It appears as though my local health board is having more recruitment problems than other health boards because it is responsible for a rural areas. Junior doctors, for example, would prefer to go to cities than to rural areas so that they can gain more experience from working in busy environments. That can create problems when it comes to providing services for people in my constituency, and there is quite a shortage of doctors in the Hywel Dda Local Health Board area. Given those circumstances, will the First Minister tell us what the Assembly Government is doing to support local health boards such as the one that is responsible for services in Pembrokeshire to recruit a greater number of doctors?

**The First Minister:** The problem is a genuine one, Paul, and has been a cause for concern for many years. Governments of all colours in Wales have had to face this problem. It is difficult to attract people to the west of Carmarthen. We know that Withybush and Bronglais hospitals have found it very difficult to recruit people to west Wales over the years, apart from those who go to the area to retire. That means that people go to the area to work for some three years and then retire after that. It will be of great assistance that there is now a teaching hospital at Swansea. That will mean that there is a centre of learning closer to the west than Cardiff, and I believe that in time that will be of great help in attracting more people to the west, particularly those who are in the middle or at the start of their careers.

**Helen Mary Jones:** Brif Weinidog, a ydych yn cytuno nad yw'r codi bwganod parhaus ynglŷn â dyfodol ysbytai yn y gorllewin yn helpu'r broses o recriwtio meddygon a nyrsys arbenigol? Ar ben hynny, a ydych yn cytuno, yn wyneb y broblem o recriwtio meddygon, y

recruiting doctors, it would be helpful if the artificial cap on immigration were raised to enable the three doctors in India who are waiting to come to work in the Hywel Dda Local Health Board to do so?

**The First Minister:** My answer to both questions is 'yes'. It will hardly encourage people to come to work in hospitals further west if they think that the departments are to be closed. Any scaremongering on that will make it even more difficult to recruit people.

I also agree with you about the cap on immigration. If we are short of medics in particular specialities, it makes no sense whatsoever to say that we cannot recruit any more because we have invented an artificial cap on the number of people who can come into this country. It seems to me that the only people who are suffering are the patients themselves.

**Joyce Watson:** First Minister, I was concerned to read last week that orthodontic services are to be removed from Withybush hospital. That means that patients will now have to travel to Swansea to receive orthodontic care, which involves a round trip of more than 100 miles. Do you share my concern that care services that are of great importance to their local community are being either removed or stretched because of a shortage of staff? First Minister, Withybush hospital has received significant investment in recent years, not least the £10 million for the accident and emergency department and extra care facility. Do you agree that, as the Government has provided these significant funds, it is incumbent upon the health board to provide services?

**The First Minister:** It is not an ideal situation that orthodontic services will be provided from Morriston Hospital. The difficulty is, however, that the health board did try on several occasions to recruit a consultant orthodontist and was unable to do so. Inevitably under those circumstances, they have to make provision for orthodontic services even if it involves the people of Pembrokeshire having to travel some

byddai'n ddefnyddiol pe bai'r cap artiffisial ar fewnfudo yn cael ei godi er mwyn galluogi'r tri meddyg yn India sy'n aros i ddod i weithio ym Mwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda i wneud hynny?

**Y Prif Weinidog:** Yr ateb i'r ddau gwestiwn yw 'ydw'. Ni fydd yn annog pobl i ddod i weithio mewn ysbytai ymhellach i'r gorllewin os ydynt yn credu bod yr adrannau'n mynd i gael eu cau. Bydd unrhyw codi bwganod yn hynny o beth yn gwneud recriwtio pobl yn anos byth.

Rwyf hefyd yn cytuno â chi am y cap ar fewnfudo. Os ydym yn brin o feddygon sy'n arbenigo mewn meysydd penodol, nid yw'n gwneud dim synnwyr o gwbl dweud na allwn recriwtio rhagor am ein bod wedi dyfeisio cap artiffisial ar nifer y bobl sy'n cael dod i'r wlad hon. Mae'n ymddangos i mi mai'r unig bobl sy'n dioddef yw'r cleifion eu hunain.

**Joyce Watson:** Brif Weinidog, yr wythnos diwethaf, roedd yn destun pryder imi ddarllen bod gwasanaethau orthodontig am gael eu symud o ysbyty Llwynhelyg. Mae hynny'n golygu y bydd cleifion yn awr yn gorfod teithio i Abertawe i gael gofal orthodontig. Mae hynny'n golygu taith gron o fwy na 100 milltir. A ydych yn rhannu fy mhryder bod gwasanaethau gofal sydd o bwys mawr i'w cymuned leol yn cael eu dileu neu'u gweithio i'r eithaf oherwydd prinder staff? Brif Weinidog, mae swm sylweddol wedi cael ei fuddsoddi yn Ysbyty Llwynhelyg yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig y £10 miliwn ar gyfer yr adran damweiniau ac achosion brys a'r cyfleuster gofal ychwanegol. Gan fod y Llywodraeth wedi darparu'r arian sylweddol hwn, a ydych yn cytuno ei bod yn ddyletswydd ar y bwrdd iechyd i ddarparu gwasanaethau?

**Y Prif Weinidog:** Nid yw darparu'r gwasanaethau orthodontig yn Ysbyty Treforys yn sefyllfa ddelfrydol. Yr anhawster yw, fodd bynnag, fod y bwrdd iechyd wedi ceisio recriwtio orthodeintydd ymgynghorol ar sawl achlysur, ond wedi methu. O dan yr amgylchiadau hynny, mae'n anochel ei bod yn rhaid iddynt ddarparu ar gyfer gwasanaethau orthodontig hyd yn oed os yw'n golygu bod pobl sir Benfro yn gorfod

distance. It is an unfortunate situation, but a service will now be provided, even though people will have to travel. I know that the board has tried hard to find somebody to fill the consultant's position in its area, but, unfortunately, it has been without success.

1.50 p.m.

#### **Cwpan Ryder 2010**

**4. Mohammad Asghar:** *Beth yw camau nesaf Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod Cymru yn cael manteision hirhoedlog yn sgîl cynnal Cwpan Ryder 2010. OAQ(3)3130(FM)*

**The First Minister:** The Ryder Cup leaves a tremendous legacy for us. An economic impact study will be undertaken to measure the overall impact of the event on the Welsh economy. We estimate that to be in the order of £70 million, on top of which is the value of the profile that Wales received, which is, in some ways, immeasurable. It was at a level that we have never previously enjoyed.

**Mohammad Asghar:** Thank you for that encouraging reply, First Minister. It has been brilliant to hear commentators describing this year's Ryder Cup as one of the most exciting ever. Newport's Celtic Manor did a superb job of hosting the event. It was also fantastic to see the European team claim such a dramatic victory. Now, in many respects, the difficult job really begins, to ensure that Newport, south-east Wales and the whole nation reap every possible benefit from it. How will maximising the Ryder Cup legacy benefits influence your action for the remainder of the third Assembly, particularly on issues such as increasing export, given recent figures that suggest that our performance is the worst in the United Kingdom, and ensuring an increased tourist trade for Wales? What steps will the Welsh Assembly Government take to monitor the impact of hosting the Ryder Cup in the long term?

teithio cryn bellter. Mae'n sefyllfa anffodus, ond bydd gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn awr, er y bydd yn rhaid i bobl deithio. Gwn fod y bwrdd wedi ymdrechu'n galed i ddod o hyd i rywun i lenwi swydd yr ymgynghorydd yn ei ardal, ond, yn anffodus, nid yw wedi llwyddo i wneud hynny.

#### **Ryder Cup 2010**

**4. Mohammad Asghar:** *What are the Welsh Assembly Government's next steps to ensure that Wales gains long-lasting benefits from hosting the 2010 Ryder Cup. OAQ(3)3130(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Mae'r hyn rydym wedi'i etifeddu yn sgîl Cwpan Ryder wedi bod yn aruthrol. Bydd astudiaeth effaith economaidd yn cael ei chynnal i fesur effaith gyffredinol y digwyddiad ar economi Cymru. Rydym yn amcangyfrif y bydd hynny'n oddeutu £70 miliwn, heb anghofio gwerth y proffil y mae Cymru wedi'i gael sydd, mewn rhai ffyrdd, yn anfesuradwy. Roedd ar lefel na welwyd erioed ei math o'r blaen.

**Mohammad Asghar:** Diolch am yr ymateb calonogol hwnnw, Brif Weinidog. Bu'n wych clywed sylwebyddion yn disgrifio Cwpan Ryder eleni fel un o'r pencampwriaethau mwyaf cyffrous erioed. Gwnaeth Gwesty'r Celtic Manor yng Nghasnewydd waith aruthrol o dda wrth gynnal y digwyddiad. Roedd hefyd yn wych gweld tîm Ewrop yn hawlio buddugoliaeth mor ddramatig. Nawr, ar lawer ystyr, y mae'r gwaith anodd yn dechrau, sef sicrhau bod Casnewydd, y de-ddwyrain a'r wlad i gyd yn elwa o'r holl fanteision posibl a fydd yn deillio o'r digwyddiad. Sut y bydd manteisio i'r eithaf ar yr hyn y mae Cwpan Ryder wedi'i adael ar ôl yn dylanwadu ar eich camau gweithredu ar gyfer gweddill y trydydd Cynulliad, yn enwedig ar faterion fel allforio rhagor—gan gofio bod ffigurau diweddar yn awgrymu mai ein perfformiad ni yw'r gwaethaf yn y Deyrnas Unedig—a sicrhau gwell masnach dwristiaeth ar gyfer Cymru? Pa gamau y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i fonitro effaith cynnal Cwpan Ryder yn yr hirdymor?

**The First Minister:** Clearly, the Ryder Cup is a useful vehicle for us to attract jobs to Wales, which is particularly important given the 300 jobs that your party is apparently going to cut at the Newport passport office. Oddly enough, that was not announced last week and it appears not to have been mentioned to the Wales Office either. From the point of view of parties on this side of the Chamber, it would be a good start if the UK Government did not decide that Wales should be the only nation in the UK without a passport office. We, on this side, will strongly resist its closure.

During the Ryder Cup, a number of contacts were made with various ambassadors and senior management from a number of multinationals from around the world. I intend to call a meeting next week so that the intelligence can be shared, to ensure that we follow up on any leads—and a number has been given to us—so that Wales is seen as a place to visit, to invest in, and where people can be successful and companies can prosper. We have plans in place to ensure that we build on the good work done during the Ryder Cup.

**Jenny Randerson:** The Ryder Cup was a great success, but we cannot rest on those laurels for ever. [*Interruption.*] Wales needs to move on and attract other major events. Cardiff has ambitions to host the European cup. What discussions have you had with Cardiff Council or any others on that, and has the issue of the lack of a proper conference centre in Cardiff been a part of your discussions, given that it is a disadvantage when trying to attract the European cup and many other events?

**The First Minister:** I apologise if we have been a bit tardy in using the Ryder Cup as a way to boost our economy, but it finished only last week, after all. On the Champions League, which is what I think you meant, it is true that it was, at one time, difficult to attract the final to Cardiff because of what UEFA saw as the lack of appropriate facilities around the stadium, for hospitality purposes

**Y Prif Weinidog:** Yn amlwg, mae Cwpan Ryder yn gyfrwng defnyddiol inni ar gyfer denu swyddi i Gymru. Mae hynny'n arbennig o bwysig o ystyried bod eich plaid i bob golwg yn bwriadu dileu 300 o swyddi yn swyddfa basbort Casnewydd. Yn rhyfedd ddigon, ni chyhoeddwyd hynny yr wythnos diwethaf, ac nid yw wedi cael ei grybwyll wrth Swyddfa Cymru ychwaith i bob golwg. O safbwynt y pleidiau ar yr ochr hon i'r Siambr, byddai'n ddechrau da pe na bai Llywodraeth y DU yn penderfynu mai dim ond Cymru, o blith holl wledydd y DU, ddylai beidio â chael swyddfa basbort. Byddwn ni, ar yr ochr hon, yn gwrthwynebu cau'r swyddfa yn daer.

Yn ystod pencampwriaeth Cwpan Ryder, gwnaed nifer o gysylltiadau â gwahanol lysgenhadon ac uwch reolwyr o nifer o gwmmnïau rhyngwladol o bob cwr o'r byd. Rwyf yn bwriadu galw cyfarfod yr wythnos nesaf er mwyn gallu rhannu'r wybodaeth, i sicrhau ein bod yn mynd ar drywydd unrhyw gysylltiadau—ac rydym wedi cael nifer ohonynt—er mwyn i Gymru gael ei gweld fel gwlad i ymweld â hi ac i fuddsoddi ynddi, ac fel gwlad y gall pobl a chwmnïau lwyddo a ffynnu ynddi. Mae gennym gynlluniau ar waith i sicrhau ein bod yn adeiladu ar y gwaith da a wnaed yn ystod Cwpan Ryder.

**Jenny Randerson:** Roedd Cwpan Ryder yn llwyddiant ysgubol, ond ni allwn orffwys ar ein rhwyfau am byth. [*Torri ar draws.*] Mae angen i Gymru symud ymlaen a denu digwyddiadau mawr eraill. Mae Caerdydd yn awyddus i westeio Cwpan Ewrop. Pa drafodaethau rydych wedi'u cael gyda Chyngor Caerdydd neu unrhyw un arall ynghylch hynny, ac a yw'r ffaith nad oes canolfan gynadledda briodol yng Nghaerdydd wedi bod yn rhan o'ch trafodaethau, gan gofio bod hynny'n anfantais wrth geisio denu cwpan Ewrop a nifer o ddigwyddiadau eraill?

**Y Prif Weinidog:** Rwyf yn ymddiheuro os ydym wedi bod braidd yn araf yn mynd ati i ddefnyddio Cwpan Ryder fel ffordd i roi hwb i'n heconomi—dim ond yr wythnos diwethaf y daeth i ben, wedi'r cyfan. O ran Cynghrair y Pencampwyr, sef yr hyn rwyf yn meddwl roeddech yn ei olygu, mae'n wir ei bod, ar un adeg, yn anodd denu'r rownd derfynol i Gaerdydd gan fod UEFA o'r farn nad oedd

and so forth. We understand that UEFA's position has changed on that, and discussions are ongoing to see whether we can now attract the Champions League final to Cardiff. We also have plans to attract more Ashes series test matches, the Rugby League World Cup, and the Rugby World Cup in years to come. The Champions League final is our next objective, however.

digon o gyfleusterau priodol o amgylch y stadiwm, at ddibenion lletygarwch ac yn y blaen. Rydym yn deall bod barn UEFA am hynny wedi newid, ac mae trafodaethau ar y gweill i weld a allwn yn awr ddenu rownd derfynol Cynghrair y Pencampwyr i Gaerdydd. Mae gennym hefyd gynlluniau i ddenu rhagor o gemau prawf cyfres y Llundw, Cwpan y Byd Rygbi'r Gynghrair, a Chwpan Rygbi'r Byd yn y blynyddoedd nesaf. Fodd bynnag, rownd derfynol Cynghrair y Pencampwyr yw ein nod nesaf.

### Technoleg Newydd

**5. Veronica German:** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am hyrwyddo technoleg newydd ledled Cymru. OAQ(3)3146(FM)*

**The First Minister:** 'Economic Renewal: a new direction' recognises the need to promote new technologies in Wales as part of encouraging innovation.

**Veronica German:** One area that can benefit from new technologies is the health service. A pilot scheme was started last year in Powys that provides district nurses and health visitors with hand-held smart devices. These devices not only gave them more face-to-face time with their patients, as the data needed to be recorded only once and did not have to be collected again at the end of the week, but also enabled them to take photographs of what was happening with patients' different conditions. The trial was deemed by all to be an all-round success. Similar pilot schemes with district nurses in other places have also seen a decrease in the number of drugs wasted, with more recycled. However, since this started at the beginning of last year, we have heard no more about whether it will be rolled out in full, or what the results were, other than anecdotal evidence. Do you agree that that scheme is just the sort of thing that we should be using, and that it is not only efficient, but saves time and money, and gives a better outcome for the patient?

**The First Minister:** The scheme is still being examined, but the Minister for Health

### New Technology

**5. Veronica German:** *Will the First Minister make a statement on the promotion of new technology throughout Wales. OAQ(3)3146(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Mae 'Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd' yn cydnabod yr angen i hyrwyddo technolegau newydd yng Nghymru wrth fynd ati i hybu arloesedd.

**Veronica German:** Un maes a all ddwyn budd o dechnolegau newydd yw'r gwasanaeth iechyd. Y llynedd, rhoddwyd cynllun peilot ar waith ym Mhowys sy'n darparu dyfeisiau llaw clyfar i nyrsys ardal ac ymwelwyr iechyd. Yn ogystal â'u galluogi i gael rhagor o amser gyda'u cleifion—gan mai dim ond unwaith y mae angen cofnodi'r data ac nad oes angen eu casglu eto ddiwedd yr wythnos—roeddent hefyd yn eu galluogi i dynnu lluniau o'r hyn a oedd yn digwydd gyda chyflyrau gwahanol gleifion. Roedd y treial yn llwyddiant drwyddo draw ym marn pawb. Mae cynlluniau peilot tebyg gyda nyrsys ardal mewn lleoedd eraill hefyd wedi gweld gostyngiad yn nifer y cyffuriau sy'n cael eu gwastraffu, wrth i ragor gael eu hailgylchu. Ond ers i'r cynllun hwn gychwyn ddechrau'r flwyddyn ddiwethaf, nid ydym wedi clywed rhagor ynghylch a fydd yn cael ei gyflwyno'n llawn, na beth oedd y canlyniadau, ar wahân i dystiolaeth anecdotaidd. A ydych yn cytuno mai dyna'r union fath o gynllun y dylem fod yn ei ddefnyddio, ac yn ogystal â bod yn effeithlon, ei fod yn arbed amser ac arian, ac yn sicrhau canlyniadau gwell i'r claf?

**Y Prif Weinidog:** Mae'r cynllun yn dal i gael ei archwilio, ond bydd y Gweinidog dros

and Social Services will be happy to provide Members with an update in the Chamber. The form of that update will be decided this week in order for Members to be fully informed by next week.

**Jeff Cuthbert:** First Minister, despite the clear intentions of the Conservative and Lib Dem coalition Government to make it far harder for students to go into higher education, particularly those of more modest means, I am sure that you will agree that it is necessary to do all that we can in Wales to ensure that it is a suitable environment for more research and development and innovation. Indeed, we hope that more use can be made of European framework programme 7 funding in Wales. I welcome last week's announcement of the £13 million-worth investment in the form of Software Alliance Wales. Do you agree that that is the sort of green, high-tech investment that we need in Wales?

**The First Minister:** Absolutely, and you are right to mention it, Jeff. As you know, it was launched last week. It will be led by Swansea University and delivered in partnership with the University of Glamorgan, Bangor University and Aberystwyth University. It has a specific focus on the highly specialised area of software development and is backed with money from the European social fund. It will be tremendously useful in targeting support at information and communications technology businesses and professionals to keep abreast of the rapid pace of technological developments.

**Jonathan Morgan:** First Minister, you will be aware that the UK Government has announced that the auction for the 4G mobile licences will take place at the end of 2011. As I understand it, the use of 4G technology allows for a broadband service to be used as well as the standard technology that one would expect through a mobile phone network. Bearing in mind your own ambition to roll out broadband throughout Wales, for which the conventional method is to lay

Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn fwy na pharod i ddiweddarau'r Siambr. Bydd sut y bydd y manylion diweddaraf yn cael eu darparu yn cael ei benderfynu'r wythnos hon er mwyn gwneud yn siŵr bod yr Aelodau wedi cael eu diweddarau'n llawn erbyn yr wythnos nesaf.

**Jeff Cuthbert:** Brif Weinidog, er gwaethaf bwriadau clir Llywodraeth glymblaid y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol i'w gwneud yn anos o lawer i fyfyrwyr gael mynediad at addysg uwch, yn enwedig y rheini ag incwm mwy cymedrol, rwyf yn siŵr y byddwch yn cytuno ei bod yn angenrheidiol inni wneud popeth yn ein gallu yng Nghymru i sicrhau amgylchedd addas ar gyfer rhagor o waith ymchwil a datblygu ac arloesi. Yn wir, rydym yn gobeithio y gellir defnyddio rhagor ar gyllid Rhaglen Fframwaith 7 Ewrop yng Nghymru. Rwyf yn croesawu cyhoeddiad yr wythnos diwethaf ynglŷn â'r buddsoddiad gwerth £13 miliwn ar ffurf Cynghair Meddalwedd Cymru. A ydych yn cytuno mai dyma'r math o fuddsoddiad uwch-dechnoleg gwyrdd y mae ei angen arnom yng Nghymru?

**Y Prif Weinidog:** Ydw, yn wir, ac mae'n briodol iawn ichi sôn am y mater, Jeff. Fel y gwyddoch, cafodd y rhaglen ei lansio yr wythnos diwethaf. Bydd yn cael ei harwain gan Brifysgol Abertawe ac yn cael ei chyflwyno ar y cyd â Phrifysgol Morgannwg, Prifysgol Bangor a Phrifysgol Aberystwyth. Mae'n canolbwyntio'n benodol ar faes hynod arbenigol datblygu meddalwedd, ac yn cael ei chefnogi gan arian o Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Bydd yn eithriadol o ddefnyddiol i anelu cefnogaeth at fusnesau a gweithwyr proffesiynol ym maes technoleg gwybodaeth a chyfathrebu er mwyn iddynt allu cadw llygad ar ddatblygiadau technolegol sy'n digwydd yn gyflym iawn.

**Jonathan Morgan:** Brif Weinidog, byddwch yn gwybod bod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y bydd yr arwerthiant ar gyfer trwyddedau symudol 4G yn cael ei gynnal ddiwedd 2011. Yn ôl yr hyn a ddeallaf, mae technoleg 4G yn ei gwneud yn bosibl defnyddio gwasanaeth band eang yn ogystal â'r dechnoleg safonol y byddai rhywun yn ei ddisgwyl drwy rwydwaith ffôn symudol. Gan gofio eich uchelgais chi i gyflwyno band eang ledled Cymru—sy'n golygu gosod



many pipes and put plenty of wiring into people's homes, what discussions have you had with the UK Government about the roll-out of the 4G licence? That could allow people and businesses in Wales to have access to broadband at a quicker pace than you anticipate.

**The First Minister:** Our policy has been aimed at dealing with not spots. The view that I have always taken is that we have not yet seen an adequate replacement for the 50p phone levy proposed by the previous Government. The arguments are well rehearsed, and I do not think that anyone in the Chamber would argue that the market will provide broadband coverage, especially super-fast broadband, for much of Wales.

I have had no specific discussions on 4G. You are right about the technology, but the difficulty that we face is that mobile phone technology is difficult to access, given our topography and the fact that many parts of Wales have little or no mobile phone reception. More work would have to be done to roll out more masts if we are to get more coverage, better mobile phone reception, and more access to broadband through 4G. That will need UK Government support, because history tells us that the market simply will not provide it. However, I will certainly take it up in my discussions with the UK Government to see what benefits we might be able to get for Wales.

2.00 p.m.

**Nerys Evans:** Hoffwn ymhelaethu ar y pwynt yn ymwneud â gwasanaethau band eang. Fel y soniasoch, yr ydym yn dal i aros i glywed sut y bydd y Llywodraeth yn San Steffan yn ymestyn gwasanaethau band eang drwy Gymru a'r Deyrnas Unedig. A yw'r Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth i bawb? Faint o fuddsoddiad fyddai hynny yn ei olygu? Sut mae'r Llywodraeth yn bwriadu talu am hyn? A yw Llywodraeth Cymru wedi trafod y mater hwn â Llywodraeth y Deyrnas Unedig? Croesawaf hefyd y cynllun band

llawer o bibellau a rhoi digon o wifrau yng nghartrefi pobl, yn ôl y dull confensiynol—pa drafodaethau rydych wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â chyflwyno'r drwydded 4G? Gallai hynny ganiatáu i bobl a busnesau yng Nghymru gael mynediad at fand eang yn gyflymach nag y bu ichi ei ragweld.

**Y Prif Weinidog:** Mae ein polisi wedi cael ei anelu at ymdrin â manau gwan. Rydw i wedi bod o'r farn erioed nad ydym eto wedi cael cynllun digonol yn lle'r ardoll ffôn 50c a gynigiwyd gan y Llywodraeth flaenorol. Mae'r dadleuon yn dda, ac nid wyf yn meddwl y byddai neb yn y Siambr yn dadlau na fydd y farchnad yn darparu band eang, yn enwedig band eang cyflym iawn, i lawer o Gymru.

Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau penodol ynghylch 4G. Rydych yn llygad eich lle am y dechnoleg, ond yr anhawster sy'n ein hwynebu yw bod technoleg ffonau symudol yn anodd cael mynediad ati, o ystyried ein topograffeg a'r ffaith mai prin yw derbyniad ffonau symudol mewn sawl rhan o Gymru, os oes derbyniad o gwbl. Byddai'n rhaid gwneud rhagor o waith i godi rhagor o fastiau er mwyn cael rhagor o ddarpariaeth, gwell derbyniad ffonau symudol, a rhagor o fynediad at fand eang drwy 4G. Bydd angen cefnogaeth Llywodraeth y DU ar gyfer hynny, gan fod hanes yn dweud wrthym na fydd y farchnad yn ei darparu. Fodd bynnag, byddaf yn sicr yn codi'r mater yn fy nhrafodaethau gyda Llywodraeth y DU i weld pa fuddion y gallwn eu cael o bosibl ar gyfer Cymru.

**Nerys Evans:** I would like to expand on the point relating to broadband services. As you mentioned, we are still waiting to hear how the Westminster Government will extend broadband services throughout Wales and the United Kingdom. Does the Government intend to introduce a universal service obligation? How much investment would that mean? How does the Government intend to pay for this? Has the Welsh Government discussed this matter with the Government of the United Kingdom? I also welcome the broadband plan announced by Ieuan Wyn

eang a gyhoeddwyd gan Ieuan Wyn Jones ar ddechrau'r haf, sef cynllun sy'n cynnig £2 filiwn o arian Ewropeaidd ac arian gan Lywodraeth Cymru. Faint o bobl sydd wedi ymgymryd â'r cynllun, neu sydd yn y broses o wneud ceisiadau am yr arian hwn?

**Y Prif Weinidog:** O ran nifer y bobl sy'n gwneud cais am gymorth, yr ydym yn sôn am tua 200 o bobl. O ran y sefyllfa Brydeinig, mae'n anodd dweud. Yr wyf wedi codi'r mater hwn mewn cyfarfodydd â rhai o Weinidogion y Deyrnas Unedig ond, hyd yn hyn, ni chefais unrhyw ateb ynglŷn â'r hyn a fydd yn digwydd yn sgîl diddymu'r cynllun ardoll.

**Alun Davies:** First Minister, during last week's debate on innovation, the Deputy Minister for Science, Innovation and Skills listed a series of collaborations linking universities and institutes of higher education across the whole of Wales. Those collaborations are delivering solutions and research and development projects across the whole country. In light of the proposals outlined today by the Liberals and Conservatives in Westminster on tuition fees, which will create a market in higher education and will break the promise given to the electorate, do you agree that is there a danger—as you said to Jonathan Morgan—that the market will not provide for Wales? There is a very real danger that the collaboration that we have seen, which has driven forward research and development in Wales, will be lost.

**The First Minister:** This proposal undoubtedly represents a further marketisation of the higher education sector in England. We cannot be unaware of what effect this might have on Wales. However, it is remarkable to see the Lib Dems going from being the party of students to the party that stands against students, in one fell swoop.

### Etholiadau'r Cynulliad

**6. Janet Ryder:** *Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael ynghylch amseru etholiadau'r Cynulliad yn y dyfodol. OAQ(3)3143(FM)*

Jones at the beginning of the summer—a scheme that provides £2 million of European and Welsh Government funding. How many people have taken advantage of the scheme, or are in the process of applying for this money?

**The First Minister:** On the number of people applying for assistance, we are talking about some 200 people. On the British position, it is difficult to say. I have raised this issue in meetings with some United Kingdom Ministers but, so far, I have had no answer about what will happen following the abolition of the levy scheme.

**Alun Davies:** Brif Weinidog, yn ystod dadl yr wythnos diwethaf ar arloesi, rhestrodd y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau sawl enghraifft o gydweithio sy'n cysylltu prifysgolion a sefydliadau addysg uwch drwy Gymru gyfan. Mae'r enghreifftiau hynny o gydweithio yn darparu atebion a phrosiectau ymchwil a datblygu ar hyd a lled y wlad. Yn wyneb y cynigion a amlinellwyd heddiw gan y Rhyddfrydwyr a'r Ceidwadwyr yn San Steffan ynghylch ffioedd dysgu, a fydd yn creu marchnad mewn addysg uwch ac yn torri'r addewid a roddwyd i'r etholwyr, a ydych yn cytuno bod perygl—fel y gwnaethoch ddweud wrth Jonathan Morgan—na fydd y farchnad yn darparu ar gyfer Cymru? Ceir perygl gwirioneddol y bydd y cydweithio rydym wedi'i weld, sydd wedi hybu gwaith ymchwil a datblygu yng Nghymru, yn diflannu.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r cynnig hwn yn ddi-os yn cynrychioli rhagor o farchnadeiddio ar y sector addysg uwch yn Lloegr. Rhaid inni fod yn ymwybodol o'r effaith y gallai hyn ei chael ar Gymru. Fodd bynnag, mae'n rhyfeddol gweld y Democratiaid Rhyddfrydol yn llwyddo—ag un ergyd—i newid o fod yn blaid y myfyrwyr i blaid sy'n sefyll yn erbyn myfyrwyr.

### Assembly Elections

**6. Janet Ryder:** *What discussions has the First Minister had on the timing of future Assembly elections. OAQ(3)3143(FM)*

**The First Minister:** I have raised with the UK Government my concerns about the proposal to hold the next UK general election on the same date as the Assembly elections in 2015. It is fair to say that that concern is shared by the UK Government, although no solution has yet been proposed.

**Janet Ryder:** Is there not even a threat a little closer to home? If the alternative vote referendum is held on the same day as the Assembly elections next year, the media could well concentrate its coverage on issues outside Wales. The issues that are important to Wales and to the Assembly elections could well be overlooked in the media onslaught from London, which is something that we always see. What discussions have you had on making sure that election day next year remains unique to the Assembly?

**The First Minister:** We have made the point several times to the UK Government that we do not agree that the AV referendum should be held on the same day as the Assembly elections. That said, I would not agree with the Assembly elections being moved—our election arrangements have been in place for some years, and to move the election for the referendum would be a mistake. I believe that it is the issue of AV that will suffer. Normally, in any referendum campaign, you would expect to see a ‘yes’ campaign and a ‘no’ campaign, made up of individuals from different parties engaging in a debate. I fear that, in Wales, there will be no such campaign, on either side. Naturally, everything will be focused on the outcome of the Assembly elections. The issue of AV, and the process of informing the public, will suffer by having the referendum on the same day as the Assembly elections in Wales.

**Nick Ramsay:** I concur with some of the comments made by Janet Ryder. Next year, we will effectively have three elections: two referenda and the Assembly elections. Could the First Minister give us an assurance that he

**Y Prif Weinidog:** Rwyf wedi sôn wrth Lywodraeth y DU am fy mhryderon ynghylch y bwriad i gynnal etholiad cyffredinol nesaf y DU ar yr un dyddiad ag etholiadau'r Cynulliad yn 2015. Mae'n deg dweud bod Llywodraeth y DU yn rhannu'r pryder hwnnw, ond nid oes ateb wedi ei gynnig eto.

**Janet Ryder:** Onid oes bygythiad ychydig yn nes atom hyd yn oed? Os bydd refferendwm y bleidlais amgen yn cael ei gynnal ar yr un diwrnod ag etholiadau'r Cynulliad y flwyddyn nesaf, mae'n ddigon posibl y byddai'r cyfryngau'n canolbwyntio ar faterion y tu allan i Gymru. Mae'n ddigon posibl y gallai'r materion sy'n bwysig i Gymru ac i etholiadau'r Cynulliad gael eu hanwybyddu wrth i'r cyfryngau fwrw ymlaen â'u cyrch o Lundain, sef rhywbeth y byddwn yn ei weld bob amser. Pa drafodaethau rydych wedi'u cael i sicrhau bod diwrnod yr etholiad y flwyddyn nesaf yn parhau i fod yn unigryw i'r Cynulliad?

**Y Prif Weinidog:** Rydym wedi dweud wrth Lywodraeth y DU droeon nad ydym yn cytuno y dylai refferendwm y bleidlais amgen gael ei gynnal ar yr un diwrnod ag etholiadau'r Cynulliad. Wedi dweud hynny, ni fyddwn am i etholiadau'r Cynulliad gael eu symud—mae ein trefniadau etholiadol ni wedi bod yn eu lle ers rhai blynedd, a chamgymeriad fyddai symud dyddiad yr etholiad ar gyfer y refferendwm. Rwyf yn credu mai'r bleidlais amgen fydd yn dioddef. Fel rheol, mewn unrhyw ymgyrch refferendwm, byddech yn disgwyl gweld ymgyrch 'ie' ac ymgyrch 'na', gydag unigolion o wahanol bleidiau'n dadlau â'i gilydd. Ofnaf na fydd unrhyw ymgyrch o'r fath, ar y naill ochr, yng Nghymru. Yn naturiol, bydd y ffocws i gyd ar ganlyniad etholiadau'r Cynulliad. Bydd y bleidlais amgen, a'r broses o hysbysu'r cyhoedd, yn dioddef os bydd y refferendwm yn cael ei gynnal ar yr un diwrnod ag etholiadau'r Cynulliad yng Nghymru.

**Nick Ramsay:** Rwyf yn cytuno â rhai o sylwadau Janet Ryder. Y flwyddyn nesaf, bydd gennym dri etholiad i bob diben: dau refferendwm ac etholiadau'r Cynulliad. A allai'r Prif Weinidog ein sicrhau y bydd yn

will do his utmost to ensure that there is clarity in the run-up to those elections? There is an argument to be made for having the AV referendum on the same day as the Assembly elections, in terms of costs, but, at the same time, there is a duty on all of us involved in politics in Wales to make sure that people have the necessary information at their disposal, so that apathy does not play a part. As we know, over the last 10 years, apathy has played a part in elections, so more needs to be done. Will the First Minister make representations to his Cabinet colleagues to ensure that that happens across all portfolios?

**The First Minister:** I am all for people being fully informed of what the questions are. The same goes for the referendum on the freer use of powers by this institution on 3 March. I read with interest the article that you wrote in *Wales Home*. I thought that it added a great deal to the debate. The first difficulty that we will face in May, when our election takes place on the same day as the AV referendum, will be queuing at polling stations, because people will have three different ballot papers. In 1999, some of us had the experience of seeing quite large queues outside polling stations when the council elections were held on the same day as the Assembly elections. Secondly, there is the issue of ensuring that people know that they have the right to vote in both elections. I say that because my understanding is that the AV referendum and the Assembly elections will take place on two different registers—one on the local government franchise and one on the general election franchise—so there is a recipe there for confusion. Thirdly, there is the issue of which vote is counted first. I doubt that anyone in the Chamber would disagree with my saying that our view is that the Assembly vote should be counted first. Of course, that would mean that there would be a delay in the announcement of the AV results across the whole of the UK. These are serious issues that need to be addressed, so that we avoid the situation that Scotland found itself in after the last election, for example, when confusion reigned.

gwneud ei orau glas i wneud yn siŵr bod eglurder yn y cyfnod yn arwain at yr etholiadau hynny? O ran costau, ceir dadl dros gynnal refferendwm y bleidlais amgen ar yr un diwrnod ag etholiadau'r Cynulliad. Ond, ar yr un pryd, mae dyletswydd ar bob un ohonom sy'n ymwneud â gwleidyddiaeth yng Nghymru i wneud yn siŵr bod pobl yn meddu ar y wybodaeth angenrheidiol, er mwyn sicrhau nad oes difaterwch. Fel y gwyddom, dros y 10 mlynedd diwethaf, bu difaterwch mewn etholiadau, felly mae angen gwneud rhagor o waith. A wnaiff y Prif Weinidog gyflwyno sylwadau i'w gyd-Weinidogion yn y Cabinet i sicrhau bod hyn yn digwydd ar draws pob portffolio?

**Y Prif Weinidog:** Rwyf yn bendant o'r farn y dylai pobl gael gwybod yn iawn beth yw'r cwestiynau. Mae'r un peth yn wir am y refferendwm a gynhelir ar 3 Mawrth ynghylch rhoi rhagor o ryddid i'r sefydliad hwn ddefnyddio'i grym. Darllenais yr erthygl roeddech wedi ei hysgrifennu yn *Wales Home* gyda diddordeb. Roeddwn yn meddwl ei bod yn ychwanegu llawer iawn at y drafodaeth. Yr anhawster cyntaf y byddwn yn ei wynebu ym mis Mai, pan fydd ein hetholiad yn cael ei gynnal ar yr un diwrnod â refferendwm y bleidlais amgen, fydd ciwio mewn gorsafoedd pleidleisio, gan y bydd gan bobl dri phapur pleidleisio gwahanol. Ym 1999, cafodd rhai ohonom y profiad o weld ciwiau eithaf mawr y tu allan i orsafoedd pleidleisio pan gynhaliwyd etholiadau'r cyngor ar yr un diwrnod ag etholiadau'r Cynulliad. Yn ail, mae'r mater o sicrhau bod pobl yn gwybod bod ganddynt hawl i bleidleisio yn y ddau etholiad. Dywedaf hynny gan fy mod yn cael ar ddeall y bydd refferendwm y bleidlais amgen ac etholiadau'r Cynulliad yn cael eu cynnal ar ddwy wahanol gofrestr—un ar fasnachfrait llywodraeth leol a'r llall ar fasnachfrait yr etholiad cyffredinol—felly mae hyn yn mynd i arwain at ddryswch. Yn drydydd, mae pa bleidlais fydd yn cael ei chyfrif yn gyntaf. Nid wyf yn meddwl y byddai neb yn y Siambr yn anghytuno â mi ynghylch y ffaith mai pleidlais y Cynulliad ddylai gael ei chyfrif yn gyntaf. Wrth gwrs, byddai hynny'n golygu oedi cyn cyhoeddi canlyniadau'r bleidlais amgen ar draws y DU i gyd. Mae'r rhain yn faterion difrifol y mae angen mynd i'r afael â hwy, er mwyn inni osgoi'r sefyllfa

yr oedd yr Alban ynndi ar ôl yr etholiad diwethaf, er enghraifft, sef sefyllfa o ddryswch.

### Y Diwydiant Gweithgynhyrchu

**7. Sandy Mewies:** *A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i gefnogi'r diwydiant gweithgynhyrchu yn y gogledd ddwyrain. OAQ(3)3135(FM)*

**The First Minister:** In 'Economic Renewal: a new direction', we set out how we intend to support industry, and advanced materials and manufacturing is identified as one of the six key sectors. It was my pleasure to be at Airbus last week to open its composite materials facility, a world-leading facility that will provide training and jobs for people for many years to come.

**Sandy Mewies:** As you say, you opened the new advanced composite wing-building training centre at Airbus in Broughton in Flintshire last week. It will train apprentices and other employees in new wing-building technology and involve Glyndŵr University and Deeside College. The Assembly Government has invested £28 million in the project. Of course, you were not the only Minister in Flintshire that day. Leighton Andrews was also there opening the Learning Zone in Northop, a £2.5 million-worth investment, again from us. [*Interruption.*] So, do you agree that this is a demonstration of the commitment that the Government here in Wales is showing to protecting jobs and keeping Wales at the forefront of innovation and skills, which contrasts completely with the opposition's viewpoint? Opposition Members are laughing and smirking about what will mean devastation—the loss of jobs for people in Wales.

**The First Minister:** All that I hear from that side of the Chamber is, 'Deficit, deficit'; I do not hear about 'Jobs, jobs'. That is immaterial to them. They do not care whether people lose their jobs. I am more than happy to support what you said. It is a fantastic facility, and a great example of Government,

### The Manufacturing Industry

**7. Sandy Mewies:** *Will the First Minister provide an update on what the Welsh Assembly Government is doing to support the manufacturing industry in North East Wales. OAQ(3)3135(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Yn 'Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd', dywedir sut rydym yn bwriadu cefnogi diwydiant, ac mae deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch yn un o'r chwe sector allweddol. Roedd yn bleser gennyf fod yn Airbus yr wythnos diwethaf i agor ei gyfleuster deunyddiau cyfansawdd, sef cyfleuster o'r radd flaenaf a fydd yn darparu hyfforddiant a swyddi i bobl am flynyddoedd lawer.

**Sandy Mewies:** Fel y dywedwch, buoch yn agor y ganolfan hyfforddi newydd ac arloesol ar gyfer adeiladu adenydd cyfansawdd yn Airbus ym Mrychdyn, sir y Fflint, yr wythnos diwethaf. Bydd yn hyfforddi prentisiaid a gweithwyr eraill mewn technoleg newydd ar gyfer adeiladu adenydd, ac yn cynnwys Prifysgol Glyndŵr a Choleg Glannau Dyfrdwy. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi buddsoddi £28 miliwn yn y prosiect. Wrth gwrs, nid chi oedd yr unig Weinidog yn sir y Fflint y diwrnod hwnnw. Roedd Leighton Andrews yno hefyd yn agor yr Ardal Ddysgu yn Llaneurgain—buddsoddiad o £2.5 miliwn—unwaith eto, gennym ni. [*Torri ar draws.*] Felly, a ydych yn cytuno bod hyn yn arwydd o'r ymrwymiad y mae'r Llywodraeth yma yng Nghymru yn ei ddangos i ddiogelu swyddi a chadw Cymru ar flaen y gad o safbwynt arloesi a sgiliau, sy'n gyferbyniad llwyr i safbwynt y gwrthbleidiau? Mae aelodau'r gwrthbleidiau yn chwerthin ac yn cilwenu am yr hyn a fydd yn golygu chwalfa—colli swyddi yng Nghymru.

**Y Prif Weinidog:** Yr unig beth rwyf yn ei glywed o'r ochr honno i'r Siambr yw, 'Diffyg, diffyg'; nid wyf yn clywed 'Swyddi, swyddi'. Mae hynny'n ddibwys iddynt. Nid ydynt yn malio a yw pobl yn colli eu swyddi ai peidio. Rwyf yn fwy na pharod i gefnogi'r hyn rydych wedi'i ddweud. Mae'n gyfleuster

industry, higher education and further education working together for the common good.

**Mark Isherwood:** The value of goods and services produced in north-east Wales has fallen from 99 per cent of the UK average in 1999 at the start of devolution to 85 per cent in the latest published figures last December. In recent times, there has been a series of worrying announcements. First, there was an announcement on Air Products and, more recently, on Tetra Pak, whose management and unions I met last Friday—I know that they are meeting the Deputy First Minister on Thursday. Today, there is the devastating news from Shotton that there will be another 180 job losses at Living Solutions on the old Corus site—the Tata Steel company. The one thing that all of these companies have in common is that they are overseas-owned. They are based in Scandinavia, India and America. However, in each case, the Welsh Government appears to be reacting to announcements rather than developing a proactive stance to cut these situations off at the pass before they become crises. In the short term, what action will your Government be taking to help and support Tetra Pak, throughout the consultation and its possible consequences, and Shotton in light of today's announcements? More broadly, what action will it be taking to take a proactive stance overseas with the owners of the companies upon which so much of Wales's manufacturing workforce depends?

**The First Minister:** As far as Tetra Pak is concerned, we are looking for Careers Wales and Jobcentre Plus, in the usual Team Wales approach, to help the workers to retrain or look for new jobs. It is a process that we have followed for many years and one that has been ultimately successful. However, I come back to what I heard earlier: your party keeps shouting, 'Deficit, deficit' when anyone starts talking about jobs. Now we have you talking about jobs. The reality is that these jobs are being lost because of the economic conditions that your Government is creating in the first place.

rhagorol, ac yn enghraifft wych o gydweithio rhwng y Llywodraeth, diwydiant, addysg uwch ac addysg bellach er lles pawb.

**Mark Isherwood:** Mae gwerth y nwyddau a'r gwasanaethau sy'n cael eu cynhyrchu yn y gogledd-ddwyrain wedi gostwng o 99 y cant o gyfartaledd y DU ym 1999 ar ddechrau datganoli i 85 y cant yn y ffigurau diweddaraf a gyhoeddwyd fis Rhagfyr diwethaf. Gwelwyd nifer o gyhoeddiadau a fu'n destun pryder yn ddiweddar. Yn gyntaf, cafwyd cyhoeddiad ynghylch Air Products ac, yn fwy diweddar, ynghylch Tetra Pak, y cefais gyfarfod â'i reolwyr a'r undebau ddydd Gwener diwethaf—gwn eu bod yn cael cyfarfod â'r Dirprwy Brif Weinidog ddydd Iau. Heddiw, ceir newyddion trychinebus o Shotton y bydd 180 swydd arall yn diflannu yn Living Solutions ar hen safle Corus—cwmni Tata Steel. Yr un peth sydd gan bob un o'r cwmnïau hyn yn gyffredin yw mai cwmnïau tramor sy'n berchen arnynt. Maent wedi eu lleoli yn Sgandinafia, India ac America. Fodd bynnag, ym mhob achos, mae Llywodraeth Cymru i bob golwg yn ymateb i gyhoeddiadau yn hytrach na datblygu safbwyntiau rhagweithiol i wneud rhywbeth cyn i'r achosion droi'n argyfyngau. Yn y tymor byr, pa gamau y bydd eich Llywodraeth yn eu cymryd i helpu a chefnogi Tetra Pak, drwy gydol y broses ymgynghori a'i chanlyniadau posibl, a Shotton yn wyneb cyhoeddiadau heddiw? Yn fwy cyffredinol, pa gamau y bydd yn eu cymryd i gyflwyno safbwynt rhagweithiol dramor gyda pherchnogion y cwmnïau y mae cymaint o weithlu gweithgynhyrchu Cymru yn dibynnu arnynt?

**Y Prif Weinidog:** O ran Tetra Pak, rydym yn gobeithio y bydd Gyrfa Cymru a'r Ganolfan Byd Gwaith, fel rhan o broses arferol Tîm Cymru, yn helpu'r gweithwyr i ailhyfforddi neu i chwilio am swyddi newydd. Mae'n broses rydym wedi'i dilyn ers blynnyddoedd lawer ac yn un sydd wedi bod yn llwyddiannus yn y pen draw. Fodd bynnag, dychwelaf at yr hyn a glywais yn gynharach: mae eich plaid yn mynnu gweiddi 'Diffyg, diffyg' o hyd ac o hyd pan fydd unrhyw un yn dechrau sôn am swyddi. Nawr rydych chi'n sôn am swyddi. Y gwir amdani yw bod y swyddi hyn yn diflannu oherwydd yr amodau economaidd y mae eich Llywodraeth

chi yn eu creu yn y lle cyntaf.

2.10 p.m.

**Janet Ryder:** I wish to ask you about the impact that Government policy can inadvertently have on the manufacturing sector. The Government drive to produce energy in an alternative way and large-scale biomass power stations is driving up the cost of wood, which has the potential to have a huge impact on the woodchip industry, which is a significant employer, particularly in north-east Wales. What discussions have you had, First Minister, with the two departments involved in your Government, and with the UK Government, which will take these decisions, to try to protect the industries that we have in Wales?

**The First Minister:** I have had no specific discussions about wood prices, but we believe that we need to generate more energy in Wales, particularly from renewable sources. We take the view that we should have planning consent power for power stations above 50 MW, which I know is something that all parties in the Chamber have agreed with over time. I look forward to that power being given to us by the UK Government.

**Eleanor Burnham:** Obviously, I share the concerns about the loss of jobs, like everyone else. When I was having a discussion with the Tetra Pak representative who came to see me, I was struck by the company's very high skills base. The skills are based on Japanese manufacturing skills of the very highest order and are transferable. What exactly are you, the Assembly Government and Team Wales doing to ensure that those skills are not lost to Wales, because they are of the highest calibre and we need to retain them as much as possible?

**The First Minister:** As I said, officials are in contact with the company. The Deputy First Minister hopes to meet with it. As I mentioned earlier, Careers Wales and Jobcentre Plus are involved in producing a rapid response to the situation that exists. Tetra Pak is not leaving Wrexham. We are talking about 130 potential job losses, but the

**Janet Ryder:** Hoffwn ofyn ichi am yr effaith y gall polisi'r Llywodraeth ei chael yn anfwriadol ar y sector gweithgynhyrchu. Mae ymgyrch y Llywodraeth i gynhyrchu ynni mewn ffordd amgen, a gorsafoedd pŵer biomas ar raddfa fawr, yn codi pris pren. Gallai hynny gael effaith enfawr ar y diwydiant naddion pren, sy'n gyflogwr mawr, yn enwedig yn y gogledd-ddwyrain. Pa drafodaethau rydych wedi'u cael, Brif Weinidog, gyda'r ddwy adran sy'n ymwneud â'ch Llywodraeth, a chyda Llywodraeth y DU, a fydd yn gwneud y penderfyniadau hyn, er mwyn diogelu'r diwydiannau sydd gennym yng Nghymru?

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau penodol am brisiau pren, ond credwn fod angen inni gynhyrchu rhagor o ynni yng Nghymru, yn enwedig o ffynonellau adnewyddadwy. Rydym o'r farn y dylem gael grym caniatâd cynllunio ar gyfer gorsafoedd pŵer dros 50 MW, a gwn fod hynny'n rhywbeth y mae pob plaid yn y Siambr wedi cytuno arno dros amser. Edrychaf ymlaen at gael y grym hwnnw gan Lywodraeth y DU.

**Eleanor Burnham:** Yn amlwg, rwyf finnau, fel pawb arall, yn pryderu am golli swyddi. Pan oeddwn yn cael trafodaeth gyda chynrychiolydd Tetra Pak a ddaeth i'm gweld, cefais fy nharo gan sylfaen sgiliau'r cwmni, sy'n uchel iawn. Mae'r sgiliau'n seiliedig ar sgiliau gweithgynhyrchu Siapaneaidd o'r radd flaenaf, ac mae modd eu trosglwyddo. Beth yn union rydych chi, Llywodraeth y Cynulliad a Thîm Cymru yn ei wneud i sicrhau nad yw Cymru'n colli'r sgiliau hynny, gan eu bod yn sgiliau o'r safon uchaf a bod angen inni eu cadw cymaint ag y bo modd?

**Y Prif Weinidog:** Fel y dywedais, mae swyddogion mewn cysylltiad â'r cwmni. Mae'r Dirprwy Brif Weinidog yn gobeithio cael cyfarfod ag ef. Fel y soniais yn gynharach, mae Gyrfa Cymru a'r Ganolfan Byd Gwaith wrthi'n ymateb yn gyflym i'r sefyllfa sydd ohoni. Nid yw Tetra Pak yn gadael Wrecsam. Rydym yn sôn am golli

fact that the company is staying at least gives some hope that it will look to expand in the future.

### Plismona yng Nghymru

**8. Christine Chapman:** *Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u cael ynghylch plismona yng Nghymru. OAQ(3)3141(FM)*

**The First Minister:** I refer you to the answer that I gave to question 1.

**Christine Chapman:** The results of this year's British Crime Survey show that, since 1997, under Labour, crime has fallen by 43 per cent. These figures are testimony to the hard work and commitment of our police officers, our police community support officers and other agencies. They also demonstrate that, under the Labour Government, through sustained investment and reform and with record police numbers, our communities have been safer. All of us in the Chamber could look at the good partnership working that we have had with the police in our communities. However, all of this is under threat as a result of the real Conservative-Liberal Democrat cuts in our public services. One of their first actions will be to slash the police budget. Do you agree, First Minister, that while everyone recognises that this deficit has to be reduced, safety and community cohesion must be prioritised? [*Interruption.*] In discussions with the police forces across Wales and the Westminster Government, will you continue to argue for front-line policing to be prioritised?

**The First Minister:** Absolutely. We have more police numbers and we have less crime. That is the reality of the situation. I have said many times in the Chamber that, if you take away police officers, you see an increase in crime. It is the fear of being caught that influences whether some people commit crimes. You are quite right to say that. I listened to the party opposite expressing mock amazement when you said that we accept that the deficit has to be reduced—we

oddeutu 130 o swyddi, ond mae'r ffaith bod y cwmni'n aros o leiaf yn rhoi rhywfaint o obaith y bydd yn ystyried ehangu yn y dyfodol.

### Policing in Wales

**8. Christine Chapman:** *What discussions has the Welsh Assembly Government had regarding policing in Wales. OAQ(3)3141(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i gwestiwn 1.

**Christine Chapman:** Yn ôl canlyniadau Arolwg Troseddu Prydain eleni, mae'r lefelau troseddu wedi gostwng 43 y cant er 1997, o dan y Blaid Lafur. Mae'r ffigurau hyn yn dystiolaeth o waith caled ac ymrwymiad swyddogion yr heddlu, swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu ac asiantaethau eraill. Maent hefyd yn dangos bod ein cymunedau—o dan y Llywodraeth Lafur, a thrwy fuddsoddiad a diwygio parhaol yn ogystal â nifer uwch nag erioed o swyddogion yr heddlu—wedi bod yn fwy diogel. Gallai pob un ohonom yn y Siambr edrych ar y bartneriaeth waith dda rydym wedi'i chael gyda'r heddlu yn ein cymunedau. Ond, mae hyn oll o dan fygythiad o ganlyniad i doriadau real y Ceidwadwyr-Democratiaid Rhyddfrydol yn ein gwasanaethau cyhoeddus. Un o'u camau cyntaf fydd lleihau cyllideb yr heddlu. Er bod pawb yn sylweddoli bod angen i'r diffyg hwn gael ei leihau, a ydych yn cytuno, Brif Weinidog, ei bod yn rhaid rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch a chydlyniant cymunedol? [*Torri ar draws.*] A wnewch barhau i ddadlau dros roi blaenoriaeth i blismona rheng flaen mewn trafodaethau gyda'r heddluoedd ar draws Cymru a Llywodraeth San Steffan?

**Y Prif Weinidog:** Yn sicr. Mae nifer swyddogion yr heddlu yn uwch ac mae'r lefelau troseddu'n is. Dyna realiti'r sefyllfa. Rwyf wedi dweud droeon yn y Siambr, os byddwch yn lleihau niferoedd yr heddlu, byddwch yn gweld cynnydd mewn lefelau troseddu. Yr ofn o gael eu dal sy'n dylanwadu ar a yw ambell un yn troseddu ai peidio. Rydych yn llygad eich lle i ddweud hynny. Gwrandewais ar y blaid gyferbyn yn smalio bod yn syfrdan pan ddywedoch ein



have said that many times. I have said so several times in the Chamber. You can check the Record, if you wish; I do not know whether you ever read the Record, but you can check. The point is that we believe that any savings should not be directed by ideology and should not be so deep and so fast that the economic growth of Wales and the UK is put at risk. That is exactly what the UK Government is doing.

**William Graham:** Part of the future for police forces is trying to reduce crime. How is the Assembly Government liaising with police forces and local authorities with regard to the high number of thefts for scrap metal? The First Minister will be well aware that certain statues have been stolen in various parts of Wales. In my area, unfortunately, they have been stealing drain covers. The removal of drain covers is a serious issue, because it is a matter of public safety for pedestrians, motorists and cyclists. How can you raise awareness of this issue? In Rhisga, the month before last, 1.2 km of copper was stolen. In the last three days in Newport, 14 drain covers have been stolen.

**The First Minister:** You highlight an old problem. Road signs have been stolen in the past, and copper cabling from railway signals also often disappears somewhere. These are serious issues. I know that we are talking about drain covers, but this is a serious issue. The theft of metal, particularly copper from signalling, and of road signs and drain covers, can pose a risk to people's safety. I will ensure that the Minister for Social Justice and Local Government raises the issue the next time that he meets with the relevant police authorities.

**Gareth Jones:** Brif Weinidog, gwneuthum gyfarfod yn ddiweddar â phrif gwnstabl newydd Heddlu Gogledd Cymru a chadeirydd yr awdurdod heddlu. Maent yn cynllunio ar gyfer toriadau o hyd at 25 y cant yn eu cyllideb, sydd wedi cael eu gorfodi arnynt gan y Llywodraeth glymblaid yn

bod yn derbyn ei bod yn rhaid lleihau'r diffyg—rydym wedi dweud hynny droeon. Rwyf wedi dweud hynny sawl gwaith yn y Siambr. Gallwch edrych ar y Cofnod os dymunwch; nid wyf yn gwybod a ydych yn darllen y Cofnod byth, ond gallwch edrych. Y pwynt yw, nid ydym yn credu y dylai ideoleg ddylanwadu ar arbedion, ac ni ddylent fod mor ddwfn ac mor gyflym nes bod twf economaidd Cymru a'r DU yn cael ei roi mewn perygl. Dyna'n union beth mae Llywodraeth y DU yn ei wneud.

**William Graham:** Un rhan o'r dyfodol ar gyfer heddluoedd yw ceisio lleihau lefelau troseddu. Sut y mae Llywodraeth y Cynulliad yn cysylltu â heddluoedd ac awdurdodau lleol yng nghyswllt nifer uchel yr achosion o ddwyn metel sgrap? Bydd y Prif Weinidog yn ymwybodol iawn bod cerfluniau wedi cael eu dwyn mewn gwahanol rannau o Gymru. Yn fy ardal i, yn anffodus, caeadau draeniau sydd wedi bod yn cael eu dwyn. Mae tynnu caeadau draeniau yn fater difrifol, gan ei fod yn fater o ddiogelwch cyhoeddus, ar gyfer cerddwyr, gyrrwyr a beicwyr. Sut y gallwch godi ymwybyddiaeth o'r mater hwn? Yn Rhisga, yn y mis cyn yr un diwethaf, cafodd 1.2 km o gopr ei ddwyn. Yn ystod y tri diwrnod diwethaf, mae 14 o gaeadau draeniau wedi cael eu dwyn yng Nghasnewydd.

**Y Prif Weinidog:** Rydych yn tynnu sylw at hen broblem. Mae arwyddion ffordd wedi cael eu dwyn yn y gorffennol, a bydd ceblau copr o signalau rheilffordd yn aml yn diflannu i rywle hefyd. Mae'r rhain yn broblemau difrifol. Gwn mai am gaeadau draeniau rydym yn sôn, ond mae hwn yn fater difrifol. Gall dwyn metel, yn enwedig copr o signalau, ac arwyddion ffyrdd a chaeadau draeniau, beri risg i ddiogelwch pobl. Byddaf yn sicrhau bod y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn codi'r mater y tro nesaf y bydd yn cael cyfarfod â'r awdurdodau heddlu perthnasol.

**Gareth Jones:** First Minister, I recently met the new chief constable of North Wales Police and the chair of the police authority. They are planning for cuts of up to 25 per cent in their budget, which have been forced upon them by the coalition Government in London. To bring reality into this discussion,

Llundain. Er mwyn cyflwyno realaeth i'r drafodaeth hon, byddai hynny'n golygu dros 250 yn llai o blismyn allan o gyfanswm o ychydig dros 1,500, a bron 500 o staff cynorthwyol, bron hanner, yn cael eu diswyddo. Mae ffederasiwn yr heddlu wedi disgrifio hyn fel Nadolig cynnar i droseddwr. A ydych yn cytuno bod polisïau gwallgof y Llywodraeth glymblaid yn Llundain, a gefnogir mor frwd gan Peter Black a'i gyd-Aelodau gyferbyn, nid yn unig yn peri tloidi i gymunedau a theuluoedd yng Nghymru, ond hefyd yn fygythiad difrifol i gyfraith a threfn?

Ymhellach i'r pwynt y gwnaethoch ymateb i Christine Chapman arno, a fedrwch roi sicrwydd y byddwch yn rhoi sylw dyledus i'r angen i barhau'r gweithgareddau diogelu cymunedau a ariennir gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth â'r heddlu yn wyneb y wasgfa ariannol a fydd yn cael ei gorfodi gan y Llywodraeth glymblaid yn Llundain?

**Y Prif Weinidog:** Yr ydych yn gywir i ddweud bod y gweithgareddau cymunedol wedi bod yn llwyddiannus iawn o ran sicrhau toriad yn y lefel o droseddu mewn cymunedau. Yr ydym am sicrhau dyfodol i'r gweithgareddau hynny, ond mae'n rhaid inni weld beth sy'n digwydd wythnos nesaf o ran yr adolygiad cynhwysfawr o wariant. Y lleiaf o swyddogion heddlu sy'n cael eu gweld ar yr heol, y mwyaf yw lefel y troseddu. Bu hynny'n wir ers y dechrau, ac yr wyf wedi dweud hynny sawl gwaith yn y Siambr.

**Mohammad Asghar:** First Minister, during this month's Ryder Cup, I was delighted to hear that the policing operation was very successful and extremely well planned and executed. This was a massive global event and the role that the police forces played in the Newport and south-east Wales area went very smoothly and must not be underestimated. Will you join me in praising the Gwent Police and South Wales Police for their hard work and efforts throughout the Ryder Cup tournament?

**The First Minister:** I will, and I would also add Newport City Council to that list,

that would mean over 250 fewer police officers out of a total of just over 1,500, and almost 500 support staff, almost half, being made redundant. The police federation has described this as Christmas come early for criminals. Do you agree that the crazy policies of the coalition Government in London, that are supported so enthusiastically by Peter Black and his colleagues opposite, not only impoverish communities and families in Wales, but pose a serious threat to law and order?

Further to the point on which you responded to Christine Chapman, can you give an assurance that you will give due attention to the need to continue the community safety activities that are funded by the Welsh Government in partnership with the police in the face of the financial squeeze that will be imposed by the coalition Government in London?

**The First Minister:** You are right to say that the community activities have been very successful in ensuring a reduction in the levels of crime in communities. We want to ensure a future for those activities, but we will have to wait and see what happens next week with regard to the comprehensive spending review. The fewer the number of police officers visible on the street, the greater the level of crime. That has been true from the beginning, and I have said that several times in the Chamber.

**Mohammad Asghar:** Brif Weinidog, yn ystod trnamaint Cwpan Ryder a gynhaliwyd yn ystod y mis, roedd yn bleser gennyf glywed bod gwaith yr heddlu wedi bod yn llwyddiannus iawn a'i fod wedi cael ei gynllunio a'i drefnu'n dda. Roedd hwn yn ddigwyddiad enfawr ar lefel fyd-eang, ac aeth swyddogaethau'r heddluoedd yn ardal Casnewydd a'r de-ddwyrain rhagddynt yn rhwydd. Dylem sylweddoli gwerth hynny. A wnewch chithau, fel minnau, ganmol Heddlu Gwent a Heddlu De Cymru am eu gwaith caled a'u hymdrechion drwy gydol trnamaint Cwpan Ryder?

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf, a byddwn hefyd yn ychwanegu Cyngor Dinas Casnewydd at y

particularly its transport engineers, because a great deal of work was done to ensure that the large numbers of people coming into the Celtic Manor Resort were able to get in with minimal disruption. I think that that was achieved, and the alterations to the road were a great success. Therefore, I join you in paying tribute not just to the police but also to the city council for its efforts in ensuring that the Ryder Cup was the success that it was.

**Leanne Wood:** First Minister, during the visit of the odious English Defence League to our capital city last June, a certain policing tactic was used to restrict the movement of anti-fascist protesters. Some people refer to this tactic as ‘kettling’, and I and many others were penned in an area between city hall and Cardiff Crown Court with a steel barrier at one end and a line of police officers blocking our access at the other end. Despite initially denying the use of this controversial crowd control method, South Wales Police has since admitted to deploying the tactic. First Minister, I have concerns not only that this tactic was used during a peaceful protest, but that the senior officer in charge on that day was not aware that the tactic was being deployed. Do you agree that the restriction of liberty should always be a last resort?

**The First Minister:** Restriction of liberty should always be a last resort, of course. However, I have sympathy with the police, because on that day not only did we have these fanatics arriving in Cardiff—I understand that the Wetherspoon’s pub, *The Great Western*, near the railway station, refused them entry, which I applaud—but more than 60,000 people came into the city for the Wales versus South Africa game, there was a cricket match between Glamorgan and the West Indies A in the SWALEC stadium, and there was also a Stereophonics concert in the city stadium that night. Therefore, the number of people who had to be safely policed in Cardiff that day was probably unprecedented. I am not aware of the tactics that were used by the police, but

rhestr honno, yn enwedig ei pheiranyddion trafniadaeth, oherwydd gwnaed llawer iawn o waith i sicrhau bod y niferoedd uchel o bobl a oedd yn dod i Westy'r Celtic Manor yn gallu mynd yno mor ddidrafferth â phosibl. Credaf fod hynny wedi cael ei gyflawni, ac roedd y gwaith i addasu'r ffordd yn llwyddiant go iawn. Felly, rwyf yn ymuno â chi i ganmol nid yn unig yr heddlu, ond hefyd cyngor y ddinas am ei ymdrechion i sicrhau bod twrnaint Cwpan Ryder yn llwyddiant ysgubol.

**The First Minister:** Certainly, we would have to give consideration to setting up a similar body in Wales. We have to be mindful, of course, of the financial situation, particularly in the aftermath of the comprehensive spending review. You made your points very well with regard to the services that Consumer Focus Wales has provided over the years. I would reiterate that this is a Welsh body that is disappearing as a result of actions taken by the UK Government without any consultation with us. That is the fundamental point. At the very least, there should have been discussions between the administrations, to take our views at least and, in particular, to see whether anything could have been done, by means of a transfer of money for example, that would enable us more easily to set up a statutory body. Sadly, however, none of these things have been done.

**Mark Isherwood:** As chair of the cross-party group on fuel poverty, I am fully aware of the importance of Consumer Focus Wales and its role in representing Welsh consumers, in this case in energy issues. It took other functions, and not just those of Energywatch, Postwatch, and the Welsh Consumer Council, and we recognise that it performs vital functions in providing advice, information, and advocacy, such as its role in identifying the problems with Npower, which led to a

Bopeth yng Nghymru neu safonau masnach ar lefel leol gyflawni'r gwaith statudol, meddu ar y gallu ymchwil neu yn wir ddarparu gwasanaethau gwybodaeth Llais Defnyddwyr. Mae'r enghraifft ddiweddar o Llais Defnyddwyr yn llwyddo i gael £70 miliwn o ad-daliad gan Npower mewn perthynas â'r tariffau ar gyfer ynni yn dangos yn union pam mae angen cael sefydliad cadarn â swyddogaethau statudol er mwyn dal cwmnïau ynni ac eraill yn atebol. Os bydd hyn yn mynd yn ei flaen, bydd yn gam yn ôl ac yn ddiwrnod du i ddinasyddion Cymru. Brif Weinidog, os gwneir penderfyniad i fwrw ymlaen â hyn, a wnewch chi a Llywodraeth y Cynulliad ystyried sefydlu corff statudol tebyg yng Nghymru, a hwnnw wedi'i gynllunio ar gyfer dinasyddion Cymru, a fyddai'n cyd-fynd â'r polisi clir ar wasanaethau cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar y dinesydd yn ein gwlad?

**Y Prif Weinidog:** Yn sicr, byddai'n rhaid inni ystyried sefydlu corff tebyg yng Nghymru. Rhaid inni fod yn ymwybodol, wrth gwrs, o'r sefyllfa ariannol, yn enwedig yn dilyn yr adolygiad cynhwysfawr o wariant. Gwnaethoch gyfleu eich pwyntiau ynghylch gwasanaethau y mae Llais Defnyddwyr Cymru wedi eu darparu dros y blynyddoedd yn dda iawn. Byddwn yn ailadrodd mai corff o Gymru sy'n diflannu, a hynny o ganlyniad i gamau a gymerwyd gan Lywodraeth y DU heb ymgynghori â ni. Hwnnw yw'r pwynt sylfaenol. Fan leiaf, dylai bod trafodaethau wedi cael eu cynnal rhwng y gweinyddiaethau, er mwyn gwrandao ar ein barn o leiaf ac, yn benodol, i weld a fyddai wedi bod yn bosibl gwneud unrhyw beth, drwy drosglwyddo arian er enghraifft, gan ei gwneud yn haws inni sefydlu corff statudol. Ond, yn anffodus, nid oes dim un o'r pethau hyn wedi cael eu gwneud.

**Mark Isherwood:** Fel cadeirydd y grŵp trawsbleidiol ar dlodi tanwydd, rwyf yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd Llais Defnyddwyr Cymru a'i rôl yn cynrychioli defnyddwyr Cymru, ym maes ynni yn yr achos hwn. Roedd yn ymgymryd â swyddogaethau eraill, nid dim ond Golwg ar Ynni, Golwg ar Bost Cymru, a Chyngor Defnyddwyr Cymru. Rydym yn cydnabod ei fod yn cyflawni swyddogaethau hanfodol wrth ddarparu cyngor, gwybodaeth ac



compensation pay-out of £5 million to customers in north Wales. We recognise that critical functions have been performed.

There is going to be a new public bodies Bill in the UK, and we understand that this will be announced in Parliament on 14 October. We are also aware that there has been much press speculation about this, and we are advised that the UK Government will be making a comprehensive statement before too long regarding this matter. I would urge this place to await that comprehensive statement before drawing conclusions, in the hope and expectation that the functions performed on behalf of consumers in Wales may be preserved.

**The First Minister:** If that is the case, and if more thought is to be given to the abolition of Consumer Focus Wales, then so much the better. We must nonetheless be mindful of the fact that the last thing that should happen should be a transfer of many of the responsibilities previously borne by Consumer Focus Wales to the citizens advice bureaux. Despite doing a very good job, I do not think that there is any citizens advice bureau in Wales that could say that it is underworked. Therefore, to pass responsibilities on to those organisations, particularly without making any extra resources available, would be a mistake.

**Janet Ryder:** I echo some of Andrew Davies's words and yours: it would be totally inappropriate if we were to end up having a made-in-England solution imposed on us. This review does not just touch on Consumer Focus Wales; it touches on a number of other groups as well, some of which receive funding from the Assembly Government. What consultation has been undertaken with you in the Government of Wales on any of the issues in this review? What input have you had into the review? Can you give us any assurance that the needs of Welsh consumers will be paramount in this? What we desperately need is a body to emerge out of this that really does represent the interests of Welsh consumers.

eiriolaeth, fel ei rôl yn adnabod y problemau gydag Npower, a arweiniodd at dalu £5 miliwn o iawndal i gwsmeriaid yn y gogledd. Rydym yn cydnabod bod swyddogaethau allweddol wedi cael eu cyflawni.

Bydd Bil Cyrff Cyhoeddus newydd yn cael ei gyflwyno yn y DU, a deallwn y bydd hyn yn cael ei gyhoeddi yn y Senedd ar 14 Hydref. Rydym hefyd yn ymwybodol y bu cryn ddyfalu yn y wasg ynghylch hyn, ac rydym yn cael ar ddeall y bydd Llywodraeth y DU yn gwneud datganiad cynhwysfawr cyn bo hir ynghylch y mater hwn. Byddwn yn annog y fan hon i aros am y datganiad cynhwysfawr hwnnw cyn llunio casgliadau, yn y gobaith a'r disgwyl y bydd y swyddogaethau a gyflawnir ar ran defnyddwyr yng Nghymru yn cael eu cadw.

**Y Prif Weinidog:** Os felly, ac os rhoddir rhagor o ystyriaeth i ddileu Llais Defnyddwyr Cymru, yna gorau oll. Ond rhaid inni fod yn effro i'r ffaith mai'r peth olaf a ddylai ddigwydd yw trosglwyddo llawer o gyfrifoldebau Llais Defnyddwyr Cymru i'r canolfannau Cyngor ar Bopeth. Er eu bod yn gwneud gwaith da iawn, nid wyf yn credu y ceir unrhyw swyddfa Cyngor ar Bopeth yng Nghymru a allai ddweud nad oes ganddi ddigon o waith. Felly, byddai trosglwyddo cyfrifoldebau i'r sefydliadau hynny, yn enwedig heb ddarparu unrhyw adnoddau ychwanegol, yn gamgymeriad.

**Janet Ryder:** Rwyf yn ategu rhai o eiriau Andrew Davies a'ch rhai chithau: byddai'n gwbl amhriodol pe bai ateb a ffurfiwyd yn Lloegr yn cael ei orfodi arnom yn y diwedd. Nid ar Llais Defnyddwyr Cymru yn unig y mae'r adolygiad hwn yn edrych; mae'n taro golwg ar nifer o grwpiau eraill yn ogystal—rhai ohonynt yn derbyn cyllid gan Lywodraeth y Cynulliad. Pa waith ymgynghori sydd wedi cael ei gynnal â chi yn Llywodraeth Cymru ynghylch unrhyw un o'r materion yn yr adolygiad hwn? Beth oedd eich mewnbwn i'r adolygiad? A allwch roi unrhyw sicrwydd inni y bydd anghenion defnyddwyr Cymru yn cael eu hystyried yn bwysicach na dim yn y mater hwn? Yr hyn y mae ei angen yn ddirfawr arnom yw bod corff yn cael ei greu o hyn, a hwnnw'n gorff sydd wir yn cynrychioli buddiannau

defnyddwyr Cymru.

**The First Minister:** With regard to Consumer Focus, I can say that we were not consulted on these proposals prior to the announcement. I have written to the Secretary of State, stressing that arrangements should be made swiftly for us to be involved in the future process.

**Y Prif Weinidog:** O ran Llais Defnyddwyr, gallaf ddweud na wnaeth neb ymgynghori â ni ar y cynigion hyn cyn y cyhoeddiad. Rwyf wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol, gan bwysleisio y dylid gwneud trefniadau'n gyflym i ni fod yn rhan o'r broses yn y dyfodol.

**Peter Black:** First Minister, as no decision has been announced, we are going on rumours and speculation, but I accept that there is a clear intention to carry out the abolition. Given that we have had advance notice of the decision, will you now actively seek discussions with the UK Government to find a solution that better fits Wales? It is important that the work that this body does in Wales is somehow maintained, if at all possible. Maybe we can use the fact that we have the Assembly to try to retain some sort of presence in Wales, or a successful organisation that best serves the people of Wales. It is important, therefore, that we are as proactive as possible in dealing with this issue.

**Peter Black:** Brif Weinidog, gan nad oes penderfyniad wedi cael ei gyhoeddi, rydym yn gwrandao ar sibrydion ac yn dyfalu, ond rwyf yn derbyn bod bwriad clir i ddileu'r corff. O ystyried ein bod wedi cael rhybudd am y penderfyniad ymlaen llaw, a wnewch yn awr fynd ati i gael trafodaethau â Llywodraeth y DU i ddod o hyd i ateb sy'n fwy addas ar gyfer Cymru? Mae'n bwysig bod y gwaith y mae'r corff hwn yn ei wneud yng Nghymru yn cael ei gynnal rywsut, os yw hynny'n bosibl. Efallai y gallwn ddefnyddio'r ffaith bod gennym Gynulliad i geisio cadw rhyw fath o bresenoldeb yng Nghymru, neu sefydliad llwyddiannus sy'n darparu'r gwasanaethu gorau i bobl Cymru. Mae'n bwysig, felly, ein bod mor rhagweithiol ag y bo modd wrth ymdrin â'r mater hwn.

2.50 p.m.

**The First Minister:** I have written to Vince Cable, making these points. I now await his reply.

**Y Prif Weinidog:** Rwyf wedi ysgrifennu at Vince Cable, gan wneud y pwyntiau hyn. Rwyf yn awr yn aros am ei ymateb.

**Y Llywydd:** Diolch yn fawr i'r Prif Weinidog am ateb y cwestiynau brys hynny.

**The Presiding Officer:** I thank the First Minister for answering those urgent questions.

### **Pwynt o Drefn Point of Order**

**The Presiding Officer:** We now have a point of order arising out of questions.

**Y Llywydd:** Nawr mae gennym bwynt o drefn sy'n codi o gwestiynau.

**Jonathan Morgan:** Presiding Officer, in the exchange between the leader of the Welsh Liberal Democrats and the First Minister, I listened very carefully to your ruling on questions in relation to the ministerial code. As I understand it, the First Minister, according to his list of responsibilities, is accountable to the Assembly for the ministerial code. Standing Order No. 7.46

**Jonathan Morgan:** Lywydd, pan oedd arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn holi'r Prif Weinidog yn gynharach, gwrandewais yn astud iawn ar eich dyfarniad ar gwestiynau yng nghyswllt y cod gweinidogol. Fel rwyf fi'n ei ddeall, mae'r Prif Weinidog, yn ôl ei restr cyfrifoldebau, yn atebol i'r Cynulliad am y cod gweinidogol. Mae Rheol Sefydlog Rhif 7.46 yn caniatáu i'r

allows Members to question the First Minister on any matters relating to his or her responsibilities. As the question very clearly related to a matter relating to one of his responsibilities, namely the ministerial code, I would like some clarification as to what was permitted and what was not.

**The Presiding Officer.** Indeed. I will respond orally here, but I will discuss this further with you or write to you, if you wish to have further clarification. The recent references to the ministerial code in this Chamber have been requests, made during question time, to investigate an individual Minister. That is not regarded as appropriate by me. Indeed, a clear ruling on this matter was made by the Deputy Presiding Officer, that the conduct of Ministers in relation to the ministerial code is a matter for the First Minister and not for the Presiding Officer or the Deputy Presiding Officer. That was on 15 July 2009. The investigation of a ministerial code complaint against a Minister in respect of standards is the equivalent, in our view, of a standards investigation of a Member. *[Interruption.]*

Order. The leader of the Liberal Democrats and I have discussed this matter privately. She knows my views on this matter, and she will not heckle me when I respond on a point of order.

As I was saying, before I was interrupted, the action of the ministerial code is akin to the action of a standards investigation of a Member. It is, however, undertaken by the First Minister with the assistance of his officials. The conduct of that investigation is not an appropriate matter for questions in this Chamber. Clearly, references to and discussion of the ministerial code, and the responsibilities of the First Minister in general terms, are appropriate matters. The general application of the code is an appropriate matter for questions. However, I do not believe that it is appropriate that the question of how the First Minister deals with an individual investigation of an alleged breach of the code, or its outcome, is a matter to be raised in Plenary.

**Jonathan Morgan:** I am very grateful for

Aelodau holi'r Prif Weinidog am unrhyw faterion sy'n ymwneud â'i gyfrifoldebau. Gan fod y cwestiwn yn amlwg yn gysylltiedig â mater sy'n ymwneud ag un o'i gyfrifoldebau, sef y cod gweinidogol, hoffwn gael eglurhad ynghylch beth sy'n cael ei ganiatáu a beth sydd ddim yn cael ei ganiatáu.

**Y Llywydd:** Yn wir. Ymatebaf ar lafar yma, ond gwnaf drafod hyn ymhellach gyda chi neu ysgrifennu atoch, os ydych yn dymuno cael eglurhad pellach. Mae'r cyfeiriadau diweddar at y cod gweinidogol yn y Siambr hon wedi bod yn geisiadau, yn ystod y cwestiynau, i ymchwilio i Weinidog. Nid yw hynny'n briodol yn fy marn i. Yn wir, rhoddodd y Dirprwy Lywydd ddyfarniad clir ynghylch y mater hwn, gan ddweud mai mater i'r Prif Weinidog ac nid i'r Llywydd na'r Dirprwy Lywydd yw ymddygiad Gweinidogion mewn perthynas â'r cod gweinidogol. Roedd hynny ar 15 Gorffennaf 2009. Mae ymchwiliad i gwyn cod gweinidogol yn erbyn Gweinidog o ran safonau yr un fath, yn ein barn ni, ag ymchwiliad i safonau Aelod. *[Torri ar draws.]*

Trefn. Mae arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol a minnau wedi trafod y mater hwn yn breifat. Mae hi'n gwybod beth yw fy marn ynghylch y mater hwn, ac ni fydd yn gweiddi ar fy nhraws wrth imi ymateb i bwynt o drefn.

Fel roeddwn yn ei ddweud, cyn ichi dorri ar fy nhraws, mae camau'r cod gweinidogol yn debyg i gamau ymchwiliad i safonau Aelod. Fodd bynnag, fe'i cynhelir gan y Prif Weinidog gyda chymorth ei swyddogion. Nid yw cynnal yr ymchwiliad hwnnw yn fater priodol ar gyfer cwestiynau yn y Siambr hon. Yn amlwg, mae cyfeiriadau at y cod gweinidogol a'r drafodaeth yn ei gylch, yn ogystal â chyfrifoldebau'r Prif Weinidog yn gyffredinol, yn faterion priodol. Mae gweithredu'r cod yn gyffredinol yn fater priodol ar gyfer cwestiynau. Fodd bynnag, nid wyf yn credu ei bod yn briodol codi cwestiwn ynghylch sut y mae'r Prif Weinidog yn ymdrin ag ymchwiliad unigol i achos honedig o dorri'r cod, neu ei ganlyniad, yn y Cyfarfod Llawn.

**Jonathan Morgan:** Rwyf yn ddiolchgar

that statement, Presiding Officer. However, the ministerial code and the standards process within which Assembly Members are investigated are quite different, in that there is only one person accountable and responsible for the application of the ministerial code: the First Minister. In turn, the First Minister is accountable to the Assembly through questions tabled by Members. There is no Member of this Assembly—except yourself as the Presiding Officer, one could argue—who is responsible to the Assembly through questions for the application of our procedures with regard to standards of conduct. If a Member is allowed to ask a question to the First Minister about any matter relating to his ministerial responsibility as the guardian of the ministerial code, I wonder how the word ‘matter’ is defined.

**The Presiding Officer:** I do not see that I have anything to add to what I have said.

iawn am y datganiad hwnnw, Lywydd. Fodd bynnag, mae'r cod gweinidogol a'r broses safonau a ddefnyddir i ymchwilio i Aelodau'r Cynulliad yn hollol wahanol, gan mai dim ond un person sy'n atebol ac yn gyfrifol am roi'r cod gweinidogol ar waith: y Prif Weinidog. Yn ei dro, mae'r Prif Weinidog yn atebol i'r Cynulliad drwy gwestiynau sy'n cael eu cyflwyno gan yr Aelodau. Nid oes unrhyw Aelod o'r Cynulliad hwn—heblaw amdanoch chi fel y Llywydd, gellid dadlau—sy'n atebol i'r Cynulliad drwy gwestiynau am gymhwysio ein gweithdrefnau o ran safonau ymddygiad. Os bydd Aelod yn cael gofyn cwestiwn i'r Prif Weinidog am unrhyw fater sy'n ymwneud â'i gyfrifoldeb gweinidogol fel gwarcheidwad y cod gweinidogol, tybed sut y diffinnir y gair ‘mater’.

**Y Llywydd:** Nid wyf yn gweld bod gennyf unrhyw beth i'w ychwanegu at yr hyn rwyf wedi'i ddweud.

### **Datganiad a Chyhoeddiad Busnes Business Statement and Announcement**

**The Minister for Business and Budget (Jane Hutt):** I have a few changes to report to this week's planned Government business. Following the statement on the higher education strategy, there will be a motion to suspend Standing Orders in order to bring forward the no named day motion that was tabled yesterday for this afternoon's debate on the Holtham report. Tomorrow afternoon, the First Minister will be making an oral statement on the Ryder Cup. However, business for the next three weeks is as set out in the business statement, which can be found among the agenda papers available to Members electronically.

**Darren Millar:** Minister, you know that minimising the risk of future flooding in Wales is critical, as we come to terms with the changing climate and warmer weather globally. It is particularly important for those living in high flood-risk areas, such as coastal parts of my constituency. You will be aware that the sea defences in the Colwyn Bay area got a severe hammering earlier in the year

**Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb (Jane Hutt):** Mae gennyf un neu ddau o newidiadau i sôn amdanynt yng nghyswllt busnes y Llywodraeth ar gyfer yr wythnos hon. Yn dilyn y datganiad ar y strategaeth addysg uwch, bydd cynnig i atal Rheolau Sefydlog er mwyn dwyn ymlaen y cynnig heb ddyddiad trafod a gyflwynwyd ddoe ar gyfer y ddadl ar adroddiad Holtham y prynhawn yma. Brynhawn yfory, bydd y Prif Weinidog yn gwneud datganiad llafar ar dwrnamaint Cwpan Ryder. Fodd bynnag, mae busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y mae wedi'i osod yn y datganiad busnes, sydd wedi'i gynnwys ymhlith y papurau agenda sydd ar gael i Aelodau yn electronig.

**Darren Millar:** Weinidog, rydych yn gwybod bod lleihau'r perygl o lifogydd yng Nghymru yn y dyfodol yn hanfodol, wrth inni ddod i delerau â'r newid yn yr hinsawdd a'r tywydd cynhesach drwy'r byd. Mae'n arbennig o bwysig i'r rheini sy'n byw mewn mannau sy'n wynebu llawer o risg o lifogydd, fel rhannau arfordirol fy etholaeth. Byddwch yn ymwybodol bod yr amddiffynfeydd môr

during storms over the Easter period. I am pleased to say that some improvement work will be going ahead on parts of the promenade and the sea defences during this financial year. However, there are other parts of the sea defences towards the end of the bay of Colwyn in the old Colwyn area that are equally at risk and which are protecting some very important parts of the national infrastructure, namely the Holyhead to Chester railway line and the A55 trunk road. No major improvements to those flood defences are scheduled to take place in the near future, and I am very concerned about the impact of this, not only for north Wales as a region, but nationally.

I wish to ask for an urgent statement from the Minister for Environment, Sustainability and Housing on the action that she is taking to address flood risk across Wales, and particularly in coastal parts of Wales, such as my constituency. I also wish to ask for a particular reference in the statement to the need for the Environment Agency, Network Rail, Conwy County Borough Council and various Assembly Government departments to work together in order to bring forward the resources to address this urgent flood defence problem in my constituency.

Secondly, may I request an urgent statement on the reviews of NHS hospital services in north Wales that are ongoing? There is a great deal of alarm among clinicians, the public, patients and third sector groups across the whole north Wales region about the reviews that are under way in the Betsi Cadwaladr University Local Health Board, particularly with regard to maternity and paediatric services and emergency general surgery services at Glan Clwyd Hospital. I request an urgent statement on this from the Minister for Health and Social Services, who is ultimately accountable for those services being available in north Wales.

**Jane Hutt:** I do not know whether you were able to attend the useful meeting on flood awareness that the Environment Agency held. In fact, Angela hosted that meeting last week,

yn ardal Bae Colwyn wedi cael eu curo'n ddirugaredd yn gynharach eleni yn ystod y stormydd dros gyfnod y Pasg. Rwyf yn falch o ddweud y bydd rhywfaint o waith gwella yn digwydd ar rannau o'r promenâd ac ar yr amddiffynfeydd môr yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Fodd bynnag, ceir rhannau eraill o'r amddiffynfeydd môr ym mhen draw bae Colwyn yn ardal Hen Golwyn sy'n wynebu'r un perygl, ac sy'n gwarchod rhai rhannau pwysig iawn o'r seilwaith cenedlaethol, sef y rheilffordd rhwng Caergybi a Chaer a chefnffordd yr A55. Nid oes gwelliannau mawr wedi'u trefnu ar gyfer yr amddiffynfeydd hynny yn y dyfodol agos, ac rwyf yn bryderus iawn am effaith hyn, nid yn unig i Ogledd Cymru fel rhanbarth, ond yn genedlaethol.

Hoffwn ofyn am ddatganiad brys gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai ar y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r perygl o lifogydd ledled Cymru, ac yn enwedig mewn rhannau o arfordir Cymru, fel fy etholaeth i. Hoffwn hefyd i'r datganiad gyfeirio'n benodol at yr angen i Asiantaeth yr Amgylchedd, Network Rail, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a gwahanol adrannau Llywodraeth y Cynulliad weithio gyda'i gilydd er mwyn sicrhau'r adnoddau i fynd i'r afael â'r broblem amddiffyn rhag llifogydd, sy'n broblem frys yn fy etholaeth.

Yn ail, a gaf fi ofyn am ddatganiad brys ar yr adolygiadau o wasanaethau ysbyty'r GIG yn y gogledd, sydd ar y gweill ar hyn o bryd? Mae llawer iawn o ofn ymhlith clinigwyr, y cyhoedd, cleifion a grwpiau o'r trydydd sector ledled rhanbarth Gogledd Cymru am yr adolygiadau sydd ar y gweill ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr, yn enwedig o ran gwasanaethau mamolaeth a phediatrig a gwasanaethau llawfeddygaeth gyffredinol frys yn Ysbyty Glan Clwyd. Rwyf yn gofyn am ddatganiad brys ynghylch hyn gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sydd, yn y pen draw, yn gyfrifol am wneud yn siŵr bod y gwasanaethau hynny ar gael yn y gogledd.

**Jane Hutt:** Nid wyf yn gwybod a oeddech yn bresennol yn y cyfarfod defnyddiol ar godi ymwybyddiaeth o lifogydd, a gynhaliwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Yn wir,

where the Environment Agency brought to Members' attention the national flooding exercise that it is holding to raise awareness across Wales, recognising that this is an issue for Members across the Chamber. Of course, the Flood and Water Management Act 2010 received Royal Assent earlier this year. It is legislation that enables us and responsible authorities to look at where investment is appropriate. I know that the Minister for Environment, Sustainability and Housing is well aware of this issue; it is at the top of her agenda.

On your second point, these issues in north Wales are an operational matter for the health board. I know that decisions have been made. Of course, there will be consultation. In discussion with community health councils, which we kept in Wales, the health boards will determine how to engage with the wider public.

**Helen Mary Jones:** Minister, I am aware that the Government has been undertaking some work on the cost of the legislative competence Order process. Will you arrange for your colleague, the Counsel General, to make a statement to the Assembly on the outcome of that work? I believe that it may have revealed some considerable costs, and it would be helpful for us to be able to put that information in the public domain and to share the information on the cost of the system as it is with the public more widely, prior to a referendum.

**Jane Hutt:** I am sure that the Counsel General will seek opportunities to report on the work that he has been undertaking. As I believe he said this morning, the current system has an inbuilt element of duplication as the same policy area is scrutinised twice, and a referendum giving us further powers would eliminate the LCO process, allowing us to table our own Bills, replacing two tiers with one. It is worth my having the opportunity to remind Members and the public of that matter. It is estimated that this duplication costs just under £2 million a year in staff time and resources.

Angela oedd yn gyfrifol am y cyfarfod hwnnw yr wythnos diwethaf, lle bu Asiantaeth yr Amgylchedd yn dwyn sylw'r Aelodau at yr ymarferion llifogydd cenedlaethol y mae'n eu cynnal i godi ymwybyddiaeth ledled Cymru, gan gydnabod bod hwn yn fater i Aelodau ar draws y Siambr. Wrth gwrs, derbyniodd Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 Gydsyniad Brenhinol yn gynharach eleni. Mae'n ddeddfwriaeth sy'n ein galluogi ni ac awdurdodau cyfrifol i weld lle mae buddsoddi'n briodol. Gwn fod y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai yn gwybod am y mater hwn; y mae ar frig ei hagenda.

O ran eich ail bwynt, mae'r materion hyn yn y gogledd yn fater gweithredol ar gyfer y bwrdd iechyd. Rwyf yn gwybod bod penderfyniadau wedi cael eu gwneud. Wrth gwrs, bydd gwaith ymgynghori'n cael ei gynnal. Drwy drafod â chynghorau iechyd cymuned—y gwnaethom ni yng Nghymru eu cadw—y byrddau iechyd fydd yn penderfynu sut i ymgysylltu â'r cyhoedd yn gyffredinol.

**Helen Mary Jones:** Weinidog, rwyf yn ymwybodol bod y Llywodraeth wedi bod yn ymgymryd â rhywfaint o waith ar gost y broses Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol. A wnewch drefnu i'ch cyd-Aelod, y Cwnsler Cyffredinol, wneud datganiad i'r Cynulliad ar ganlyniad y gwaith hwnnw? Rwyf yn credu bod costau sylweddol wedi dod i'r amlwg, a byddai o gymorth i ni allu gwneud yn siŵr bod y wybodaeth honno ar gael yn gyhoeddus, a bod y wybodaeth ynghylch cost y system yn cael ei rhannu â'r cyhoedd yn fwy cyffredinol, cyn y refferendwm.

**Jane Hutt:** Rwyf yn siŵr y bydd y Cwnsler Cyffredinol yn chwilio am gyfleoedd i sôn am y gwaith y mae wedi bod yn ei wneud. Credaf ei fod wedi dweud y bore yma fod y system bresennol yn cynnwys elfen o ddyblygu oherwydd y creffir ar yr un maes polisi ddwywaith, ac y byddai refferendwm ynghylch rhoi rhagor o bwerau i ni yn dileu'r broses LCO, gan ganiatáu inni gyflwyno ein Biliau ein hunain, a chael un haen yn hytrach na dwy. Mae'n werth cael y cyfle i atgoffa Aelodau a'r cyhoedd am y mater hwnnw. Amcangyfrifir bod y dyblygu hwn yn costio ychydig o dan £2 miliwn y flwyddyn mewn

amser staff ac adnoddau.

3.00 p.m.

**Eleanor Burnham:** Many of us have previously discussed with the First Minister the current loss of manufacturing jobs in north-east Wales. It is a worrying scenario, and I wonder whether it is possible to have a further statement from the Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport. As I mentioned during questions to the First Minister, I am particularly struck by the transferable skills of such a high calibre that we have in the Tetra Pak plant, which could possibly be lost from the area. Could we have a further statement or even a debate on this serious issue? If the loss of manufacturing jobs continues, we could well be in more than a slight pickle.

**Jane Hutt:** Those issues are important to us and the strategic direction of the economic renewal programme. As we face the comprehensive spending review, which will be announced next week, we are aware of the fact that our economic recovery is fragile. We are mindful of that, as we were when I made the decision not to cut our capital programme, supporting the construction industry and building schools, hospitals and social housing. These are important issues for Ministers and for the Chamber.

**Gareth Jones:** Nid oes amheuaeth bod cyllideb Cymru yn wynebu toriadau anferth yn sgîl polisïau'r Llywodraeth glymblaid yn Llundain. Serch hynny, mae ansicrwydd mawr o ran lle y gallai'r fwyell ddisgyn. Mae ecolegydd uchel ei barch yr wyf wedi bod yn siarad ag ef yn ddiweddar yn bryderus iawn bod perygl i Lywodraeth Cymru edrych ar fuddsoddi mewn cynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth fel maes lle y byddai modd gwneud arbedion heb effeithio ar y gwasanaethau craidd, fel y'u gelwir. Yn fy marn i, byddai hynny'n gamgymeriad mawr gan ei bod yn anochel mai bychan fyddai'r arbedion ariannol yn wyneb maint y gyllideb sydd wedi'i dyrannu i faterion bioamrywiaeth, ond byddai'r effaith yn anghymesur o fawr. Unwaith y bydd y

**Eleanor Burnham:** Mae llawer ohonom eisoes wedi trafod colli swyddi gweithgynhyrchu yn y gogledd-ddwyrain â'r Prif Weinidog. Mae'n sefyllfa sy'n destun pryder—tybed a oes modd cael datganiad pellach gan y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth? Fel y soniais yn ystod y cwestiynau i'r Prif Weinidog, yr hyn sy'n fy nharo yw'r sgiliau trosglwyddadwy o safon mor uchel sydd gennym yn ffatri Tetra Pak, a'i bod yn bosibl y bydd y rhain yn diflannu o'r ardal. A allem gael datganiad pellach neu hyd yn oed ddadl ar y mater difrifol hwn? Os bydd y swyddi gweithgynhyrchu yn parhau i ddiflannu, gallem fod mewn mwy na dim ond ychydig o bicl.

**Jane Hutt:** Mae'r materion hynny'n bwysig i ni ac i gyfeiriad strategol rhaglen adnewyddu'r economi. Wrth inni wynebu'r adolygiad cynhwysfawr o wariant, a gaiff ei gyhoeddi yr wythnos nesaf, rydym yn ymwybodol o'r ffaith bod ein hadferiad economaidd yn fregus. Rydym yn ymwybodol o hynny, yn yr un mod ag yr oeddem pan wnes y penderfyniad i beidio â lleihau ein rhaglen gyfalaf, gan gefnogi'r diwydiant adeiladu a mynd ati i adeiladu ysgolion, ysbytai a thai cymdeithasol. Mae'r rhain yn faterion pwysig i Weinidogion ac i'r Siambr.

**Gareth Jones:** There is no doubt that the Welsh budget is facing enormous cuts as a result of the policies of the coalition Government in London. However, there is great uncertainty about where the axe will fall. A highly respected ecologist whom I have been talking to recently is most concerned that there is a risk that the Welsh Government will consider investment in maintaining and enhancing biodiversity as an area in which possible savings could be made without affecting core services, as they are described. In my opinion, that would be a grave error, as it is inevitable that the savings would be minimal in the context of the size of the budget allocated to biodiversity issues, but the impact would be disproportionately large. Once species and their habitats are lost,

rhywogaethau a'r cynefinoedd wedi'u colli, byddant ar goll am byth. Felly, hoffwn ofyn i Lywodraeth Cymru wneud datganiad pellach neu gyflwyno dadl ar y mater hwn gan mai un cyfle a gawn i wneud hyn yn iawn. A wnaiff y Gweinidog roi sicrwydd inni, drwy ddatganiad neu ddadl yn y Siambr, na fydd Llywodraeth Cymru o leiaf yn edrych ar gynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth fel targed hawdd ar gyfer toriadau ar wariant?

**Jane Hutt:** All these matters are crucial as we await next week's spending review announcement and as the Government considers how we deliver on our priorities of promoting social justice, economic renewal and sustainable development. You will be aware that, on 15 September, the Minister for Environment, Sustainability and Housing launched a consultation 'A living Wales—a new framework for our environment, our countryside and our seas' to look at how we manage our environment, and to consult on new delivery options. It is quite clear that the costs of not protecting ecosystems are huge, and so 'A living Wales' will guide us and inform future investment decisions.

**Kirsty Williams:** Minister, would it be possible for the Minister for the economy and transport to make a statement in the Chamber on why he believes the abolition of the mid Wales trunk road agency will lead to a better service for those using the trunk roads throughout mid Wales? That will also give him an opportunity to reassure the members of Powys County Council, Ceredigion County Council and the Unison union, who have grave concerns about what it will mean for the provision of services and the synergies between local road services and the trunk roads, should the abolition go ahead.

**Jane Hutt:** I was pleased to be in your constituency on Friday, Kirsty, to meet officials and elected members of Powys County Council. I heard of the good collaborative work, for example, between Powys and Ceredigion county councils, particularly on issues relating to transport and property services. We are currently looking at

they will be lost for good. Therefore, I want to ask the Welsh Government to make a further statement or to hold a debate on this matter, because we will have only one chance to get this right. Will the Minister give us an assurance, through a statement or debate in the Chamber, that at least the Welsh Government will not look upon maintaining and enhancing biodiversity as an easy target for spending cuts?

**Jane Hutt:** Mae'r materion hyn i gyd yn hollbwysig wrth inni aros am y cyhoeddiad ynglŷn â'r adolygiad o wariant yr wythnos nesaf ac wrth i'r Llywodraeth bwysu a mesur sut rydym yn cyflawni ein blaenoriaethau, sef hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol, adnewyddu'r economi a datblygu cynaliadwy. Byddwch yn ymwybodol, ar 15 Medi, y bu i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai lansio ymgynghoriad, sef 'Cymru Fyw—fframwaith newydd ar gyfer ein hamgylchedd, ein cefn gwlad a'n moroedd', er mwyn gweld sut rydym yn rheoli ein hamgylchedd, ac i ymgynghori ar opsiynau cyflwyno newydd. Mae'n bur amlwg bod y costau o beidio â diogelu ecosystemau yn enfawr, ac felly bydd 'Cymru Fyw' yn ein harwain ac yn sail i benderfyniadau buddsoddi yn y dyfodol.

**Kirsty Williams:** Weinidog, a fyddai'n bosibl i'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth wneud datganiad yn y Siambr ynghylch pam mae'n credu y bydd dileu Asiantaeth Cefnffyrdd Canolbarth Cymru yn arwain at wasanaeth gwell i'r rheini sy'n defnyddio'r cefnffyrdd drwy'r canolbarth? Bydd hynny hefyd yn rhoi cyfle iddo roi tawelwch meddwl i aelodau Cyngor Sir Powys, Cyngor Sir Ceredigion ac undeb Unsain, sy'n pryderu'n fawr am oblygiadau hyn o ran darparu gwasanaethau a'r synergedd rhwng gwasanaethau ffyrdd lleol a'r cefnffyrdd, os bydd yr Asiantaeth yn cael ei dileu.

**Jane Hutt:** Roedd yn bleser bod yn eich etholaeth ddydd Gwener, Kirsty, i gael cyfarfod â swyddogion ac aelodau etholedig Cyngor Sir Powys. Clywais am y cydweithio da, er enghraifft, rhwng Cyngor Sir Powys a Chyngor Sir Ceredigion, yn enwedig ar faterion yn ymwneud â gwasanaethau eiddo a thrafnidiaeth. Rydym wrthi'n edrych ar



an efficiency and innovation programme for savings, but the issues with the management of the mid Wales trunk road network were brought to my attention, and I agreed to bring them back to the Deputy First Minister for his response.

**Janet Ryder:** Minister, I am sure that you will be aware that 18 October is Anti-slavery Day, which also coincides with European Anti-trafficking Day. It is amazing to think that, 200 years after the abolition of the transatlantic slave trade, people are still being trafficked and forced into slavery. It is an uncomfortable issue to face, but it is happening in most of our communities, unfortunately, and it is having an impact on our services, not just police services but also social services, housing and other services. Will you consider tabling a motion for debate to look at the impact that this is having on communities in Wales and any steps that Wales can take to counter that?

Further to the urgent question, the review of the consumer landscape in Wales will report on Thursday, and it could have major implications for the voice of consumers in Wales. Therefore, will you find time for a debate on how we will ensure that that voice is given an airing in Wales?

**Jane Hutt:** You will have welcomed the announcement by Carl Sargeant, Minister for Social Justice and Local Government, of the first anti-trafficking co-ordinator. We also need to pay tribute to the work that Joyce Watson has undertaken in the cross-party group, which you have all been engaged in and supported. It is vital that we bring this to the forefront of the social justice agenda, and I am grateful that you have expressed it. I am sure that there will be opportunities to give more information and statements about that.

I will certainly look at the possibility of holding a debate on the consumer landscape in Wales, particularly as many non-devolved decisions affect our consumers and have an impact not only on the people whom we

raglen effeithlonrwydd ac arloesedd ar gyfer arbedion, ond cafodd y materion yn ymwneud â rheoli rhwydwaith cefnffyrdd y canolbarth eu dwyn i'm sylw, a chytunais i sôn amdanynt wrth y Dirprwy Brif Weinidog er mwyn cael ei ymateb.

**Janet Ryder:** Weinidog, rwyf yn siŵr y byddwch yn gwybod bod 18 Hydref yn Ddiwrnod Gwrth-Gaethwasiaeth, sydd hefyd yn cyd-fynd â'r Diwrnod Ewropeaidd ar gyfer atal Masnachu mewn Pobl. Mae'n rhyfeddol meddwl bod pobl yn dal i gael eu masnachu a'u gorfodi i fod yn gaethweision 200 mlynedd ar ôl diddymu'r fasnach gaethweision dros yr Iwerydd. Mae'n fater anghyfforddus i'w wynebu, ond mae'n digwydd yn y rhan fwyaf o'n cymunedau, yn anffodus, ac mae'n effeithio ar ein gwasanaethau—nid dim ond gwasanaethau'r heddlu, ond y gwasanaethau cymdeithasol a thai a gwasanaethau eraill hefyd. A wnewch ystyried cyflwyno cynnig ar gyfer dadl i edrych ar effaith hyn ar gymunedau yng Nghymru ac unrhyw gamau y gall Cymru eu cymryd i atal hynny?

Yn ychwanegol at y cwestiwn brys, cawn adroddiad yr adolygiad o sefyllfa defnyddwyr yng Nghymru ddydd Iau. Gallai hyn olygu goblygiadau mawr i lais defnyddwyr yng Nghymru. Felly, a wnewch ddod o hyd i amser i gynnal dadl ar sut y byddwn yn sicrhau bod y llais hwnnw'n cael ei glywed yng Nghymru?

**Jane Hutt:** Mae'n siŵr y byddwch wedi croesawu'r cyhoeddiad gan Carl Sargeant, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, am y Cydgysylltydd Atal Masnachu mewn Pobl cyntaf. Mae angen inni hefyd ganmol gwaith Joyce Watson yn y grŵp trawsbleidiol, y mae pob un ohonoch wedi bod yn ymwneud ag ef ac yn ei gefnogi. Mae'n hanfodol ein bod yn dod â hyn i flaen yr agenda cyfiawnder cymdeithasol, ac rwyf yn ddiolchgar eich bod wedi mynegi hyn. Rwyf yn siŵr y bydd cyfleoedd i roi rhagor o wybodaeth a datganiadau am hynny.

Byddaf yn sicr yn edrych ar y posibilrwydd o gynnal dadl ar sefyllfa defnyddwyr yng Nghymru, yn enwedig gan fod llawer o benderfyniadau nad ydynt wedi'u datganoli yn effeithio ar ein defnyddwyr ac yn effeithio

serve but also on the services that we provide in the social justice and local government arena.

**Andrew R.T. Davies:** Minister for business, in his evidence to the Health, Wellbeing and Local Government Committee at the end of the summer term, the First Minister indicated that he would make a written statement on return from recess in connection with the implementation of the Pennington report. Four weeks have now passed since our return from recess, and no such statement has been made by the First Minister. I implore that such a statement be made so that the points raised in the health committee and the wider issues can be addressed. I also suggest to your good offices that it would be far better if that statement were to be an oral statement, because many Members will have questions about the implementation of the Pennington review.

I also seek a statement, in written form if possible, from the Minister for Health and Social Services in connection with the community nursing strategy. She discussed the community nursing strategy in Plenary last term, but there seem to be grave concerns about the exact status of the strategy in local health boards' planning and development process. If she could make a written statement, we could ascertain how this strategy is working to develop the community nursing strategy in Wales.

**Jane Hutt:** I will ensure that a statement on the Pennington report is forthcoming from the First Minister, as promised, and I will ask the Minister for health to update you on the progress made in implementing the community nursing strategy, which is being delivered locally by health boards.

**Mick Bates:** Minister, I wish to support Kirsty Williams's call for a statement from the Deputy First Minister regarding the future of the mid Wales trunk road agency. There is a distinct feeling that he has already made up his mind about the future of the agency, which diminishes the status of mid Wales.

nid yn unig ar y bobl rydym yn eu gwasanaethu ond ar y gwasanaethau a ddarparwn ym maes cyfiawnder cymdeithasol a llywodraeth leol.

**Andrew R.T. Davies:** Weinidog dros Fusnes, yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol ar ddiwedd tymor yr haf, dywedodd y Prif Weinidog y byddai'n gwneud datganiad ysgrifenedig ynghylch gweithredu adroddiad Pennington ar ôl dychwelyd wedi'r toriad. Mae pedair wythnos wedi mynd heibio erbyn hyn ers i'r toriad ddod i ben, ac nid yw'r Prif Weinidog wedi gwneud y datganiad hwnnw. Rwyf yn ymbil arno i wneud y datganiad er mwyn inni allu rhoi sylw i'r pwyntiau a godwyd gan y pwyllgor iechyd ac i'r materion ehangach. Rwyf hefyd yn awgrymu i'ch swyddfeydd da y byddai'n well o lawer pe bai'r datganiad yn ddatganiad llafar, oherwydd bydd gan lawer o Aelodau gwestiynau am roi adolygiad Pennington ar waith.

Rwyf hefyd yn gofyn am ddatganiad, yn ysgrifenedig os yw hynny'n bosibl, gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mewn cysylltiad â'r strategaeth nyrso cymunedol. Bu'n trafod y strategaeth nyrso cymunedol yn y Cyfarfod Llawn y tymor diwethaf, ond mae'n ymddangos bod pryderon difrifol am union statws y strategaeth ym mhrosesau cynllunio a datblygu'r byrddau iechyd lleol. Pe gallai wneud datganiad ysgrifenedig, gallem weld sut y mae'r strategaeth hon yn gweithio i ddatblygu'r strategaeth nyrso cymunedol yng Nghymru.

**Jane Hutt:** Byddaf yn sicrhau bod y Prif Weinidog yn rhoi datganiad ar adroddiad Pennington, fel yr addawyd, a byddaf yn gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am y cynnydd a wnaed wrth weithredu'r strategaeth nyrso cymunedol, sy'n cael ei darparu'n lleol gan fyrddau iechyd.

**Mick Bates:** Weinidog, hoffwn gefnogi cais Kirsty Williams am ddatganiad gan y Dirprwy Brif Weinidog ynglŷn â dyfodol Asiantaeth Cefnffyrdd Canolbarth Cymru. Ceir teimlad pendant ei fod eisoes wedi gwneud penderfyniad am ddyfodol yr asiantaeth, sy'n ergyd i statws y canolbarth.

We appear to be being absorbed a bit into the south and a bit into the north. I hope that you will ensure that he makes a statement on that to alleviate fears about mid Wales being overlooked.

Yn ôl pob golwg, rydym yn cael ein hamsugno ychydig i'r de ac ychydig i'r gogledd. Rwyf yn gobeithio y byddwch yn sicrhau ei fod yn gwneud datganiad am hynny er mwyn lleddfu'r ofn bod y canolbarth yn cael ei anwybyddu.

3.10 p.m.

The second issue is also for the Deputy First Minister, and I have raised it many times as it is of great concern to my constituents and those who have to travel through Newtown. There has long been talk of an announcement about the preferred route for the Newtown bypass. It has been promised to us so often during 2010 that people are beginning to lose faith that this Government of yours ever intends to alleviate the chaos and pressure that is apparent in Newtown. I request yet again that a statement be made by the Deputy First Minister as soon as possible, because we should remedy the damage that is being done to the reputation of this establishment by its delay.

Mater i'r Dirprwy Brif Weinidog yw'r ail un hefyd, ac rwyf wedi codi'r mater droeon gan ei fod o bwys mawr i'm hetholwyr ac i'r rheini sy'n gorfod teithio drwy'r Drenewydd. Bu sôn ers tro am gyhoeddiad ynghylch y llwybr dewisol ar gyfer ffordd osgoi y Drenewydd. Addawyd hyn inni droeon yn ystod 2010, felly erbyn hyn mae pobl yn dechrau colli ffydd yn y eich Llywodraeth ac yn amau a yw byth yn bwriadu ysgafnhau'r pwysau a lleihau'r anhrefn amlwg yn y Drenewydd. Gofynnaf unwaith eto i'r Dirprwy Brif Weinidog wneud datganiad cyn gynted ag y bo modd, oherwydd dylem gywiro'r niwed y mae'r oedi'n ei wneud i enw da'r sefydliad hwn.

**Jane Hutt:** I have already responded to the leader of the Welsh Liberal Democrats about the issues related to the mid Wales trunk road agency's responsibilities.

**Jane Hutt:** Rwyf eisoes wedi ymateb i arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru am y materion sy'n ymwneud â chyfrifoldebau Asiantaeth Cefnffyrdd Canolbarth Cymru.

I am sure that you will be aware that a meeting was held on 8 September to discuss the options for improving the situation in Newtown. It was important that that review looked at high-priority actions to be carried out. The situation is being monitored, and there are different scenarios to ease the traffic. That is about dealing with the current situation, which is the key. Our future options will be considered in the light of our position following the spending review and any opportunities that we have to invest or otherwise.

Rwyf yn siŵr y byddwch yn gwybod i gyfarfod gael ei gynnal ar 8 Medi er mwyn trafod yr opsiynau ar gyfer gwella'r sefyllfa yn y Drenewydd. Roedd yn bwysig bod yr adolygiad hwnnw'n edrych ar gamau â blaenoriaeth uchel i'w cyflawni. Mae'r sefyllfa'n cael ei monitro, a cheir gwahanol senarios i leddfu'r traffig. Mae a wnelo hynny â rhoi sylw i'r sefyllfa bresennol, sy'n allweddol. Bydd ein hopsiynau yn y dyfodol yn cael eu hystyried yn wyneb ein sefyllfa yn dilyn yr adolygiad o wariant ac unrhyw gyfleoedd sydd gennym i fuddsoddi neu fel arall.

### **Datganiad am Gynigion Llywodraeth y DU ar Ddiwygio'r Heddlu Statement on UK Government Proposals for Police Reform**

**The Minister for Social Justice and Local Government (Carl Sargeant):** I welcome the opportunity to inform Members of the Welsh Assembly Government's response to

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Carl Sargeant):** Rwyf yn croesawu'r cyfle i roi gwybod i'r Aelodau am ymateb Llywodraeth

the Home Office consultation on the police reform and social responsibility Bill, and for a wider discussion of the implications of those proposals for Wales. As Members will be aware, the Home Office has published wide-ranging proposals for police reform, the cornerstone of which is the abolition of police authorities and their replacement with directly elected police commissioners.

First, let me give you a flavour of the UK Government's respect agenda when it comes to dealing with the Assembly Government on important issues such as policing. 'Policing in the 21st Century' was published on 26 July during recess. The consultation closed on 20 September, but despite my numerous requests, the Home Secretary found it impossible to meet me to discuss the impact of these proposals on Wales until two days after the consultation had closed, on 22 September. Nevertheless, during the consultation period, WAG worked closely with key stakeholders, such as the Police Authorities of Wales and the Welsh Local Government Association to develop our response.

If the UK Government had consulted us in a timely way, I could have told it that the proposals made no sense for Wales. She may not have wanted to hear this, but I have made clear to the Home Secretary that the Welsh Assembly Government remains firmly opposed to these proposals. We know that the WLGA is opposed, and that the chief constables of Wales have concerns. The Police Authorities of Wales has made a very strong and well argued case against the proposals, based not on self-preservation but on a well informed and reasoned analysis of the argument for reform and the practical difficulties of the Home Office's proposals.

Why do we oppose these proposals? First, we do not think that the Home Office has made a case for changing the current system. It suggests that it will replace bureaucratic accountability with democratic accountability, but forces are already accountable to their local communities

Cynulliad Cymru i ymgynghoriad y Swyddfa Gartref ar y Bil Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol, ac am drafodaeth gyffredinol ynghylch goblygiadau'r cynigion hynny i Gymru. Fel y gŵyr yr Aelodau, mae'r Swyddfa Gartref wedi cyhoeddi cynigion eang ar gyfer diwygio'r heddlu. Conglfaen y rheini yw diddymu awdurdodau'r heddlu a'u disodli â chomisïynwyr yr heddlu sydd wedi'u hethol yn uniongyrchol.

**Peter Black:** The big difference between where we were before May and where we are after is that, before May, these kinds of robust arguments that Carl has just outlined in his statement, went on behind closed doors. The Welsh Government is saying the same things, but it is now using a megaphone and doing the odd bit of name calling. Is it really in the best interests of Wales to approach these matters in that way?

I was intrigued when I heard Carl's statement, and when I read it beforehand, since earlier today I raised with Carwyn Jones the issue of savings in the Welsh police forces, only to be told that the matter has not been devolved. Suddenly, however, this has become a matter in which we are all interested—as, indeed, we are—and sufficiently so to warrant a ministerial statement. The Government needs to make its mind up: is it interested in the police forces in Wales, or not? If it is, it should start answering the sort of questions that we are posing to the First Minister on how we make those police forces more efficient.

3.40 p.m.

Minister, in terms of the Wales Audit Office report, 'Sustaining value for money in the police service', you should at least acknowledge that it has identified savings to be made within police forces: £14 million though civilianising police tasks, and between £24 million and £35 million in other savings that could be made without hitting front-line policing. In that context, we have to take what you say about the impact of Government cuts on the police forces with a pinch of salt. You are also predicting all sorts of nightmare scenarios for the police forces before the comprehensive spending review has even been announced. I do not know what is being proposed for the Welsh police forces. We can all speculate and say that we are going to lose 2,000 jobs, 1,000 jobs or

credu bod hwn yn gyfle i gryfhau'r sylfaen a gwneud rhywbeth gwahanol yng Nghymru. Gallwn gael cyfle fel cenedl ddatganoledig i wneud yr hyn sy'n iawn i bobl Cymru.

**Peter Black:** Y gwahaniaeth mawr rhwng ein sefyllfa cyn mis Mai a'n sefyllfa ar ôl hynny yw, cyn mis Mai, roedd y mathau hyn o ddatleuon cadarn y mae Carl newydd sôn amdanynt yn ei ddatganiad yn digwydd y tu ôl i ddrysau caeedig. Mae Llywodraeth Cymru yn dweud yr un pethau, ond mae bellach yn defnyddio megaffon ac yn galw enwau yma a thraw. A yw mynd i'r afael â'r materion hyn yn y ffordd honno wir er y budd gorau i Gymru?

Roeddwn yn chwilfrydig pan glywais ddatganiad Carl, a phan ddarllenais y datganiad ymlaen llaw, oherwydd yn gynharach heddiw codais fater arbedion yn heddluoedd Cymru gyda Carwyn Jones, dim ond i glywed nad oedd y mater wedi ei ddatganoli. Yn sydyn, fodd bynnag, mae hyn wedi dod yn fater o ddiddordeb i bob un ohonom—ac yn wir, mae gennym ddiddordeb—ac yn ddigon i gyfiawnhau datganiad gweinidogol. Mae angen i'r Llywodraeth benderfynu a oes ganddi ddiddordeb yn yr heddlu yng Nghymru ai peidio. Os oes, dylai ddechrau ateb y math o gwestiynau rydym yn eu gofyn i Brif Weinidog Cymru ar sut mae gwneud yr heddluoedd hynny'n fwy effeithlon.

Weinidog, o ran adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, 'Cynnal gwerth am arian yng ngwasanaeth yr heddlu', dylech o leiaf gydnabod ei fod wedi nodi arbedion i'w gwneud o fewn yr heddluoedd: £14 miliwn drwy roi tasgau'r heddlu yn nwylo dinasyddion, a rhwng £24 miliwn a £35 miliwn mewn arbedion eraill y gellid eu gwneud heb fod yn ergyd i blismona rheng flaen. Yn y cyd-destun hwnnw, rhaid inni gymryd yr hyn a ddywedwch am effaith toriadau'r Llywodraeth ar yr heddlu â phinsied o halen. Rydych hefyd yn rhagweld pob math o sefyllfaoedd hunllefus ar gyfer yr heddluoedd cyn i'r adolygiad cynhwysfawr o wariant gael ei gyhoeddi hyd yn oed. Nid wyf yn gwybod beth sy'n cael ei gynnig ar gyfer heddluoedd Cymru. Gall pob un ohonom

100 jobs here or there. However, until the comprehensive spending review has been announced, we need to view the figures that you have used with some caution and acknowledge that this is all speculation. Your duty as a Minister, and our duty as an Assembly, is not just to scrutinise the police forces, which we partially fund through grants, but also to work proactively with the UK Government in trying to minimise the impact on Wales and trying to ensure that, when that comprehensive spending review is announced, we are there to protect Wales and Welsh police forces.

There are number of questions that I want to ask on the Police Reform and Social Responsibility Bill. I am not entirely enamoured of directly elected commissioners. It is important that we acknowledge that there is a Welsh context here, that police forces in Wales work in a different environment from those in England, and that there are significant disadvantages when their funds are top-sliced to pay for special grants for things in Birmingham, London and the other English metropolitan authorities. That was not addressed under the previous UK Government and has not been addressed under this UK Government either. We therefore have to make very strong representations to the UK Government that we should perhaps take responsibility for policing, so that we can realise that agenda in Wales and ensure that the police forces in Wales mirror our agenda rather than the UK agenda. Would you be willing, Minister, to take up that baton and talk to the UK Government along those lines?

The other aspect of this Bill that I want to refer to that has not been touched on either in your statement or by other Members relates to the provisions in the Bill on licensing. You will know that significant changes to the Licensing Act 2003 are proposed in this Bill, in terms of granting local authorities and the police much stronger powers to remove licences or to refuse to grant licences for premises that are causing problems, as well as banning the sale of alcohol below cost price and so forth. Have you made an

ddyfalu a dweud y byddwn yn colli 2,000 o swyddi, 1,000 o swyddi neu 100 o swyddi yma ac acw. Fodd bynnag, nes bydd yr adolygiad cynhwysfawr o wariant wedi cael ei gyhoeddi, mae angen inni edrych ar y ffigurau a ddefnyddiwyd gennych yn ofalus a chydabod mai dyfalu yw hyn oll. Nid dim ond craffu ar heddluoedd sy'n cael eu hariannu'n rhannol gennym drwy grantiau yw eich dyletswydd chi fel Gweinidog, na'n dyletswydd ninnau fel Cynulliad. Rydym hefyd i fod i weithio'n rhagweithiol gyda Llywodraeth y DU i geisio lleihau'r effaith ar Gymru a cheisio sicrhau, pan fydd yr adolygiad cynhwysfawr o wariant yn cael ei gyhoeddi, ein bod yno i amddiffyn Cymru a heddluoedd Cymru.

Mae gennyf nifer o gwestiynau i'w gofyn ynghylch y Bil Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol. Nid wyf yn rhy hoff o'r syniad o gomisiynwyr wedi eu hethol yn uniongyrchol. Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod bod cyd-destun Cymreig yma, bod heddluoedd Cymru yn gweithio mewn amgylchedd gwahanol i heddluoedd Lloegr, a bod anfanteision sylweddol pan fydd eu cyllid yn cael ei friddorri i dalu am grantiau arbennig ar gyfer pethau yn Llundain, Birmingham ac awdurdodau metropolitan eraill yn Lloegr. Ni roddwyd sylw i hynny o dan Lywodraeth flaenorol y DU na chan Lywodraeth bresennol y DU ychwaith. Felly, rhaid inni gyflwyno sylwadau cryf iawn i Lywodraeth y DU y dylem ni efallai ysgwyddo cyfrifoldeb dros blismona, er mwyn inni allu gwireddu'r agenda yng Nghymru a sicrhau bod yr heddluoedd yng Nghymru yn adlewyrchu ein hagenda ni yn hytrach nag agenda y DU. A fydddech yn fodlon, Weinidog, gafael yn y baton a siarad â Llywodraeth y DU ar y llinellau hynny?

Nid yw'r agwedd arall o'r Bil hwn rwyf am gyfeirio ati, sy'n berthnasol i'r darpariaethau yn y Bil Trwyddedu, wedi cael ei chyffwrdd, yn eich datganiad chi na chan Aelodau eraill. Byddwch yn gwybod bod newidiadau sylweddol i Ddeddf Trwyddedu 2003 yn cael eu cynnig yn y Bil hwn, o ran rhoi mwy o rym o lawer i awdurdodau lleol ac i'r heddlu i gael gwared ar drwyddedau neu i wrthod rhoi trwyddedau ar gyfer eiddo sy'n achosi problemau, yn ogystal â gwahardd gwerthu alcohol am bris is na'i gost ac yn y blaen. A

assessment of the applicability of the licensing proposals to Wales, and have you made an assessment of the outcomes of implementing them in Wales?

**Carl Sargeant:** I am glad that you raised the issue of what the difference is between the situation before May and the situation now. Back then, you lot were saying 'no' to tuition fees, and that has changed. You were also saying that you would protect public sector jobs in Wales, and that has changed as well. That is the difference between what was happening in May and what is happening now in Wales.

On your point on funding and savings, it is a difficult process. This is a non-devolved area. You said that the First Minister said that he should not answer questions on funding as the area is not devolved. The broader question was: do we have an interest in Welsh police forces? Absolutely. That is the key here. We are interested in what funding is coming across from Westminster to Wales when we are faced with having around 2,000 fewer police officers and support staff in the system in Wales.

I was interested to hear your reference to the Wales Audit Office report. I may have not heard you correctly, and I am happy for you to correct me if that is the case. You said that you supported the report's recommendation on 'civilianising' police posts. I do not think that it is appropriate to take police officers off the streets and give their posts to civilians. I think that that would be very risky in terms of operations in Wales. You say that we do not know the CSR numbers. You are quite right; we do not know the numbers. However, I do not believe that they are going to be good, and neither does anyone else in the country. As a Minister, I think that is prudent; we should be looking at the worst-case scenario in Wales. That is what I am doing, and what Ministers across the Welsh Assembly Government are also doing.

ydych wedi gwneud asesiad o ba mor berthnasol yw'r cynigion trwyddedu i Gymru, ac a ydych wedi asesu canlyniadau eu rhoi ar waith yng Nghymru?

**Carl Sargeant:** Rwyf yn falch eich bod wedi codi'r gwahaniaeth rhwng y sefyllfa cyn mis Mai a'r sefyllfa bresennol. Bryd hynny, roeddech chi i gyd yn dweud 'na' i ffioedd dysgu, ac mae hynny wedi newid. Roeddech hefyd yn dweud y bydddech yn diogelu swyddi yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, ac mae hynny wedi newid hefyd. Dyna'r gwahaniaeth rhwng yr hyn a oedd yn digwydd ym mis Mai a'r hyn sy'n digwydd yn awr yng Nghymru.

O ran eich pwynt ar gyllid a chynilion, mae'n broses anodd. Nid yw'r maes hwn wedi'i ddatganoli. Dywedoch fod y Prif Weinidog wedi dweud na ddylai ateb cwestiynau ar gyllid gan nad yw'r maes wedi'i ddatganoli. Y cwestiwn ehangach oedd: a oes gennym ddi-ddordeb yn heddluoedd Cymru? Wrth gwrs bod gennym. Dyna'r allwedd yma. Mae gennym ddi-ddordeb yn y cyllid sy'n dod o San Steffan i Gymru pan rydym yn wynebu cael oddeutu 2,000 yn llai o swyddogion yr heddlu a staff cefnogi yn y system yng Nghymru.

Diddorol oedd eich clywed yn cyfeirio at adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru. Efallai nad wyf wedi eich clywed yn iawn, ac rwyf yn fodlon ichi fy nghywiro os yw hynny'n wir. Dywedoch eich bod yn cefnogi argymhelliaid yr adroddiad ar roi swyddi'r heddlu yn nwylo dinasyddion. Nid wyf yn credu ei bod yn briodol tynnu swyddogion yr heddlu oddi ar y strydoedd a rhoi eu swyddi i ddinasyddion. Rwyf yn meddwl y byddai hynny'n beryglus iawn o ran gweithrediadau yng Nghymru. Dywedwch nad ydym yn gwybod beth yw ffigurau'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant. Rydych yn llygad eich lle; nid ydym yn gwybod beth yw'r ffigurau. Fodd bynnag, nid wyf yn credu y byddant yn dda, ac nid oes neb arall yn y wlad yn credu hynny ychwaith. Fel Gweinidog, credaf fod hynny'n ddoeth; dylem fod yn edrych ar y sefyllfa waethaf bosibl yng Nghymru. Dyna beth rwyf fi'n ei wneud, a dyna beth mae Gweinidogion ar draws Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud hefyd.

I am encouraged to hear that you also have concerns about directly elected commissioners, not least with regard to the funding element that comes to Wales. There are issues to do with the rural grant scheme and how that affects Wales in particular. I have written to the Home Office again about that recently. You raised an issue about licensing. I know that the Minister for Health and Social Services, Edwina Hart, has had a response on licensing, and I will ask her to write to you with the detail on that.

**Joyce Watson:** The independence of the police and the freedom that the Government allows them to perform their role is an essential ingredient of a fair and functional society. In late September this year, the four chief constables in Wales openly criticised the UK Government's proposals to install elected commissioners, insisting that a solution is being formed to a problem that does not exist. There are two main causes of concern surrounding this issue. First, the elected commissioner would be in a position to hire and fire chief constables, placing an unnecessary and significant additional burden on a position that already carries a substantial amount of pressure and responsibility. The move politicises a position that should be left strictly independent. The police are there to enforce the law and should be left alone to do their job.

The second issue is of a more practical nature. Why, when the cut-happy coalition is busy pressurising departments to make eye-watering cuts, does it plan to needlessly spend money on elections in each police authority? The Local Government Association has estimated the cost of administering these elections at £50 million. That is an obscene amount of money to be squandered in the current climate. How many jobs could be saved or training positions funded with that amount of money? I will shortly be meeting the chief constable to discuss the damaging cuts to the force that he will soon have to implement. I am sure that he, like the rest of his force, will struggle to see the justification for this injudicious waste of public funds. Minister, do you agree that

Mae'n galonogol clywed eich bod hefyd yn pryderu am gomisiynwyr wedi'u hethol yn uniongyrchol, yn enwedig o ran yr elfen gyllido sy'n dod i Gymru. Ceir materion yn ymwneud â'r cynllun grantiau gwledig a sut mae hynny'n effeithio ar Gymru yn benodol. Rwyf wedi ysgrifennu at y Swyddfa Gartref eto am hynny yn ddiweddar. Gwnaethoch sôn am drwyddedu. Gwn fod Edwina Hart, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, wedi cael ymateb ar drwyddedu, a gofynnaf iddi ysgrifennu atoch gyda'r manylion am hynny.

**Joyce Watson:** Mae annibyniaeth yr heddlu a'r rhyddid y mae'r Llywodraeth yn ei ganiatáu iddynt er mwyn cyflawni eu swyddogaethau yn elfen hanfodol o gymdeithas deg a gweithredol. Ddiwedd mis Medi eleni, bu'r pedwar prif gwnstabl yng Nghymru yn agored eu beirniadaeth am gynigion Llywodraeth y DU i gael comisiynwyr etholedig, gan fynnu bod hynny'n greu ateb i broblem nad yw'n bodoli. Ceir dau brif destun pryder ynghylch y mater hwn. Yn gyntaf, byddai'r comisiynydd etholedig yn cael cyflogi a diswyddo prif gwnstablaid, gan roi baich ychwanegol mawr a diangen ar swydd sydd â chryn dipyn o bwysau a chyfrifoldebau'n perthyn iddi eisoes. Mae hyn yn gwneud swydd wleidyddol o swydd a ddylai gael ei gadael yn gwbl annibynnol. Pwrpas yr heddlu yw gorfodi'r gyfraith a dylent gael heddwch i wneud eu gwaith.

Mae'r ail fater yn fwy ymarferol ei natur. Tra mae'r glymblaid sy'n hoff iawn o doriadau yn brysur yn pwysu ar adrannau i gyflwyno toriadau sy'n ddigon i ddod â dŵr i'ch llygaid, pam mae'n bwriadu gwario arian yn ddiangen ar gynnal etholiadau ym mhob un o awdurdodau'r heddlu? Mae'r Gymdeithas Llywodraeth Leol wedi amcangyfrif y bydd yn costio £50 miliwn i weinyddu'r etholiadau hyn. Mae hwnnw'n swm afresymol i'w wastraffu yn yr hinsawdd bresennol. Faint o swyddi fyddai'n gallu cael eu hachub gyda'r arian hwnnw neu faint o swyddi dan hyfforddiant fyddai'n gallu cael eu hariannu? Cyn hir byddaf yn cael cyfarfod â'r prif gwnstabl i drafod y toriadau niweidiol y bydd yn rhaid iddo eu rhoi ar waith gyda hyn yng ngwasanaeth yr heddlu. Rwyf yn siŵr ei fod

now is not the time to be spending £50 million of public money trying to reorganise a system that, in my opinion, is fit for purpose?

**Carl Sargeant:** Thank you for your contribution, Joyce. As I said earlier, supposedly, the issue is removing bureaucracy around the programme, but it is at a cost of £50 million and 2,000 potential jobs in Wales. The issue that we all need to get back to is what matters to the people on the street with regard to community safety and protection. I will be writing to the Home Secretary again after this statement, setting out Members' concerns and views. I will certainly take on board the contribution you have made today, Joyce. Thank you.

**Darren Millar:** Thank you for your statement, Minister. I appreciate your reference to me as a useful member of a police authority when I was a member of the North Wales Police Authority. Of course, one of my great frustrations as a member of that authority was that, very often, the members were not responsible and did not listen to public opinion on various matters, including the setting of precepts. Of course, that is the one thing that the Government wants to restore. It wants to restore to the people direct accountability for their policing. We know that policing should be by consent, and therefore that direct accountability must be in place. Although I accept that, at the moment, the majority of members of the police authorities in Wales—and England—are members of local authorities and that they have the balance of voting power, shall we say, that does not mean that there is direct accountability in place to the public for the actions and the decisions made by those Members, because they are not appointed by the public, but by local authorities to take up those posts on police authorities.

ef, fel gweddill ei heddlu, yn ei chael yn anodd gweld y cyfiawnhad dros wastraffu arian cyhoeddus mewn ffordd mor annoeth. Weinidog, a ydych yn cytuno nad nawr yw'r amser i wario £50 miliwn o arian cyhoeddus i geisio ad-drefnu system sydd, yn fy marn i, yn addas ar gyfer ei phwrpas?

**Carl Sargeant:** Diolch am eich cyfraniad, Joyce. Fel y dywedais yn gynharach, y nod yw dileu biwrocratiaeth o amgylch y rhaglen, ond bydd hynny'n costio £50 miliwn a 2,000 o swyddi posibl yng Nghymru. Y mater y mae angen i bob un ohonom ddychwelyd ato yw'r hyn sy'n bwysig i bobl ar y stryd o ran diogelwch cymunedol ac amddiffyn. Byddaf yn ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cartref eto ar ôl y datganiad hwn, gan nodi pryderon a safbwyntiau'r Aelodau. Byddaf yn sicr yn derbyn y cyfraniad a wnaethoch heddiw, Joyce. Diolch.

**Darren Millar:** Diolch am eich datganiad, Weinidog. Rwyf yn gwerthfawrogi'r ffaith eich bod wedi cyfeirio ataf fel aelod defnyddiol o awdurdod yr heddlu, pan oeddwn yn aelod o Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru. Wrth gwrs, un o'r prif bethau a oedd yn gwneud imi deimlo'n rhwystredig fel aelod o'r awdurdod hwnnw oedd y ffaith nad oedd yr aelodau'n gyfrifol ac nad oeddent yn gwrando ar farn y cyhoedd ar wahanol faterion, gan gynnwys gosod praeseptau. Wrth gwrs, dyna'r un peth y mae'r Llywodraeth am ei adfer. Mae am i'r bobl gael atebolrwydd uniongyrchol ar gyfer plismona unwaith eto. Rydym yn gwybod y dylai plismona fod yn rhywbeth sy'n digwydd drwy gydsyniad, ac felly ei bod yn rhaid sicrhau atebolrwydd uniongyrchol. Er fy mod yn derbyn bod y rhan fwyaf o aelodau awdurdodau'r heddlu yng Nghymru—ac yn Lloegr—ar hyn o bryd yn aelodau o awdurdodau lleol a bod ganddynt fantais o ran grym pleidleisio, ddywedwn ni, nid yw hynny'n golygu bod atebolrwydd uniongyrchol ar waith i'r cyhoedd ar gyfer y camau gweithredu nac ar gyfer y penderfyniadau y mae'r Aelodau hynny'n eu gwneud, gan nad ydynt wedi cael eu penodi gan y cyhoedd, ond yn hytrach wedi'u penodi gan awdurdodau lleol i dderbyn y swyddi hynny mewn awdurdodau heddlu.

3.50 p.m.

You can check the record of attendance at these meetings, and you might see that not all local authority members are good at managing to make themselves available for police authority meetings, which often means that the majority of members making decisions are members appointed by the Home Office. Therefore, I charge you, Minister, to come up—if you can—with a better and more directly accountable means of holding policing to account in Wales. I can come up with no better one than that proposed by the UK Government, which is why it has the wholehearted support of the Welsh Conservatives in this Chamber.

**Carl Sargeant:** It will not surprise you to hear that I do not agree with everything that you said in your contribution. The majority of members of police authorities are directly elected members. They are held to account by the ballot box—by the people who will choose whether they should be councillors or not. They are then appointed onto police authorities.

I know of your usefulness in north Wales, and I know how keen you were to oppose your Conservative group with regard to imposing a higher rate of the police precept than anywhere else in Wales. I also know that you had some difficulty in north Wales while representing your elected constituency as a police authority member. I believe that there are opportunities for the police authorities to be strengthened. Our proposals are not to say ‘no’ to the Home Secretary, but we are offering an alternative in terms of an elected member from within the police authority, who will be a directly elected commissioner from within. I am hopeful that the Home Secretary can open up further dialogue in taking this forward, and that we do not just get a complete ‘no’. Wales is a different place. In terms of operational circumstances for police forces in the UK, we are very different; we are a devolved nation and we should be treated with respect.

Gallwch edrych ar gofnod presenoldeb y cyfarfodydd hyn, ac efallai y byddwch yn gweld nad yw pob aelod o awdurdod lleol yn llwyddo i gyrraedd cyfarfodydd awdurdod yr heddlu. Mae hynny'n aml yn golygu bod y mwyafrif o aelodau sy'n gwneud penderfyniadau yn aelodau a benodwyd gan y Swyddfa Gartref. Felly, rwyf yn gofyn ichi, Weinidog, ddod o hyd—os gallwch—i ffordd well a mwy uniongyrchol o ddal plismona yn atebol yng Nghymru. Ni allaf ddod o hyd i ateb gwell na'r un sy'n cael ei gynnig gan Lywodraeth y DU, a dyna pam y mae'n cael cefnogaeth lwyr y Ceidwadwyr Cymreig yn y Siambr hon.

**Carl Sargeant:** Ni fydd yn syndod ichi glywed nad wyf yn cytuno â phopeth a ddywedwyd gennych yn eich cyfraniad. Mae'r rhan fwyaf o aelodau awdurdodau'r heddlu yn aelodau sy'n cael eu hethol yn uniongyrchol. Maent yn cael eu dal yn gyfrifol gan y blwch pleidleisio—gan y bobl a fydd yn dewis a ddylent fod yn gynghorwyr ai peidio. Yna maent yn cael eu penodi ar awdurdodau'r heddlu.

Gwn pa mor ddefnyddiol rydych yn y gogledd, a gwn pa mor awyddus yr oeddech i wrthwynebu eich grŵp Ceidwadol pan roeddent am osod praesept yr heddlu ar gyfradd uwch nag yn unman arall yng Nghymru. Rwyf hefyd yn gwybod ichi gael rhywfaint o anhawster yn y gogledd wrth gynrychioli eich etholaeth fel aelod o awdurdod yr heddlu. Rwyf yn credu bod cyfleoedd i gryfhau awdurdodau'r heddlu. Nid yw ein cynigion yn dweud ‘na’ i'r Ysgrifennydd Cartref, ond rydym yn cynnig dewis arall, sef aelod etholedig o fewn awdurdod yr heddlu, a fydd yn gomisiynydd wedi'i ethol yn uniongyrchol o'r tu mewn. Rwyf yn gobeithio y gall yr Ysgrifennydd Cartref gychwyn trafodaethau pellach i fwrw ymlaen â hyn, ac nad ydym yn cael dim byd ond ‘na’. Mae Cymru yn lle gwahanol. O ran yr amgylchiadau i heddluoedd y DU weithredu ynddynt, rydym yn wahanol iawn; rydym yn wlad ddatganoledig a dylem gael ein trin â pharch.

## **Datganiad am y Strategaeth Addysg Uwch Statement on the Higher Education Strategy**

### **The Minister for Children, Education and Lifelong Learning (Leighton Andrews):**

Today, Lord Browne published his proposals for higher education funding and student finance in England. It would be premature to issue a detailed response to the proposals today. We will digest the report and respond in due course, having also seen the final response from the UK Government and the outcome of the comprehensive spending review.

Lord Browne's report recommends the removal of the tuition fee cap in England, allowing fees to rise to £6,000 or even higher; greater competition between higher education institutions in England for students; the removal of public subsidy for courses other than priority courses, meaning that higher education institution income will principally be dependent on student numbers, and there will be cuts in public spending on higher education in England accordingly; changes to student support arrangements, including for part-time students; and changes to the bodies regulating higher education in England, two of which are cross-border.

Lord Browne's report anticipates that the teaching grant for higher education institutions in England will be cut by 80 per cent, from £3.5 billion to £700 million. He also acknowledges that a fee of £6,000

'may be less than the charge that institutions need to make to replace the...funding that is removed from the system'.

Approximately 16,000 Welsh undergraduates study in England; therefore, these proposals would have a direct and immediate impact on our budgets. To illustrate, charging a £7,000 fee to Welsh students going to English universities could result in a cost to the Welsh Assembly Government of an additional £70 million by 2015-16. Of this, £55 million would effectively flow from the Welsh block into English universities.

### **Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu**

**Gydol Oes (Leighton Andrews):** Heddiw, cyhoeddodd yr Arglwydd Browne ei gynigion ar gyfer cyllid addysg uwch a chyllid myfyrwyr yn Lloegr. Byddai'n rhy fuan ymateb yn fanwl i'r cynigion heddiw. Byddwn yn ystyried yr adroddiad ac yn ymateb maes o law, ar ôl gweld ymateb terfynol Llywodraeth y DU a chanlyniad yr adolygiad cynhwysfawr o wariant.

Mae adroddiad yr Arglwydd Browne yn argymhell y dylid dileu'r cap ar ffioedd dysgu yn Lloegr, gan ganiatáu i ffioedd godi i £6,000 neu uwch hyd yn oed; mwy o gystadleuaeth rhwng sefydliadau addysg uwch yn Lloegr i fyfyrwyr; cael gwared ar gymorthdaliadau cyhoeddus ar gyfer cyrsiau ar wahân i gyrsiau sy'n cael blaenoriaeth, sy'n golygu y bydd incwm sefydliadau addysg uwch yn dibynnu'n bennaf ar nifer y myfyrwyr, ac y bydd toriadau mewn gwariant cyhoeddus ar addysg uwch yn Lloegr yn unol â hynny; newidiadau i drefniadau cymorth i fyfyrwyr, gan gynnwys ar gyfer myfyrwyr rhan-amser; a newidiadau i'r cyrff sy'n rheoleiddio addysg uwch yn Lloegr—dau ohonynt yn drawsffiniol.

Mae adroddiad yr Arglwydd Browne yn rhagweld y bydd y grant addysgu ar gyfer sefydliadau addysg uwch yn Lloegr yn cael ei leihau 80 y cant, o £3.5 biliwn i £700 miliwn. Mae hefyd yn cydnabod y gallai £6,000 o ffi

fod yn llai na'r tâl y mae angen i sefydliadau ei wneud i gymryd lle'r...cyllid sy'n cael ei dynnu o'r system.

Mae oddeutu 16,000 o israddedigion Cymru yn astudio yn Lloegr, felly byddai'r cynigion hyn yn cael effaith uniongyrchol ar ein cyllidebau, a hynny ar unwaith. I ddangos hyn, gallai codi £7,000 o ffi ar fyfyrwyr o Gymru sy'n mynd i brifysgolion yn Lloegr arwain at £70 miliwn o gost ychwanegol i Lywodraeth Cynulliad Cymru erbyn 2015-16. O'r swm hwn, byddai £55 miliwn i bob pwrpas yn llifo o floc Cymru i brifysgolion

Lloegr.

I am grateful to Lord Browne for a private briefing on his proposals last month. I have observed the confidentiality of that discussion for the past five weeks. I am also grateful to the universities Minister for England, David Willetts, for the conversations that we had. Again, I have respected those confidences. Mr Willetts told the Universities UK conference on 9 September that he expected to implement the reforms in England from the start of the 2012-13 academic year, and set out a possible consultative and legislative process. We will need to have further discussions with the UK Government on a range of issues.

In the 'One Wales' programme for government, we committed ourselves to doing whatever possible to mitigate the effects on students ordinarily resident in Wales if the Westminster Government lifts the cap on fees. We made it clear that our policies would widen participation in education; would maximise the economic, social and cultural impact of universities on learners and the wider community; will require universities to work together to make the most of their resources; and provide the widest possible range of opportunities for students, with a higher education system that is responsive to the needs of students, employers and the wider community and economy, and which assists us in tackling poverty and disadvantage.

The Assembly Government has a responsibility to students ordinarily resident in Wales, wherever they choose to study, and to the Welsh higher education sector. Our response will be based on 'One Wales' and the higher education strategy that flowed from it, 'For our Future', in which we set out our objectives for higher education in Wales. We stated that we would build the future of higher education on the secure foundations of social justice and supporting a buoyant economy.

Central to our policy is the principle that access to higher education should be on the

Rwyf yn ddiolchgar i'r Arglwydd Browne am y sesiwn wybodaeth breifat ar ei gynigion y mis diwethaf. Rwyf wedi glynu wrth gyfrinachedd y drafodaeth honno am y pum wythnos diwethaf. Rwyf hefyd yn ddiolchgar i David Willetts, y Gweinidog dros Brifysgolion yn Lloegr, am y sgysiau a gawsom. Unwaith eto, rwyf wedi parhau cyfrinachedd hynny. Yng nghynhadledd Universities UK ar 9 Medi, dywedodd Mr Willetts ei fod yn disgwyl rhoi'r diwygiadau ar waith yn Lloegr o ddechrau blwyddyn academiaidd 2012-13 ymlaen, a soniodd am broses ddeddfwriaethol ac ymgynghorol bosibl. Bydd angen inni gael trafodaethau pellach gyda Llywodraeth y DU ar amrywiaeth o faterion.

Yn rhaglen lywodraethu 'Cymru'n Un', gwnaethom ymrwymo ein hunain i wneud popeth o fewn ein gallu i liniaru'r effaith ar fyfyrwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru os bydd Llywodraeth San Steffan yn codi'r cap ar ffioedd. Gwnaethom egluro y byddai ein polisiau yn ehangu cyfranogiad ym myd addysg; yn hybu i'r eithaf effaith gymdeithasol, ddiwylliannol ac economaidd prifysgolion ar ddysgwyr a'r gymuned ehangach; yn gofyn i brifysgolion weithio gyda'i gilydd i fanteisio i'r eithaf ar eu hadnoddau; ac yn darparu'r ystod ehangaf posibl o gyfleoedd i fyfyrwyr, gyda system addysg uwch sy'n ymateb i anghenion myfyrwyr, cyflogwyr a'r economi a'r gymuned ehangach, gan ein cynorthwyo i fynd i'r afael â thlodi ac anfantais.

Mae gan Lywodraeth y Cynulliad gyfrifoldeb tuag at fyfyrwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru—lle bynnag y byddant yn dewis astudio—ac i sector addysg uwch Cymru. Bydd ein hymateb yn seiliedig ar 'Cymru'n Un' a'r strategaeth addysg uwch a ddeilliodd o'r ddogfen honno, 'Er Mwyn Ein Dyfodol', lle rydym yn nodi ein hamcanion ar gyfer addysg uwch yng Nghymru. Gwnaethom ddatgan y byddem yn adeiladu dyfodol addysg uwch ar sylfeini cadarn cyfiawnder cymdeithasol ac yn cefnogi economi lewyrchus.

Yn ganolog i'n polisi y mae'r egwyddor y dylai mynediad at addysg uwch fod ar sail



basis of the individual's potential to benefit, and not on the basis of what they can afford to pay. We do not wish to see the development of a market in higher education where institutions compete on price and students choose their courses or institutions on the basis of relative cost.

Lord Browne's review further shifts the burden of paying for higher education from the state to the graduate and will, we believe, result in a largely market-based system where institutions increasingly compete on cost, not quality. Equality of opportunity, strong community ties and a rich cultural and linguistic heritage cannot be left to the market. The state cannot shirk its responsibility to intervene to secure inclusion and to build community cohesion.

The National Assembly voted in 2005 for the introduction of deferred, variable, fees on a motion from all four party leaders. The One Wales Government put new proposals to the National Assembly in 2009, which have come into operation from this academic year. We would prefer not to have to amend those proposals. However, we cannot afford to subsidise the higher education system in England.

The One Wales Government does not believe in full-cost or near full-cost fees. We question the long-term sustainability of Lord Browne's approach in a world where higher education institutions in Europe are offering high-quality courses through the medium of English at low or no fees. We believe that the Browne proposals, coupled with anticipated cuts in higher education expenditure, will mean a market in higher education that could destabilise significant numbers of higher education institutions in England and lead to a reduction in applicants from lower income families.

The Secretary of State for Business, Innovation and Skills is making a statement

potensial yr unigolyn i gael budd, ac nid ar sail yr hyn y gall fforddio ei dalu. Nid ydym yn dymuno gweld marchnad yn datblygu mewn addysg uwch, gyda sefydliadau'n cystadlu ar sail pris a myfyrwyr yn dewis eu cyrsiau neu'u sefydliadau ar sail y gost gymharol.

Mae adolygiad yr Arglwydd Browne hefyd yn symud y baich o dalu am addysg uwch oddi wrth y wladwriaeth i'r graddedigion. Bydd hynny, yn ein barn ni, yn arwain at system sy'n seiliedig ar farchnad i raddau helaeth, lle mae sefydliadau yn mynd ati fwyfwy i gystadlu ar sail cost yn hytrach nag ansawdd. Ni ellir gadael cyfle cyfartal, cysylltiadau cymunedol cryf a threftadaeth ddiwylliannol ac ieithyddol gyfoethog yn nwylo'r farchnad. Ni all y wladwriaeth esgeuluso'i chyfrifoldeb i gamu i mewn i sicrhau cynhwysiant ac i adeiladu cydlynad cymunedol.

Yn 2005, pleidleisiodd y Cynulliad Cenedlaethol dros gyflwyno ffioedd amrywiadwy a gohiriedig ar gynnig gan arweinwyr y pedair plaid. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru'n Un gynigion newydd i'r Cynulliad Cenedlaethol yn 2009, ac mae'r rheini wedi dod i rym ar gyfer y flwyddyn academaidd hon. Byddem yn falch pe na byddem yn gorfod diwygio'r cynigion hynny. Fodd bynnag, ni allwn fforddio sybsideiddio'r system addysg uwch yn Lloegr.

Nid yw Llywodraeth Cymru'n Un yn credu mewn talu ffioedd yn llawn nac mewn talu ffioedd bron yn llawn. Rydym yn cwestiynu cynaliadwyedd hirdymor dull gweithredu'r Arglwydd Browne mewn byd lle mae sefydliadau addysg uwch yn Ewrop yn cynnig cyrsiau o safon uchel drwy gyfrwng y Saesneg am ffioedd isel neu ddim ffioedd o gwbl. Rydym yn credu y bydd cynigion Browne, ynghyd â'r toriadau a ragwelir mewn gwariant addysg uwch, yn arwain at farchnad mewn addysg uwch a allai ansefydlogi nifer sylweddol o sefydliadau addysg uwch yn Lloegr ac arwain at ostyngiad yn nifer yr ymgeiswyr o deuluoedd sydd ar incwm is.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesi a Sgiliau yn gwneud datganiad yn

in the House of Commons this afternoon. However, we do not expect the final response from the UK Government until after the comprehensive spending review. The One Wales Government will explore, over the next few weeks, our response to Browne, and we will do so with an open mind. Everything will be on the table, including revisions to the proposals previously outlined by my predecessor, which have come into effect this year.

4.00 p.m.

We remain convinced that radical change to structure, organisation and delivery is the only way to transform the impact of higher education on Wales's prosperity and wellbeing. We will do that on the basis of our strategy, 'For our Future'. We have made it clear that, in Wales, we believe in planning the future of higher education, rather than letting the market rule.

**Paul Davies:** I first of all thank the Minister for his statement today. As I am sure that we all agree, higher education is essential to securing a thriving Welsh economy. I appreciate that this statement was made today in the light of the Labour peer Lord Browne's report into HE in England, which, for the record, was commissioned by Lord Mandelson, the previous Labour Minister in November 2009. I also appreciate that the Minister will respond to this review in due course, but I would like him to confirm the timescales involved in the Assembly Government giving its response. Can the Minister indicate when he is likely to give further statements on the Government's response to this review in England?

He has made it clear during his tenure as Minister for education that the higher education sector in Wales needs to change and to do so quickly. This is what the Browne review also suggests today. I was pleased to note in his statement last term that HEFCW will devise new funding methods and criteria from 2011. That is welcome news, given that the PricewaterhouseCoopers

Nhŷ'r Cyffredin y prynhawn yma. Fodd bynnag, nid ydym yn disgwyl ymateb terfynol gan Lywodraeth y DU tan ar ôl yr adolygiad cynhwysfawr o wariant. Bydd Llywodraeth Cymru'n Un yn ystyried, yn ystod yr wythnosau nesaf, ein hymateb i Browne, a byddwn yn gwneud hynny gyda meddwl agored. Bydd popeth ar y bwrdd, gan gynnwys newidiadau i'r cynigion a amlinellwyd yn flaenorol gan fy rhagflaenydd, sydd wedi dod i rym eleni.

Rydym yn dal yn argyhoeddedig mai'r unig ffordd i drawsnewid effaith addysg uwch ar ffyniant a lles Cymru yw newid y strwythur, y drefniadaeth a'r ddarpariaeth yn radical. Byddwn yn gwneud hynny ar sail ein strategaeth, 'Er Mwyn Ein Dyfodol'. Rydym wedi ei gwneud yn glir ein bod ni yng Nghymru yn credu mewn cynllunio dyfodol addysg uwch, yn hytrach na gadael i'r farchnad reoli.

**Paul Davies:** Yn gyntaf oll, hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad heddiw. Rwyf yn siŵr ein bod i gyd yn gytŷn bod addysg uwch yn hanfodol i sicrhau bod economi Cymru yn ffynnu. Rwyf yn sylweddoli bod y datganiad hwn wedi cael ei wneud heddiw yn wyneb adroddiad un o Arglwyddi'r Blaid Lafur, yr Arglwydd Browne, i addysg uwch yn Lloegr. Er gwybodaeth, comisiynwyd yr adroddiad gan yr Arglwydd Mandelson, y Gweinidog Llafur blaenorol ym mis Tachwedd 2009. Rwyf hefyd yn gwerthfawrogi y bydd y Gweinidog yn ymateb i'r adolygiad hwn maes o law, ond hoffwn iddo gadarnhau'r amserlenni dan sylw ar gyfer cael ymateb gan Lywodraeth y Cynulliad. A all y Gweinidog nodi pryd mae'n debygol o roi datganiadau pellach ar ymateb y Llywodraeth i'r adolygiad hwn yn Lloegr?

Mae wedi dangos yn glir yn ystod ei gyfnod fel y Gweinidog dros Addysg bod angen newid y sector addysg uwch yng Nghymru, a hynny'n gyflym. Dyna beth mae adolygiad Browne hefyd yn ei awgrymu heddiw. Roeddwn yn falch o nodi yn ei ddatganiad y tymor diwethaf y bydd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn dyfeisio meini prawf a dulliau ariannu newydd o 2011

review stated that only 48 per cent of university spending went on teaching, research and knowledge transfer and 52 per cent went on support services. I note that HEFCW has produced a corporate plan and strategy on its website, detailing some aspects of this research work that it is carrying out. While I fully appreciate that that research is from 2011, can the Minister outline what progress has been made in recent months and the specific role that the Welsh Assembly Government has been playing, and will play, to aid HEFCW in this exercise?

The target set by HEFCW is that 75 per cent of HE institutions in Wales will have an annual income above the UK median by 2013. That is challenging, given that only 36 per cent of institutions in Wales currently have an annual income that is above the UK median. I look forward to hearing about the progress that is being made with regard to that target. Perhaps the Minister would care to take this opportunity to give us a report on progress in his response.

Further and higher education are crucial to establishing social justice and economic prosperity in Wales. While we all appreciate that public finances will be extremely tight during the next few years, it remains essential that funding for FE and HE is as efficient as possible. The issue of collaboration has also been a huge part of the Minister's strategy. As his statement in June mentioned, it is likely that, in the next few years, there will be fewer vice-chancellors. It is clear that he is working to decrease the number of HE institutions in Wales and that he believes that HE providers, after merging, will be larger and stronger. However, some will argue that bigger is not always better, and that larger institutions could lead to centralisation, making them more remote and leading to less choice for those students who are not free to leave home and live away at university.

ymlaen. Mae hynny'n newyddion da, o ystyried bod adolygiad PricewaterhouseCoopers yn datgan mai dim ond 48 y cant o wariant prifysgolion oedd yn mynd tuag at addysgu, gwaith ymchwil a throsglwyddo gwybodaeth, a bod 52 y cant yn mynd tuag at wasanaethau cymorth. Nodaf fod gan CCAUC gynllun corfforaethol a strategaeth ar ei wefan, sy'n rhoi manylion rhai elfennau o'r gwaith ymchwil y mae'n ei gynnal. Er fy mod yn llwyr sylweddoli mai ar gyfer 2011 ymlaen y mae'r gwaith ymchwil, a all y Gweinidog amlinellu pa gynnydd a wnaed yn ystod y misoedd diwethaf a pha rôl benodol y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod yn ei chwarae, ac y bydd yn ei chwarae, er mwyn cynorthwyo CCAUC yn hyn o beth?

Y targed a osodwyd gan CCAUC yw y bydd incwm blynyddol 75 y cant o sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn uwch na ffigur canolrif y DU erbyn 2013. Mae hynny'n dipyn o her, o ystyried mai dim ond 36 y cant o sefydliadau yng Nghymru ar hyn o bryd sydd ag incwm blynyddol sy'n uwch na ffigur canolrif y DU. Edrychaf ymlaen at glywed am y cynnydd sy'n cael ei wneud yng nghyswllt y targed hwnnw. Efallai y byddai'r Gweinidog yn hoffi manteisio ar y cyfle hwn i roi adroddiad ar gynnydd yn ei ymateb.

Mae addysg bellach ac uwch yn hanfodol i sicrhau cyfiawnder cymdeithasol a ffyniant economaidd yng Nghymru. Er ein bod i gyd yn sylweddoli y bydd cyllid cyhoeddus yn eithriadol o dynn yn ystod y blynyddoedd nesaf, mae'n dal yn hanfodol bod cyllid ar gyfer addysg bellach ac addysg uwch mor effeithlon ag y bo modd. Mae cydweithio hefyd wedi bod yn rhan enfawr o strategaeth y Gweinidog. Fel y soniodd yn ei ddatganiad ym mis Mehefin, mae'n debyg y bydd llai o is-gangellorion yn ystod y blynyddoedd nesaf. Mae'n amlwg ei fod yn gweithio i leihau nifer y sefydliadau addysg uwch yng Nghymru a'i fod yn credu y bydd darparwyr addysg uwch, ar ôl uno, yn fwy ac yn gryfach. Fodd bynnag, bydd rhai yn dadlau nad yw mwy bob amser yn well, ac y gallai sefydliadau mwy arwain at ganoli, gan eu gwneud yn fwy anghysbell ac arwain at lai o ddewis ar gyfer y myfyrwyr hynny nad ydynt yn gallu gadael cartref a byw oddi cartref yn y brifysgol.

In the Minister's statement, last term, he said that, over time, he expected to see an increasing proportion of higher education taking place on a part-time and more flexible basis. Given the circumstances, perhaps he would be kind enough to tell us how that will work with fewer HE institutions, especially if he will need to amend his current proposals in light of today's report.

Two weeks ago, during questions, the Minister said that the *coleg ffederal* is on track and that its budget is appropriate for its needs. Will the Minister confirm that today's statement will not change the progress being made to create the *coleg ffederal* or, as I understand that it will now be called, the *coleg Cymreig cenedlaethol*? Will he outline the developments that have taken place in recent months, as this is crucial to both Welsh-medium education and the higher education sector?

The Minister made it absolutely clear from today's statement that he feels that Lord Browne's proposals, if implemented, will mean a market-based system. However, when the Minister uses the term 'market', and although we might disagree on its meaning in this context, I am sure that he will agree that it is imperative that students from all backgrounds are given choice and that students need freedom within the education system to be able to attend the university of their choice. Could the Minister explain how, if these proposals are implemented in England, he envisages these plans affecting the current strategy that the Welsh Assembly Government has in place for students?

Finally, I thank the Minister for his statement this afternoon. I am aware that the higher education world in Wales is changing, and I hope that we can ensure a healthy higher education sector in Wales for the future.

**Leighton Andrews:** I thank the opposition spokesperson for his response, but I note that he had nothing to say about the content of

Yn natganiad y Gweinidog y tymor diwethaf, dywedodd ei fod, dros amser, yn disgwyl gweld mwy a mwy o addysg uwch yn cael ei chynnal ar sail ran-amser a mwy hyblyg. O ystyried yr amgylchiadau, efallai y byddai'n ddigon caredig i ddweud wrthym sut y bydd hynny'n gweithio gyda llai o sefydliadau addysg uwch, yn enwedig os bydd angen iddo ddiwygio ei gynigion presennol yn wyneb yr adroddiad heddiw.

Bythefnos yn ôl, yn ystod y cwestiynau, dywedodd y Gweinidog fod y coleg ffederal ar y trywydd iawn a bod ei gyllideb yn briodol ar gyfer ei anghenion. A wnaiff y Gweinidog gadarnhau na fydd datganiad heddiw yn newid y datblygiadau sydd ar y gweill i greu'r coleg ffederal, neu'r Coleg Cymreig Cenedlaethol fel y bydd yn cael ei alw yn awr o beth rwyf yn ei ddeall? A wnaiff amlinellu'r datblygiadau sydd wedi digwydd dros y misoedd diwethaf, gan fod hyn yn hanfodol i addysg cyfrwng Cymraeg ac i'r sector addysg uwch?

Yn ei ddatganiad heddiw, dywedodd y Gweinidog yn glir ei fod yn teimlo y byddai cynigion yr Arglwydd Browne, pe baent yn cael eu gwireddu, yn arwain at system a fyddai'n seiliedig ar farchnad. Fodd bynnag, pan fydd y Gweinidog yn defnyddio'r gair 'marchnad', ac er y byddwn efallai'n anghytuno ar ei ystyr yn y cyd-destun hwn, rwyf yn siŵr y bydd yn cytuno ei bod yn hanfodol bod myfyrwyr o bob cefndir yn cael dewis, a bod ar fyfyrwyr angen rhyddid o fewn y system addysg i allu mynychu'r brifysgol o'u dewis. Os caiff y cynigion hyn eu rhoi ar waith yn Lloegr, a allai'r Gweinidog egluro sut y mae'n rhagweld y bydd y cynlluniau hyn yn effeithio ar strategaeth bresennol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer myfyrwyr?

I gloi, diolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad y prynhawn yma. Rwyf yn ymwybodol bod y byd addysg uwch yng Nghymru yn newid, ac rwyf yn gobeithio y gallwn sicrhau sector addysg uwch iach yng Nghymru ar gyfer y dyfodol.

**Leighton Andrews:** Diolch i Lefarydd yr Wrthblaid am ei ymateb, ond nodaf nad oedd ganddo ddim i'w ddweud am gynnwys yr hyn

what Lord Browne has outlined today. We will respond to Lord Browne as necessary in line with our own higher education strategy, 'For our Futures', as I said in my statement. If anything, I believe that the context that higher education in the UK is now potentially entering is one that will require even faster change from our higher education institutions in Wales, and even stronger institutions in the future, which will mean more collaboration. We need to implement the corporate strategy of HEFCW, which will result in fewer, but stronger, higher education institutions in Wales by 2013.

I have to say that I thought that it was extraordinary that the opposition spokesperson had nothing to say about the additional costs that Welsh students who wish to study in England are likely to face on the basis of the report that Lord Browne has outlined today. It is likely, under the scenarios that are painted in that report, that fees will have to rise by a minimum of £6,000 simply to replace the cuts in the teaching grant that the Government would have to implement if it were implementing Lord Browne's proposals. You can see in the detail of Lord Browne's report that the teaching grant would be cut in England from £3.5 billion to £700 million. That is a cut of around 80 per cent. That tells us, perhaps, what is in store in the comprehensive spending review next week, but the opposition spokesperson had nothing to say about those two principal features of the Browne report. I think that that is a ducking of responsibility today.

**Nerys Evans:** Thank you for the statement, Minister. Today is a dark day for equal opportunities in higher education, and for social justice. As you mentioned, although today's announcement by Lord Browne was a report to the UK Government regarding the funding of HE in England, it has massive implications for Wales. Thank you, Minister, for bringing this statement to the Chamber and giving us an opportunity to ask questions.

We are separate countries, of course, with

y mae'r Arglwydd Browne wedi'i amlinellu heddiw. Fel y dywedais yn fy natganiad, byddwn yn ymateb i'r Arglwydd Browne yn ôl yr angen yn unol â'n strategaeth addysg uwch ein hunain, 'Er Mwyn Ein Dyfodol'. Os rhywbeth, credaf fod addysg uwch y DU yn symud i gyd-destun a fydd yn gofyn am newid cyflymach hyd yn oed gan ein sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, a sefydliadau cryfach hyd yn oed yn y dyfodol, a bydd angen rhagor o gydweithio ar gyfer hynny. Mae angen inni weithredu strategaeth gorfforaethol CCAUC, a fydd yn arwain at lai o sefydliadau addysg uwch yng Nghymru erbyn 2013, ond bydd y rheini'n gryfach.

Rhaid imi ddweud fy mod yn credu ei bod yn rhyfeddol nad oedd gan Lefarydd yr Wrthblaid ddim byd i'w ddweud am y costau ychwanegol y mae myfyrwyr o Gymru sy'n dymuno astudio yn Lloegr yn debygol o'u hwynebu ar sail yr adroddiad y mae'r Arglwydd Browne wedi'i amlinellu heddiw. Mae'n debygol, o dan y senarios sy'n cael eu cyfleu yn yr adroddiad hwnnw, y bydd ffioedd yn gorfod codi o leiaf £6,000 dim ond i gymryd lle'r toriadau yn y grant addysgu y byddai'n rhaid i'r Llywodraeth eu rhoi ar waith pe bai'n gweithredu cynigion yr Arglwydd Browne. Gallwch weld ym manylion adroddiad yr Arglwydd Browne y byddai'r grant addysgu yn cael ei leihau o £3.5 biliwn i £700 miliwn yn Lloegr. Mae hynny'n ostyngiad o tua 80 y cant. Mae hynny'n dweud wrthym, efallai, beth y gallwn ei ddisgwyl yn yr adolygiad cynhwysfawr o wariant yr wythnos nesaf, ond nid oes gan Lefarydd yr Wrthblaid ddim i'w ddweud am y ddwy nodwedd bwysig honno yn adroddiad Browne. Credaf mai osgoi cyfrifoldeb yw hynny heddiw.

**Nerys Evans:** Diolch am y datganiad, Weinidog. Mae heddiw yn ddiwrnod du i gyfle cyfartal mewn addysg uwch, ac i gyfiawnder cymdeithasol. Fel y sonioch, er mai adroddiad i Lywodraeth y DU ynghylch cyllido addysg uwch yn Lloegr oedd y cyhoeddiad a gafwyd heddiw gan yr Arglwydd Browne, mae ganddo oblygiadau enfawr i Gymru. Diolch, Weinidog, am ddod â'r datganiad hwn i'r Siambr ac am roi cyfle inni ofyn cwestiynau.

Rydym yn wledydd ar wahân, wrth gwrs,

separate funding streams, but we compete in the same higher education market. Today's announcement affects not only the affordability of the Welsh Government's policy on funding higher education, but it also affects students from Wales going to England, and the funding that the Assembly Government gets through the Barnett formula as a result of any reduction in funding for HE in England, as you outlined.

The Labour Party introduced fees in higher education in England in 2005, and relied on votes by Welsh Labour MPs to get the Bill through. The Assembly, of course, voted against fees in Wales. Fees of £3,000 in England had a massive effect on the sector in Wales, and changes were made to the system here, with the Welsh Government paying for the top-up element for Welsh-domiciled students. However, what we see today is a devastating attack on the accessibility of higher education. If implemented, these proposals will make higher education attainable only by the wealthiest in society, and will increase and accelerate the wealth polarisation that we already have in the UK, with only the wealthy being able to get graduate employment, such as work as doctors, lawyers and so on.

4.10 p.m.

It is absolutely unacceptable that access to higher education will depend on the size of your wallet. Do you therefore agree, Minister, that it is utterly shameful that the Conservatives and the Lib Dems are bringing market forces into the higher education sector? Is it not deplorable that despite their pledges before the election, the Lib Dems are helping their Tory buddies to decrease the role of Government and bring in their harmful market values into the education sector? Education is a critical public service that should be available to all. If fees rise to £7,000 a year, within five years, some students will be leaving university up to £44,000 in debt. That would be a disaster. If we have learned one thing from this economic crisis, it is that you cannot build a future on debt. Those are not my words, but

gyda ffrydiau cyllido gwahanol, ond rydym yn cystadlu yn yr un farchnad addysg uwch. Mae cyhoeddiad heddiw yn effeithio nid yn unig ar fforddiadwyedd polisi Llywodraeth Cymru ar gyllido addysg uwch, ond ar fyfyrwyr o Gymru sy'n mynd i Loegr hefyd, ac ar y cyllid y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei gael drwy fformiwla Barnett o ganlyniad i unrhyw ostyngiad mewn cyllid ar gyfer addysg uwch yn Lloegr, fel yr amlinellwyd gennych.

Cyflwynodd y Blaid Lafur ffioedd mewn addysg uwch yn Lloegr yn 2005, gan ddibynnu ar bleidleisiau Aelodau Seneddol Llafur Cymru i fynd â'r Bil rhagddo. Mae'r Cynulliad, wrth gwrs, wedi pleidleisio yn erbyn ffioedd yng Nghymru. Cafodd ffioedd o £3,000 yn Lloegr effaith enfawr ar y sector yng Nghymru, a gwnaed newidiadau i'r system yma, gyda Llywodraeth Cymru yn talu am yr elfen atodol i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru. Fodd bynnag, yr hyn a welwn heddiw yw ymosodiad dinistriol ar hygyrchedd addysg uwch. Os caiff y cynigion hyn eu gweithredu, ni fydd addysg uwch o fewn cyrraedd neb ond y rhai mwyaf cefnog yn y gymdeithas, a bydd y polareiddiad cyfoeth sydd eisoes yn digwydd yn y DU yn cynyddu ac yn cyflymu, gyda dim ond y cyfoethog yn gallu cael cyflogaeth graddedigion, er enghraifft gwaith fel meddygon, cyfreithwyr ac yn y blaen.

Mae'n gwbl annerbyniol y bydd mynediad at addysg uwch yn dibynnu ar faint eich waled. A ydych yn cytuno felly, Weinidog, ei bod yn hollol warthus bod y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn dod â grymoedd y farchnad i'r sector addysg uwch? Onid yw'n resyn bod y Democratiaid Rhyddfrydol, er gwaethaf eu haddewidion cyn yr etholiad, yn helpu eu cyfeillion Toriaidd i leihau rôl y Llywodraeth ac i ddod â'u gwerthoedd marchnad niweidiol i'r sector addysg? Mae addysg yn wasanaeth cyhoeddus hanfodol a ddylai fod ar gael i bawb. Os bydd ffioedd yn codi i £7,000 y flwyddyn, o fewn pum mlynedd, bydd rhai myfyrwyr yn gadael y brifysgol gyda hyd at £44,000 o ddyledion. Byddai hynny'n drychineb. Os ydym wedi dysgu un peth o'r argyfwng economaidd hwn, y ffaith na ellir

the words of Nick Clegg, the now Deputy Prime Minister, in April of this year.

It is obvious that by introducing market forces some higher education institutions and courses will succeed and some will fail. Lord Browne acknowledges in his report that that is the reality of bringing the market into higher education. Do you therefore agree, Minister, that there is a real danger that if this proposed system is implemented, only the most popular courses and the most popular departments will flourish? That will inevitably mean a reduction in courses and departments and also a reduction in universities, and would severely reduce what people will be able to study in higher education.

You mention in your statement the anticipation that the teaching grant for higher education in England will be cut by 80 per cent. Have you any indication about the funding implications of this for the Welsh Government through the block grant? There is a range of issues that needs to be discussed by the Welsh Government and the UK Government, as you state in your statement. Has a timetable therefore been set for these discussions, and does the UK Government fully realise the implication of its changes for the HE sector in Wales?

It is clear from your statement and from your response to Paul Davies's questions that you share our concern about these Conservative and Lib Dem proposals, which will be a hammer blow to the HE sector. Our Plaid MPs will be voting against these proposals in Westminster, as they have massive implications for Wales. Will your Labour counterpart in Westminster also be opposing these proposals?

Finally, we will have a debate this afternoon on the final Holtham report. Although education and higher education has been devolved, it is clear that the Assembly does not have sufficient powers to develop radically different policies to deal with HE funding in Wales. Do you agree with me, and

adeiladu dyfodol ar ddyled yw hynny. Nid fy ngeiriau i yw'r rheini, ond geiriau Nick Clegg, y Dirprwy Brif Weinidog presennol, a hynny fis Ebrill eleni.

Drwy gyflwyno grymoedd y farchnad, mae'n amlwg y bydd rhai cyrsiau a sefydliadau addysg uwch yn llwyddo ac y bydd rhai yn methu. Yn ei adroddiad, mae'r Arglwydd Browne yn cydnabod mai dyna'r realiti o ddod â'r farchnad i addysg uwch. A ydych yn cytuno felly, Weinidog, y ceir perygl go iawn, os caiff y system arfaethedig hon ei rhoi ar waith, mai dim ond y cyrsiau mwyaf poblogaidd a'r adrannau mwyaf poblogaidd fydd yn ffynnu? Mae'n anochel y bydd hynny'n golygu gostyngiad yn nifer y cyrsiau a'r adrannau a gostyngiad yn nifer y prifysgolion, a byddai'n cyfyngu'n aruthrol ar nifer y bobl a fydd yn gallu astudio mewn addysg uwch.

Yn eich datganiad, rydych yn sôn am y disgwyliad y bydd y grant addysgu ar gyfer addysg uwch yn Lloegr yn cael ei leihau 80 y cant. A oes gennych unrhyw syniad am oblygiadau ariannol hyn i Lywodraeth Cymru drwy'r grant bloc? Ceir amrywiaeth o faterion y mae angen i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU eu trafod, fel y nodwch yn eich datganiad. A oes amserlen wedi'i phennu felly ar gyfer y trafodaethau hyn, ac a yw Llywodraeth y DU yn llawn sylweddoli goblygiadau ei newidiadau i'r sector addysg uwch yng Nghymru?

Mae'n amlwg o'ch datganiad a'ch ymateb i gwestiynau Paul Davies eich bod yn rhannu ein pryder am y cynigion hyn gan y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol, a fydd yn ergyd fawr i'r sector addysg uwch. Bydd Aelodau Seneddol Plaid yn pleidleisio yn erbyn y cynigion hyn yn San Steffan, gan fod ganddynt oblygiadau enfawr i Gymru. A fydd eich Gweinidog cyfatebol yn y Blaid Lafur yn San Steffan hefyd yn gwrthwynebu'r cynigion hyn?

Yn olaf, byddwn yn cael dadl ar adroddiad terfynol Holtham y prynhawn yma. Er bod addysg ac addysg uwch wedi ei ddatganoli, mae'n amlwg nad oes gan y Cynulliad ddigon o bwerau i lunio polisiau cwbl wahanol i ymdrin â chyllid addysg uwch yng Nghymru. A ydych yn cytuno â mi, ac felly â Phlaid

therefore with Plaid Cymru, that we now need to seriously consider implementing Holtham part 2, and look at our financial powers in Wales in order to strengthen this Assembly and to protect us from the damaging right wing, regressive Tory and Lib Dem Government in London?

**Leighton Andrews:** I will leave the comments on Holtham to my colleague who will be responding in the next debate. I think that the Member understands the position of the One Wales Government.

There is no question that the Browne review has an impact on Wales. It will have a significant impact on Wales and Welsh students who seek to travel to higher education institutions in England, and will add to Wales's budget costs. That would be the case even if we did absolutely nothing—we would still face higher costs for those students travelling to institutions in England.

The impact of the reduction in the teaching grant in England on Welsh finances can be addressed in this way: the reality is that we anticipate significant spending reductions across the piece as a result of the comprehensive spending review, which will affect all budgets in the Welsh Assembly Government. It will therefore be for us, as a devolved Government, to decide on our priorities, given the budgets that we subsequently receive. However, proposals to reduce the teaching grant for higher education will have an overall impact on the size of the Welsh budget.

With regard to the introduction of the market, it is quite clear that a situation that allows different institutions to charge different fees introduces a new element into higher education. It will easily lead to some students applying for courses on the basis of price, and therefore to competition on the basis of cost rather than quality. Therefore, that introduces a new element. As I said in my statement, we do not support the introduction of full-cost or near-full-cost fees. On the impact on priority subjects, money is being kept in the teaching grant—I think that £700 million is being kept for teaching in England

Cymru, fod angen inni'n awr ystyried o ddifrif rhoi Rhan 2 Holtham ar waith, ac edrych ar ein pwerau ariannol yng Nghymru er mwyn cryfhau'r Cynulliad hwn a'n diogelu rhag Llywodraeth asgell dde niweidiol y Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn Llundain, sydd am fynd â ni gam yn ôl?

**Leighton Andrews:** Byddaf yn gadael y sylwadau ar Holtham i'm cyd-Aelod, a fydd yn ymateb yn y ddadl nesaf. Rwyf yn meddwl bod yr Aelod yn deall safbwynt Llywodraeth Cymru'n Un.

Nid oes dim amheuaeth nad yw adolygiad Browne yn effeithio ar Gymru. Bydd yn effeithio'n sylweddol ar Gymru ac ar fyfyrwyr o Gymru sydd am deithio i sefydliadau addysg uwch yn Lloegr. Bydd hefyd yn ychwanegu at gostau cyllideb Cymru. Byddai hynny'n wir hyd yn oed pe na baem yn gwneud dim byd o gwbl—byddem yn dal i wynebu costau uwch ar gyfer y myfyrwyr hynny sy'n teithio i sefydliadau yn Lloegr.

Gellir rhoi sylw i effaith y gostyngiad yn y grant addysgu yn Lloegr ar gyllid Cymru yn y modd hwn: y gwirionedd yw ein bod yn rhagweld gostyngiadau sylweddol mewn gwariant yn gyffredinol o ganlyniad i'r adolygiad cynhwysfawr o wariant, a fydd yn effeithio ar holl gyllidebau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Felly bydd yn rhaid i ni fel Llywodraeth ddatganoledig benderfynu ar ein blaenoriaethau, o ystyried y cyllidebau y byddwn yn eu cael. Fodd bynnag, bydd y cynigion i leihau'r grant addysgu ar gyfer addysg uwch yn cael effaith gyffredinol ar faint cyllideb Cymru.

O ran cyflwyno'r farchnad, mae'n eithaf amlwg bod sefyllfa sy'n caniatáu i wahanol sefydliadau godi gwahanol ffioedd yn cyflwyno elfen newydd i addysg uwch. Bydd yn hawdd yn arwain at rai myfyrwyr yn gwneud cais ar gyfer cyrsiau ar sail cost, ac felly at gystadleuaeth ar sail cost yn hytrach nag ansawdd. Mae hynny, felly, yn cyflwyno elfen newydd. Fel y dywedais yn fy natganiad, nid ydym yn cefnogi cyflwyno ffioedd llawn na ffioedd bron yn llawn. O ran yr effaith ar bynciau â blaenoriaeth, mae arian yn cael ei gadw yn y grant addysgu—credaf fod £700 miliwn yn cael ei gadw ar



to protect priority subjects—but £700 million does not go that far among all the higher education institutions in England.

On the timescale, my understanding is that there will be a consultation paper on some of the proposals later this year, that there will possibly be legislation in the next parliamentary year, 2011-12, and that the implementation of the proposals will take place in time for the academic year 2012-13. We will, therefore, be formulating our response over the next few months to see what we can do to implement fully our commitment in the 'One Wales' agreement to protect the position of Welsh-domiciled students, wherever they choose to study.

**Jenny Randerson:** Minister, you can be assured that I shall not avoid the issues. Thank you for your early thoughts on this situation. In response to your statement, I hope that you will join me in welcoming some aspects of the Browne report, and I refer particularly to the fact that, for the very first time, part-time students will be given financial assistance. It has been a serious problem for part-time students, who make up 40 per cent of all students from Wales, that that financial assistance has not generally been available.

You referred in your statement to the changes in the cross-border bodies that are serving higher education, which is a streamlining process. Have you or your officials had any discussions with the UK Government about the impact of those changes? You could perhaps tell us whether that was part of your earlier discussions with Lord Browne or anyone.

I also welcome the emphasis on apprenticeships and on new ways of achieving higher education qualifications. I am sure that you will agree with that, as you have emphasised it previously and it is a part of your Government's overall plan. You mention in your statement the £55 million that will, in effect, flow from the Welsh block grant into English universities. I understand the principle of what you are saying, Minister, but could you provide us with the

gyfer addysgu yn Lloegr i warchod pynciau â blaenoriaeth—ond nid yw £700 miliwn yn mynd mor bell â hynny ymysg yr holl sefydliadau addysg uwch yn Lloegr.

O ran yr amserlen, caf ar ddeall y bydd papur ymgynghori ar rai o'r cynigion yn ddiweddarach eleni, y bydd deddfwriaeth o bosibl yn y flwyddyn seneddol nesaf, 2011-12, ac y bydd y cynigion yn cael eu rhoi ar waith yn barod am y flwyddyn academaidd 2012-13. Byddwn, felly, yn llunio ein hymateb yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf i weld beth y gallwn ei wneud i weithredu'n llawn ein hymrwymiad yng nghytundeb 'Cymru'n Un' i ddiogelu sefyllfa myfyrwyr sy'n hanu o Gymru, lle bynnag y maent yn dewis astudio.

**Jenny Randerson:** Weinidog, gallaf eich sicrhau na fyddaf fi'n osgoi'r materion. Diolch am eich safbwyntiau cynnar ynghylch y sefyllfa hon. I ymateb i'ch datganiad, gobeithio y byddwch yn ymuno â mi i groesawu rhai elfennau o adroddiad Browne. Cyfeiriaf yn benodol at y ffaith y bydd myfyrwyr rhan-amser yn cael cymorth ariannol am y tro cyntaf erioed. Bu'n broblem ddifrifol i fyfyrwyr rhan-amser, sy'n cyfrif am 40 y cant o holl fyfyrwyr Cymru, nad oes cymorth ariannol wedi bod ar gael iddynt yn gyffredinol.

Gwnaethoch gyfeirio yn eich datganiad at y newidiadau i'r cyrff trawsffiniol sy'n gwasanaethu addysg uwch, sy'n broses o symleiddio. A ydych chi neu eich swyddogion wedi cael unrhyw drafodaethau â Llywodraeth y DU am effaith y newidiadau hynny? Efallai y gallech ddweud wrthym a oedd hynny'n rhan o'ch trafodaethau cynharach gyda'r Arglwydd Browne neu unrhyw un arall.

Rwyf hefyd yn croesawu'r pwyslais ar brentisiaethau ac ar ffyrdd newydd o ennill cymwysterau addysg uwch. Rwyf yn siŵr y byddwch yn cytuno â hynny, gan eich bod wedi pwysleisio hynny o'r blaen a chan ei fod yn rhan o gynllun cyffredinol eich Llywodraeth. Rydych yn sôn yn eich datganiad am y £55 miliwn a fydd, i bob pwrpas, yn llifo o grant bloc Cymru i brifysgolion Lloegr. Rwyf yn deall egwyddor yr hyn rydych yn ei ddweud, Weinidog, ond a

detail of how you have calculated that—not now, but in writing—to ensure that we are working on a firm financial footing?

You refer to ‘One Wales’ and your commitment to doing whatever is possible to mitigate the effects on students of any lifting of the cap on fees. Clearly, that anticipated the Browne review, as it was widely talked of for some years that the cap would be lifted. However, you say towards the end of your statement that you would prefer not to amend the proposals that your Government put in place last year. I find that a little perplexing, because the Browne review had already been set up by the Labour Government and was given a remit. It is no secret to anyone that £7,000 was talked of from the start as being the ballpark figure for fees, and the Labour Government advocated that as the sort of figure that we should be looking at in the end.

4.20 p.m.

Now, Minister, when the proposals were put forward last year for your new scheme, surely your Government anticipated that it would be coping with that kind of change. Are you saying that you will have to undertake a fundamental review of the scheme, or do you believe that it will be a relatively simple matter to flex it to suit the new circumstances?

Rather surprisingly, Minister, you said some words that suggested that differential fees are not a good thing. Actually, I agree with you as I am not keen on the idea of differential fees either. However, the issue is that the Labour Party had differential fees. Indeed, there is at least one university in the UK charging less than everybody else’s fees. That was part of the previous scheme. It was open to any university to vary its tuition fees, as long as it did not exceed the cap. So, Minister, I am interested in why you suddenly think that that is not a good thing.

You said—and I hope that I heard you

allech roi inni fanylion sut rydych wedi cyfrifo hynny—nid nawr, ond yn ysgrifenedig—i sicrhau ein bod yn gweithio ar sylfaen ariannol gadarn?

Rydych yn cyfeirio at ‘Cymru'n Un’ ac at eich ymrwymiad i wneud beth bynnag sy'n bosibl i leihau'r effeithiau y bydd codi'r cap ar ffioedd yn eu cael ar fyfyrwyr. Yn amlwg, roedd hynny'n rhagweld adolygiad Browne, gan y bu cryn sôn am rai blynyddoedd y byddai'r cap yn cael ei godi. Fodd bynnag, dywedwch tua diwedd eich datganiad y byddai'n well gennych beidio â newid y cynigion a gyflwynwyd gan eich Llywodraeth y llynedd. Mae hynny'n perlychydig o ddryswch imi, gan fod adolygiad Browne eisoes wedi'i roi ar waith gan y Llywodraeth Lafur ac wedi cael cylch gwaith. Nid yw'n gyfrinach i neb y soniwyd am £7,000 o'r dechrau fel ffigur bras ar gyfer ffioedd, ac roedd y Llywodraeth Lafur yn argymhell y ffigur hwnnw fel y math o ffigur y dylem fod yn edrych arno yn y diwedd.

Nawr, Weinidog, pan gyflwynwyd y cynigion y llynedd ar gyfer eich cynllun newydd, rhaid bod eich Llywodraeth wedi rhagweld y byddai'n gorfod ymdopi â'r math hwnnw o newid. A ydych yn dweud y bydd yn rhaid ichi gynnal adolygiad sylfaenol o'r cynllun, ynteu a ydych yn credu y bydd yn weddol syml ei addasu i gyd-fynd â'r amgylchiadau newydd?

Yn rhyfeddol, Weinidog, gwnaethoch ddweud ambell beth a oedd yn awgrymu nad yw ffioedd gwahaniaethol yn beth da. A dweud y gwir, rwyf yn cytuno â chi gan nad wyf finnau'n rhy hoff o'r syniad o ffioedd gwahaniaethol ychwaith. Fodd bynnag, y broblem yw bod y Blaid Lafur wedi cyflwyno ffioedd gwahaniaethol. Yn wir, mae o leiaf un brifysgol yn y DU yn codi llai o ffioedd na phawb arall. Roedd hynny'n rhan o'r cynllun blaenorol. Roedd croeso i unrhyw brifysgol amrywio ei ffioedd dysgu, ar yr amod nad oeddent yn uwch na'r cap. Felly, Weinidog, rwyf yn awyddus i gael gwybod pam eich bod yn credu mwyaf sydyn nad yw hynny'n beth da.

Gwnaethoch ddweud—a gobeithio fy mod

correctly—that you believe that there would have to be an increase of £6,000 in fees. That would take the fees over £9,000. In fact, although it is in the early stages of responding to this review, the Government is clearly talking about a fee of around £7,000 in most cases. You say in your statement, Minister, that you do not want institutions to compete increasingly on cost rather than on quality, and I agree with you on that. You then suggest, and you have also made other similar comments, that you are in favour of a standard fee for Wales. That would have implications if Russell Group universities, such as Cardiff University, were to charge much higher fees. I remind you that, uncomfortable though it is, we have to think of our universities as being part of the UK situation and the global situation, but let us stick to the UK for the moment. It is important that the universities that are achieving the very best in Wales do not have their fees fixed at a level that would not enable them to spend as much on university education as their competitors. Without going into a full, free and unfettered market, it is important that you take into account the UK situation.

Finally, I agree absolutely that we need a Welsh solution. However, I seek a commitment from you that any solution that you find will tackle, first of all and fundamentally, the 15 per cent funding gap between England and Wales, which has unfortunately been allowed to grow over recent years. If it is not tackled along with this current problem, it will become an unbridgeable gap, as it will have existed for so long that it will have developed historic proportions. I also seek a commitment from you that Welsh students will not be disadvantaged compared with English students, especially those who are from the poorest homes or who enter the lowest-paid professions.

**Leighton Andrews:** She is wriggling, Llywydd. Let me go through this in detail. She managed to miss the key points of the Browne review statement today. The Browne review says that, essentially, the teaching grant will be replaced by payment by fees in England. Therefore, the teaching grant in

wedi eich clywed yn iawn—eich bod yn credu y byddai'n rhaid cynyddu £6,000 ar ffioedd. Byddai hynny'n codi'r ffioedd dros £9,000. Yn wir, er mai newydd ddechrau ymateb i'r adolygiad hwn y mae'r Llywodraeth, y mae'n amlwg yn sôn am ffi o tua £7,000 yn y rhan fwyaf o achosion. Rydych yn dweud yn eich datganiad, Weinidog, nad ydych am i sefydliadau gystadlu fwyfwy ar gost yn hytrach nag ar ansawdd, ac rwyf yn cytuno â chi ar hynny. Yna rydych yn awgrymu, ac rydych wedi gwneud sylwadau tebyg eraill hefyd, eich bod o blaid ffi safonol ar gyfer Cymru. Byddai oblygiadau i hynny pe bai prifysgolion Grŵp Russell, fel Prifysgol Caerdydd, yn codi ffioedd llawer uwch. Hoffwn eich atgoffa, er bod hynny'n anghyfforddus, ei bod yn rhaid inni ystyried ein prifysgolion yng nghyd-destun y DU a'r sefyllfa fyd-eang, ond gadewch inni gadw at y DU am y tro. Mae'n bwysig nad yw'r prifysgolion sy'n cyflawni orau yng Nghymru yn gosod eu ffioedd sefydlog ar lefel na fyddai'n eu galluogi i wario cymaint â'u cystadleuwyr ar addysg prifysgol. Heb symud i farchnad lawn, sy'n rhydd ac yn ddilyffethair, mae'n bwysig eich bod yn ystyried sefyllfa'r DU.

Yn olaf, rwyf yn cytuno'n llwyr fod arnom angen ateb ar gyfer Cymru. Fodd bynnag, hoffwn ichi ymrwymo y bydd unrhyw ateb yn mynd i'r afael yn gyntaf oll ac yn sylfaenol â'r bwch cyllido o 15 y cant rhwng Cymru a Lloegr, sydd, yn anffodus, wedi cael rhwydd hynt i dyfu dros y blynyddoedd diwethaf. Os nad yw'n cael sylw ochr yn ochr â'r broblem hon sydd gennym ar hyn o bryd, ni fydd modd cau'r bwch gan y bydd wedi bodoli ers cymaint o amser, bydd wedi tyfu mwy nag a welwyd erioed o'r blaen. Rwyf hefyd yn awyddus ichi ymrwymo i sicrhau na fydd myfyrwyr Cymru o dan anfantais o'u cymharu â myfyrwyr Lloegr, yn enwedig y rheini sy'n dod o'r cartrefi tlotaf neu sy'n mynd i'r proffesiynau sydd â'r cyflogau isaf.

**Leighton Andrews:** Mae hi'n anghyfforddus, Lywydd. Gadewch imi fynd drwy hyn yn fanwl. Llwyddodd i gollu pwyntiau allweddol y datganiad heddiw am adolygiad Browne. Mae adolygiad Browne i bob pwrpas yn dweud y bydd talu drwy ffioedd yn disodli'r grant addysgu yn Lloegr. Felly, bydd y grant

England will be cut by 80 per cent. I imagine that that will abolish any funding gap between Wales and England at a stroke.

She asked for a Welsh solution. We will find a Welsh solution, in accordance with the 'One Wales' agreement and 'For Our Future'. On the figures that we have calculated, I referred to potential fees of £6,000, and that figure has come from Lord Browne's report. Calculations have been done on the basis of fees ranging from £6,000 up to £12,000. The £7,000 figure appears to have been calculated by Universities UK and many other bodies as the figure that they would require to replace the income that they would lose as a result of the cuts to the teaching grant in England. The campaigning by some of the universities to obtain higher fees to get more income has resulted in their charging higher fees for the same level of income.

Of course, there are things that we welcome in the Browne report, such as the provisions on part-time students. We will look at those and discuss them. The implications of some of the changes that are likely to be needed on the regulatory side have featured briefly in conversations with Lord Browne and David Willetts, Minister of State for Universities and Science. Once it has responded, we will discuss the implications of any changes for cross-border bodies in more detail with the UK Government. We are clear about the costs that we may face in Wales, which have been estimated on the basis of modelling. However, it is hard to model when you may have a situation in which different institutions charge different fees. Some institutions could be charging £6,000 while others could be charging up to £12,000 for certain courses, under the Browne proposals. If the cap is lifted completely, it is not inconceivable that the charges could be even higher.

I said that we would prefer not to amend our scheme because the proposals were to be brought in after the general election, and there was no real indication of the outcome. If we have to introduce a new scheme in

addysgu yn Lloegr yn cael ei leihau 80 y cant. Rwyf yn tybio y bydd hynny'n dileu unrhyw fwllch cyllido rhwng Cymru a Lloegr mewn un ergyd.

Gofynnodd am ateb ar gyfer Cymru. Byddwn yn dod o hyd i ateb ar gyfer Cymru, yn unol â chytundeb 'Cymru'n Un' ac 'Er Mwyn Ein Dyfodol'. O ran y ffigurau rydym wedi'u cyfrifo, cyfeiriais at ffioedd posibl o £6,000, ac mae'r ffigur hwnnw wedi dod o adroddiad yr Arglwydd Browne. Mae'r cyfrifiadau wedi cael eu gwneud ar y sail y bydd ffioedd yn amrywio o £6,000 i hyd at £12,000. Yn ôl pob golwg, mae'r ffigur £7,000 wedi cael ei gyfrifo gan Universities UK a llawer o gyrff eraill fel y ffigur y byddai ei angen arnynt i gymryd lle'r incwm y byddent yn ei gollu o ganlyniad i'r toriadau yn y grant addysgu yn Lloegr. Mae'r ymgyrchu gan rai o'r prifysgolion i gael ffioedd uwch er mwyn cael rhagor o incwm wedi arwain at sefyllfa lle byddant yn gorfod codi ffioedd uwch er mwyn cael yr un lefel o incwm.

Wrth gwrs, ceir pethau i'w croesawu yn adroddiad Browne, fel y darpariaethau ar gyfer myfyrwyr rhan-amser. Byddwn yn edrych ar y rhain ac yn eu trafod. Mae goblygiadau rhai o'r newidiadau sy'n debygol o fod yn angenrheidiol o ran rheoleiddio wedi ymddangos yn gryno mewn sgysiau gyda'r Arglwydd Browne a David Willetts, y Gweinidog Gwladol dros Brifysgolion a Gwyddoniaeth. Pan fydd wedi ymateb, byddwn yn trafod goblygiadau unrhyw newidiadau ar gyfer cyrff trawsffiniol yn fanylach gyda Llywodraeth y DU. Rydym yn glir ynghylch y costau y byddwn o bosibl yn eu hwynebu yng Nghymru, sydd wedi cael eu hamcangyfrif ar sail modelu. Fodd bynnag, mae'n anodd modelu pan mae gennych sefyllfa bosibl lle mae gwahanol sefydliadau yn codi gwahanol ffioedd. O dan gynigion Browne, gallai rhai sefydliadau godi £6,000 tra gallai eraill godi hyd at £12,000 ar gyfer cyrsiau penodol. Os bydd y cap yn cael ei godi'n llwyr, nid yw'n anodd credu y gallai'r ffioedd fod hyd yn oed yn uwch.

Dywedais y byddai'n well gennym beidio â diwygio ein cynllun gan fod y cynigion yn cael eu cyflwyno ar ôl yr etholiad cyffredinol, ac nid oedd unrhyw arwydd go iawn beth fyddai'r canlyniad. Os bydd yn rhaid inni

Wales, I anticipate that it will be for the cohort that enters higher education in the 2012-13 academic year.

There is no getting away from the fact that there is one party in the Chamber that made certain pledges just a few months ago. In their manifesto, the Liberal Democrats said that they would scrap unfair university tuition fees.

‘We have a financially responsible plan to phase fees out over six years, so that the change is affordable in these difficult economic times.’

They said that they would scrap fees ‘without cutting university income’; instead, they plan to raise fees and cut university income.

**Andrew Davies:** I thank the Minister for his statement this afternoon.

At 3.43 p.m. in the House of Commons today, the Business Secretary formally buried yet another Liberal Democrat manifesto commitment, as the Minister has just pointed out. You always know when the Lib Dems are on dodgy ground. I remember a debate on the Holtham report, when a Liberal Democrat Member suddenly got into the detail and forgot the big picture. At the time, they were always berating everyone about how the Barnett formula was unfair. There are two higher education institutions in my constituency, and so I well remember the Liberal Democrats missing no opportunity to berate the then Labour Government about its policy of not raising tuition fees. I believe that it took one meeting with the Governor of the Bank of England to convince Vince Cable that yet another manifesto commitment—no precipitous or savage cuts in public expenditure—had to go out of the window. Apparently, the Governor of the Bank of England said subsequently that he had said nothing to Vince Cable that he had not said publicly before.

gyflwyno cynllun newydd yng Nghymru, rwyf yn rhagweld y bydd ar gyfer y garfan a fydd yn mynd i addysg uwch yn y flwyddyn academaidd 2012-13.

Nid oes dianc rhag y ffaith y ceir un blaid yn y Siambr a wnaeth addewidion penodol dim ond ychydig fisoedd yn ôl. Yn eu manifesto, dywedodd y Democratiaid Rhyddfrydol y byddent yn dileu ffioedd dysgu annheg prifysgolion.

Mae gennym gynllun ariannol gyfrifol i gael gwared â ffioedd dros gyfnod o chwe blynedd, er mwyn i'r newid fod yn fforddiadwy yn ystod y cyfnod economaidd anodd hwn.

Gwnaethant ddweud y byddent yn cael gwared ar ffioedd heb leihau incwm prifysgolion; yn hytrach, maent yn bwriadu codi ffioedd a lleihau incwm prifysgolion.

**Andrew Davies:** Diolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad y prynhawn yma.

Am 3.43 p.m. heddiw yn Nhŷ'r Cyffredin, claddodd yr Ysgrifennydd Busnes yn ffurfiol un arall o ymrwymiau manifesto'r Democratiaid Rhyddfrydol, fel y mae'r Gweinidog newydd ei ddweud. Rydych bob amser yn gwybod pan mae'r Democratiaid Rhyddfrydol ar dir sigledig. Rwyf yn cofio dadl ynghylch adroddiad Holtham, pan ddechreuodd Aelod o'r Democratiaid Rhyddfrydol sôn yn sydyn iawn am y manylion, ac anghofio am y darlun mawr. Ar y pryd, roeddent yn difriô pawb drwy'r amser ynglŷn â pha mor annheg oedd fformiwla Barnett. Mae dau sefydliad addysg uwch yn fy etholaeth, ac rwyf yn cofio'n iawn nad oedd y Democratiaid Rhyddfrydol yn colli cyfle i feirniadu'r Llywodraeth Lafur ar y pryd am ei pholisi o beidio â chodi ffioedd dysgu. Nid wyf yn credu ei bod wedi cymryd mwy nag un cyfarfod gyda Llywodraethwr Banc Lloegr i argyhoeddi Vince Cable ei bod yn rhaid cael gwared ag un o ymrwymiau eraill y manifesto, sef dim toriadau llym na chreulon i wariant cyhoeddus. Yn ôl y sôn, dywedodd Llywodraethwr Banc Lloegr wedi hynny nad oedd wedi dweud dim byd wrth Vince Cable nad oedd wedi'i ddweud yn gyhoeddus o'r blaen.

4.30 p.m.

I just wonder what the Liberal Democrats would do—what other manifesto commitments and promises they would throw away to stay in Government. What exactly do they believe in? What do they stand for? As you rightly pointed out, Minister, this UK Government will be creating a market in higher education. There are many young people in the gallery this afternoon. I wonder what the future will hold for them in terms of access to higher education and the level of student debt.

In Wales, we have suffered from market failure in many areas for too long. There are real dangers in having a market in Wales. We heard this afternoon, with regard to the passport office, Consumer Focus and a range of other matters, that Wales has not been consulted on the implications. Does the UK Government fully realise the implications of this policy for Wales, Welsh students and Welsh communities in terms of finance and access? As a Minister, what assessment have you or will you be making of the implications, particularly for student debt? When will you be meeting the sector to discuss the implications of the Browne review on each individual higher education institution or the sector as a whole?

**Leighton Andrews:** Clearly, I have no responsibility for the Liberal Democrats' policies, and they must answer for themselves on those. However, I would just like to say that students and young people in Wales can be assured that we have made a commitment in the 'One Wales' agreement to protect the interests of Welsh domiciled students wherever they choose to study. We will develop our policy on that basis, and we will develop our strategy on the future of higher education on the basis of 'One Wales' and 'For Our Future', as I have outlined before. We will take those proposals forward, and we will obviously discuss them with the sector. As it has become more aware of what Lord Browne is intending to produce, the higher education sector in Wales has become more convinced of the need for rapid change

Ni allaf beidio â meddwl beth fyddai'r Democratiaid Rhyddfrydol yn ei wneud—pa ymrwymadau maniffesto eraill y byddent yn eu diystyru er mwyn aros yn y Llywodraeth. Beth yn union yw eu credoau? Dros beth maent yn sefyll? Fel rydych wedi sôn, Weinidog, a hynny'n briodol iawn, bydd Llywodraeth bresennol y DU yn creu marchnad mewn addysg uwch. Mae llawer o bobl ifanc yn yr oriel y prynhawn yma. Tybed beth fydd gan y dyfodol i'w gynnig iddynt hwy o ran mynediad at addysg uwch a lefel dyledion myfyrwyr.

Yng Nghymru, rydym wedi dioddef o fethiant y farchnad mewn nifer o feysydd, a hynny'n rhy hir. Byddai peryglon go iawn yn deillio o gael marchnad yng Nghymru. Rydym wedi clywed y prynhawn yma, yng nghyswllt y swyddfa basbort, Llais Defnyddwyr ac amrywiaeth o faterion eraill, nad yw Cymru wedi bod yn destun ymgynghoriad ar y goblygiadau. A yw Llywodraeth y DU yn llawn sylweddoli goblygiadau'r polisi hwn i Gymru, i fyfyrwyr o Gymru ac i gymunedau Cymru o ran cyllid a mynediad? Fel Gweinidog, sut rydych neu sut y byddwch yn asesu'r goblygiadau, yn enwedig ar gyfer dyledion myfyrwyr? Pryd y byddwch yn cyfarfod â'r sector i drafod goblygiadau adolygiad Browne i bob sefydliad addysg uwch unigol neu'r sector yn ei gyfanrwydd?

**Leighton Andrews:** Yn amlwg, nid oes gennyf ddim cyfrifoldeb dros bolisiau'r Democratiaid Rhyddfrydol—rhaid iddynt ateb y rheini drostynt eu hunain. Fodd bynnag, hoffwn ddweud y gall myfyrwyr a phobl ifanc yng Nghymru fod yn dawl eu meddwl ein bod wedi ymrwymo i ddiogelu buddiannau myfyrwyr sy'n huanu o Gymru yn 'Cymru'n Un', lle bynnag y maent yn dewis astudio. Byddwn yn datblygu ein polisi ar y sail honno, a byddwn yn datblygu ein strategaeth ar ddyfodol addysg uwch ar sail 'Cymru'n Un' ac 'Er Mwyn Ein Dyfodol', fel rwyf wedi'i amlinellu o'r blaen. Byddwn yn bwrw ymlaen â'r cynigion hynny, a byddwn yn amlwg yn eu trafod â'r sector. Wrth iddo ddod yn fwy ymwybodol o'r hyn y mae'r Arglwydd Browne yn bwriadu ei greu, mae'r sector addysg uwch yng Nghymru wedi dod

in its approach than it was persuaded of some months ago. I think that we are seeing higher education institutions now recognising the need for stronger institutions in Wales, for greater collaboration and to play to their strengths. So, we will carry out a process of discussing the impact of these with the higher education institutions.

I think that the UK Government is well aware of the impact that this will have. It is aware that there is a significant cross-border flow of students between Wales and England, with around 16,000 going from Wales to England and 24,000 from England to Wales. So, it understands that we will be developing our own responses to this. At a ministerial level, I am pleased with the dialogue that we have had with the Minister of State for Universities and Science in England, David Willetts. It has been a helpful dialogue in terms of dealing with process and how we need to take these issues forward. We agreed in a telephone conversation last week that we would fix a meeting after the UK Government has responded, to go through any outstanding issues and look at the changes that we might need in further higher education legislation in future.

However, there is no doubt that we have a different philosophy in our approaches. I understand the logic of Lord Browne's proposals on their own terms. If you wish to go down a market route, there is logic in Lord Browne's plans. However, we do not want to go down the route based on full-cost fees or near-full-cost fees and on opening up a market in the way that his proposals will do. We wish to plan the future of higher education in Wales so that it meets the objectives that we have set out in 'One Wales' and 'For Our Future'.

**Bethan Jenkins:** It is certainly not a pleasure to be commenting on this statement today. As someone who got involved in politics via the student movement campaigning against Labour Party tuition fees on both a

yn fwy argyhoeddedig bod angen iddo newid ei ddull gweithredu'n gyflymach na'r hyn a awgrymwyd iddo rai misoedd yn ôl. Rwyf yn meddwl ein bod yn gweld sefydliadau addysg uwch yn awr yn cydnabod yr angen i gael sefydliadau cryfach yng Nghymru, er mwyn sicrhau rhagor o gydweithredu ac er mwyn manteisio i'r eithaf ar eu cryfderau. Felly, byddwn yn cynnal proses o drafod effaith y rhain gyda'r sefydliadau addysg uwch.

Rwyf yn meddwl bod Llywodraeth y DU yn ymwybodol iawn o'r effaith y bydd hyn yn ei chael. Mae'n ymwybodol bod llif sylweddol o fyfyrwyr ar draws y ffin rhwng Cymru a Lloegr, gydag oddeutu 16,000 yn mynd o Gymru i Loegr a 24,000 yn mynd o Loegr i Gymru. Felly, mae'n deall y byddwn yn llunio ein hymatebion ein hunain i hyn. Ar lefel weinidogol, rwyf yn falch o'r drafodaeth rydym wedi'i chael gyda David Willetts, y Gweinidog Gwladol dros Brifysgolion a Gwyddoniaeth yn Lloegr. Bu'n drafodaeth ddefnyddiol o ran ymdrin â'r broses a sut y mae angen inni fwrw ymlaen â'r materion hyn. Mewn sgwrs dros y ffôn yr wythnos diwethaf, gwnaethom gytuno y byddem yn trefnu cyfarfod ar ôl i Lywodraeth y DU ymateb, er mwyn edrych ar unrhyw faterion sydd angen sylw ac ar y newidiadau y bydd eu hangen arnom o bosibl mewn deddfwriaeth bellach ym maes addysg uwch yn y dyfodol.

Fodd bynnag, nid oes dim amheuaeth nad oes gennym ni athroniaeth wahanol yn ein dulliau gweithredu. Rwyf yn deall rhesymeg cynigion yr Arglwydd Browne ar eu telerau eu hunain. Os ydych yn dymuno dilyn llwybr marchnad, mae rhesymeg yng nghynlluniau'r Arglwydd Browne. Fodd bynnag, nid ydym am ddilyn llwybr sy'n seiliedig ar ffioedd llawn neu ffioedd bron yn llawn, na llwybr sy'n golygu agor marchnad yn y ffordd y bydd ei gynigion ef yn ei wneud. Rydym yn dymuno cynllunio dyfodol addysg uwch yng Nghymru fel ei bod yn bodloni'r amcanion rydym wedi'u nodi yn 'Cymru'n Un' ac 'Er Mwyn Ein Dyfodol'.

**Bethan Jenkins:** Yn sicr, nid yw'n bleser rhoi sylwadau am y datganiad hwn heddiw. Fel rhywun a ddechreuodd ymwneud â gwleidyddiaeth drwy gyfrwng mudiad myfyrwyr a oedd yn ymgyrchu yn erbyn

Westminster and Assembly level, I find it quite galling to be standing here today speaking about the fees and debt increases that will be inflicted upon English students and that will have a detrimental impact on Welsh students. For the record, I do not think that I need to defend Paul Davies, but I think that it is mighty fine for some Labour Members to stand here today, after their party introduced tuition fees, having a go at the Conservatives. I do not agree with what the Con-Dem Government is doing for a minute, but let us not forget that the Labour Party is crying crocodile tears over student fees.

I have previously been accused of taking part in playground politics when I have opposed marketisation in higher education. Now, we have other politicians joining me. I will remember this from my time as an Assembly Member.

What input did you have into the Browne review from the start? I have been asking about the Welsh Government's input for some months now. I understand that you have had briefings from Willetts and so forth, but could there have been interventions sooner so that we, as a Welsh nation, had more input into the Browne review from the outset?

My next question is about universalism. I know that we have said quite a lot recently about child benefits and universalism. That is exactly why I opposed the fee grant subsidy being removed last year. I believe that that has facilitated a market to be introduced in Wales. Therefore, will you be changing that particular policy? I note, from what Jenny Randerson said earlier, that you would prefer not to make those changes. Will you be considering any differences in policy on the way forward for the Welsh Government? In other words, will the £1,000 of the student recruitment initiative make any difference to students coming back to Wales if they have to pay up to £6,000 or £7,000 more in fees from the outset?

ffioedd dysgu'r Blaid Lafur yn San Steffan ac yn y Cynulliad, mae'n brofiad chwerw braidd sefyll yma heddiw yn sôn am y cynnydd mewn dyledion a ffioedd a fydd yn cael eu gorfodi ar fyfyrwyr Lloegr ac a fydd yn cael effaith andwyol ar fyfyrwyr o Gymru. Er gwybodaeth, nid wyf yn credu bod angen imi amddiffyn Paul Davies, ond credaf ei bod yn rhagrithiol i rai Aelodau o'r Blaid Lafur sefyll yma heddiw yn ymosod ar y Ceidwadwyr, gan gofio mai eu plaid hwy a gyflwynodd ffioedd dysgu. Nid wyf yn cytuno am eiliad â'r hyn y mae Llywodraeth y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn ei wneud, ond rhaid inni gofio mai dagrau ffug yw dagrau'r Blaid Lafur yng nghyswllt ffioedd myfyrwyr.

Rwyf wedi cael fy nghyhuddo o'r blaen o gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth blentynnaidd wrth wrthwynebu marchnadeiddio addysg uwch. Nawr, mae gwleidyddion eraill yn ymuno â mi. Byddaf yn cofio hyn o'r adeg pan oeddwn yn Aelod Cynulliad.

Pa fewnbwn y cawsoch ei roi i adolygiad Browne o'r cychwyn? Rwyf wedi bod yn holi am fewnbwn Llywodraeth Cymru ers rhai misoedd bellach. Caf ar ddeall eich bod wedi cael sesiynau briffio gan Willetts ac yn y blaen, ond a fyddai wedi bod yn bosibl ymyrryd yn gynt fel y byddem ni, fel Cymry, wedi cael rhoi rhagor o fewnbwn i adolygiad Browne o'r cychwyn cyntaf?

Mae fy nghwestiwn nesaf yn ymwneud â chyffredinoliaeth. Rwyf yn gwybod ein bod wedi sôn cryn dipyn am gyffredinoliaeth a budd-daliadau plant yn ddiweddar. Dyna'n union pam roeddwn yn gwrthwynebu dileu cymhorthdal y grant ffioedd y llynedd. Credaf fod hynny wedi hwyluso'r broses o gyflwyno marchnad yng Nghymru. Felly, a fyddwch yn newid y polisi penodol hwnnw? Nodaf, o'r hyn a ddywedodd Jenny Randerson yn gynharach, y byddai'n well gennych beidio â gwneud y newidiadau hynny. A fyddwch yn ystyried unrhyw wahaniaethau mewn polisi ar y ffordd ymlaen i Lywodraeth Cymru? Mewn geiriau eraill, a fydd £1,000 y fenter recriwtio myfyrwyr yn gwneud unrhyw wahaniaeth i fyfyrwyr yn dod yn ôl i Gymru os ydynt yn gorfod talu hyd at £6,000 neu £7,000 yn rhagor mewn ffioedd o'r cychwyn cyntaf?



My other question is on the principles of reform within the Browne review. One of the principles upon which it based its study was that everyone with the potential could have the opportunity to benefit from higher education. As a Government, do you intend to pull the Browne review apart based on its principles, so that we can get a full analysis of where the Welsh Government will go on this agenda?

Finally, do you have any idea of what Welsh universities will be able to charge if they choose to go the same way as England? For example, in the current climate, will Cardiff be able to afford to charge £7,000 in fees, as is being proposed in England? Will that lead to even more of a gap between higher education institutions in England and Wales? Welsh institutions simply will not be able to compete. Diolch yn fawr.

**Leighton Andrews:** I need to point out one thing: when deferred variable fees were introduced in a vote in the National Assembly, they were introduced on a vote on a motion tabled in the names of all four party leaders in Wales.

We submitted a very detailed response to the Browne review in its call for evidence. It was quite an extensive summary of the impact of the cross-border flows on higher education in Wales, the different sizes of institutions in Wales, and the fact that Welsh institutions, for example, are significantly smaller than many of those institutions in England. Therefore, it was a very comprehensive submission by the Welsh Assembly Government to the Browne review.

Officials have maintained a dialogue with officials of the Browne review and in the Department for Business, Innovation and Skills in London throughout the last few months. We met Lord Browne in September. At that time, Lord Browne expressed a willingness to come to Wales to explain his proposals, which we would certainly encourage.

In terms of the impact of Browne, as I have

Mae fy nghwestiwn arall yn ymwneud ag egwyddorion diwygio o fewn adolygiad Browne. Un o'r egwyddorion yr oedd ei astudiaeth yn seiliedig arno oedd y gallai pawb sydd â'r potensial gael cyfle i elwa o addysg uwch. Fel Llywodraeth, a ydych yn bwriadu tynnu adolygiad Browne yn ddarnau ar sail ei egwyddorion, er mwyn inni gael dadansoddiad llawn o gyfeiriad Llywodraeth Cymru yng nghyswllt yr agenda hon?

Yn olaf, a oes gennych unrhyw syniad o'r hyn y bydd prifysgolion Cymru yn gallu ei godi os byddant yn dewis mynd i'r un cyfeiriad â Lloegr? Er enghraifft, yn yr hinsawdd bresennol, a fydd Caerdydd yn gallu fforddio codi £7,000 mewn ffioedd, fel sy'n cael ei gynnig yn Lloegr? A fydd hynny'n arwain at fwlch mwy byth rhwng sefydliadau addysg uwch yng Nghymru a Lloegr? Yn syml iawn, ni fydd sefydliadau Cymru yn gallu cystadlu. Diolch yn fawr.

**Leighton Andrews:** Mae angen imi dynnu sylw at un peth: pan gafodd ffioedd amrywiadwy gohiriedig eu cyflwyno mewn pleidlais yn y Cynulliad Cenedlaethol, cawsant eu cyflwyno mewn pleidlais ar gynnig a gyflwynwyd yn enwau arweinwyr pob un o'r pedair plaid yng Nghymru.

Gwnaethom gyflwyno ymateb manwl iawn i adolygiad Browne yn ei gais am dystiolaeth. Roedd yn grynoded eithaf helaeth o effaith llif trawsffiniol ar addysg uwch yng Nghymru, maint gwahanol sefydliadau yng Nghymru, a'r ffaith bod sefydliadau Cymru, er enghraifft, gryn dipyn yn llai na llawer o'r sefydliadau hynny yn Lloegr. Felly, roedd sylwadau Llywodraeth Cynulliad Cymru i adolygiad Browne yn gynhwysfawr iawn.

Mae swyddogion wedi parhau i drafod â swyddogion adolygiad Browne a swyddogion yn yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau yn Llundain drwy gydol y misoedd diwethaf. Cawsom gyfarfod â'r Arglwydd Browne ym mis Medi. Bryd hynny, mynegodd yr Arglwydd Browne ei barodrwydd i ddod i Gymru i esbonio ei gynigion, a byddem yn sicr yn annog hynny.

O ran effaith Browne, fel yr wyf wedi'i

said in answer to a number of questions, we will be doing a lot of modelling, but it is quite complex modelling in that you have to try to assess the impact of different fee levels being charged by different institutions, the impact that that might have on demand on different subjects, the impact that it might have on demand from students from Wales for different kinds of courses and institutions in England, and the demand coming back from across the border from England to Wales. So, some really complex variables have to be factored in to any modelling, and officials are working on that in detail. We will be working with the Higher Education Funding Council for Wales to try to establish the impact on individual higher education institutions as well.

4.40 p.m.

The representatives of several higher education institutions believe that they will not only need to charge the same as higher education institutions in England, but that they will be able to do so and recruit students. We are a net importer of students into Wales, which bears out that conclusion. The issue for us is what is fair, but there is a point that we must consistently underline about the Browne review and the context in which it has been published, namely the comprehensive spending review. There are references to the state of public finances in the review, and if you read it in detail you will see that it includes statements about the level of fee to be charged if higher education institutions in England are to recoup the amount of money that is to be lost through cuts in the teaching grant. As I said, the cut appears to be of 80 per cent—from £3.5 billion to £700 million. We will know in the next week whether or not that will be followed through in the comprehensive spending review. That cut is very significant, and people who have talked about a so-called funding gap in higher education between England and Wales should stop doing so, because that cut in itself will dispose of it.

**Jeff Cuthbert:** I thank you, Minister, for this important statement. You are absolutely right in saying that you will take time to consider

ddweud wrth ateb nifer o gwestiynau, byddwn yn gwneud llawer o fodelu, ond mae'n waith modelu eithaf cymhleth gan ei bod yn rhaid ichi geisio asesu effaith gwahanol sefydliadau yn codi gwahanol ffioedd, yr effaith y gallai hynny ei chael ar y galw am wahanol bynciau, yr effaith y gallai hynny ei chael ar alw myfyrwyr o Gymru am wahanol fathau o gyrsiau a sefydliadau yn Lloegr, a'r galw sy'n dod yn ôl o'r ochr arall i'r ffin o Loegr i Gymru. Felly, mae angen ystyried newidynnau cymhleth iawn ar gyfer unrhyw waith modelu, ac mae swyddogion yn gwneud gwaith manwl ar hynny. Byddwn yn gweithio gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i geisio gweld beth fydd yr effaith ar sefydliadau addysg uwch unigol yn ogystal.

Mae cynrychiolwyr nifer o sefydliadau addysg uwch yn credu y bydd angen iddynt nid yn unig godi'r un faint â sefydliadau addysg uwch yn Lloegr, ond y byddant yn gallu gwneud hynny a recriwtio myfyrwyr. Mae mwy o fyfyrwyr yn dod i Gymru nag sy'n mynd o Gymru, sy'n arwain at y casgliad hwnnw. Yr hyn sy'n bwysig i ni yw beth sy'n deg, ond mae pwynt y mae'n rhaid inni ei danlinellu'n gyson am adolygiad Browne a'r cyd-destun ar gyfer ei gyhoeddi, sef yr adolygiad cynhwysfawr o wariant. Ceir cyfeiriadau at gyflwr cyllid cyhoeddus yn yr adolygiad, ac os byddwch yn ei ddarllen yn fanwl gwelwch ei fod yn cynnwys datganiadau ynghylch y ffioedd y dylid eu codi os yw sefydliadau addysg uwch yn Lloegr am adennill y swm o arian a fydd yn cael ei golli drwy doriadau i'r grant addysgu. Fel y dywedais, 80 y cant—o £3.5 biliwn i £700 miliwn—yw'r gostyngiad i bob golwg. Byddwn yn gwybod yn ystod yr wythnos nesaf p'un a fydd hynny'n mynd rhagddo ai peidio yn yr adolygiad cynhwysfawr o wariant. Mae'r toriad hwnnw'n arwyddocaol iawn, a dylai pobl sydd wedi sôn am fwllch ariannu mewn addysg uwch rhwng Cymru a Lloegr roi'r gorau i wneud hynny, gan y bydd y toriad hwnnw ynddo'i hun yn cael gwared arno.

**Jeff Cuthbert:** Diolch, Weinidog, am y datganiad pwysig hwn. Rydych yn llygad eich lle i ddweud y byddwch yn cymryd

the implications of this report, because it will have serious consequences for us, as you have illustrated with the £55 million that could flow to English higher education institutions from our financial resources. You warned that we face stiff competition not just from HE institutions in England but also from mainland Europe, which offer courses through the medium of English at very low fees or for no fees at all. Minister, do you agree that we must adopt a pragmatic and responsible attitude to higher education funding that is also laced with the overarching principles of fairness? It is imperative that our universities are able to compete with those in England on academic expertise, facilities, resources and, very importantly, overall student experience.

On that latter point, Minister, I agree that the danger is that young people will be driven by cost rather than course content. That is likely to result in more drop-outs or a qualification obtained that does not help with gaining meaningful employment, which is extremely wasteful in time and money in the long run.

More importantly, Minister, I fear that the Browne report does not sufficiently take account of the impact that potential financial burdens will have on students from low income groups or from families that have not traditionally sent their children to university. Widening access was a very important policy for us and this is a major setback, delivered courtesy of the Conservative and Lib Dem coalition in London. In response to Bethan's comments, do you agree that Labour in this Assembly has been at the forefront in terms of providing for student support, such as the Assembly learning grant, which was enhanced to provide extra support for those from poorer backgrounds, and the deferment of top-up fees? All of that has been driven by Labour in the Assembly. Our record on helping students from lower income groups in particular is something to be proud of. Therefore, will you assure me that the Welsh Assembly Government's actions in response to developments set out in the Browne report will take these issues into account, so that fairness is the benchmark against which any

amser i ystyried goblygiadau'r adroddiad hwn, gan y bydd yn arwain at ganlyniadau difrifol i ni, fel rydych wedi'i ddangos gyda'r £55 miliwn a allai lifo o'n hadnoddau ariannol ni i sefydliadau addysg uwch yn Lloegr. Roeddech y rhybuddio ein bod yn wynebu cystadleuaeth gref nid yn unig gan sefydliadau addysg uwch yn Lloegr, ond hefyd o dir mawr Ewrop, sy'n cynnig cyrsiau drwy gyfrwng y Saesneg am ffioedd isel iawn neu am ddim ffioedd o gwbl. Weinidog, a ydych yn cytuno ei bod yn rhaid inni fabwysiadu agwedd bragmatig a chyfrifol at gyllid addysg uwch, a bod yr agwedd honno hefyd yn dilyn egwyddorion teg? Mae'n hanfodol bod ein prifysgolion yn gallu cystadlu â'r rheini yn Lloegr o ran arbenigedd academiaidd, cyfleusterau, adnoddau ac, yn bwysig iawn, profiad cyffredinol y myfyriwr.

Ar y pwynt olaf hwnnw, Weinidog, rwyf yn cytuno mai'r perygl yw y bydd pobl ifanc yn cael eu denu gan gost yn hytrach na chynnwys y cwrs. Mae hynny'n debygol o arwain at ragor yn gadael eu cyrsiau, neu ragor yn ennill cymhwyster nad yw'n eu helpu o gwbl i gael gwaith ystyrlon. Mae hynny'n wastraff amser ac yn wastraff arian yn yr hirdymor.

Yn bwysicach byth, Weinidog, rwyf yn ofni nad yw adroddiad Browne yn rhoi digon o ystyriaeth i'r effaith y bydd y beichiau ariannol posibl yn ei chael ar fyfyrwyr o grwpiau incwm isel neu o deuluoedd nad ydynt yn draddodiadol wedi anfon eu plant i brifysgol. Roedd ehangu mynediad yn bolisi pwysig iawn i ni, ac mae hyn yn gam mawr yn ôl, diolch i glymblaid y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn Llundain. I ymateb i sylwadau Bethan, a ydych yn cytuno bod y Blaid Lafur yn y Cynulliad hwn wedi bod ar flaen y gad o ran darparu cymorth i fyfyrwyr, gan gofio, er enghraifft, grant dysgu'r Cynulliad, a gafodd ei ddatblygu er mwyn darparu cymorth ychwanegol i'r rheini o gefndiroedd tlotach, a gohirio ffioedd atodol? Y Blaid Lafur yn y Cynulliad oedd y sbardun y tu ôl i hynny oll. Mae ein hanes o helpu myfywrwyr o grwpiau incwm is yn arbennig yn rhywbeth i fod yn falch ohono. Felly, a wnewch fy sicrhau y bydd camau gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer ymateb i'r datblygiadau a nodir yn adroddiad Browne yn

future decisions are made?

**Leighton Andrews:** We will, of course, ensure that we work at our conclusions in co-operation with the institutions and the different stakeholders in Wales. We will welcome views from Assembly backbenchers. We are not fixed in how we respond to this. There are certain consequences, whatever we do. We know already that there will be a significant additional cost to the Welsh Assembly Government occasioned by the raising of fees in England. We therefore need to work out our response within that understanding.

You were absolutely right to look at the wider international picture in terms of the competition that is starting to come from courses through the medium of English in mainland Europe and elsewhere. There is a serious danger, as you said, that, as a result of what is being proposed, students could start to choose courses on the basis of their cost, not their content. Widening access remains key to our agenda. We will look at Browne's proposals on part-time students and support for them.

You were right to recognise that we in the Assembly, in the One Wales Government, the Labour Government that preceded that, and before, have invested over time in mechanisms to encourage people into higher education, through the Assembly learning grant and others, by trying to ensure better progression routes from further education into higher education, and by trying to ensure better collaboration between further education institutions and higher education institutions. We have made a significant commitment over time to the widening access agenda. We will continue to support that agenda, and, certainly, fairness will be at the heart of our proposals.

**Alun Davies:** Like others have done this afternoon, I welcome your statement, Minister. I welcome its tone and the echo of the Robbins principle that has run through what you have said this afternoon, the approach that you are taking and the openness with which you are embarking on

ystyried y materion hyn, fel mai tegwch yw'r meincnod a ddefnyddir ar gyfer gwneud unrhyw benderfyniadau yn y dyfodol?

**Leighton Andrews:** Byddwn, wrth gwrs, yn sicrhau ein bod yn gweithio ar ein casgliadau ar y cyd â'r sefydliadau a'r gwahanol randdeiliaid yng Nghymru. Byddwn yn croesawu sylwadau aelodau meinciau cefn y Cynulliad. Nid oes gennym ateb sefydlog ar gyfer ymateb i hyn. Ceir canlyniadau penodol, beth bynnag a wnawn. Rydym yn gwybod eisoes y bydd codi ffioedd yn Lloegr yn golygu cryn dipyn o gostau ychwanegol i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Felly, mae angen inni benderfynu ar ein hymateb o fewn y ddealltwriaeth honno.

Rydych yn llygad eich lle i edrych ar y darlun rhyngwladol ehangach o ran y gystadleuaeth sy'n dechrau dod o gyrsiau sy'n cael eu cynnig drwy gyfrwng y Saesneg ar dir mawr Ewrop ac mewn manau eraill. Fel y dywedoch, ceir perygl difrifol y gallai myfyrwyr, o ganlyniad i'r hyn a gynigir, ddechrau dewis cyrsiau ar sail eu cost yn hytrach na'u cynnwys. Mae ehangu mynediad yn dal yn allweddol i'n agenda. Byddwn yn edrych ar gynigion Browne ynghylch myfyrwyr rhan-amser a chymorth ar eu cyfer.

Roeddech yn iawn i gydnabod ein bod ni yn y Cynulliad, yn Llywodraeth Cymru'n Un, y Llywodraeth Lafur a oedd yn rhagflaenu hynny, a'r un cyn hynny, wedi buddsoddi dros amser mewn mecanweithiau i annog pobl i fynd i addysg uwch, drwy gyfrwng grant dysgu'r Cynulliad a grantiau eraill, drwy geisio sicrhau gwell llwybrau dilyniant o addysg bellach i addysg uwch, a thrwy geisio sicrhau gwell cydweithio rhwng sefydliadau addysg bellach a sefydliadau addysg uwch. Rydym wedi gwneud ymrwymiad sylweddol dros amser i'r agenda ehangu mynediad. Byddwn yn parhau i gefnogi'r agenda honno, ac, yn sicr, bydd tegwch wrth wraidd ein cynigion.

**Alun Davies:** Rwyf finnau, yn yr un modd ag eraill y prynhawn yma, yn croesawu eich datganiad, Weinidog. Rwyf yn croesawu ei naws ac adlais yr egwyddor Robbins sydd wedi llifo drwy'r hyn rydych wedi'i ddweud y prynhawn yma, yn ogystal â'ch dull gweithredu a natur agored eich ymateb i

your response to the Browne report. I will certainly be one of those who will be contributing to your review and I will be seeking to persuade you of the benefits of some sort of graduate tax—but that is for another day, perhaps. The situation today is extraordinary. You have outlined it this afternoon, Minister: Vince Cable, in six months in Government, has managed not simply to reverse the Liberals' commitments on tuition fees, but to cut spending on higher education by 80 per cent. That is quite a record after six months in Government, reversing every single policy stance that they took in April.

It leaves us having to deal with the mess that the Lib-Conservative attack on higher education will create in Wales. There is agreement on this side of the Chamber that the challenge facing us is to have a well-funded, high-quality higher education sector that also guarantees access to everybody, irrespective of their background or ability to pay. I hope that you will face that challenge, Minister. Last week, we discussed the role of higher education in Wales and the collaboration and innovation agenda and the research and development that we want to see higher education driving in Wales. The market will not deliver that. We are used to market failure in Wales. We know that having a market in higher education will not deliver the research and development that we want to see in Wales. It will not deliver the contribution to the Welsh economy that we want to see, and it will certainly not deliver fairness. Will you ensure, in taking this review forward, that the ability of Government to plan and of institutions to collaborate will be at the heart of what you do? Will you ensure that the Robbins principle, that all those who are able to benefit from higher education can do so without reference to their ability to pay, is at the heart of it? Will you ensure that this Government ensure that free access to high-quality higher education continues on this side of Offa's dyke?

4.50 p.m.

adroddiad Browne. Byddaf fi'n sicr yn un o'r rheini a fydd yn cyfrannu at eich adolygiad, a byddaf yn ceisio dwyn perswâd arnoch am fanteision rhyw fath o dreth graddedigion—ond mae hynny ar gyfer diwrnod arall, efallai. Mae'r sefyllfa heddiw yn hynod. Rydych wedi ei hamlinellu y prynhawn yma, Weinidog: mae Vince Cable, mewn cyfnod o chwe mis yn y Llywodraeth, wedi llwyddo nid yn unig i wrthdroi ymrwymiadau'r Rhyddfrydwyr ar ffioedd dysgu, ond i leihau 80 y cant ar wariant ar addysg uwch. Mae hynny'n dipyn o record ar ôl chwe mis yn y Llywodraeth—gwrthdroi pob un o'r safbwyntiau ar bolisi yr oedd ganddynt ym mis Ebrill.

Ni fydd yn gorfod ymdrin â'r llanast y bydd ymosodiad y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol ar addysg uwch yn ei greu yng Nghymru. Ceir cytundeb ar yr ochr hon i'r Siambr mai'r her sy'n ein hwynebu yw cael sector addysg uwch o safon uchel sy'n cael ei ariannu'n dda—sector sydd hefyd yn sicrhau bod pawb, waeth beth fo'u cefndir na'u gallu i dalu, yn cael mynediad ato. Gobeithio y byddwch yn wynebu'r her honno, Weinidog. Yr wythnos diwethaf, buom yn trafod rôl addysg uwch yng Nghymru a'r agenda cydweithio ac arloesedd a'r gwaith ymchwil a datblygu rydym am weld addysg uwch yn eu sbarduno yng Nghymru. Ni fydd y farchnad yn cyflawni hynny. Mae Cymru wedi arfer gweld marchnadoedd yn methu. Rydym yn gwybod na fydd cael marchnad mewn addysg uwch yn cyflawni'r gwaith ymchwil a datblygu rydym am ei weld yng Nghymru. Ni fydd yn sicrhau'r cyfraniad rydym am ei weld i economi Cymru, ac yn sicr ni fydd yn sicrhau chwarae teg. A wnewch sicrhau, wrth fwrw ymlaen â'r adolygiad hwn, y bydd gallu'r Llywodraeth i gynllunio a gallu sefydliadau i gydweithio wrth galon yr hyn rydych yn ei wneud? A wnewch sicrhau bod yr egwyddor Robbins, sef bod pawb sy'n gallu dwyn budd o addysg uwch yn gallu gwneud hynny heb gyfeirio at eu gallu i dalu, wrth wraidd eich gwaith? A wnewch sicrhau bod y Llywodraeth hon yn sicrhau bod mynediad am ddim i addysg uwch o safon uchel yn parhau ar yr ochr hon i Glawdd Offa?

**Leighton Andrews:** Alun Davies's references to the Robbins principle made me nostalgic for my days in the 1970s as a vice-president of the National Union of Students. It is important that we have a genuine debate about the challenges of widening access. It does not start when someone applies to university; it starts in the early years, which is why this Assembly Government has invested so much in the foundation phase. If we are to give real life chances to enable more young people to progress through further and higher education, we have to invest in the early years. We must remember that as a critical part of our agenda for fairness.

The points that Alun made are absolutely right in respect of our need to demonstrate that, in Wales, we have seen the impact of market failure over decades—and in higher education, too. That is why we are seeking to plan for the future of higher education in Wales, and why we are putting greater emphasis on collaboration between academic departments to win a higher share of research and development investment here in Wales. We will continue to support that agenda. At the end of the day, we take responsibility as a Government for having to deliver our agenda within the context of UK Government proposals that may restrict some of the options open to us. However, I believe that we can be creative, that we in Wales can find solutions, and this Government will seek to do so.

**Leighton Andrews:** Roedd cyfeiriadau Alun Davies at yr egwyddor Robbins yn gwneud imi hiraethu am y 1970au pan oeddwn yn islywydd Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr. Mae'n bwysig ein bod yn cael trafodaeth go iawn am heriau ehangu mynediad. Nid yw'n dechrau pan fydd rhywun yn gwneud cais i brifysgol; mae'n dechrau yn ystod y blynyddoedd cynnar, a dyna pam mae Llywodraeth y Cynulliad wedi buddsoddi cymaint yn y cyfnod sylfaen. Os ydym am roi cyfleoedd bywyd go iawn i alluogi mwy o bobl ifanc i symud ymlaen drwy addysg bellach ac addysg uwch, rhaid inni fuddsoddi yn y blynyddoedd cynnar. Rhaid inni gofio hynny fel rhan hanfodol o'n hagenda ar gyfer tegwch.

Mae pwyntiau Alun yn berffaith gywir mewn perthynas â'r angen inni ddangos ein bod ni, yng Nghymru, wedi gweld effaith methiant yn y farchnad dros y degawdau—ac mewn addysg uwch hefyd. Dyna pam rydym yn mynd ati i gynllunio ar gyfer dyfodol addysg uwch yng Nghymru, a pham rydym yn rhoi mwy o bwyslais ar gydweithio rhwng adrannau academiaidd i ennill cyfran uwch o fuddsoddiad ymchwil a datblygu yma yng Nghymru. Byddwn yn parhau i gefnogi'r agenda honno. Yn y pen draw, rydym ni fel Llywodraeth yn ysgwyddo cyfrifoldeb dros gyflawni ein hagenda yng nghyd-destun cynigion Llywodraeth y DU, a allai gyfyngu ar rai o'r dewisiadau sydd ar gael inni. Fodd bynnag, rwyf yn credu y gallwn fod yn greadigol—gallwn ni yng Nghymru ddod o hyd i atebion, a bydd y Llywodraeth hon yn mynd ati i wneud hynny.

### **Gohirio Rheolau Sefydlog Suspension of Standing Orders**

*Cynnig NDM4556 Jane Hutt*

*Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 35.6 a 35.8:*

*Yn atal dros dro Reol Sefydlog 7.18(i) a'r rhan honno o Reol Sefydlog 7.19 sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflwyno gwelliannau o leiaf dri diwrnod gwaith cyn eu trafod er mwyn gallu ystyried Cynnig Heb Ddyddiad Trafod (NNDM4555), ac unrhyw welliannau*

*Motion NDM4556 Jane Hutt*

*That the National Assembly for Wales in accordance with Standing Orders 35.6 and 35.8:*

*Suspends Standing Order 7.18(i) and that part of Standing Order 7.19 that requires amendments to be tabled at least three working days before they are to be debated, to allow No Named Day Motion (NNDM4555), and any amendments tabled to*

*a gyflwynir yn ei gylch, yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 12 Hydref 2010.*

**The Minister for Business and Budget (Jane Hutt):** I move the motion.

**Y Llywydd:** Yr wyf yn cymryd nad oes neb yn gwrthwynebu. Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Felly, mae'r cynnig wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35.

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion agreed.*

*it, to be considered in Plenary on Tuesday 12 October 2010.*

**Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb (Jane Hutt):** Cynigiau y cynnig.

**The Presiding Officer:** I take it that no-one objects. I see that no-one does. The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 7.35.

### **Adroddiad Terfynol Holtham Holtham Final Report**

*Cynnig NNDM4555 Jane Hutt*

*Motion NNDM4555 Jane Hutt*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*1. Yn croesawu'r adroddiad terfynol gan y Comisiwn Annibynnol ar Ariannu a Chyllid i Gymru;*

*1. Welcomes the final report by the Independent Commission on Funding and Finance for Wales;*

*2. Yn cymeradwyo argymhellion y Comisiwn ynghylch sicrhau cyllid tecach i Gymru, gan gynnwys cyflwyno, drwy ychwanegu at fformiwla bresennol Barnett, dull ariannu gwaelodol, ac yna ddiwygio'r fformwla yn ehangach;*

*2. Endorses the Commission's recommendations for achieving fairer funding for Wales, including the introduction, by means of an addition to the existing Barnett formula, of a funding floor, and subsequently, a wider reform of the formula;*

*3. Yn cytuno bod yn rhaid i'r gwaith o ddadlau'r achos â Llywodraeth y DU dros gyllid tecach barhau'n brif flaenoriaeth i Lywodraeth bresennol y Cynulliad;*

*3. Agrees that pressing the case for fairer funding with the UK Government must continue to be the immediate priority for this Assembly Government;*

*4. Yn croesawu'r ystyriaeth fanwl y mae'r Comisiwn yn ei rhoi i'r achos dros ddatganoli pwerau cyllidol i Gymru, a fydd yn fater i'w ystyried gan bobl Cymru yn y dyfodol; ac*

*4. Welcomes the Commission's detailed consideration of the case for devolving fiscal powers to Wales, which will be a future matter for the people of Wales; and*

*5. Yn croesawu cydnabyddiaeth Llywodraeth y DU o'r pryderon a fynegwyd gan Gomisiwn Holtham ynghylch y system gyllido bresennol ar gyfer Cymru.*

*5. Welcomes the recognition by the UK Government of the concerns expressed by the Holtham Commission at the existing system of funding for Wales.*

**The Minister for Business and Budget (Jane Hutt):** I move the motion.

**Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb (Jane Hutt):** Cynigiau y cynnig.

The Independent Commission on Funding and Finance for Wales was established to

Sefydlwyd y Comisiwn Annibynnol ar Ariannu a Chyllid i Gymru er mwyn rhoi

address an important commitment in the Assembly Government's 'One Wales' partnership agreement: a review of the effectiveness of the UK Government's current system for funding Wales and consideration of how the approach to funding might be developed in the future. I believe that we have all been impressed by the scope and thoroughness of the reports produced by the three eminent economists that comprised the commission: Professor David Miles, Professor Paul Bernd Spahn, and the chair, Gerry Holtham, who I am pleased to say is here today. Drawing on their considerable expertise, knowledge and experience, they and their team have applied themselves with vigour and determination to the task of identifying the changes that are urgently needed to ensure fair funding for Wales, and how wide a reform might be introduced in future.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (Rosemary Butler) i'r Gadair am 4.53 p.m.  
The Deputy Presiding Officer (Rosemary Butler) took the Chair at 4.53 p.m.*

I am grateful for their comprehensive, balanced and independent report. In its first report, the independent commission identified that the Barnett formula's failure to link the level of funding with the level of need meant that Wales was becoming underfunded, and concluded that a new needs-based formula was required, with a simple interim measure, a floor, introduced pending wider reform. It also proposed a package of operational reforms to enhance our ability to manage our budget effectively. I was impressed by the strength of agreement behind the recommendations for fair funding and operational improvements that were set out in the commission's first report. Indeed, last year a motion supporting the commission's recommendations secured full support across this Chamber. The commission's work has attracted much favourable attention, not just in this Chamber and in Wales, but more widely. The final report was covered in some detail by the *Financial Times*, while an article in Scotland's *The Herald* called the report

'a perfect example of how devolution should operate'.

sylw i ymrwymiad pwysig yng nghytundeb partneriaeth 'Cymru'n Un' Llywodraeth y Cynulliad: adolygu effeithiolrwydd system bresennol Llywodraeth y DU ar gyfer cyllido Cymru ac ystyried sut y gallai'r ymagwedd at gyllido gael ei datblygu yn y dyfodol. Credaf fod cwmpas a thrylwyredd yr adroddiadau a gynhyrchwyd gan y tri economegwr amlwg a oedd yn rhan o'r comisiwn wedi creu argraff ar bob un ohonom. Yr economegwyr hynny oedd: yr Athro David Miles, yr Athro Paul Bernd Spahn, a'r cadeirydd, Gerry Holtham sydd, rwyf yn falch o ddweud, yma heddiw. Gan ddefnyddio eu harbenigedd, eu gwybodaeth a'u profiad sylweddol, maent hwy a'u tîm wedi mynd ati'n benderfynol ac yn llawn egni i ddynodi'r newidiadau y mae angen eu gwneud ar frys i sicrhau bod Cymru'n cael ei chyllido'n deg, a sut y gellid mynd ati i ddiwygio'n eang yn y dyfodol.

Rwyf yn ddiolchgar am eu hadroddiad cynhwysfawr, cytbwys ac annibynnol. Yn ei adroddiad cyntaf, canfu'r comisiwn annibynnol bod methiant fformiwla Barnett i greu cyswllt rhwng lefel y cyllid a lefel yr angen yn golygu bod Cymru'n cael ei thangyllido. Daeth i'r casgliad bod angen fformiwla newydd a fyddai'n seiliedig ar anghenion, gyda mesur dros dro syml, sef dull ariannu gwaelodol, nes byddai diwygio ehangach. Roedd hefyd yn cynnig pecyn o ddiwygiadau gweithredol i wella ein gallu i reoli ein cyllideb yn effeithiol. Cafodd cryfder y cytundeb a oedd wrth wraidd yr argymhellion ar gyfer cyllido teg a'r gwelliannau gweithredol a nodir yn adroddiad cyntaf y comisiwn gryn argraff arnaf. Yn wir, y llynedd, cafodd cynnig a oedd yn cefnogi argymhellion y comisiwn gefnogaeth lawn ar draws y Siambr hon. Mae gwaith y comisiwn wedi denu llawer o sylw ffafriol, nid yn unig yn y Siambr hon ac yng Nghymru, ond yn fwy eang. Cafodd yr adroddiad terfynol sylw manwl gan y *Financial Times*, ac yn ôl erthygl ym mhapur *Yr Herald* yn yr Alban, roedd yr adroddiad yn

enghraifft berffaith o sut y dylai datganoli weithredu.



Academics have also praised the robustness of its analysis, which was called ‘hugely impressive’ by Alan Trench of Edinburgh University and University College London, a leading expert on constitutional affairs. It is also important to remember that a commitment to fair funding featured in the manifestos of Labour, Plaid Cymru and the Liberal Democrats at this year’s general election, and, around that time, the current Prime Minister, David Cameron, stated that

‘The Barnett formula is coming to the end of its life—there is no doubt about that’.

More recently, the Secretary of State for Wales spoke in similar terms when she addressed this Assembly. The UK Government also acknowledged that in its coalition document, stating that it recognised

‘the concerns expressed by the Holtham Commission on the system of devolution funding’.

It is clear, therefore, that the work of the commission has led to a broad cross-party consensus that there is a need for change in our system of funding. The current system is unfair to Wales and in the absence of reform will leave us significantly and consistently underfunded. There will inevitably be a degree of imprecision about estimating the level of need in Wales compared with England, and therefore in determining the size of our funding gap, and, as the commission states, it cannot be calculated with certainty to the nearest pound or even to the nearest million pounds. However, based on the first Holtham report, the shortfall between what Wales was likely to receive from the UK Government via the Barnett formula and what it would receive using the various formulae that the UK Government applies in England was of the order of £300 million per year.

In its final report, the commission has looked at budgetary allocations across Great Britain to show how a new needs-based formula could be developed. It produced a range of estimates and concluded that the average level of need in Wales is up to 117 per cent of the average for England. We do not know

Mae academyddion hefyd wedi canmol cadernid ei ddadansoddiad, a oedd yn hynod drawiadol ym marn Alan Trench o Brifysgol Caeredin a Choleg Prifysgol Llundain, sy'n arbenigwr blaenllaw mewn materion cyfansoddiadol. Mae hefyd yn bwysig cofio bod ymrwymiad i gyllid teg wedi ymddangos ym maniffesto'r Blaid Lafur, Plaid Cymru, a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn yr etholiad cyffredinol eleni, ac, o gwmpas yr adeg honno, dywedodd David Cameron, y Prif Weinidog

Mae fformiwla Barnett yn dod i ddiwedd ei hoes—nid oes amheuaeth am hynny.

Yn fwy diweddar, dywedodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru rywbeth tebyg wrth annerch y Cynulliad hwn. Roedd Llywodraeth y DU hefyd yn cydnabod hynny yn ei dogfen glymblaid, gan nodi ei bod yn cydnabod

y pryderon a fynegwyd gan Gomisiwn Holtham ynghylch y system o gyllido datganoli.

Mae'n amlwg, felly, fod gwaith y comisiwn wedi arwain at gonsensws trawsbleidiol cyffredinol bod angen newid ein system gyllido. Mae'r system bresennol yn annheg i Gymru ac oni fydd yn cael ei diwygio byddwn yn cael ein tangyllido'n sylweddol ac yn gyson. Mae'n anochel y bydd rhywfaint o amwysedd wrth amcangyfrif lefel yr angen yng Nghymru o'i gymharu â Lloegr, ac felly wrth benderfynu ar faint ein bwlch cyllido. Fel mae'r comisiwn yn ei ddweud, ni ellir ei gyfrifo gyda sicrwydd i'r bunt agosaf na hyd yn oed i'r miliwn o bunnoedd agosaf. Fodd bynnag, yn seiliedig ar adroddiad cyntaf Holtham, roedd y diffyg rhwng yr hyn roedd Cymru'n debygol o'i gael gan Lywodraeth y DU drwy fformiwla Barnett a'r hyn y byddai'n ei gael gan ddefnyddio'r fformiwlaŵ gwahanol y mae Llywodraeth y DU yn eu defnyddio yn Lloegr yn agos at £300 miliwn y flwyddyn.

Yn ei adroddiad terfynol, mae'r comisiwn wedi edrych ar ddyrannu cyllidebau ledled Prydain Fawr i ddangos sut y gallai fformiwla newydd sy'n seiliedig ar anghenion gael ei datblygu. Lluniodd amrywiaeth o amcangyfrifon a daeth i'r casgliad bod lefel gyfartalog yr angen yng Nghymru wedi

what the outcome of the comprehensive spending review will deliver for Wales, but it is clear that Wales faces a future of substantial and persistent underfunding, unless the UK Government takes action now.

I am continuing to press the case for the Chief Secretary to the Treasury to ensure that the UK Government grasps the opportunity of the forthcoming comprehensive spending review to address the Welsh shortfall. This would be the ideal time for the UK Government to act by applying a funding floor to future funding allocations and by making a commitment to further reform over the medium term, as recommended by the Holtham commission. The resources that a floor would provide to Wales would be extremely helpful in maintaining front-line public services, although the sum would be tiny to the UK Government in the context of its annual expenditure of £700 billion.

Over the medium term, the commission has convincingly argued that Barnett should be replaced with a needs-based formula that must be jointly agreed by us and the UK Government. An essential element of the final report sets out how a simple but robust needs-based formula can be put into effect. I believe that this is the first time that a practical, workable alternative to Barnett has been published. It is an impressive achievement and I hope that it will provide the starting point for real change in our funding settlement over the coming years.

Welsh Ministers have consistently made the case to the UK Government for fair funding. Given the unity in this Chamber on the commission's first report, I trust that we are all concerned to use our influence to secure the best deal for Wales in the comprehensive spending review. Allied to the case of fair funding, the commissioners also considered the flexibilities that we require to make the best use of our budget. In its first report, the commission recommended full, unfettered access to our accumulated end-of-year

cynyddu i 117 y cant o'r cyfartaledd ar gyfer Lloegr. Nid ydym yn gwybod beth fydd canlyniad yr adolygiad cynhwysfawr o wariant i Gymru, ond mae'n amlwg bod Cymru'n wynebu dyfodol o dangyllido sylweddol a pharhaus, oni bai fod Llywodraeth y DU yn gwneud rhywbeth am y peth yn awr.

Rwyf yn parhau i bwysu ar Brif Ysgrifennydd y Trysorlys i sicrhau bod Llywodraeth y DU yn achub ar y cyfle sy'n dod yn sgîl yr adolygiad cynhwysfawr o wariant i fynd i'r afael â'r diffyg y mae Cymru'n ei wynebu. Byddai hyn yn adeg ddelfrydol i Lywodraeth y DU weithredu drwy roi dull ariannu gwaelodol ar waith ar gyfer dyraniadau cyllid yn y dyfodol, a thrwy ymrwymo i ddiwygio ymhellach dros y tymor canolig, fel y mae comisiwn Holtham yn ei argymhell. Byddai'r adnoddau y byddai dull ariannu gwaelodol yn eu darparu i Gymru yn hynod o ddefnyddiol i gynnal gwasanaethau rheng flaen i'r cyhoedd, er mai bach iawn fyddai'r swm i Lywodraeth y DU gan gofio bod ei gwariant blynyddol yn £700 biliwn.

Dros y tymor canolig, mae'r comisiwn wedi dadlau'n argyhoeddiadol y dylid disodli Barnett gyda fformiwla sy'n seiliedig ar anghenion y mae'n rhaid i ni a Llywodraeth y DU gytuno arni ar y cyd. Mae elfen hanfodol o'r adroddiad terfynol yn nodi sut y gellir rhoi ar waith fformiwla syml ond cadarn sy'n seiliedig ar anghenion. Credaf mai dyma'r tro cyntaf i ddewis heblaw Barnett gael ei gyhoeddi, a hwnnw'n ddewis ymarferol a phosibl. Mae'n llwyddiant ysgubol ac rwyf yn gobeithio y bydd yn darparu man cychwyn ar gyfer newid gwirioneddol yn ein setliad ariannol dros y blynyddoedd nesaf.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud yr achos dros gyllid teg i Lywodraeth y DU yn gyson. O ystyried yr undod yn y Siambr hon ar adroddiad cyntaf y comisiwn, hyderaf fod pawb ohonom am ddefnyddio ein dylanwad i sicrhau'r fargen orau i Gymru yn yr adolygiad cynhwysfawr o wariant. A hwythau'n frwd o blaid proses gyllido deg, bu'r comisiynwyr hefyd yn ystyried yr hyblygrwydd y mae ei angen arnom i ddefnyddio ein cyllideb yn y ffordd orau bosibl. Yn ei adroddiad cyntaf, roedd y comisiwn yn argymhell ein bod yn

flexibility funds and the draw forward of our capital budget. In its final report, the commission has proposed further ideas on EYF and the capital budget, including limited powers to borrow in order to finance capital expenditure.

I welcome the commission's new proposals and believe that these ideas are well worth pursuing, particularly in the challenging environment that we face over the next few years. It seems perfectly reasonable for the Assembly to acquire borrowing powers, as the commissioners recommended. After all, local authorities already have such powers. Borrowing powers would provide us with a useful tool to manage our investment plans over the long term. They could also enable us to fund large-scale projects that are currently unaffordable with the constraints of annual Barnett-determined capital limits. I have pressed the UK Government for some time on matters of flexibility, and I have raised them again with the Chief Secretary to the Treasury in the context of the comprehensive spending review. I hope for a constructive response. I will also be pursuing with him the case for borrowing powers, in line with the commission's proposals.

The other main area of the commission's remit was to consider the case for the devolution to Wales of tax-varying powers. The commission has responded with an extremely thorough and well-argued set of proposals, and I am sure that those of you who have read the full report will have been as impressed as I was with the scope of the commissioners' deliberations and the degree of detail with which they have analysed the various options open to a future Assembly Government. This is a robust and valuable study; it takes us beyond the realm of speculation to answer the very real questions as to how tax devolution might work in practice and how it could impact on the people of Wales. If a future Assembly Government is to pursue this agenda, we all need to be clear about the implications and consider the opportunities and the

cael mynediad llawn a dilyffethair at ein cronfeydd hyblygrwydd diwedd blwyddyn, a bod ein cyllideb gyfalaf yn cael ei dwyn ymlaen. Yn ei adroddiad terfynol, mae'r comisiwn wedi cynnig rhagor o syniadau ynghylch hyblygrwydd diwedd blwyddyn a'r gyllideb gyfalaf, gan gynnwys pwerau cyfyngedig i fenthycu er mwyn cyllido gwariant cyfalaf.

Rwyf yn croesawu cynigion newydd y comisiwn ac yn credu ei bod yn bendant yn werth bwrw ymlaen â'r syniadau hynny, yn enwedig yn yr amgylchedd heriol sy'n ein hwynebu yn ystod y blynyddoedd nesaf. Mae'n ymddangos yn gwbl resymol i'r Cynulliad gael pwerau benthyca, fel y mae'r comisiynwyr wedi'i argymhell. Wedi'r cyfan, mae gan awdurdodau lleol bwerau o'r fath yn barod. Byddai pwerau benthyca yn ffordd ddefnyddiol inni reoli ein cynlluniau buddsoddi dros yr hirdymor. Gallent hefyd ein galluogi i gyllido prosiectau mawr nad ydym yn gallu eu fforddio ar hyn o bryd gyda chyfyngiadau'r terfynau cyfalaf blynyddol sy'n cael eu pennu gan Barnett. Rwyf wedi pwyso ar Lywodraeth y DU ers tro ar faterion yn ymwneud â hyblygrwydd, ac rwyf wedi eu codi eto gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys yng nghyd-destun yr adolygiad cynhwysfawr o wariant. Rwyf yn gobeithio cael ymateb adeiladol. Byddaf hefyd yn sôn wrtho am yr achos dros bwerau benthyca, yn unol â chynigion y comisiwn.

Prif faes arall cylch gwaith y comisiwn oedd ystyried yr achos dros ddatganoli pwerau amrywio trethi i Gymru. Mae'r comisiwn wedi ymateb gyda chywilydd o gynigion hynod o drylwyr gyda dadl dda drostynt, ac rwyf yn siŵr y bydd y rheini ohonoch sydd wedi darllen yr adroddiad llawn wedi cael eich plesio cymaint â minnau gydag amrediad trafodaethau'r comisiynwyr a faint o fanylion y maent wedi'u defnyddio i ddadansoddi'r gwahanol opsiynau sydd ar gael i Lywodraeth y Cynulliad yn y dyfodol. Mae hon yn astudiaeth gadarn a gwerthfawr; mae'n mynd â ni y tu hwnt i ddamcaniaethu er mwyn ateb y cwestiynau go iawn ynghylch sut y gallai datganoli trethi weithio'n ymarferol a sut y gallai effeithio ar bobl Cymru. Os bydd un o Lywodraethau nesaf y Cynulliad am fynd ar drywydd yr agenda hon, mae angen inni fod yn glir ynghylch y

disadvantages that such a development could entail.

goblygiadau, ac ystyried y cyfleoedd a'r anfanteision y gallai datblygiad o'r fath ei olygu.

5.00 p.m.

However, the point is made by the commission that it is strongly desirable for needs-based funding to have been secured before significant tax devolution. Therefore, our priorities in the next few months must relate to the spending review, which will be followed by a difficult budget, when we will strive to protect front-line services in Wales. Those issues must be our priority in the immediate future as we also play our part in reducing the budget deficit, while again seeking to protect our public services and economic recovery. After that, we will prepare for the referendum and the Assembly elections in the spring. We come back to the central issue that fair funding must be achieved before we can hope to make significant progress on other matters. That is why the UK Government's recognition of the concerns expressed by the Holtham commission on the system of the devolution of funding is potentially of such importance to the people of Wales.

Fodd bynnag, mae'r comisiwn yn gwneud y pwynt y byddai'n ddymunol iawn pe bai cyllid yn seiliedig ar anghenion wedi cael ei sicrhau cyn mynd ati i ddatganoli trethi. Felly, rhaid i'n blaenoriaethau yn ystod y misoedd nesaf ymwneud â'r adolygiad o wariant, a fydd yn cael ei ddilyn gan gyllideb anodd, pan fyddwn yn ymdrechu i ddiogelu gwasanaethau rheng flaen yng Nghymru. Rhaid i'r materion hynny fod yn flaenoriaeth inni yn y dyfodol agos wrth inni hefyd fynd i'r afael â'r gwaith o leihau'r diffyg yn y gyllideb, a cheisio diogelu ein gwasanaethau cyhoeddus a sicrhau adferiad economaidd ar yr un pryd. Ar ôl hynny, byddwn yn paratoui at y refferendwm ac at etholiadau'r Cynulliad yn y gwanwyn. Rydym yn dod yn ôl at y mater canolog ei bod yn rhaid sicrhau proses gyllido deg cyn y gallwn obeithio gwneud cynnydd sylweddol ar faterion eraill. Dyna pam mae mor bwysig i bobl Cymru bod Llywodraeth y DU yn cydnabod y pryderon a fynegwyd gan gomisiwn Holtham ynghylch y system datganoli cyllid.

As regards the longer-term issues, we will take care not to close down the options that are open to a future Assembly. To that end, I have asked my officials to keep a watching brief on the progress made by the UK and Scottish Governments in implementing the Calman recommendations. We will seek to ensure that issues that are of potential future relevance to Wales are taken into account.

O ran y materion tymor hwy, byddwn yn cymryd gofal i beidio â chau'r drws ar yr opsiynau a fydd ar gael i Gynulliad yn y dyfodol. I'r perwyl hwnnw, rwyf wedi gofyn i'm swyddogion gadw golwg ar gynnydd Llywodraeth y DU a'r Alban wrth iddynt weithredu argymhellion Calman. Byddwn yn ceisio sicrhau bod materion a allai fod yn berthnasol i Gymru yn y dyfodol yn cael eu hystyried.

The commission has identified a pressing funding shortfall and has shown how it can be resolved, and has set out a possible course for a future Assembly Government to enhance its financial powers. In congratulating the three commissioners for undertaking this impressive piece of work, I commend the motion to the Assembly.

Mae'r comisiwn wedi nodi diffyg cyllido enbyd ac wedi dangos sut y gellir datrys hyn. Mae hefyd wedi nodi llwybr posibl ar gyfer Llywodraeth y Cynulliad yn y dyfodol i hybu ei phwerau ariannol. Wrth longyfarch y tri chomisiynwr am ymgymryd â'r darn o waith trawiadol hwn, cymeradwyaf y cynnig i'r Cynulliad.

**Nick Ramsay:** We will be supporting the motion. I welcome the chance to discuss this thorough report, and I wish to acknowledge the work that Gerry Holtham has put into it

**Nick Ramsay:** Byddwn yn cefnogi'r cynnig. Rwyf yn croesawu'r cyfle i drafod yr adroddiad trylwyr hwn, a hoffwn gydnabod y gwaith y mae Gerry Holtham wedi'i wneud

over a considerable length of time. Tax-raising powers, the Barnett formula and fiscal devolution are not always the talk of the dinner table, but they do raise important fundamental questions that are key to our role as Assembly Members. As I said, a lot of work has gone into the report. Gerry Holtham has appeared before the Finance Committee as a witness twice, and we still got through only half of our questions, such is the depth of the report. Given that I can only skim the surface today, I shall pick out a few important themes and questions.

First, I wish to say that we agree totally with the aim of the commission to, ultimately, achieve fairer funding for Wales—that must be the ultimate aim. My party has long called for a revision of the originally temporary Barnett formula. We have called for that for longer than some others. However, we recognise that that must be a medium-term aim of the UK Government, as we know that the formula is well entrenched and that any additional moneys received by Wales have to come from somewhere. When you consider that Scotland receives around £4 billion more than it would under a revised needs-based formula, you see the scale of the problem. Nonetheless, it needs to happen.

In the meantime, a so-called Barnett floor, under which funding within the parameters of the original system could not fall, would be welcome, and we are more than happy to add our voice to those calling for the Barnett floor to be introduced at the earliest opportunity. However, I am sure that you recognise that some problems have been raised with regard to the issue of a floor, and some clarification of its exact purpose is necessary. It is not a panacea that will solve all of our problems. Nonetheless, when you look at the Barnett squeeze that occurs when public expenditure is rising, a floor is a valuable insurance policy and is well worth arguing for and having in place.

dros gyfnod sylweddol o amser. Nid yw pwerau codi trethi, fformiwla Barnett a datganoli cyllidol bob amser yn destun trafod o amgylch y bwrdd bwyd, ond maent yn codi cwestiynau sylfaenol pwysig sy'n allweddol i'n rôl fel Aelodau Cynulliad. Fel y dywedais, mae llawer o waith wedi cael ei wneud ar yr adroddiad. Mae Gerry Holtham wedi ymddangos fel tyst gerbron y Pwyllgor Cyllid ddwywaith, a hyd yn oed wedyn dim ond hanner ein cwestiynau y gwnaethom lwyddo i'w gofyn gan fod yr adroddiad mor fanwl. O gofio na fydd modd imi wneud dim mwy na chrafu'r wyneb heddiw, dewisaf ambell thema a chwestiwn pwysig i sôn amdanynt.

Yn gyntaf, hoffwn ddweud ein bod yn cytuno'n llwyr â nod y comisiwn sef, yn y pen draw, sicrhau cyllid tecach i Gymru—rheid i hynny fod yn brif nod. Mae fy mhlaidd wedi galw am adolygu fformiwla Barnett, a oedd i fod yn fformiwla dros dro yn wreiddiol, ers tro byd. Rydym wedi galw am hynny am gyfnod hwy nag eraill. Fodd bynnag, rydym yn sylweddoli ei bod yn rhaid i hynny fod yn nod tymor canolig i Lywodraeth y DU, gan y gwyddom fod y fformiwla wedi'i gwreiddio'n ddwfn a bod unrhyw gyllid ychwanegol y mae Cymru'n ei gael yn gorfod dod o rywle. O ystyried bod yr Alban yn derbyn tua £4 biliwn yn fwy nag y byddai o dan fformiwla ddiwygiedig sy'n seiliedig ar anghenion, byddwch yn gweld maint y broblem. Serch hynny, mae angen iddo ddigwydd.

Yn y cyfamser, byddai dull ariannu gwaelodol Barnett, fel y'i gelwir, lle na fyddai modd i gyllid o fewn paramedrau'r system wreiddiol ddisgyn, yn cael ei groesawu. Rydym yn fwy na pharod i ychwanegu ein llais at y rheini sy'n galw am gyflwyno dull ariannu gwaelodol Barnett ar y cyfle cyntaf posibl. Fodd bynnag, rwyf yn siŵr eich bod yn cydnabod bod rhai problemau wedi cael eu codi ynghylch dull ariannu gwaelodol, a bod angen rhywfaint o eglurhad ynghlŷn â'i union ddiben. Nid yw'n ateb a fydd yn datrys ein problemau i gyd. Er hynny, pan fyddwch yn edrych ar wasgfa Barnett—sy'n digwydd pan fydd gwariant cyhoeddus yn cynyddu—mae dull ariannu gwaelodol yn bolisi yswiriant gwerthfawr, ac mae'n bendant yn werth dadlau o'i blaid a'i

roi ar waith.

Paragraph 4 of the motion welcomes the commission's detailed consideration of the case for devolving fiscal powers to Wales. That is the big idea of this work. I welcome the amount of work that Gerry Holtham has put into his assessment of this extremely complicated area. It is an area that veers into the hypothetical and the philosophical. As you say, Minister, it will not be a decision for us to take now or even in the near future, but a decision for a future Assembly. It is fair to say that Gerry Holtham recognises the philosophical argument for giving a legislative body such as the Assembly greater fiscal control, and indeed he recognises the moral argument for doing so. If people in Wales voted for a policy that involved funding, perhaps the Assembly should have the ability to raise money rather than simply receiving money through a grant. As I am sure you would agree, the problem is that that is far easier said than done. I am not yet convinced that that there is a simple way of doing that. However, one way of doing that that the report looked at was allowing the Assembly to keep income tax raised in Wales for the top up of the block grant. The problem in that respect is that if wealth in the UK as a whole were to rise faster than in Wales, over the years, Wales would be left behind. Therefore, we have to be extremely cautious even about what appear to be simple solutions.

You mentioned borrowing, Minister. The case for having borrowing powers is probably easier to make than that for tax-raising powers. As you said, local authorities have the power to raise funding and even community councils have a certain ability to raise funding, if they want to do so. Therefore, the argument for allowing borrowing to fund capital projects that would create a dividend, such as rail fares, which would create an immediate dividend, is quite straightforward.

At the moment, the economic backdrop is not good for making this case; borrowing is pretty high, and there would have to be a mechanism for offsetting borrowing here against UK tax receipts. This could be done,

Mae paragraff 4 o'r cynnig yn croesawu'r ystyriaeth fanwl y mae'r comisiwn yn ei rhoi i'r achos dros ddatganoli pwerau cyllidol i Gymru. Dyna syniad mawr y gwaith hwn. Rwyf yn croesawu faint o waith y mae Gerry Holtham wedi'i wneud i asesu'r maes hynod gymhleth hwn. Mae'n faes sy'n crwydro i dir damcaniaethol ac athronyddol. Fel y dywedwch, Weinidog, nid penderfyniad i ni yn awr fydd hwn, na hyd yn oed yn y dyfodol agos, ond penderfyniad ar gyfer Cynulliad yn y dyfodol. Mae'n deg dweud bod Gerry Holtham yn cydnabod y ddadl athronyddol dros roi rhagor o reolaeth gyllidol i gorff deddfwriaethol fel y Cynulliad, ac yn wir mae'n cydnabod y ddadl foesol dros wneud hynny. Pe bai pobl Cymru yn pleidleisio dros bolisi a oedd yn ymwneud â chyllid, efallai y dylai'r Cynulliad gael y gallu i godi arian yn hytrach na dim ond derbyn arian drwy grant. Fel yr wyf yn siŵr y byddech yn cytuno, y broblem yw ei bod yn haws o lawer dweud na gwneud. Nid wyf wedi cael fy argyhoeddi eto bod ffordd syml o wneud hynny. Fodd bynnag, un ffordd o wneud hynny a gafodd sylw yn yr adroddiad oedd caniatáu i'r Cynulliad gadw treth incwm a godir yng Nghymru i'w roi ar ben y grant bloc. Y broblem yn hynny o beth yw, pe bai cyfoeth yn codi'n gyflymach yn y DU yn gyffredinol nag yng Nghymru, dros y blynyddoedd, byddai Cymru'n cael ei gadael ar ôl. Felly rhaid inni fod yn hynod ofalus hyd yn oed am yr hyn sydd i bob golwg yn atebion syml.

Gwnaethoch sôn am fenthyca, Weinidog. Mae'n siŵr bod yr achos dros gael pwerau benthyca yn haws na'r achos dros gael pwerau codi trethi. Fel y gwnaethoch ddweud, mae gan awdurdodau lleol y pŵer i godi arian, ac mae gan gynghorau cymuned hyd yn oed rywffaint o allu i godi arian, os ydynt yn dymuno. Felly, mae'r ddadl dros ganiatáu benthyca i gyllido prosiectau cyfalaf a fyddai'n creu difidend—fel tocynnau trê, a fyddai'n creu difidend uniongyrchol—yn eithaf syml.

Ar hyn o bryd, nid yw'r cefndir economaidd ar gyfer gwneud yr achos hwn yn dda; mae'r lefelau benthyca yn bur uchel, a byddai'n rhaid cael mecanwaith ar gyfer gwneud iawn am fenthyca yma yn erbyn derbyniadau treth

and while it would be easier to do than devolving taxation powers, I do not believe that now, or even the near future, would be the right time. You recognise that point, however, and I welcome the fact that Gerry Holtham has put a lot of work into this. Indeed, this part of the document is very thick. If anyone has a few moments to spare, it is fascinating, whichever part of it you look into.

I am particularly pleased with paragraph 5. A lot of work went into it—I think that I was party to some of it. This is the paragraph that welcomes the UK Government's recognition of the concerns expressed by the Holtham commission about the existing system of funding for Wales. There has been a genuine change at Westminster in light of this report, Minister. There is very little opposition, as you said yourself, to changing the Barnett formula in principle, but there are many practical concerns about doing so, and there are concerns about the timescale and the ability to do this at a time of large-scale reductions in public expenditure.

Having said all that, my group and I are happy to welcome this report. I believe that Gerry Holtham has proven the case for moving to a new system beyond Barnett, beyond doubt, and this report will be his enduring legacy.

**Brian Gibbons:** I, too, add my congratulations and gratitude to Gerry Holtham, David Miles and Paul Bernd Spahn for their detailed and comprehensive review of the way in which Wales is funded. It is right that the initial report dealt with the issue of a needs-based formula, because that is the most pressing issue that we face—particularly a needs-based formula based on fairness.

Much of the second part of the report builds on the first part in that regard, but it then goes on to look at the issue of taxation. I am not sure that the time is right here in Wales to start taking forward the issue of taxation. Indeed, my concern is that some of the debate

y DU. Byddai modd gwneud hyn, ac er y byddai'n haws gwneud hynny na datganoli pwerau'n ymwneud â threthi, nid wyf yn credu mai nawr, na hyd yn oed y dyfodol agos, yw'r adeg iawn. Rydych yn cydnabod y pwynt hwnnw, fodd bynnag, ac rwyf yn croesawu'r ffaith bod Gerry Holtham wedi gwneud llawer o waith yn hyn o beth. Yn wir, mae'r rhan hon o'r ddogfen yn drwchus iawn. Os oes gan unrhyw un ychydig funudau i'w sbario, mae'n ddiddorol iawn ar ba ran bynnag ohono rydych yn edrych.

Rwyf wedi fy mhlesio'n fawr â pharagraff 5. Mae llawer o waith wedi mynd i mewn iddo, ac rwyf yn credu i mi gyfrannu rhywfaint at y gwaith hwnnw. Dyma'r paragraff sy'n croesawu'r ffaith bod Llywodraeth y DU yn cydnabod y pryderon a fynegwyd gan gomisiwn Holtham am y system bresennol ar gyfer cyllido Cymru. Bu newid gwirioneddol yn San Steffan yn wyneb yr adroddiad hwn, Weinidog. Ychydig iawn o wrthwynebiad sydd, fel y gwnaethoch ddweud eich hun, i newid fformiwla Barnett mewn egwyddor. Fodd bynnag, ceir llawer o bryderon ymarferol ynglŷn â gwneud hynny, a cheir pryderon am yr amserlen ac am y gallu i wneud hyn mewn cyfnod o ostyngiadau mawr mewn gwariant cyhoeddus.

Ar ôl dweud hynny i gyd, mae fy ngrŵp i a minnau'n falch o groesawu'r adroddiad hwn. Credaf fod Gerry Holtham wedi profi'r achos dros symud at system newydd y tu hwnt i Barnett, y tu hwnt i amheuaeth. Mae'r adroddiad hwn yn rhodd a fydd yn parhau.

**Brian Gibbons:** Rwyf finnau hefyd yn llongyfarch ac yn diolch i Gerry Holtham, David Miles a Paul Bernd Spahn am eu hadolygiad manwl a chynhwysfawr o'r modd y mae Cymru'n cael ei chyllido. Mae'n iawn fod yr adroddiad cychwynnol wedi ymdrin â'r mater o fformiwla sy'n seiliedig ar anghenion, gan mai dyna'r mater pwysicaf sy'n ein hwynebu—fformiwla sy'n seiliedig ar anghenion ac ar degwch yn benodol.

Mae rhan helaeth o ail ran yr adroddiad yn adeiladu ar y rhan gyntaf yn hynny o beth, ond yna mae'n mynd ymlaen i edrych ar drethi. Nid wyf yn siŵr ai nawr yw'r adeg iawn i ddechrau bwrw ymlaen â'r mater o drethi yma yng Nghymru. Yn wir, fy

around the report will get mixed up in the referendum debate, consequently making winning the debate that bit more difficult—thanks for nodding, Nick, but you are not going to like the rest of it. [*Laughter.*]

**Nick Bourne:** I liked that bit.

**Brian Gibbons:** The situation is not made any clearer by the UK's position, as stated in its programme for government. It says that, depending on the outcome of the forthcoming referendum,

'we will establish a process similar to the Calman Commission for the Welsh Assembly.'

I will not beat the well-trodden path of linking the referendum result to the fair funding formula, as the two are completely separate and different issues. That should be fairly clear. Equally, there is concern as to why progress should be made on addressing Calman while we wait here for our day to get fair play. Those points are well debated already.

What does that position, as outlined in the coalition Government agreement, actually mean? Does it mean that a Calman-type solution is going to be a further Calman-type inquiry? Clearly, the work of the Holtham commission has been comprehensive—we all agree on that. Therefore, to set up another Calman-type inquiry would be the wrong route. Does it mean the recommendations from Calman, or is the UK Government's policy referring to the UK Government's own response?

If we agree that there is a problem with the timing of the taxation issue, then the lack of clarity from the UK Government is not helpful, because much of what Calman is about is taxation powers for Scotland. It almost invites the answer to the debate that, in looking for solutions in a Calman context, they are looking at a solution that will bring taxation into it. Really, there is an urgent

mhryder i yw y bydd dryswch rhwng rhywfaint o'r drafodaeth ynghylch yr adroddiad a dadl y refferendwm, gan ei gwneud ychydig yn fwy anodd ennill y ddadl—diolch am nodio eich pen, Nick, ond nid ydych yn mynd i hoffi'r gweddill. [*Chwerthin.*]

**Nick Bourne:** Roeddwn yn hoffi'r darn hwnnw.

**Brian Gibbons:** Nid yw sefyllfa'r DU yn gwneud pethau'n gliriach, fel y nodir yn y rhaglen lywodraethu. Mae'n dweud, gan ddibynnu ar ganlyniad y refferendwm sydd i ddod,

byddwn yn sefydlu proses debyg i Gomisiwn Calman ar gyfer Cynulliad Cymru.

Nid wyf am droedio'r llwybr sathredig iawn o gysylltu canlyniad y refferendwm â'r fformiwla cyllido teg, gan fod y ddau fater yn gwbl wahanol ac yn ddau fater ar wahân. Dylai hynny fod yn eithaf amlwg. Yn yr un modd, mae pryder ynghylch pam y dylai cynnydd gael ei wneud i roi sylw i Calman tra rydym ni yma'n aros am y dydd pan gawn chwarae teg. Mae'r pwyntiau hynny wedi cael eu trafod yn dda eisoes.

Beth mae'r sefyllfa honno, fel yr amlinellir yng nghytundeb y Llywodraeth glymblaid, yn ei olygu go iawn? A yw'n golygu bod math Calman o ateb yn mynd i fod yn fath Calman o ymchwiliad pellach? Yn amlwg, mae gwaith comisiwn Holtham wedi bod yn gynhwysfawr—mae pawb yn cytuno ar hynny. Felly, byddai sefydlu ymchwiliad arall tebyg i un Calman yn llwybr anghywir i'w gymryd. A yw'n golygu argymhellion Calman, ynteu a yw polisi Llywodraeth y DU yn cyfeirio at ymateb Llywodraeth y DU ei hun?

Os ydym yn cytuno y ceir problem gydag amseriad y mater trethi, yna nid yw'r diffyg eglurder gan Lywodraeth y DU yn ddefnyddiol, gan fod llawer o'r hyn sy'n cael ei drin a'i drafod yn Calman yn ymwneud â phwerau trethu ar gyfer yr Alban. Mae bron yn gwahodd yr ateb i'r ddadl eu bod, wrth chwilio am atebion yng nghyd-destun Calman, yn edrych ar ateb a fydd yn cynnwys



need for opposition spokespeople or, preferably, the Secretary of State for Wales, to provide clarity as to what they mean when they use those particular words in their policy for government.

5.10 p.m.

Furthermore, it concerns me, as Gerry Holtham told the Finance Committee, that of the various means by which the block grant could be changed to address the issue of taxation, the approach outlined in the Calman report is probably the least satisfactory. It leaves the Welsh Assembly Government and the National Assembly most exposed to undue risk. That is a further concern that I have about the way that the UK Government is responding to the Holtham report.

Finally, I will deal with some other points, which are of particular relevance to Plaid Cymru, perhaps. It is interesting that the report shows that Wales, as part of the United Kingdom, gets something like 30 per cent more revenue from the UK Government than it raises in tax receipts from Wales. Indeed, the deficit of £6 billion is more than the income tax total raised in Wales. If we were minded to take on board the Plaid Cymru view, we would effectively have to double income tax in Wales or cut public expenditure by the same extent in order to deliver. Furthermore, the Holtham report clearly shows that we are relatively underfunded because of the increase in absolute funding in Wales. A strong case can be made from the Holtham review that an earlier call for abandoning the Barnett formula would have been ill-advised and would have cost the Welsh Assembly Government many hundreds of millions of pounds. Indeed, the position adopted by earlier Assembly Governments in refusing to go down that road, as far as the Holtham report is concerned, was the correct position at that time.

**Peter Black:** I welcome the fact that we have a motion in front of us that all parties have agreed on as a way forward, so that we can go to the UK Government with a united voice. It is important that that is the case. As

trethiant. Yn wir, mae angen i lefarwyr y gwrthbleidiau neu, yn ddelfrydol, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, fynd ati ar frys i ddangos yn glir beth maent yn ei olygu wrth ddefnyddio'r geiriau penodol hynny yn eu polisi ar gyfer y llywodraeth.

Ar ben hynny, mae'n destun pryder imi—fel y dywedodd Gerry Holtham wrth y Pwyllgor Cyllid—o'r gwahanol ffyrdd y gellid newid y grant bloc i fynd i'r afael â'r mater o drethi, mae'n debyg mai'r dull a amlinellwyd yn adroddiad Calman yw'r un lleiaf boddhaol. Dyma'r dull sy'n gadael Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol yn fwyaf agored i risg annerbyniol. Mae hynny'n bryder arall sydd gennyf ynghylch y ffordd y mae Llywodraeth y DU yn ymateb i adroddiad Holtham.

Yn olaf, byddaf yn ymdrin ag ambell bwynt arall, sy'n arbennig o berthnasol i Blaid Cymru, efallai. Mae'n ddiddorol bod yr adroddiad yn dangos bod Cymru, fel rhan o'r Deyrnas Unedig, yn cael rhywbeth fel 30 y cant yn fwy o refeniw gan Lywodraeth y DU nag y mae'n ei godi mewn derbyniadau treth o Gymru. Yn wir, mae'r diffyg o £6 biliwn yn fwy na chyfanswm y dreth incwm a godir yng Nghymru. Pe baem yn ystyried safbwyntiau Plaid Cymru, byddem i bob pwrpas yn gorfod dyblu'r dreth incwm yng Nghymru neu leihau gwariant cyhoeddus i'r un graddau er mwyn cyflawni. Ar ben hynny, mae adroddiad Holtham yn dangos yn glir ein bod yn cael ein tangyllido'n gymharol oherwydd y cynnydd mewn cyllid absoliwt yng Nghymru. O edrych ar adolygiad Holtham, gellir dadlau'n gryf y byddai wedi bod yn annoeth galw am roi'r gorau i fformiwla Barnett yn gynt, gan y byddai hynny wedi costio cannoedd o filiynau o bunnoedd i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Yn wir, roedd safiad Llywodraethau blaenorol y Cynulliad yn gwrthod dilyn y trywydd hwnnw, o ran adroddiad Holtham, y peth cywir i'w wneud yr adeg honno.

**Peter Black:** Croesawaf y ffaith bod gennym gynnig o'n blaen y mae pob plaid wedi cytuno arno fel ffordd ymlaen, er mwyn inni allu mynd at Lywodraeth y DU gyda llais unedig. Mae hynny'n bwysig. Wrth i'r

the debate unfolds, there will inevitably be differences in how we interpret the various reports and what comes of them. Brian, of course, has given us a good illustration of that in terms of tax-varying powers. I tend to agree with Brian and previous speakers that, at this stage, raising the issue of tax-varying powers could muddy the waters around the referendum debate. Although it is important for the Assembly to move towards that position, we would need the further consent of the Welsh people before we could introduce it. We would need to make it clear to people that that is what we are seeking. In terms of gaining the powers that we need to pass primary legislation in respect of our current responsibilities, we already have our work cut out in persuading people to allow us to do that.

I find the two reports that have been produced by Holtham to be exciting and fascinating. That may be why I have been described as an anorak by various people. The reports enable us to take the debate forward, not just in terms of the Welsh people, but also in terms of discussions with the Treasury and the UK Government. Brian made a point about the Calman report and the Scottish tax system. It is important to note that the Calman report talks about a needs-based formula. Gerry Holtham made an interesting point about the Calman process, either while giving evidence or during a conversation with me—I cannot remember which. He said that if Scotland is going to have tax-raising powers as a result of the Calman process, and is going to use them in a way that relies on the massive amounts of underspend or end-year flexibility that it has built up as a result of being about £4 billion over-financed over the years, it will find itself having to explain itself to the Treasury. There will undoubtedly be a lot of angry English taxpayers wanting to know why Scotland can have a lower tax rate than England on the basis of being over-financed by England, Wales and the rest of the United Kingdom. The needs-based formula is fundamental to the Calman process. If you do not get that formula in place, it is very difficult for Scotland to use the powers that come from it.

drafodaeth fynd rhagddi, mae'n anochel y bydd gwahaniaethau yn y ffordd rydym yn dehongli'r amrywiol adroddiadau a'r hyn sy'n deillio ohonynt. Mae Brian, wrth gwrs, wedi rhoi enghraifft dda o hynny wrth sôn am bwerau amrywio trethi. Rwyf yn tueddu i gytuno â Brian a siaradwyr blaenorol y gallai codi mater pwerau amrywio trethi yn awr gynhyrfu'r dyfroedd o amgylch dadl y refferendwm. Er ei bod yn bwysig bod y Cynulliad yn symud tuag at y sefyllfa honno, byddai angen inni gael caniatâd pellach pobl Cymru cyn y gallem gyflwyno hynny. Byddai angen inni egluro i bobl mai dyna'r hyn rydym yn anelu ato. O ran cael y pwerau y mae eu hangen arnom i basio deddfwriaeth sylfaenol mewn perthynas â'n cyfrifoldebau presennol, rydym yn ein gwaith fel y mae hi yn ceisio perswadio pobl i ganiatáu inni wneud hynny.

Mae'r ddau adroddiad a gynhyrchwyd gan Holtham yn gyffrous ac yn ddidorol yn fy marn i. Efallai mai dyna pam rwyf wedi cael fy nisgrifio fel anorac gan wahanol bobl. Mae'r adroddiadau'n ein galluogi i fwrw ymlaen â'r drafodaeth, nid yn unig o ran pobl Cymru, ond hefyd o ran trafodaethau â'r Trysorlys a Llywodraeth y DU. Cododd Brian bwynt am adroddiad Calman a system dreth yr Alban. Mae'n bwysig cofio bod adroddiad Calman yn sôn am fformiwla sy'n seiliedig ar anghenion. Gwnaeth Gerry Holtham bwynt diddorol am broses Calman, naill ai wrth roi tystiolaeth neu yn ystod sgwrs gyda mi—ni allaf gofio pa un. Dywedodd, os yw'r Alban yn mynd i gael pwerau codi trethi o ganlyniad i broses Calman, ac yn mynd i'w defnyddio mewn ffordd sy'n dibynnu ar y symiau enfawr o danwariant neu hyblygrwydd diwedd blwyddyn sydd wedi cronni o ganlyniad i oddeutu £4 biliwn o arian yn ormod dros y blynyddoedd, bydd yn gorfod egluro'i hun i'r Trysorlys. Nid oes amheuaeth na fydd llawer o drethdalwyr anfodlon o Loegr yn awyddus i wybod sut y gall yr Alban gael cyfradd dreth is na Lloegr gan eu bod wedi cael gormod o arian gan Loegr, Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig. Mae'r fformiwla sy'n seiliedig ar anghenion yn hanfodol i'r broses Calman. Os nad ydych yn rhoi'r fformiwla honno ar waith, mae'n anodd iawn i'r Alban ddefnyddio'r pwerau sy'n deillio ohoni.

With regard to some of the key issues in these two reports—such as the funding floor in particular and the borrowing powers—I think that it is also true that the door is ajar in Westminster and that, if we push hard enough at it, and if we can get cross-party consensus here on the way forward, we will be able to get some of that into the legislation that we hope will come about as a result of the Calman commission review.

I have to say that there is unanimity with regard to the funding floor, but that will benefit Wales only in times of rising public expenditure. It will not help us in times of flux and reducing expenditure. However, it is certainly something that we need to store up for the future, and I understand that the UK Government is certainly receptive to an argument for that, as I am sure that it is receptive to an argument for borrowing powers. I hope that this motion and the all-party support for it will help the Minister for Business and Budget and her colleagues make that case in Westminster to get some movement on those issues.

Everyone has come across the notion that Wales is being subsidised by England. Brian referred to the 30 per cent extra revenue that we get over what we raise in taxes, and that is certainly the case. I think that Holtham was quite clear about that. However, as I understand the report, what the Welsh Government spends is roughly comparable to the taxation raised in Wales. The extra money comes from the other non-devolved areas that come from Wales. However, that is an argument that we have to make in England too, because I still get people in England saying to me, 'We're subsidising your free prescriptions; we're subsidising your free bus passes', when, of course, they are not doing that. Still, there is a job of work to be done by this Government and the Assembly, not just to sell these proposals to the Welsh people, but across the border as well, so that the UK Government can go forward with these things and know that it will not face criticism.

Gyda golwg ar rai o'r materion allweddol yn y ddau adroddiad hwn—fel y dull ariannu gwaelodol yn benodol a'r pwerau benthyca—credaf ei bod hefyd yn wir fod y drws yn gilagored yn San Steffan, a phe baem yn ei wthio'n ddigon caled ac yn cael consensws trawsbleidiol yma ar y ffordd ymlaen, byddwn yn gallu cynnwys rhywfaint o hynny yn y ddeddfwriaeth y gobeithiwn y bydd yn deillio o adolygiad comisiwn Calman.

Rhaid imi ddweud y ceir unfrydedd ynghylch y dull ariannu gwaelodol, ond dim ond pan fydd gwariant cyhoeddus ar gynnydd y bydd hynny'n dwyn budd i Gymru. Ni fydd yn ein helpu mewn cyfnodau o newid mewn gwariant a lleihau gwariant. Fodd bynnag, mae'n sicr yn rhywbeth y mae angen inni ei gadw ar gyfer y dyfodol, a chaf ar ddeall bod Llywodraeth y DU yn sicr yn barod i dderbyn dadl am hynny, fel rwyf yn siŵr y bydd yn barod i dderbyn dadl am bwerau benthyca. Gobeithiaf y bydd y cynnig hwn a'r cymorth hollbleidiol ar ei gyfer yn helpu'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb a'i chydweithwyr i annog San Steffan i symud rhywfaint mewn cysylltiad â'r materion hynny.

Mae pawb wedi clywed y syniad bod Cymru'n cael ei chynnal gan Loegr. Cyfeiriodd Brian at y 30 y cant o refeniw ychwanegol rydym yn ei gael ar ben yr hyn rydym yn ei godi mewn trethi, ac mae hynny'n sicr yn wir. Credaf fod Holtham yn glir iawn ynghylch hynny. Fodd bynnag, caf ar ddeall wrth ddarllen yr adroddiad y gellir cymharu'n fras yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wario â'r trethi sy'n cael eu codi yng Nghymru. Mae'r cyllid ychwanegol yn dod o feysydd eraill nad ydynt wedi'u datganoli sy'n dod o Gymru. Fodd bynnag, mae honno'n ddadl y mae'n rhaid inni ei gwneud yn Lloegr hefyd, oherwydd mae pobl yn Lloegr yn dal i ddweud wrthyf, 'Rydym yn sybideiddio eich presgripsiynau am ddim; rydym yn sybideiddio eich tocynnau bws am ddim', er nad ydynt yn gwneud hynny wrth gwrs. Serch hynny, mae gan y Llywodraeth a'r Cynulliad swydd o waith nid yn unig i werthu'r cynigion hyn i bobl Cymru, ond ar draws y ffin hefyd, er mwyn i Lywodraeth y DU allu bwrw ymlaen â'r pethau hyn gan wybod na fydd yn wynebu beirniadaeth.

The Welsh Liberal Democrats fully support the sentiments behind the motion. We have recognised for a long time the unfairness of the formula, something that, until recently, was not a unanimous view of the Assembly. Now that we have that unanimity, we need to go forward and talk to the UK Government and get its recognition of that as well and try to get not just the better funding for Wales that we deserve, but the powers and responsibility that we need, as the National Assembly for Wales, to deliver on our agenda.

**Gareth Jones:** Mae adroddiad Holtham yn profi unwaith ac am byth annhegwch ac anghyfiawnder fformiwla Barnett sydd wedi ei seilio ar boblogaeth yn hytrach nag anghenion ein gwlad. Golyga hyn fod Cymru yn colli tua £300 miliwn y flwyddyn. Ers blynyddoedd lawer, mae Plaid Cymru wedi ymdrechu'n galed i gael y Cynulliad i ddeall a chydabod diffygion fformiwla Barnett. Bydd rhai ohonom yn cofio rôl allweddol y diweddar Dr Phil Williams wrth geisio goleuo'r ddadl hon yn ystod tymor cyntaf y Cynulliad. Mawr yw ein dyled iddo am ei arweinyddiaeth yn y maes ac am ei ddirnadaeth o'r sefyllfa fel yr oedd hi bryd hynny. Gwaith caled a dycnwch Plaid Cymru dros y blynyddoedd ac yn benodol rôl Plaid Cymru yn y Llywodraeth glymbleidiol hon yng Nghymru sydd wedi sicrhau'r consensws gwleidyddol presennol ac wedi sicrhau bod yr annhegwch hwn yn cael ei drafod yma heddiw.

Yn y gorffennol, mae sawl gwleidydd amlwg wedi datgan na fyddai newid y fformiwla hon yn flaenoriaeth, er y golled ariannol enfawr ac amlwg i Gymru. Ni af ati i geisio codi cywilydd ar neb drwy ddyfynnu sylwadau gan wleidyddion allweddol o'r pleidiau hynny-a hynny'n ddiweddar iawn. Yn wir, fe'm hatgoffwyd gan Nick Bourne am un ohonynt yn gynharach y prynhawn yma tra oedd yn pwyso am gefnogaeth y Prif Weinidog i ddarbwylllo ei gyd-Aelodau yn San Steffan fod angen newid y fformiwla. Erbyn heddiw, mae pethau wedi newid er gwell, ac mae gennym gonsensws pleidiol ar y mater. Yr wyf yn croesawu hynny, a bellach yr hyn sy'n bwysig yw ein bod yn drawsbleidiol am weld newid a diwygio'r fformiwla er lles Cymru. Mae'r amser i

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cefnogi'r sylwadau sydd wrth wraidd y cynnig yn llwyr. Rydym wedi cydnabod ers amser maith bod y fformiwla'n annheg. Tan yn ddiweddar, nid oedd y Cynulliad yn unfrydol ynghylch hynny. A ninnau'n awr yn unfrydol, mae angen inni fynd ati i siarad â Llywodraeth y DU er mwyn iddi hithau hefyd gydnabod hynny, a cheisio cael nid yn unig rhagor o gyllid i Gymru fel rydym yn ei haeddu, ond y pwerau a'r cyfrifoldebau y mae eu hangen arnom, fel Cynulliad Cenedlaethol Cymru, i gyflawni ein agenda.

**Gareth Jones:** The Holtham report proves once and for all the unfair and unjust nature of the Barnett formula, which is based on population rather than the needs of our country. That means that Wales loses out to the tune of around £300 million a year. For many years, Plaid Cymru has tried hard to get the Assembly to understand and recognise the failings of the Barnett formula. Some of us will remember the vital role the late Phil Williams played in illuminating the issue during the first Assembly. We are greatly indebted to him for his leadership in this field and his firm grasp of the situation at the time. It is Plaid Cymru's hard work and perseverance over the years, and specifically the role of Plaid Cymru in the coalition Government here in Wales, that has secured the current political consensus and ensured that that unfairness is being debated here today.

In the past, several notable politicians have stated that changing this formula would not be a priority, despite the substantial and obvious financial losses for Wales. I will not try to embarrass anyone by quoting comments made by key politicians from those parties, even though it happened quite recently. Indeed, Nick Bourne reminded us of one of those earlier this afternoon, while seeking the First Minister's support to convince his colleagues in Westminster that the formula needs to be changed. By now, things have changed for the better, and we have cross-party consensus on the issue. I welcome that and the important thing now is that we, on a cross-party basis, want to see the formula amended to benefit Wales. The time for scoring political points is over; it is

sgorio pwyntiau gwleidyddol ar ben; mae'n fater o bwys ac mae'n amser inni gydweithio a chyflawni ar y consensws. Mor bwysig felly yw inni drosglwyddo'r consensws newydd hwn a'i gynnwys ym maniffestos pob plaid ar gyfer etholiadau'r Cynulliad y flwyddyn nesaf i ddwyn y mater i sylw pobl Cymru ac i ddatgan ein bod yn gytún ar y mater. Dyna neges rymus a fydd yn mynnu ei lle yng ngwleidyddiaeth Cymru, ac un y byddai'n rhaid i wleidyddion San Steffan ymateb iddi.

5.20 p.m.

Mae'r cam nesaf yn amlwg. Mae'n gyfle i'r gwrthbleidiau gyferbyn â ni ddylanwadu ar eu Haelodau yn y Llywodraeth Con-Dem yn San Steffan i gydnabod yr adroddiad hwn ac annhegwch y fformiwla er mwyn sicrhau bod Cymru yn cael ei hariannu yn ôl yr angen o hyn ymlaen. Dyna her uniongyrchol i'r gwrthbleidiau, a fyddai'n brawf ar eu hymrwymiad i'r achos. Pe baent yn llwyddo, myfi fyddai'r cyntaf i gydnabod eu cymwynas fawr ar ran pobl Cymru.

In our opinion, there is a need for immediate intervention. The report and Plaid Cymru believe that there should be an introduction of a funding floor immediately as an interim basis, and a strong commitment from the Westminster Government should be established to introduce a needs-based formula as soon as possible. This funding floor should only be implemented on an interim basis and should not be allowed to survive for over 30 years, as the Barnett formula has been allowed to do.

Finally, Plaid Cymru calls on the Westminster Government to cancel further cuts to the Welsh budget in the comprehensive spending review—cuts that put Wales in an even more vulnerable position. That should not be wishful thinking or aspirational. If we, as Assembly Members and as a Government, are now committed to Barnett change and to eradicating its unfairness, we therefore understand that, over recent years, Wales has been short-changed to the tune of millions of pounds. We have suffered inadequate funding for long enough. The Holtham report proves that. The

an important issue, and we must collaborate to achieve on this consensus. It is therefore vital that we transfer this new consensus and include it in every political party's manifesto for the Assembly elections next year to bring the issue to the attention of the people of Wales and declare that we are in agreement on the issue. That is the powerful message that will claim its place in Welsh politics, and it is one that Westminster politicians would have to respond to.

The next step is clear. It is an opportunity for the opposition parties to influence their Members in the Con-Dem Government in Westminster to acknowledge this report and the unfairness of the formula to ensure that Wales is funded according to need from now on. That is a direct challenge to the opposition parties, which would test their commitment to the cause. If they were to succeed, I would be the first to recognise their achievements on behalf of the people of Wales.

Yn ein barn ni, mae angen ymyrraeth ar unwaith. Mae'r adroddiad a Phlaid Cymru o'r farn y dylid cyflwyno dull ariannu gwaelodol ar unwaith fel cam dros dro, ac y dylid cael ymrwymiad cryf gan Lywodraeth San Steffan i gyflwyno fformiwla sy'n seiliedig ar anghenion cyn gynted ag y bo modd. Dim ond dros dro y dylid gweithredu'r dull ariannu gwaelodol hwn, ac ni ddylid caniatáu iddo oroesi am dros 30 mlynedd, fel fformiwla Barnett.

Yn olaf, mae Plaid Cymru yn galw ar Lywodraeth San Steffan i ganslo toriadau pellach i gyllideb Cymru yn yr adolygiad cynhwysfawr o wariant—toriadau sy'n rhoi Cymru mewn sefyllfa fwy bregus hyd yn oed. Ni ddylai hynny fod yn freuddwyd gwrach nac yn uchelgeisiol. Os ydym ni, fel Aelodau Cynulliad ac fel Llywodraeth—wedi ymrwymo'n awr i newid Barnett ac i gael gwared ar ei annhegwch, rydym yn deall felly nad yw Cymru, dros y blynyddoedd diwethaf, wedi bod yn cael miliynau o bunnoedd yn ddigon o gyllid. Mae'r cyllid wedi bod yn annigonol yn ddigon hir ac mae adroddiad

Westminster Government should do the right thing and safeguard our communities present and future.

**Nick Bourne:** It is a pleasure to take part in this debate. I welcome the very impressive and robust report produced by Gerry Holtham's commission, and I welcome him, David Miles, and Paul Spahn to the gallery. It is a report of enormous depth and clarity. I also commend the approach of the Minister. She deserves credit for brokering an agreement with all four parties on this and for showing some give and take. I particularly welcome Gareth's comment, when he said that it was time to put party politics to one side; I hope that he meant that because I think that it is. This is an area where we do have a measure of agreement and we should go forward together.

First, I will focus on what the report states about the Barnett formula because that is the pressing thing. I agree with what Brian Gibbons said about the dangers of going on about the taxation aspects, and that that is not where we are at present, although he spent a lot of his speech talking about that rather than the Barnett formula, which is what we need to deal with. It is a matter of first things first, and it is important that we look at that and recognise that we have been underfunded. As people have acknowledged, and as the motion acknowledges, the Government at Westminster does recognise the concerns expressed by the Holtham commission, and the Prime Minister and the Chancellor have referred to the fact that the Barnett formula is coming to the end of its life. We need to stay united on this and approach this as a united Assembly. I give way to Brian.

**Brian Gibbons:** For clarity, is it your understanding that, despite the unhelpful wording of the agreement in Westminster, the priority for the coalition Government in Westminster is addressing the fair funding issue rather than the taxation issue, which is obviously pretty explicit if you use the terminology 'Calman commission'?

Holtham yn profi hynny. Dylai Llywodraeth San Steffan wneud y peth iawn a diogelu ein cymunedau, heddiw ac ar gyfer y dyfodol.

**Nick Bourne:** Mae'n bleser gennyf gymryd rhan yn y ddadl hon. Rwyf yn croesawu'r adroddiad trawiadol a grymus a gynhyrchwyd gan gomisiwn Gerry Holtham, ac mae'n bleser cael ei groesawu ef, David Miles a Paul Spahn i'r oriel. Mae'n adroddiad trylwyr ac eglur iawn. Rwyf hefyd yn cymeradwyo ymagwedd y Gweinidog. Mae hi'n haeddu clod am frocera cytundeb â phob un o'r pedair plaid yng nghyswllt hyn ac am ddangos agwedd o roi a derbyn. Croesawaf yn arbennig sylw Gareth, pan ddywedodd ei bod yn bryd rhoi gwleidyddiaeth plaid i'r naill ochr; rwyf yn gobeithio mai dyna beth roedd yn ei olygu, oherwydd rwyf fi'n credu ei bod yn bryd gwneud hynny. Mae hwn yn faes lle mae gennym lefel o gytundeb, a dylem symud ymlaen gyda'n gilydd.

Yn gyntaf, byddaf yn canolbwyntio ar yr hyn y mae'r adroddiad yn ei ddweud am fformiwla Barnett gan mai dyna beth sy'n bwysig. Rwyf yn cytuno â'r hyn a ddywedodd Brian Gibbons am y peryglon o sôn o hyd ac o hyd am yr agweddau trethiant, ac nad dyna'r sefyllfa rydym ynnddi ar hyn o bryd, er iddo dreulio llawer o'i araith yn sôn am hynny yn hytrach na fformiwla Barnett, sef yr hyn sydd angen sylw. Mae'n fater o wneud y pethau pwysicaf yn gyntaf, ac mae'n bwysig ein bod yn edrych ar hynny ac yn cydnabod ein bod wedi cael ein tangyllido. Fel y mae pobl wedi'i gydnabod, ac fel y mae'r cynnig yn ei gydnabod, mae Llywodraeth San Steffan yn arddel y pryderon a fynegwyd gan gomisiwn Holtham, ac mae'r Prif Weinidog a'r Canghellor wedi cyfeirio at y ffaith bod fformiwla Barnett yn dod i ddiwedd ei hoes. Mae angen inni aros yn unedig a rhoi sylw i'r mater fel Cynulliad unedig. Ildiaf i Brian.

**Brian Gibbons:** I fod yn eglur, er gwaethaf geiriad annefnyddiol y cytundeb yn San Steffan, ai eich dealltwriaeth chi yw mai'r flaenoriaeth i'r Llywodraeth glymblaid yn San Steffan yw rhoi sylw i gyllido teg yn hytrach na threthi, sy'n amlwg yn eithaf pendant os ydych yn defnyddio terminoleg comisiwn Calman?

**Nick Bourne:** I am coming to that. If Brian is willing to wait, I fully intend to deal with that. The short answer is 'yes'. I think that the Barnett formula comes before we look at any taxation. I suspect that, in all corners of the Assembly, we would agree with that.

The case is made on the Barnett formula, and I bid all strength to the Minister when she deals with this issue. She will certainly have our support in seeking to persuade others at Westminster of the need to deal with this and of the approach of looking at the Barnett floor, although, as Nick Ramsay quite rightly said, this does not particularly help in times of contracting expenditure, except for showing a direction of travel and a willingness to grapple with the more important issue of reforming the formula at large.

An aspect that we have only touched upon in passing is the importance of looking at this at a United Kingdom level because, as things stand, Wales is underfunded, England is underfunded and Scotland is overfunded. We cannot ignore that issue in the long term. We have to recognise that transitional arrangements have to be put in place for Scotland, and although this will not make me very popular in Scotland, it is massively overfunded based on any needs-based formula within the United Kingdom. It is not by accident that it has not used its tax-raising powers because, frankly, it has not needed to when you look at what it is able to do.

Important though this is, it is not going to be a panacea for all the ills and challenges that we face in Wales. It will help, but there remain massive issues to deal with in Wales in terms of the economy, health problems and so on. Therefore, we need to make the point that it is not a panacea to deal with all ills.

I will briefly touch on the taxation and borrowing aspects. We clearly need to look at borrowing; community councils and local authorities have borrowing power, and

**Nick Bourne:** Byddaf yn sôn am hynny yn y man. Os yw Brian yn fodlon aros, rwyf yn bwriadu ymdrin â hynny. Yr ateb byr yw 'ie'. Credaf y dylid edrych ar fformiwla Barnett cyn edrych ar drethi. Rwyf yn amau y byddai pawb ym mhob rhan o'r Cynulliad yn cytuno â hynny.

Mae'r achos wedi'i wneud yng nghyswllt fformiwla Barnett, a dymunaf y nerth mwyaf posibl i'r Gweinidog pan fydd yn ymdrin â'r mater hwn. Bydd yn sicr yn cael ein cefnogaeth ni wrth geisio darbwyllo Aelodau eraill yn San Steffan fod angen ymdrin â hyn a'r ffordd o edrych ar ddull ariannu gwaelodol Barnett, er nad yw hyn, fel y dywedodd Nick Ramsay yn briodol iawn, yn helpu rhyw lawer mewn cyfnod pan mae gwariant yn lleihau, ac eithrio i ddangos cyfeiriad a pharodrwydd i fynd i'r afael â'r mater pwysicach o ddiwygio'r fformiwla yn gyffredinol.

Un agwedd sydd ond wedi cael ei chrybwyll yn fras gennym yw pwysigrwydd edrych ar hyn ar lefel y Deyrnas Unedig. Fel y mae pethau, mae Cymru'n cael ei thangyllido, mae Lloegr yn cael ei thangyllido, ac mae'r Alban yn cael ei gorgyllido. Ni allwn anwybyddu'r mater hwnnw yn yr hirdymor. Rhaid inni gydnabod ei bod yn rhaid rhoi trefniadau trosiannol ar waith ar gyfer yr Alban, ac er na fydd hyn yn fy ngwneud yn boblogaidd iawn yn yr Alban, mae'n cael ei gorgyllido'n sylweddol ar sail unrhyw fformiwla sy'n seiliedig ar anghenion o fewn y Deyrnas Unedig. Nid damwain yw'r ffaith nad yw wedi defnyddio ei phwerau i godi trethi oherwydd, a dweud yn blaen, nid yw wedi gweld yr angen i wneud hynny pan edrychwch ar yr hyn y mae'n gallu ei wneud.

Er mor bwysig yw hyn, nid yw'n mynd i fod yn ateb i'r holl broblemau a'r heriau sy'n ein hwynebu yng Nghymru. Bydd yn helpu, ond erys materion enfawr i ymdrin â hwy yng Nghymru o ran yr economi, problemau iechyd ac yn y blaen. Felly, mae angen inni wneud y pwynt nad yw'n ateb i ymdrin â phob problem.

Soniaf yn fyr am yr elfennau trethi a benthyca. Mae'n amlwg bod angen inni edrych ar fenthyca; mae gan gynghorau cymuned ac awdurdodau lleol bwerau

therefore it is hard to say in that context that we should not have it, so that is something that should be addressed. There is a massive amount of food for thought in the report in relation to taxation, not just in relation to income tax and corporation tax, but in other areas as well. It is compelling that we look at it, but it is important that we walk before we run. There is an awful lot that the Assembly, the Assembly Government and the Westminster Government are approaching, and therefore it has to be in that order. It is important that we look at that in due course, but not just yet; priority must be given to getting the block grant and the Barnett formula, or its successor formula, right. I hope that we stand united on that, because we are much more likely to have an early success if we are united.

**Rhodri Morgan:** Hon yw un o'r dadleuon pwysicaf inni ei chael yn y Cynulliad hwn ers llawer dydd, efallai y ddadl bwysicaf ers sefydlu'r corff hwn 11 mlynedd yn ôl. Felly, mae'n bwysig ein bod yn ceisio magu undod a pharhau i weithio mewn undod. Efallai ei fod yn peri ychydig o syndod i bawb ein bod yn gallu uno ar bwnc fel hwn.

Fodd bynnag, hoffwn dorri ar draws yr egwyddor honno drwy gywiro'r hyn a ddywedodd Gareth Jones ryw bum munud yn ôl. Yr wyf yn gobeithio na fydd Plaid Cymru yn tanseilio'r undod hwn drwy ddweud mai dim ond o £300 miliwn mae adroddiad Holtham yn dweud ein bod yn brin, gan mai £400 miliwn yw'r ffigur yn yr ail adroddiad; £300 miliwn oedd yn yr adroddiad cyntaf, ond mae astudiaethau pellach a gwell wedi'u gwneud ers hynny.

What this report is about is the political setting of trying to achieve parity of treatment for Wales. There is an element of it that is strictly about the finance, namely the £400 million, but it is also about what is happening in Scotland, Northern Ireland and Wales in the context of the new coalition Government and its attitude to the funding of devolution, taxation and the responsibility of the different devolved bodies in terms of raising finance or borrowing.

benthyca ac felly mae'n anodd dweud yn y cyd-destun hwnnw na ddylem ni gael pwerau o'r fath, felly mae hynny'n rhywbeth y dylid rhoi sylw iddo. Mae llawer iawn o bethau i gnoi cil drostynt yn yr adroddiad mewn perthynas â threthi, nid yn unig o ran treth incwm a'r dreth gorfforaeth, ond mewn meysydd eraill hefyd. Mae'n anorffod ein bod yn edrych arno, ond mae'n bwysig nad ydym yn rhedeg cyn cerdded. Mae'r Cynulliad, Llywodraeth y Cynulliad a Llywodraeth San Steffan yn agosáu at lawer o bethau, ac felly rhaid iddynt ddilyn y drefn honno. Mae'n bwysig ein bod yn edrych ar hynny maes o law, ond ddim eto; rhaid rhoi blaenoriaeth i gael y grant bloc a fformiwla Barnett, neu'r fformiwla a fydd yn ei holynu, yn iawn i ddechrau. Rwyf yn gobeithio ein bod yn unedig ynghylch hynny, gan ein bod yn fwy tebygol o lawer i gael llwyddiant cynnar os ydym yn unedig.

**Rhodri Morgan:** This is one of the most important debates that we have had in the Assembly for a long time, perhaps even the most important debate since this body was established 11 years ago. Therefore, it is important that we nurture this collaboration and continue to work together. It may come as a surprise to everyone that we can unite on a subject such as this.

However, I would like to breach that principle by correcting what Gareth Jones said some five minutes ago. I hope that Plaid Cymru will not undermine this unity by saying that the Holtham report states that we are short of only £300 million, as the figure in the second report is £400 million; £300 was the figure in the first report, but further and better studies have been conducted since then.

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â cheisio sicrhau sefyllfa wleidyddol lle mae Cymru'n cael ei thrin yn gydradd. Mae elfen ohono sy'n ymwneud yn gyfan gwbl â'r cyllid, sef y £400 miliwn, ond mae hefyd yn ymwneud â'r hyn sy'n digwydd yn yr Alban, yng Ngogledd Iwerddon ac yng Nghymru yng nghyd-destun y Llywodraeth glymblaid newydd a'i hagwedd tuag at gyllido datganoli, treth a chyfrifoldebau'r gwahanol gyrff datganoledig o ran codi arian neu fenthyca.



Scotland has been promised a review of the fossil fuel levy, which could be worth £185 million, which is currently in the blocked account at Ofgem. It is quite a substantial sum of money on top of the historic overfunding of Scotland. The Calman commission process does not give Scotland any additional money, but it enables it to have this assignment of tax revenues within Scotland. So, it has two things.

Northern Ireland has already had one thing from the previous Labour Government, namely an over-generous transfer arrangement relating to the transfer of police and security powers, which was done on probably a rather better level than level funding terms. It may be a sum that is rather similar to the fossil fuel levy of £185 million that is under consideration for Scotland. Northern Ireland also has a second thing, namely an undertaking to review corporation tax.

So far, what has Wales had compared to the two concessions to Scotland and the two concessions to Northern Ireland? It has had the square root of nothing, so far, beyond the Hain-Darling or Darling-Hain undertaking—I am not sure which is the right way around to put that—not to allow a further relative deterioration in future comprehensive spending reviews, which was agreed between the then Secretary of State for Wales and the then Chancellor of the Exchequer, some months ago, during the previous administration.

5.30 p.m.

Holtham is a brilliant piece of work and, I have no doubt, one of the most outstanding ever commissioned by any British Government body—but it was not the British Government itself that commissioned it, which is part of the problem; it was this Government that commissioned it, back in 2007. That always poses a problem, especially for the Treasury, because mandarins do not like their monopoly on wisdom to be challenged in that way. Three people have done a job of work that the Treasury always claimed could not be done by 50 people. The not-invented-here problem

Mae'r Alban wedi cael addewid y bydd adolygiad yn cael ei gynnal o'r ardoll tanwydd ffosil, a allai fod yn werth £185 miliwn, ond sydd ar hyn o bryd yn y cyfrif gwaharddedig yn Ofgem. Mae'n dipyn o arian ar ben y gorgyllido hanesyddol a fu ar yr Alban. Nid yw proses comisiwn Calman yn rhoi unrhyw arian ychwanegol i'r Alban, ond mae'n ei galluogi i gael neilltuo refeniw treth yn yr Alban. Felly, mae gan yr Alban ddau beth.

Mae Gogledd Iwerddon eisoes wedi cael un peth gan y Llywodraeth Lafur flaenorol, sef trefniant trosglwyddo rhy hael yn ymwneud â throsglwyddo pwerau'r heddlu a phwerau diogelwch. Gwnaed hynny ar lefel dipyn gwell na'r telerau cyllido mae'n siŵr. Gall fod yn swm tebyg i'r £185 miliwn o ardoll tanwydd ffosil sy'n cael ei ystyried ar gyfer yr Alban. Mae gan Ogledd Iwerddon ail beth hefyd, sef ymrwymiad i adolygu'r dreth gorfforaeth.

Hyd yn hyn, beth mae Cymru wedi'i gael o'i gymharu â'r ddau gonsesiwn y mae'r Alban wedi'i gael a'r ddau gonsesiwn y mae Gogledd Iwerddon wedi'i gael? Dim yw dim. Dyna beth mae wedi'i gael hyd yma, ac eithrio penderfyniad Hain-Darling neu Darling-Hain—nid wyf yn siŵr beth yw'r drefn—i beidio â chaniatáu gostyngiad cymharol pellach mewn adolygiadau cynhwysfawr o wariant yn y dyfodol. Cytunodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Changhellor y Trysorlys ar y pryd ar hynny rai misoedd yn ôl, yn ystod y weinyddiaeth flaenorol.

Mae Holtham yn ddarn gwych o waith ac yn sicr dyma un o'r darnau mwyaf rhagorol erioed i gael ei gomisiynu gan unrhyw gorff o fewn Llywodraeth Prydain. Ond nid Llywodraeth Prydain ei hun wnaeth ei gomisiynu, ac mae hynny'n rhan o'r broblem; y Llywodraeth hon wnaeth ei gomisiynu, yn ôl yn 2007. Mae hynny bob amser yn peri problem, yn enwedig i'r Trysorlys, gan nad yw'r swyddogion uchel eu statws yn hoffi i'w monopoli ar ddoethineb gael ei herio yn y ffordd honno. Mae tri unigolyn wedi gwneud swydd o waith y mae'r Trysorlys wedi honni bob amser na

will be there in spades. It is important that the work should be treated seriously, because the commission has done work that people previously thought could not be done easily or accurately—and maybe it does need to be refined further.

What is important is that the coalition Government is in danger of putting the cart before the horse by saying that, depending on the result of the referendum next year, we can have a Calman commission, and that will solve the problem. Actually, what is needed is to get the funding formula right. You cannot even contemplate a Calman commission unless you get the baseline right. The baseline is wrong and Holtham proves that. As long as we all agree with that, we must keep battering the coalition Government and the Treasury, regardless of which party we are in. We would have had to do it had Labour remained in power or had there been a Labour-led coalition at Westminster. We now have a Conservative/Lib Dem coalition and, united, we must use a Welsh battering ram to get it to set a correct funding floor. It should either end the Barnett formula and replace it with a needs-based formula, or, if it cannot bring itself to do that, mend the Barnett formula by introducing the Holtham floor.

**Kirsty Williams:** I begin by thanking Gerry Holtham and his colleagues for their hard work in producing both reports. As the joke goes, they have achieved more by way of convincing the Labour Party of the need to reform the Barnett formula in a few short months than years of debate in the Chamber ever did. That is some achievement in itself. It is particularly gratifying for me to see that there has been consensus across the Chamber this afternoon on the need to work together. I pay tribute to the fortitude of the Minister for budget. As is her way, she insists that we come together on important issues of this kind, and I am sure that the united front that

fyddai 50 o bobl yn gallu ei wneud. Bydd y broblem 'nid ni sydd wedi'i ddyfeisio' yn amlwg iawn. Mae'n bwysig bod y gwaith yn cael ei drin o ddifrif, oherwydd mae'r comisiwn wedi gwneud gwaith yr oedd pobl yn arfer meddwl na fyddai modd ei wneud yn hawdd nac yn gywir—ac efallai fod angen mynd ati i goethi'r gwaith ymhellach.

Yr hyn sy'n bwysig yw bod y Llywodraeth glymblaid mewn perygl o roi'r drol o flaen y ceffyl drwy ddweud y gallwn ni, yn dibynnu ar ganlyniad y refferendwm y flwyddyn nesaf, gael comisiwn Calman, ac y bydd hynny'n datrys y broblem. A dweud y gwir, yr hyn sydd ei angen yw gwneud yn siŵr bod y fformiwla gyllido'n gywir. Ni allwch hyd yn oed ystyried comisiwn Calman oni bai eich bod yn cael y llinell sylfaen yn gywir. Mae'r llinell sylfaen yn anghywir ac mae Holtham yn profi hynny. Cyn belled â'n bod i gyd yn cytuno â hynny, rhaid inni barhau i bwysio o ddifrif ar y Llywodraeth glymblaid ac ar y Trysorlys, ni waeth pa blaid rydym yn perthyn iddi. Byddem wedi gorfod gwneud hynny pe bai Llafur wedi aros mewn grym neu pe baem wedi cael Llywodraeth glymblaid o dan arweiniad y Blaid Lafur yn San Steffan. Erbyn hyn, mae gennym Lywodraeth glymblaid rhwng y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol, a chyda'n gilydd, rhaid inni ddefnyddio dyrnhwrdd Cymru i'w gorfodi i roi dull ariannu gwaelodol ar waith. Dylai naill ai roi terfyn ar fformiwla Barnett a'i disodli gyda fformiwla sy'n seiliedig ar anghenion, neu, os nad yw'n gallu gwneud hynny, dylai wella fformiwla Barnett drwy gyflwyno dull ariannu gwaelodol Holtham.

**Kirsty Williams:** Dechreuaf drwy ddiolch i Gerry Holtham a'i gydweithwyr am eu gwaith caled yn cynhyrchu'r ddau adroddiad. Y peth digrif yw, maent wedi cyflawni mwy i argyhoeddi'r Blaid Lafur bod angen diwygio fformiwla Barnett mewn ychydig fisoedd na'r hyn y mae blynyddoedd o ddadlau yn y Siambr wedi'i gyflawni erioed. Mae hynny'n dipyn o gamp ynddo'i hun. Mae'n arbennig o foddhaol i mi weld consensws ar draws y Siambr y prynhawn yma ar yr angen i weithio gyda'n gilydd. Rwyf yn canmol dewrder y Gweinidog dros y Gyllideb. Yn ei ffordd, mae hi'n mynnu ein bod yn dod at ein gilydd ar faterion pwysig fel y rhain, ac rwyf yn siŵr

has just been referred to by the former First Minister will be crucial to take this argument forward.

I will touch briefly on the three main issues that arise from this afternoon's debate and the reports. The first is the funding floor. While I appreciate that getting the Treasury to admit to the floor might seem totemic, we need to be realistic about what can be achieved in the current circumstances—unless the Minister is arguing that a floor should be attached to individual English departmental expenditure limits, so that when expenditure goes up in education and health, for instance, we do not suffer a squeeze and it is not applied where public expenditure is falling. Clarifying her expectations of what implementing the floor means and of whether she expects that to make a real difference would be helpful.

The crux of the matter is that we need a full reform and a needs-based formula that takes into consideration the needs of Wales. I welcome Rhodri Morgan's admission that, regardless of who found themselves in power at Westminster, it would have been a job of work to convince the Treasury of the need to take on this significant piece of work. That is made more complicated by the financial situation of the country, especially when we are talking about a massive redistribution of funding to certain parts of Wales and certain parts of England, as opposed to spending in Scotland. When that is married with falling public expenditure, it makes it even more difficult to come up with a way forward, but we have to keep battling this point.

I welcome the fact that the Westminster Government has acknowledged the shortcomings of the existing funding arrangements in its commitment in the coalition agreement document. I welcome the commitment of the Chief Secretary to the Treasury in taking the initiative and meeting Gerry Holtham to talk about the work and gain an understanding of it.

The fiscal responsibilities and taxation issues are, I think, the most exciting element of the Holtham commission's work, because they

y bydd y ffrynt unedig sydd newydd gael ei grybwyll gan y cyn Brif Weinidog yn hanfodol i fynd â'r ddadl hon yn ei blaen.

Soniaf yn gwyno am y tri phrif fater sy'n codi o'r ddadl y prynhawn yma ac o'r adroddiadau. Y cyntaf yw'r dull ariannu gwaelodol. Er fy mod yn sylweddoli y gallai cael y Trysorlys i gydnabod y dull ariannu gwaelodol ymddangos yn dotemaidd, mae angen inni fod yn realistig am yr hyn y gellir ei gyflawni yn yr amgylchiadau presennol—oni bai fod y Gweinidog yn dadlau y dylai dull ariannu gwaelodol fod ynghlwm wrth derfynau gwariant adrannau unigol yn Lloegr. Yna, pan fydd gwariant yn codi ym maes addysg neu iechyd, er enghraifft, ni fyddwn yn dioddef gwasgfa, ac ni fydd yn cael ei ddefnyddio pan fydd gwariant cyhoeddus yn gostwng. Byddai'n ddefnyddiol pe bai'n egluro ei disgwyliadau o ran rhoi dull ariannu gwaelodol ar waith ac a yw hi'n disgwyl i hynny wneud gwahaniaeth go iawn.

Craidd y mater yw bod angen inni weld diwygio llawn a fformiwla sy'n seiliedig ar anghenion ac sy'n ystyried anghenion Cymru. Rwyf yn croesawu cyfaddefiad Rhodri Morgan y byddai'n swydd o waith argyhoeddi'r Trysorlys o'r angen i fwrw ymlaen â'r darn sylweddol hwn o waith, ni waeth pwy sydd mewn grym yn San Steffan. Mae hynny'n cael ei gymhlethu gan sefyllfa ariannol y wlad, yn enwedig wrth sôn am aiddosbarthu arian ar raddfa enfawr i rannau penodol o Gymru a rhai rhannau o Loegr, yn hytrach na gwario ar yr Alban. Rhwng hynny a'r gostyngiad mewn gwariant cyhoeddus, mae'n anos byth dod o hyd i ffordd ymlaen, ond rhaid inni barhau i frwydro ar y pwynt hwn.

Rwyf yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth San Steffan, yn ei hymrwymiad yn nogfen gytundeb y glymblaid, wedi cydnabod y diffygion yn y trefniadau cyllido presennol. Rwyf yn croesawu ymrwymiad Prif Ysgrifennydd y Trysorlys yn cymryd y cam cyntaf ac yn cael cyfarfod â Gerry Holtham i drafod y gwaith a'i ddeall.

Y cyfrifoldebau ariannol a'r materion treth yw elfennau mwyaf cyffrous gwaith comisiwn Holtham yn fy marn i, gan eu bod

take us a step beyond constantly looking to London for the answers to our issues. I think that if we presented a united front here, we would find a willing ear in London to listen to some of the less tricky aspects of devolving power. Brian Gibbons is absolutely right: we need to be careful about how we address issues around tax-raising powers in the manifestos for next year's Assembly election, as we do not want people to be under the misapprehension that that is what they are voting for next May. Any issues that would involve tax-raising powers would have to be put to the test of another referendum—and I think that two referenda next year are probably as much as we can cope with. However, there are issues that we could look at that would not involve tax-raising powers, but merely an ability to adjust certain types of taxation. That would not require a referendum, but it could provide us with an exciting opportunity to grasp our destiny in our hands, and to bring a level of fiscal responsibility to this institution that is currently lacking. That, for me and my party, is the most exciting part of this report.

I conclude by saying that it would have to be on a consensual basis that we take this forward. Gareth Jones's negotiating style is interesting: telling the Government on the one hand what it must do, and abusing and insulting it on the other. I think that we can put that to one side, as that does not serve Wales's needs best. We need to argue on the basis of this document and the evidence that we have. The Holtham commission has provided us with the ammunition that we need finally to win this battle in London.

**Chris Franks:** I am pleased to associate Plaid Cymru with the congratulations of the Minister on the excellent work of the commission. However, it would be helpful to remind Members, and indeed the wider public, of the contribution of a former Assembly Member, the late Phil Williams, in ensuring that we debated this outdated funding formula in the first Assembly, more than a decade ago. Phil Williams, along with many others in Plaid Cymru, was dismissed

yn mynd â ni gam y tu hwnt i edrych i gyfeiriad Llundain o hyd ac o hyd er mwyn cael ateb i'n problemau. Os ydym yn cyflwyno ffrynt unedig yma, rwyf yn credu y byddem yn cael clust barod yn Llundain i wrando ar rai o elfennau llai cymhleth datganoli pŵer. Mae Brian Gibbons yn llygad ei le: mae angen inni fod yn ofalus o ran sut rydym yn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â phwerau codi trethi yn y manifestos ar gyfer etholiadau'r Cynulliad y flwyddyn nesaf. Nid ydym am i bobl gael camargraff mai ynghylch hynny y maent yn pleidleisio fis Mai nesaf. Byddai unrhyw faterion a fyddai'n golygu pwerau codi trethi yn gorfod cael eu rhoi ar brawf mewn refferendwm arall—ac rwyf yn credu bod dau refferendwm y flwyddyn nesaf gymaint ag y gallwn ymdopi ag ef. Fodd bynnag, mae materion y gallem eu hystyried na fyddai'n cynnwys pwerau codi trethi, ond yn hytrach y gallu i addasu rhai mathau o drethi. Ni fyddai angen refferendwm ar gyfer hynny, ond gallai roi cyfle cyffrous inni fod yn gyfrifol am ein dyfodol ein hunain a dod â lefel o gyfrifoldeb ariannol i'r sefydliad hwn sydd, ar hyn o bryd, yn brin ohono. I mi a'm plaid, dyna ran fwyaf cyffrous yr adroddiad hwn.

Hoffwn gloi drwy ddweud y byddai'n rhaid cael cydsyniad er mwyn bwrw ymlaen â hyn. Mae arddull trafod Gareth Jones yn ddiddorol: gan ddweud wrth y Llywodraeth ar y naill law beth mae'n rhaid iddi ei wneud, a'i difrio a'i sarhau ar y llall. Rwyf yn meddwl y gallwn roi hynny i'r naill ochr, gan nad dyna'r ffordd orau i wasanaethu anghenion Cymru. Mae angen inni ddadlau ar sylfaen y ddogfen hon a'r dystiolaeth sydd gennym. O'r diwedd, diolch i gomisiwn Holtham, rydym wedi cael yr arfau y mae eu hangen arnom i ennill y frwydr hon yn Llundain.

**Chris Franks:** Ar ran Plaid Cymru, hoffwn longyfarch y Gweinidog am waith rhagorol y comisiwn. Fodd bynnag, byddai'n ddefnyddiol atgoffa'r Aelodau, ac yn wir y cyhoedd yn gyffredinol, am gyfraniad cyn Aelod o'r Cynulliad, y diweddar Phil Williams, a wnaeth sicrhau ein bod yn trafod yr hen fformiwla ariannu hon yn y Cynulliad cyntaf, fwy na degawd yn ôl. Cafodd Phil Williams, ynghyd â nifer o aelodau eraill Plaid Cymru, ei ddiystyru pan alwodd am

when he called for a needs-based funding formula. Now our calls have been clearly vindicated following the publication of this excellent report. It has taken Plaid Cymru in Government to achieve this. We have heard many fine words from other parties in the Chamber today, but none of you made any progress in achieving such a report when you were in power, whether in coalition or on your own.

Rhodri Morgan has described the reform of the funding formula as a Pandora's box. It is now well and truly open with the findings of this report. He, along with many other Labour politicians and the Conservatives, resisted calls for a review of the funding formula in the past. Now, I am pleased to say, there is consensus for fair funding, and I hope that all those in the Chamber will call on the Conservatives and Lib Dems here to ensure that their masters in London honour the commitments made for fair funding. It is easy to say pleasant words in Wales. Go down the M4 and make sure that your masters deliver the goods.

**David Melding:** You go to Edinburgh.

**Chris Franks:** No, no. You go to Edinburgh, and I will just remind you—

**The Deputy Presiding Officer:** Order.

**Chris Franks:** I will remind you of a statement made jointly by Ieuan Wyn Jones and Alex Salmond prior to the election. They said that the Barnett formula was not working for Scotland and Wales, and that the funding arrangements in the UK needed to be changed to reflect the needs and demands of the people of Wales and Scotland. Therefore, you go to Edinburgh and take your deputy boss here with you.

**Mark Isherwood:** Will you take an intervention?

**Chris Franks:** I do not have time, sorry.

Would the Minister agree that there is a need

fformiwla gyllido seiliedig ar anghenion. Mae'n amlwg bod ein galwadau wedi cael eu cyfiawnhau erbyn hyn yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad ardderchog hwn. Bu'n rhaid cael Plaid Cymru yn y Llywodraeth i gyflawni hyn. Rydym wedi clywed llawer o eiriau teg gan bleidiau eraill yn y Siambr heddiw, ond ni chafodd dim un ohonoch fawr o hwyl ar gyflawni adroddiad o'r fath pan oeddech chi mewn grym, boed mewn clymblaid neu ar eich pen eich hun.

Mae Rhodri Morgan wedi disgrifio diwygio'r fformiwla gyllido fel blwch Pandora. Mae'r blwch hwnnw ar agor led y pen erbyn hyn gyda chanfyddiadau'r adroddiad hwn. Gwrthododd ef a nifer o wleidyddion eraill Llafur a'r Ceidwadwyr wrthod y galwadau am adolygu'r fformiwla gyllido yn y gorffennol. Nawr, rwyf yn falch o ddweud, mae consensws ar gyfer cyllido teg, ac rwyf yn gobeithio y bydd pawb yn y Siambr yn galw ar y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yma i sicrhau bod eu meistri yn Llundain yn anrhydeddu'r ymrwymadau a wnaed ar gyfer cyllido teg. Mae'n hawdd iawn dweud geiriau dymunol yng Nghymru. Ewch i lawr yr M4 a gwneud yn siŵr bod eich meistri'n cyflawni'r addewid.

**David Melding:** Ewch chi i Gaeredin.

**Chris Franks:** Na, na. Ewch chi i Gaeredin, a byddaf yn eich atgoffa—

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn.

**Chris Franks:** Byddaf yn eich atgoffa o ddatganiad a wnaed ar y cyd gan Ieuan Wyn Jones ac Alex Salmond cyn yr etholiad. Gwnaethant ddweud nad oedd fformiwla Barnett yn gweithio i'r Alban nac i Gymru, a bod angen newid y trefniadau cyllido yn y DU i adlewyrchu anghenion a gofynion pobl Cymru a phobl yr Alban. Felly, ewch chi i Gaeredin a mynd â'ch dirprwy reolwr yno gyda chi.

**Mark Isherwood:** A wnewch dderbyn ymyriad?

**Chris Franks:** Mae'n ddrwg gennyf, nid oes gennyf amser.

A fyddai'r Gweinidog yn cytuno bod angen

for urgent reform of the way in which Wales is funded to ward off a double-dip recession? I hope that the Chamber sends a strong signal to the UK Government endorsing the commission's recommendations for fairer funding, including the addition of a floor to the existing Barnett formula, and, subsequently, wider reform.

5.40 p.m.

What consensus is there for steps to be taken to change corporation tax so that Welsh businesses could pay less tax in Wales and could invest more money in jobs and the economy? The Conservatives, along with their Lib Dem partners, want to cut savagely. That will disproportionately damage economies such as Wales's, which is more reliant on public spending. Plaid Cymru believes that it would be far more effective and acceptable to strip away the waste in public spending sensibly, starting with the 10-year pay protection in the Welsh NHS and the huge pay packets for university chancellors, some of whom earn more than the First Minister.

This independent report demonstrates why we need an immediate change to the Barnett formula, which disadvantages Wales when compared with a needs-based formula. The current system is costing us hundreds of millions of pounds—and I was grateful to Rhodri Morgan, my neighbour, for the correction when he highlighted that it was £400 million. The current system is costing Welsh public services more than 9,000 jobs a year, and the indexing of corporation tax alongside the GVA of our so-called 'region' would mean that businesses—both those well established and, we hope, those that would be attracted to Wales—would be supported on an even footing.

I welcome that the report highlighted how we should control some of our natural resources, for instance by taking ownership of our coastline, which is currently under Crown estate control, which, of course, means the

mynd ati ar frys i ddiwygio'r modd y mae Cymru'n cael ei chyllido er mwyn osgoi dirwasgiad dwbl? Gobeithio y bydd y Siambr yn anfon neges glir i Lywodraeth y DU yn cefnogi argymhellion y comisiwn ar gyfer cyllido tecach, gan gynnwys ychwanegu dull ariannu gwaelodol at fformiwla bresennol Barnett, a'i diwygio'n ehangach ar ôl hynny.

Beth yw'r consensws ar gyfer cymryd camau i newid y dreth gorfforaeth er mwyn i fusnesau Cymru allu talu llai o dreth yng Nghymru a buddsoddi mwy o arian mewn swyddi ac yn yr economi? Mae'r Ceidwadwyr, ynghyd â'u partneriaid, y Democratiaid Rhyddfrydol, am fynd ati'n ffyrnig i wneud toriadau. Bydd hynny'n niweidio economïau fel un Cymru, sy'n fwy dibynnol ar wariant cyhoeddus, yn anghymesur. Mae Plaid Cymru yn credu y byddai'n fwy effeithiol a derbyniol o lawer cael gwared â'r gwastraff mewn gwariant cyhoeddus yn synhwyrol, gan ddechrau gyda chynllun diogelu cyflogau 10 mlynedd GIG Cymru a'r cyflogau enfawr y mae cangellorion prifysgol yn eu cael, gan gofio bod ambell un yn ennill mwy na Phrif Weinidog Cymru.

Mae'r adroddiad annibynnol hwn yn dangos pam mae angen newid fformiwla Barnett ar unwaith, gan ei bod yn rhoi Cymru o dan anfantais o'i chymharu â'r sefyllfa pe defnyddid fformiwla sy'n seiliedig ar anghenion. Mae'r system bresennol yn costio cannoedd o filiynau o bunnoedd inni—ac roeddwn yn ddiolchgar i Rhodri Morgan, fy nghymydog, am fy nghywiro pan ddywedodd mai £400 miliwn oedd y ffigur. Mae'r system bresennol yn costio mwy na 9,000 o swyddi y flwyddyn i wasanaethau cyhoeddus Cymru, a byddai mynegeo'r dreth gorfforaeth ochr yn ochr â gwerth ychwanegol crynswth ein 'rhanbarth', fel y'i gelwir, yn golygu y byddai busnesau—y rheini sydd wedi'u sefydlu a'r rheini a fyddai, gobeithio, yn cael eu denu i Gymru—yn cael eu cefnogi'n deg.

Rwyf yn croesawu'r ffaith bod yr adroddiad yn tynnu sylw at sut y dylem reoli rhai o'n hadnoddau naturiol, er enghraifft drwy gymryd perchnogaeth o'n harfordir, sydd ar hyn o bryd o dan reolaeth ystâd y Goron.

control of the UK Government; it has nothing to do with the Crown. However, if we are able to take control of Welsh natural resources, the scale of Wales's renewable energy potential could increase the Welsh Government's income without distorting the tax regime.

**Andrew Davies:** The operation of the Barnett formula goes to the heart of the constitutional settlement between Wales and Whitehall. I will not cover the points that have already been made about the calculation of the funding formula or the merits of a needs-based formula. However, as a former Minister for finance who dealt with the Treasury for the best part of three years in negotiations, what struck me was that the Barnett formula was anachronistic and did not reflect the reality of devolution today, whether for Wales, Scotland or Northern Ireland. The Treasury treated the Assembly Government as another Whitehall Government department, as opposed to a Government in its own right, with its own mandate, jurisdiction and policy.

I also add my words of congratulations and commendation to Gerry Holtham, Professor Bernd Spahn and Professor David Miles, as the report is an exemplary piece of work. In my evidence to Gerry and to the Welsh Affairs Committee in its report on Wales and Whitehall earlier this year, I made points about the lack of accountability and transparency. As a Minister for finance, I certainly felt that not only were we almost playing a game of football with the other side, but that the other side was also the referee and was not above moving the goalposts on occasion, when that suited its purposes. Therefore, there is a real issue of accountability and transparency. For example, neither the First Minister nor the Minister for finance is a signatory to the statement of funding policy, which governs the so-called 'agreement' between the devolved administrations and the UK Government. It was, in effect, an internal UK Government agreement signed by, in our case, the Secretary of State for Wales and by Treasury Ministers. Similarly, there is no

Mae hynny'n golygu, wrth gwrs, ei fod o dan reolaeth Llywodraeth y DU, ac nid oes ganddo ddim oll i'w wneud â'r Goron. Fodd bynnag, os gallwn gymryd rheolaeth o adnoddau naturiol Cymru, gallai potensial ynni adnewyddadwy Cymru gynyddu incwm Llywodraeth Cymru heb darfu ar y system dreth.

**Andrew Davies:** Mae'r ffordd y mae fformiwla Barnett yn gweithio yn mynd at wraidd y setliad cyfansoddiadol rhwng Cymru a Whitehall. Ni fyddaf yn sôn am y pwyntiau sydd eisoes wedi cael eu codi ynghylch cyfrifo'r fformiwla gyllido neu deilyngdod fformiwla sy'n seiliedig ar anghenion. Fodd bynnag, fel cyn Weinidog dros Gyllid a fu'n cael trafodaethau â'r Trysorlys am y rhan orau o dair blynedd, yr hyn a oedd yn fy nharo oedd bod fformiwla Barnett yn anacronistig ac nad oedd yn adlewyrchu realiti datganoli heddiw, boed ar gyfer Cymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon. Roedd y Trysorlys yn trin Llywodraeth y Cynulliad fel un arall o adrannau Llywodraeth Whitehall, yn hytrach na Llywodraeth yn ei hawl ei hun, gyda'i mandad, ei hawdurdodaeth a'i pholisïau ei hun.

Rwyf hefyd yn llongyfarch ac yn canmol Gerry Holtham, yr Athro Bernd Spahn a'r Athro David Miles, gan fod yr adroddiad yn ddarn rhagorol o waith. Yn fy nhystiolaeth i Gerry ac i'r Pwyllgor Materion Cymreig yn ei adroddiad ar Gymru a Whitehall yn gynharach eleni, codais bwyntiau am y diffyg atebolrwydd a thryloywder. Fel Gweinidog dros Gyllid, roeddwn yn sicr yn teimlo ein bod yn chwarae gêm bêl-droed gyda'r ochr arall, ond fod yr ochr arall hefyd yn chwarae rôl y dyfarnwr ac yn barod i symud y pyst ar adegau, pan oedd hynny'n addas at y diben. Felly, mae atebolrwydd a thryloywder yn fater sydd angen sylw go iawn. Er enghraifft, nid yw Prif Weinidog Cymru na'r Gweinidog dros Gyllid yn llofnodi'r datganiad polisi cyllid, sy'n rheoli'r hyn a elwir yn 'gytundeb' rhwng y gweinyddiaethau datganoledig a Llywodraeth y DU. Yr hyn ydoedd, mewn gwirionedd, oedd cytundeb mewmol gan Lywodraeth y DU wedi'i lofnodi, yn ein hachos ni, gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Gweinidogion y Trysorlys. Yn yr un modd, nid oes ateb na mecanwaith effeithiol i

effective solution or mechanism for conflict resolution, other than the appeal by the Assembly Government, or the Scottish Government or the Northern Ireland Executive, to the joint ministerial committee. That is, in effect, the nuclear option and, if you do that, you will almost certainly fail in your request, which is why it has never been done.

The points made by the Holtham commission on dealing with the problems of the lack of accountability and transparency are valid. In fact, Gerry Holtham's commission recommended that Barnett be administered by an arm's-length body, and it recommended the Office for National Statistics, as that would mean taking it out of the political process.

There will always be conflict and differences of opinion between the various Governments and the devolved administrations, but introducing that extra level of transparency will also improve the way in which the funding formula will operate. Similarly, there is a need for greater accountability of the Treasury to the National Assembly for Wales, and the recommendation is that a Treasury Minister should appear before the Finance Committee. I am delighted to say—although the Chair is not here today—that that recommendation has already been followed up, and the invitation has been extended to the Treasury for a Minister to appear before the committee. That will also improve transparency and accountability.

Clearly, what has changed is that Westminster has now recognised that the Barnett formula is flawed, if not bust. From the devolved administrations' point of view, there have been the Holtham and Calman commissions, but there has also been a House of Lords committee, chaired by Lord Ivor Richard; in addition, the House of Commons' Justice Committee said that Barnett was flawed and, earlier this year, the House of Commons' Welsh Affairs Committee said that the Barnett formula is flawed and needs to be reformed. Like many Members, I regret that the UK coalition Government has not dealt even-handedly with us and the Scots in its handling of the recommendations of the Holtham committee. Notwithstanding that, I

ddatrys gwrthdaro, ac eithrio'r apêl gan Lywodraeth y Cynulliad neu Lywodraeth yr Alban neu Weithrediaeth Gogledd Iwerddon, i'r Cyd-bwyllgor Gweinidogion. Dyna'r opsiwn niwclear mewn gwirionedd ac, os byddwch yn gwneud hynny, byddwch bron yn sicr yn aflwyddiannus, a dyna pam nad yw hynny erioed wedi cael ei wneud.

Mae'r pwyntiau a wnaed gan gomisiwn Holtham ar ymdrin â phroblemau diffyg atebolrwydd a thryloywder yn ddilys. Yn wir, roedd comisiwn Gerry Holtham yn argymhell y dylai fformiwla Barnett gael ei gweinyddu gan gorff hyd braich. Argymhellodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol, gan y byddai hynny'n golygu ei symud o'r broses wleidyddol.

Bydd gwrthdaro a gwahaniaeth barn rhwng y gwahanol Lywodraethau a'r gweinyddiaethau datganoledig bob amser, ond bydd cyflwyno'r lefel ychwanegol honno o dryloywder hefyd yn gwella'r ffordd y bydd y fformiwla gyllido yn gweithredu. Yn yr un modd, mae angen i'r Trysorlys fod yn fwy atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a'r argymhelliad yw y dylai Gweinidog y Trysorlys ymddangos gerbron y Pwyllgor Cyllid. Mae'n bleser gennyf ddweud—er nad yw'r Cadeirydd yma heddiw—bod yr argymhelliad hwnnw eisoes wedi ei ddilyn, ac mae llythyr wedi cael ei anfon i'r Trysorlys yn gwahodd Gweinidog i ymddangos gerbron y pwyllgor. Bydd hynny hefyd yn gwella tryloywder ac atebolrwydd.

Yn amlwg, yr hyn sydd wedi newid yw bod San Steffan bellach wedi cydnabod bod fformiwla Barnett yn ddiffygiol, os nad wedi mynd i'r wal. O safbwynt y gweinyddiaethau datganoledig, cynhaliwyd Comisiwn Holtham a Chomisiwn Calman, ond bu Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi hefyd, a oedd yn cael ei gadeirio gan yr Arglwydd Ivor Richard; yn ogystal â hynny, dywedodd Pwyllgor Cyfiawnder Tŷ'r Cyffredin bod Barnett yn ddiffygiol ac, yn gynharach eleni, dywedodd Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin fod fformiwla Barnett yn ddiffygiol a bod angen ei diwygio. Fel nifer o Aelodau, rwyf yn gresynu nad yw Llywodraeth glymblaid y DU wedi ein trin ni a'r Albanwyr yn deg wrth ymdrin ag



am delighted that there is all-party agreement on the motion, as that will add not only to the voice here but to that in Westminster for urgent and timely reform of the Barnett formula, so that it is more equitable and just for the Assembly, the Assembly Government and the people of Wales.

**The Minister for Business and Budget (Jane Hutt):** I am grateful to Members for their contributions. Taken together, the two reports by the Independent Commission on Funding and Finance for Wales have had a real impact on what I call a constructive, but not cosy, debate on how devolved Government in Wales should be funded. I also pay tribute to the Finance Committee in its role in scrutinising these important reports. The reports by the independent commission have addressed, with balance and particular attention to detail and to practical issues, the challenging remit that it was set. The commission has shown that we are fully justified in our concerns about the emerging direction of funding in Wales. It has provided us with solutions, which we are now taking forward and discussing with the UK Government.

We now know how much Wales should receive and the methodologies that would deliver fair funding. Members have raised the issue of the floor; Nick, you mentioned that in your very constructive contribution, as did many others. Establishing a floor would not immediately resolve the shortfall, as Gareth said, but under the stringent financial settlement that we now face, we estimate that a floor implemented at departmental level—and we can discuss how we deliver the floor, Kirsty—could bring Wales around £200 million in aggregate over the coming four years. After the previous discussion about higher education, we need that £200 million, do we not? We have to recognise that, while that may be a comparatively small contribution, given our level of underfunding, it would be an important step in the right direction. While the floor would not eliminate the need for further reform, it should not be dismissed as an irrelevance. We have consensus, and the Finance

argymhellion pwyllgor Holtham. Serch hynny, rwyf wrth fy modd bod pob plaid yn cytuno ar y cynnig, gan y bydd hynny nid yn unig yn ychwanegu at y llais yma ond at y llais yn San Steffan hefyd dros ddiwygio fformiwla Barnett ar frys ac yn amserol, er mwyn iddi fod yn fwy teg a chyfiawn ar gyfer y Cynulliad, Llywodraeth y Cynulliad a phobl Cymru.

#### **Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb**

**(Jane Hutt):** Rwyf yn ddiolchgar i'r Aelodau am eu cyfraniadau. Gyda'i gilydd, mae'r ddau adroddiad gan y Comisiwn Annibynnol ar Ariannu a Chyllid i Gymru wedi cael effaith wirioneddol ar yr hyn a oedd, yn fy marn i, yn ddadl adeiladol, ond nid cyfforddus, ar y modd y dylai'r Llywodraeth ddatganoledig yng Nghymru gael ei chyllido. Talaf deyrnged hefyd i'r Pwyllgor Cyllid am ei rôl yn craffu ar yr adroddiadau pwysig hyn. Mae adroddiadau'r comisiwn annibynnol wedi mynd i'r afael â'r cylch gwaith heriol a osodwyd iddo, a hynny mewn ffordd gytbwys a oedd yn rhoi sylw arbennig i fanylion ac i faterion ymarferol. Mae'r comisiwn wedi dangos bod gennym achos cyfiawn dros ein pryderon am gyfeiriad cyllido yng Nghymru. Mae wedi rhoi atebion inni, ac rydym ninnau'n awr yn bwrw ymlaen â hwy ac yn eu trafod â Llywodraeth y DU.

Rydym bellach yn gwybod faint ddylai Cymru ei gael ac am y methodolegau a fyddai'n sicrhau cyllido teg. Mae'r Aelodau wedi sôn am y dull ariannu gwaelodol; Nick, gwnaethoch sôn am hynny yn eich cyfraniad hynod adeiladol chi, fel y gwnaeth llawer o rai eraill. Ni fyddai rhoi dull ariannu gwaelodol ar waith yn datrys y diffyg ar unwaith, fel y dywedodd Gareth, ond o dan y setliad cyllidol llym rydym yn ei wynebu yn awr, rydym yn amcangyfrif y byddai rhoi dull ariannu gwaelodol ar waith ar lefel adrannau—a gallwn drafod sut i gyflwyno'r dull ariannu gwaelodol, Kirsty—yn gallu dod ag oddeutu £200 miliwn i Gymru dros y pedair blynedd nesaf. Ar ôl y drafodaeth flaenorol am addysg uwch, onid oes arnom angen y £200 miliwn hwnnw? Rhaid inni gydnabod, er mai cyfraniad cymharol fach yw hwnnw o bosibl, o ystyried ein lefel o danariannu, byddai'n gam pwysig i'r cyfeiriad iawn. Er na fyddai'r dull ariannu gwaelodol yn dileu'r angen am ddiwygio ymhellach, ni

Committee has spent some time questioning how that floor could be delivered. It is true, Nick, that a floor would deliver greater resources to Wales when budgets are increasing in cash terms than when they are decreasing—that is a matter of simple arithmetic. However, we do not know what the impact of the spending review will be, and the need for a floor will be critical if, for example, the UK Government protects its health budget in real terms. We would then have consequentials that are positive from at least one UK Government department. Therefore, we have to look at those issues, and I am discussing those with the Chief Secretary to the Treasury.

ddyliid ei ddiystyru fel rhywbeth amherthnasol. Mae gennym gonsensws, ac mae'r Pwyllgor Cyllid wedi treulio dipyn o amser yn holi sut y gellid cyflwyno'r dull ariannu gwaelodol hwnnw. Mae'n wir, Nick, y byddai dull ariannu gwaelodol yn darparu mwy o adnoddau i Gymru pan fydd cyllidebau'n cynyddu mewn termau ariannol na phan fyddant yn gostwng—rhifydddeg syml yw hynny. Fodd bynnag, nid ydym yn gwybod beth fydd effaith yr adolygiad o wariant, a bydd yr angen am ddull ariannu gwaelodol yn hanfodol os, er enghraifft, bydd Llywodraeth y DU yn diogelu ei chyllideb iechyd mewn termau real. Yna byddem yn cael symiau canlyniadol sy'n gadarnhaol gan o leiaf un adran o Lywodraeth y DU. Felly, rhaid inni edrych ar y materion hynny, ac rwyf yn trafod y rheini â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys.

Peter's point is that the priority for Wales has to be the introduction of the floor in order to prevent greater underfunding. In the longer term, the Barnett formula should be replaced with a needs-based funding system, as you have said, Peter. That will inevitably take some time, which is why the preparatory work should begin soon. That is why I can assure you, Gareth, that I am pressing hard on the implementation of the funding floor as the first step, and also discussing these financial issues and the issue of the floor, not just with the Chief Secretary to the Treasury, but with Ministers for finance from other devolved administrations.

Pwynt Peter yw ei bod yn rhaid i gyflwyno'r dull ariannu gwaelodol fod yn flaenoriaeth i Gymru, os ydym am atal rhagor o dangyllido. Yn y tymor hwy, dylai fformiwla Barnett gael ei disodli gan system gyllido sy'n seiliedig ar anghenion, fel rydych wedi'i ddweud, Peter. Mae'n anorfod y bydd hynny'n cymryd dipyn o amser, a dyna pam y dylai'r gwaith paratoadol ddechrau cyn bo hir. Dyna pam y gallaf eich sicrhau, Gareth, fy mod yn pwysu'n drwm i roi dull ariannu gwaelodol ar waith fel y cam cyntaf, ac yn trafod y materion ariannol hyn a'r dull ariannu gwaelodol nid yn unig â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys, ond â Gweinidogion dros Gyllid gweinyddiaethau datganoledig eraill hefyd.

5.50 p.m.

Brian and Rhodri, you made very important points about the referendum, and Kirsty addressed this issue as well. You also discussed the UK coalition Government document with regard to the timing of change and reform. It is important to emphasise that the forthcoming referendum is on law-making powers and completely separate to any debate on the devolution of tax-raising powers. The legal position is clear: if there is a 'yes' vote in the referendum, the Assembly will not receive as a result any powers that would enable it to legislate on general taxes, such as income tax or corporation tax. I have

Brian a Rhodri, gwnaethoch bwyntiau pwysig iawn am y refferendwm, ac aeth Kirsty i'r afael â'r mater hwn hefyd. Gwnaethoch hefyd drafod dogfen Llywodraeth glymblaid y DU o ran amseru newid a diwygio. Mae'n bwysig pwysleisio mai ar bwerau deddfu y mae'r refferendwm arfaethedig, ac nad oes ganddo ddim i'w wneud ag unrhyw drafodaeth ar ddatganoli pwerau codi trethi. Mae'r sefyllfa gyfreithiol yn glir: os oes pleidlais 'ie' yn y refferendwm, ni fydd y Cynulliad yn derbyn unrhyw bwerau a fyddai'n ei alluogi i ddeddfu ar drethi cyffredinol, fel treth incwm neu'r dreth gorfforaeth. Rwyf wedi trafod y

discussed this matter with the Chief Secretary to the Treasury.

Other important points have been raised. Nick, you mentioned the power to borrow. The commission makes a persuasive case for that. We must remember that these are also issues that my officials speak to the Treasury about, and we take those forward, too.

It is important to recognise that, across the Assembly, the commission has provided a thorough review of the financial structures and systems that underpin devolution, and we need that flexibility, as well as a detailed examination of how a future Assembly might gain tax-varying powers. Our immediate priority, as has been expressed today, must remain with the spending review and the challenging budget that lies ahead. That is why I say that the consideration of tax-varying powers must be a question for a future Assembly and, ultimately, the people of Wales.

Finally, there are clear reasons why we must unite in support of this motion. As Rhodri Morgan has said, it makes it clear that we are putting the interests of the people of Wales, the people we serve, first in securing a settlement that reflects their needs, based on the thorough and independent analysis provided by the commission. This goes back to the fact that the first thing that I did when I was briefly Minister for Budget and Assembly Business three and a half years ago was to announce that we were to have an independent commission; Andrew Davies then appointed Gerry, David and Berndt, who produced these impressive reports. They have produced two detailed and principled reports, which I have no doubt will come to be regarded as landmarks in the history of devolution in Wales. I hope that this debate will, too. It reflects well on the Assembly that, on the matter of fair funding, which is of such central importance to Wales, we are able to put aside party differences and stand together in the interest of the people we serve. I ask you all to support the motion and to back the Assembly Government in making the case to the UK Government for fair funding for Wales.

mater hwn â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys.

Mae pwyntiau pwysig eraill wedi cael eu codi hefyd. Nick, gwnaethoch sôn am bwerau benthyca. Mae'r comisiwn yn cyflwyno achos cryf dros hynny. Rhaid inni gofio bod fy swyddogion yn siarad â'r Trysorlys ynghylch y materion hyn hefyd, ac rydym yn bwrw ymlaen â'r rheini hefyd.

Mae'n bwysig cydnabod bod y comisiwn wedi darparu adolygiad trylwyr o'r strwythurau a'r systemau ariannol sy'n sail i ddatganoli ar draws y Cynulliad. Mae arnom angen yr hyblygrwydd hwnnw, yn ogystal ag archwiliad manwl o sut y gallai Cynulliad yn y dyfodol gael pwerau amrywio trethi. Rhaid i'n blaenoriaeth gyntaf, fel y mynegwyd heddiw, aros gyda'r adolygiad o wariant a'r gyllideb heriol sydd o'n blaenau. Dyna pam rwyf yn dweud ei bod yn rhaid i ystyried pwerau amrywio trethi fod yn gwestiwn ar gyfer Cynulliad yn y dyfodol ac, yn y pen draw, ar gyfer pobl Cymru.

Yn olaf, ceir rhesymau clir pam mae'n rhaid inni uno i gefnogi'r cynnig hwn. Fel y dywedodd Rhodri Morgan, mae'n dangos yn glir ein bod yn rhoi buddiannau pobl Cymru, y bobl rydym yn eu gwasanaethu, yn gyntaf wrth sicrhau setliad sy'n adlewyrchu eu hanghenion, ar sail y gwaith dadansoddi trylwyr ac annibynnol a ddarparwyd gan y comisiwn. Mae hyn yn mynd yn ôl at y ffaith mai'r peth cyntaf a wneuthum pan oeddwn am gyfnod byr yn Weinidog dros y Gyllideb a Busnes y Cynulliad dair blynedd a hanner yn ôl oedd cyhoeddi ein bod am gael comisiwn annibynnol; yna penododd Andrew Davies Gerry, David a Berndt, a gynhyrchoedd yr adroddiadau hynod hyn. Maent wedi cynhyrchu dau adroddiad manwl ac egwyddorol, ac nid oes gennyf ddim amheuaeth na fyddant yn cael eu hystyried yn bwysig iawn yn hanes datganoli yng Nghymru. Rwyf yn gobeithio y bydd hynny'n wir am y ddadl hon hefyd. Mae'n adlewyrchu'n dda ar y Cynulliad, ar y mater o gyllido teg, sydd mor hanfodol i Gymru, ein bod yn gallu rhoi gwahaniaethau pleidiau o'r neilltu a sefyll gyda'n gilydd er budd y bobl a wasanaethwn. Gofynnaf i chi i gyd gefnogi'r cynnig a chefnogi Llywodraeth y Cynulliad i gyflwyno'r achos dros gyllid teg i Gymru i

Lywodraeth y DU.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that there are no objections. The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 7.35.

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion agreed.*

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw bod y cynnig yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiad. Mae'r cynnig, felly, wedi'i dderbyn, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35.

### **Dechrau'n Deg Flying Start**

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendments 1, 2 and 3 in the name of Nick Ramsay and amendment 4 in the name of Peter Black.

*Cynnig NDM4549 Jane Hutt*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*Yn croesawu casgliadau ac argymhellion yr ail 'Gwerthusiad Interim o Dechrau'n Deg'.*

**The Deputy Minister for Children (Huw Lewis):** I move the motion.

I am pleased to be able to present the interim evaluation report of the Flying Start programme. As a Government, we are committed to reducing child poverty. This is reflected in the Children and Families (Wales) Measure 2010 and, of course, our draft child poverty strategy. Flying Start is an important part of our approach. The declared purpose of the programme is

'to make a decisive difference to the life chances of children aged under 4 in the areas in which it runs'.

That is why I commend to you the evaluation of Flying Start, which confirms that, within three years of becoming operational, we are already on track to improve the life chances of some of our most deprived children.

This report tells us a number of things about the positive effects of this programme, and I want to share them with you today. There is

**Y Dirprwy Lywydd:** Rwyf wedi dethol gwelliannau 1, 2 a 3 yn enw Nick Ramsay a gwelliant 4 yn enw Peter Black.

*Motion NDM4549 Jane Hutt*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*Welcomes the findings and recommendations of the second 'Interim Evaluation of Flying Start'.*

**Y Dirprwy Weinidog dros Blant (Huw Lewis):** Cynigiau y cynnig.

Rwyf yn falch o allu cyflwyno adroddiad gwerthuso interim y rhaglen Dechrau'n Deg. Rydym ni fel Llywodraeth wedi ymrwymo i leihau tlodi plant. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu ym Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 ac, wrth gwrs, yn ein strategaeth ddrafft ar dlodi plant. Mae Dechrau'n Deg yn rhan bwysig o'n dull gweithredu. Pwrpas y rhaglen yw gwneud

'gwahaniaeth pendant i gyfleoedd bywyd plant o dan bedair blwydd oed yn yr ardaloedd ble'i cynhelir'.

Dyna pam rwyf yn cyflwyno gwerthusiad Dechrau'n Deg ichi, sy'n cadarnhau ein bod, o fewn tair blynedd i ddod yn weithredol, eisoes ar y trywydd iawn i wella cyfleoedd bywyd rhai o'n plant mwyaf difreintiedig.

Mae'r adroddiad hwn yn dweud nifer o bethau wrthym am effeithiau cadarnhaol y rhaglen hon, ac rwyf am eu rhannu gyda chi

strong body of local, qualitative evidence that is consistently positive. Improvements have been seen in the social and emotional development of the children taking part in the programme. Teachers are reporting that they are seeing 'noticeable differences' in children who have been part of the Flying Start programme. The children are better prepared for school, quicker to settle, better behaved and more confident when interacting with other children. Teachers are telling us that there are improvements in children's language and cognitive development.

In health outcomes, there are early indications of increased rates of breastfeeding, increased immunisation rates and reduced referrals to accident and emergency departments. These improvements have been influenced by the intensive health visiting provision provided by the programme. Health visiting is succeeding in engaging with those families that are harder to reach.

We are also seeing improvements in a number of other key areas, not least in terms of parental confidence and engagement. Parents are not just becoming more engaged in Flying Start services, but also in generic services that benefit the wider family. Parents are reporting improvements in self-confidence and are more able to deal with the everyday challenges of parenting. The close working of the Flying Start programme with schools in a number of areas was seen as a significant factor in encouraging parents to engage more with schools.

It is important to take time to reflect on how we have managed to bring about such important, significant changes to the lives of some of our most deprived children and families in such a relatively short space of time.

We have invested £148 million in Flying Start to date, of which £21 million has been through capital funding. Most of this has been used to develop free part-time childcare for the two-year-olds in the programme. As the Flying Start areas are the most deprived in Wales, they have, historically, suffered

heddiw. Ceir corff cryf o dystiolaeth leol ac ansoddol sy'n gadarnhaol drwy'r amser. Gwelwyd gwelliannau yn natblygiad cymdeithasol ac emosïynol y plant sy'n cymryd rhan yn y rhaglen. Yn ôl yr athrawon, maent yn gweld 'gwahaniaethau amlwg' yn y plant sydd wedi bod yn rhan o'r rhaglen Dechrau'n Deg. Mae'r plant yn fwy parod ar gyfer yr ysgol, yn setlo'n gyflymach, yn ymddwyn yn well ac yn fwy hyderus wrth ryngweithio â phlant eraill. Mae'r athrawon yn dweud wrthym fod gwelliannau yn iaith y plant ac yn eu datblygiad gwybyddol.

O ran y canlyniadau iechyd, ceir arwyddion cynnar bod mwy o famau'n bwydo ar y fron, fod cynnydd yn y cyfraddau imiwneiddio, a llai o gyfeiriadau at adrannau damweiniau ac achosion brys. Mae'r gwelliannau hyn wedi cael eu dylanwadu gan y gwasanaethau ymwelwyr iechyd dwys sy'n cael ei ddarparu gan y rhaglen. Mae'r gwasanaethau ymwelwyr iechyd yn llwyddo i ymgysylltu â'r teuluoedd hynny sy'n anos eu cyrraedd.

Rydym hefyd yn gweld gwelliannau mewn nifer o feysydd allweddol eraill, yn enwedig o ran ymgysylltiad a hyder rhieni. Yn ogystal â chymryd mwy o ran mewn gwasanaethau Dechrau'n Deg, mae rhieni hefyd yn cymryd rhan mewn gwasanaethau generig sydd o fudd i'r teulu'n gyffredinol. Mae'r rhieni'n dweud eu bod yn gweld gwelliannau yn eu hunan-hyder a'u bod yn fwy abl i ymdrin â heriau magu plant o ddydd i ddydd. Roedd y ffaith bod y rhaglen Dechrau'n Deg yn gweithio'n agos gydag ysgolion mewn nifer o feysydd hefyd yn cael ei ystyried yn ffactor o bwys wrth annog rhieni i ymwneud mwy â'r ysgolion.

Mae'n bwysig cymryd amser i bwysu a mesur sut rydym wedi llwyddo i sicrhau newidiadau mor fawr a phwysig i fywydau rhai o'n plant a'n teuluoedd mwyaf difreintiedig mewn cyfnod cymharol fyr.

Rydym wedi buddsoddi £148 miliwn yn y rhaglen Dechrau'n Deg hyd yma—£21 miliwn drwy arian cyfalaf. Mae'r rhan fwyaf o'r arian hwn wedi cael ei ddefnyddio i ddatblygu gofal plant rhan-amser am ddim ar gyfer y plant dyflwydd oed yn y rhaglen. Gan mai'r ardaloedd Dechrau'n Deg yw'r rhai

from a near absence of high-quality childcare. As a result of this investment, we now have over 280 Flying Start childcare settings providing care for our children, many of which simply did not exist before.

A sum of £1.5 million has been invested in additional training places for health visitors. This means that the caseload requirement of Flying Start health visitors is 1:110. A total of 164 health visitors are now funded through this programme. They are the human face of Flying Start, ensuring that families are offered an easily accessible, integrated programme of services, from health visitors to childcare, to parenting, to language and play. Crucially, this reduced caseload enables health visitors to spend time with families, drawing on the toolbox of additional services and support provided by Flying Start. They are supported by a range of other health professionals, including midwives, speech and language therapists, dieticians, physiotherapists and family support workers.

We have also invested in quality. Quality childcare needs quality staff. Recruitment, staff training and development was and continues to be a key priority. The evaluation tells us that this investment in training and development has resulted in a highly skilled workforce, better able to deliver services to meet the needs of the local Flying Start catchment areas.

Again, as far as the parenting and the language and play offer are concerned, time has been given and a considerable amount of investment in training has taken place. Wider language development activities are being undertaken by the majority of children and young people's partnerships. This incorporates staff and parental training in language development, assessment and

mwyaf difreintiedig yng Nghymru, yn hanesyddol, nid yw gofal plant o safon wedi bodoli ynddynt bron. O ganlyniad i'r buddsoddiad hwn, mae gennym bellach dros 280 o leoliadau gofal plant Dechrau'n Deg sy'n darparu gofal ar gyfer ein plant. Nid oedd ambell un o'r lleoliadau hyn yn bodoli o'r blaen.

Mae swm o £1.5 miliwn wedi'i fuddsoddi mewn canolfannau hyfforddi ychwanegol ar gyfer ymwelwyr iechyd. Mae hyn yn golygu bod gofyniad llwyth achosion ymwelwyr iechyd Dechrau'n Deg yn 1:110. Erbyn hyn, mae 164 o ymwelwyr iechyd yn cael eu hariannu drwy'r rhaglen hon. Hwy yw wyneb dynol Dechrau'n Deg, sy'n sicrhau bod teuluoedd yn cael cynnig rhaglen wasanaethau integredig a hygyrch, gan gynnwys gwasanaethau ymwelwyr iechyd, gofal plant a magu plant, yn ogystal â gwasanaethau iaith a chwarae. Gan fod y baich achosion yn llai, mae'r ymwelwyr iechyd yn gallu treulio amser gyda theuluoedd, gan fanteisio ar y pecyn o wasanaethau ychwanegol a chymorth a ddarperir gan Dechrau'n Deg, ac mae hynny'n hollbwysig. Maent yn cael eu cefnogi gan amrywiaeth o weithwyr iechyd proffesiynol eraill, gan gynnwys bydragedd, therapyddion lleferydd ac iaith, dietegwyr, ffisiotherapyddion a gweithwyr cefnogi teuluoedd.

Rydym hefyd wedi buddsoddi mewn safon. Mae angen staff o safon er mwyn cael gofal plant o safon. Roedd recriwtio a datblygu a hyfforddi staff yn flaenoriaeth allweddol, ac mae hynny'n wir o hyd. Mae'r gwerthusiad yn dweud wrthym fod y buddsoddiad hwn mewn hyfforddiant a datblygu wedi arwain at weithlu medrus iawn, sydd mewn gwell sefyllfa i ddarparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion dalgylchoedd y rhaglen Dechrau'n Deg.

Unwaith eto, o ran yr hyn a gynnigir o safbwynt magu plant, iaith a chwarae, mae amser wedi cael ei roi a chryn dipyn wedi'i fuddsoddi mewn hyfforddiant. Mae'r mwyafrif o bartneriaethau plant a phobl ifanc yn cynnal gweithgareddau datblygu iaith ehangach. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant i staff a rhieni mewn gwasanaethau datblygiadol, asesu a datblygu iaith, a

developmental services provided by the speech and language therapists and their support teams.

Flying Start was designed as a targeted intervention. We would not and could not, I would maintain, have learned the lessons that we have learned from Flying Start had it not been as closely focused and monitored as it has been. That is not to say that the lessons of Flying Start could not inform future policies and programmes that are not as geographically specific as Flying Start has been. I would stress that targeted provision like Flying Start has universal benefits, as we solve problems for the most deprived families in Wales. Flying Start was always intended to help us develop answers to the challenges facing some of our most disadvantaged children and families. It was intended to sit alongside other funding schemes, such as Cymorth, and to work in the context of universal services. However, one of Flying Start's key objectives was to help build the evidence base for us to understand even better what works in helping those families facing the greatest challenges.

The Flying Start programme is a really powerful example of evidence-based policy making within the Welsh Assembly Government. This latest research report, while not yet providing the longer-term analysis of outcomes—that will follow in the next couple of years—suggests that the programme is well on its way to delivering them.

6.00 p.m.

We have paid careful attention to the evaluation report. Officials are currently unpicking the findings and are exploring ways of addressing the challenges that have been highlighted in the report, and of acting on its recommendations.

Research will continue to be an integral part of the programme. Further quantitative evidence on the early health and parenting outcomes from the programme will be available early in 2011. Current planned

ddarperir gan y therapyddion lleferydd ac iaith a'u timau cymorth.

Hanfod Dechrau'n Deg oedd bod yn ddull o ymyrryd wedi'i dargedu. Rwyf yn sicr na fyddem wedi dysgu'r gwersi rydym wedi'u dysgu gan Dechrau'n Deg, ac na fyddem wedi gallu gwneud hynny, pe na bai wedi bod yn destun gwaith monitro mor drylwyr. Nid yw hynny'n golygu na allai gwersi a ddysgwyd gan Dechrau'n Deg lywio polisiau neu raglenni nad ydynt mor ddaearyddol benodol â Dechrau'n Deg yn y dyfodol. Hoffwn bwysleisio bod gan ddarpariaeth wedi'i thargedu fel Dechrau'n Deg fanteision cyffredinol, gan ein bod yn datrys problemau ar gyfer y teuluoedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Bwriad Dechrau'n Deg erioed oedd ein helpu i gael atebion i'r heriau sy'n wynebu rhai o'n plant a'n teuluoedd mwyaf difreintiedig. Bwriad y cynllun oedd gorwedd ochr yn ochr â chynlluniau cyllido eraill, fel Cymorth, a gweithio yng nghyd-destun gwasanaethau cyffredinol. Fodd bynnag, un o amcanion allweddol Dechrau'n Deg oedd helpu i ddatblygu sylfaen dystiolaeth er mwyn inni allu deall yn well byth beth sy'n gweithio i helpu'r teuluoedd hynny sy'n wynebu'r heriau mwyaf.

Mae'r rhaglen Dechrau'n Deg yn enghraifft wirioneddol bwerus o lunio polisiau seiliedig ar dystiolaeth o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru. Er nad yw'n darparu dadansoddiadau o ganlyniadau yn y tymor hwy eto—mae hynny i ddod yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf—mae'r adroddiad ymchwil diweddaraf hwn yn awgrymu bod y rhaglen bron â'u cyflawni.

Rydym wedi rhoi sylw gofalus i'r adroddiad gwerthuso. Mae swyddogion wrthi'n edrych yn fanwl ar y canfyddiadau ac yn ystyried ffyrdd o fynd i'r afael â'r heriau a amlygwyd yn yr adroddiad, ac o roi ei argymhellion ar waith.

Bydd gwaith ymchwil yn parhau i fod yn rhan annatod o'r rhaglen. Bydd rhagor o dystiolaeth feintiol ar y canlyniadau ar gyfer elfennau iechyd a magu plant y rhaglen ar gael ddechrau 2011. Bydd y gwaith ymchwil

research on the programme will continue until 2013. As policy makers, we need to consider it carefully and ensure that the lessons are applied.

It is this robust approach to evidence-based policy making that I intend to bring to the Families First pioneers, which I launched in July. We have already seen from this evaluation of Flying Start the impact that targeting resources at those most in need, in a coherent, integrated way, can have on children and their families in a relatively short time. I have asked two consortia of local authorities, one in north Wales and one in south Wales, to develop integrated, preventative and, where they can, innovative approaches to supporting families out of poverty. I have asked the consortia to develop a model that will show how they will take this work forward in their areas. They have now provided me with their plans. We are looking at them. When we have finished, we will have a better idea of how we will deliver services to families in a better, more efficient and more integrated way.

Families First is about placing the family at the centre of our anti-poverty work, especially those families that need the most support. I want that support to be continuous, not episodic, as it has been so often in the past. Families First will be the focus of our future support for families. It will be the crux of our whole approach. It will help us to ensure that our investment to support families is delivered in the most economic, efficient and effective way possible—in short, making the best use of the limited resources available to us. I will announce a further tranche of pioneer areas in the new year. Ultimately, the initiative will be rolled out to all local authorities in Wales.

Finally, I want to give this undertaking: whatever Westminster throws at us in the next few weeks, we in Wales will continue with our commitment to supportive family

sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y rhaglen ar hyn o bryd yn parhau tan 2013. Fel llunwyr polisi, mae angen inni ei ystyried yn ofalus a sicrhau bod y gwersi yn cael eu defnyddio.

Dyma'r ymagwedd gadarn at lunio polisiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth rwyf yn bwriadu ei chyflwyno i'r ardaloedd arloesi Teuluoedd yn Gyntaf, a lanswyd gennyf ym mis Gorffennaf. Rydym eisoes wedi gweld o'r gwerthusiad hwn o Dechrau'n Deg yr effaith y mae targedu adnoddau ar gyfer y rheini sydd fwyaf mewn angen, mewn ffordd gydlynol ac integredig, yn gallu ei chael ar blant a'u teuluoedd mewn amser cymharol fyr. Rwyf wedi gofyn i ddau gonsortium o awdurdodau lleol, un yn y gogledd a'r llall yn y de, ddatblygu dulliau gweithredu integredig, ataliol a, lle y gallant, arloesol i gefnogi teuluoedd i gamu allan o dlodi. Rwyf wedi gofyn i'r consortia ddatblygu model a fydd yn dangos sut y byddant yn datblygu'r gwaith hwn yn eu hardaloedd. Maent bellach wedi darparu eu cynlluniau imi ac rydym wrthi'n edrych arnynt. Pan fyddwn wedi gorffen, bydd gennym well syniad o sut y byddwn yn darparu gwasanaethau i deuluoedd mewn ffordd well sy'n fwy effeithlon ac yn fwy integredig.

Hanfod Teuluoedd yn Gyntaf yw rhoi'r teulu wrth wraidd ein gwaith gwrth-dlodi, yn enwedig y teuluoedd hynny sydd angen y gefnogaeth fwyaf. Rwyf am i'r gefnogaeth honno fod yn barhaus, nid yn ysbeidiol, fel sydd wedi bod yn wir mor aml yn y gorffennol. Teuluoedd yn Gyntaf fydd ffocws ein cymorth ar gyfer teuluoedd yn y dyfodol. Bydd yn greiddiol i'n dull gweithredu cyfan. Bydd yn ein helpu i sicrhau bod ein buddsoddiad i gefnogi teuluoedd yn cael ei ddarparu yn y ffordd fwyaf darbodus, effeithlon ac effeithiol bosibl—yn gryno, defnyddio'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael inni yn y ffordd orau. Byddaf yn cyhoeddi cyfran bellach o ardaloedd arloesi yn y flwyddyn newydd. Yn y pen draw, bydd y fenter yn cael ei chyflwyno i bob awdurdod lleol yng Nghymru.

Yn olaf, rwyf am ymrwymo i hyn: beth bynnag y bydd San Steffan yn ei daflu atom yn ystod yr wythnosau nesaf, byddwn ni yng Nghymru yn parhau â'n hymrwymiad i



policy. We will hold to our commitment to the eradication of child poverty by 2020. We will deal with the budgetary difficulties that are thrown at us. On this agenda, Wales will show a mind and a political will of its own.

*Gwelliant 1 Nick Ramsay*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn nodi bod y 'Gwerthusiad Interim o Dechrau'n Deg' yn amlygu bod 'rhai materion yn parhau parthed yr amrywiad ar draws Partneriaethau o ran darparu hawliau Dechrau'n Deg a'r tensiwn rhwng yr hawliau a ragnodir yn genedlaethol a'u priodoldeb ar lefel leol' ac y dylid adolygu hyn yn gyson a'i ddatrys lle mae angen.*

*Gwelliant 2 Nick Ramsay*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn nodi bod tystiolaeth gan Sefydliad Joseph Rowntree yn dynodi bod mwy o blant mewn tldi yn byw y tu allan i ardaloedd dynodedig Cymorth a Dechrau'n Deg nag yn yr ardaloedd ac felly mae'n cydnabod yr angen i drosglwyddo i ardaloedd y tu allan i'r rhaglenni sydd wedi cael eu targedu'n ddaearyddol.*

*Gwelliant 3 Nick Ramsay*

*Yn cydnabod yr angen am ymyriadau ataliol sy'n dylanwadu ar ganlyniadau i blant a'u bod yn cael eu darparu gan bartneriaethau strategol rhwng y sector statudol, y sector gwirfoddol a'r sector preifat.*

**Mark Isherwood:** I move amendments 1, 2 and 3.

The Welsh Conservatives welcome the findings and recommendations of this second interim evaluation of Flying Start and are committed to taking forward work to create positive outcomes for disadvantaged children aged under 4 in Wales. This interim evaluation highlights areas requiring

bolisiau cefnogi teuluoedd. Byddwn yn bwrw ymlaen â'n hymrwymiad i ddileu tldi plant erbyn 2020. Byddwn yn ymdrin â'r anawsterau cyllidebol sy'n cael eu taflu atom. Bydd Cymru yn dangos ei meddwl a'i hewyllys gwleidyddol ei hun yng nghyswllt yr agenda hon.

*Amendment 1 Nick Ramsay*

*Add new point at end of motion:*

*Notes that the 'Interim Evaluation of Flying Start' highlights that 'there are some remaining issues with regard to the variation across Partnerships in the delivery of the Flying Start entitlements and the tension between the nationally prescribed entitlements and their appropriateness at local level' which should be kept under review and resolved where necessary.*

*Amendment 2 Nick Ramsay*

*Add new point at end of motion:*

*Notes that evidence from the Joseph Rowntree Foundation indicates that more children in poverty live outside Cymorth and Flying Start designated areas than inside them and therefore recognises the need to transfer to areas outside the geographically targeted programmes.*

*Amendment 3 Nick Ramsay*

*Recognises the need for preventative interventions that influence child outcomes to be delivered by strategic partnership between statutory, voluntary and private sectors.*

**Mark Isherwood:** Cynigiau welliannau 1, 2 a 3.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn croesawu canfyddiadau ac argymhellion yr ail werthusiad interim o Dechrau'n Deg, ac rydym wedi ymrwymo i fwrw ymlaen â'r gwaith i sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer plant difreintiedig iau na 4 oed yng Nghymru. Mae'r gwerthusiad dros dro hwn

improvement in service design and delivery. Our amendment 1 is a quotation from the report, which can only command support across the Chamber, in accordance with the Welsh Government's motion welcoming the report in its entirety. This notes that the interim evaluation of Flying Start highlights that there are some remaining issues with regard to the variation across partnerships in the delivery of the Flying Start entitlements and the tension between the nationally prescribed entitlements and their appropriateness at local level, which should be kept under review and resolved where necessary.

As the Wales Council for Voluntary Action has already indicated in a different, but related, context, there is a need to move beyond Government programmes and to provide the community-owned dimension that is often sought but seldom achieved in creating a better Wales, leading to more independent, resilient communities, thereby reducing the tension between nationally prescribed entitlements and their appropriateness at a local level.

Amendment 2 notes that evidence from the Joseph Rowntree Foundation indicates that more children in poverty live outside Cymorth and Flying Start designated areas than inside them, therefore recognising the need to transfer to areas outside the geographically targeted programmes. While giving evidence during Stage 1 deliberations on the Children and Families (Wales) Measure 2010, the Joseph Rowntree Foundation stated that it would have real concerns about the proposed Measure's ability to address child poverty if the strategy was to rely entirely on the Cymorth and Flying Start programmes. It said that research suggested that there are more children in poverty living outside the areas designated as disadvantaged than inside them and added:

'More broadly, relying on programmes that are geographically targeted to deliver on a goal that is household-based will cause some problems.

yn tynnu sylw at feysydd sydd angen eu gwella o ran cynllunio a darparu gwasanaethau. Mae gwelliant 1 yn ddyfyniad o'r adroddiad, ac ni all gael dim ond cefnogaeth ar draws y Siambr, yn unol â chynnig Llywodraeth Cymru yn croesawu'r adroddiad yn ei gyfanrwydd. Mae'n nodi bod y gwerthusiad interim o Dechrau'n Deg yn amlygu bod rhai materion yn parhau parthed yr amrywiad ar draws partneriaethau o ran darparu hawliau Dechrau'n Deg a'r tensiwn rhwng yr hawliau a ragnodir yn genedlaethol a'u priodoldeb ar lefel leol, a ddylai gael eu hadolygu'n gyson a'u datrys lle mae angen.

Fel y mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru eisoes wedi'i nodi mewn gwahanol gyd-destun ond sydd yn gysylltiedig, mae angen symud y tu hwnt i raglenni'r Llywodraeth a darparu'r dimensiwn sy'n eiddo i'r gymuned. Anelir at gael y dimensiwn hwnnw'n aml, ond ni chyrrhaeddir y nod yn aml wrth fynd ati i greu Cymru well. Bydd hynny'n arwain at gymunedau mwy annibynnol a chadarn, ac yn lleihau'r tensiwn rhwng hawliau a ragnodir yn genedlaethol a'u priodoldeb ar lefel leol.

Mae gwelliant 2 yn nodi bod tystiolaeth gan Sefydliad Joseph Rowntree yn dynodi bod mwy o blant mewn tlodi yn byw y tu allan i ardaloedd dynodedig Cymorth a Dechrau'n Deg nag yn yr ardaloedd eu hunain. Felly mae'n cydnabod yr angen i drosglwyddo i ardaloedd y tu allan i'r rhaglenni sydd wedi cael eu targedu'n ddaearyddol. Wrth roi tystiolaeth yn ystod Cyfnod 1 y trafodaethau ar Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, dywedodd Sefydliad Joseph Rowntree y byddai ganddo bryderon gwirioneddol ynghylch gallu'r Mesur arfaethedig i fynd i'r afael â thlodi plant os bydd y strategaeth yn dibynnu'n gyfan gwbl ar y rhaglenni Cymorth a Dechrau'n Deg. Dywedodd fod gwaith ymchwil yn awgrymu bod mwy o blant sy'n byw mewn tlodi y tu allan i'r ardaloedd a ddynodwyd yn ddifreintiedig nag y tu mewn iddynt, ac ychwanegodd:

Yn fwy cyffredinol, bydd dibynnu ar raglenni sydd wedi'u targedu'n ddaearyddol er mwyn cyrraedd nod sy'n seiliedig ar aelwydydd yn achosi cryn dipyn o broblemau.

Everything points to the two programmes being very good, and doing an immense amount of good, but it seems highly unlikely that they will be sufficient in themselves to deliver on the child poverty goal.

There will be families that do not fall within those criteria that really need support. ... So I would assume that, for the delivery of the strategy, you will have to go outside those two programmes and their criteria to be effective.'

We should not be prescriptive and, as the Wales Council for Voluntary Action has said, we need:

'sustainability, scale and transparency allowing schemes that can be transferred to areas outside geographically targeted programmes',

while maintaining those geographically targeted programmes.

Amendment 3 recognises the need for preventative interventions that influence child outcomes to be delivered by strategic partnership between statutory, voluntary and private sectors. As that wording was taken from the Welsh Government website, we trust that it will command support from across the Chamber.

As the Wales Council for Voluntary Action and its partners have identified, we need to involve the voluntary sector in the development of services across Wales. We only have to look at the pioneering work, emulated by the Welsh Government, of Barnardo's in Flintshire in tackling child poverty to see evidence of this, bringing together the independent third sector and the public sector with the citizen and the community at the centre, and delivering a mutual service delivery model. By liberating the third sector in Wales and giving it a place in strategic planning and delivery, it and we can develop services based on outcomes rather than outputs. As the sector has said,

Mae'r arwyddion yn pwyntio at ddwy raglen dda iawn, sy'n gwneud llawer iawn o waith da, ond mae'n ymddangos yn annhebygol iawn y byddant yn ddigon ynddynt eu hunain i gyrraedd y nod o ran tlodi plant.

Bydd teuluoedd nad ydynt yn dod o fewn y meini prawf hynny y mae gwir angen cymorth arnynt. ... Felly, byddwn yn tybio, ar gyfer cyflwyno'r strategaeth, y bydd yn rhaid ichi fynd y tu allan i'r ddwy raglen hynny a'u meini prawf er mwyn bod yn effeithiol.

Ni ddylem fod yn rhagnodol, ac fel y mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru wedi'i ddweud, mae arnom angen:

cynlluniau sy'n caniatáu cynaliadwyedd, graddfa a thryloywder y gellir eu trosglwyddo i ardaloedd y tu allan i raglenni sydd wedi'u targedu'n ddaeryddol,

gan gynnal y rhaglenni hynny sydd wedi'u targedu yn ddaeryddol ar yr un pryd.

Mae gwelliant 3 yn cydnabod yr angen am ymyriadau ataliol sy'n dylanwadu ar ganlyniadau i blant a'u bod yn cael eu darparu gan bartneriaethau strategol rhwng y sector statudol, y sector gwirfoddol a'r sector preifat. Gan fod y geiriau hynny wedi dod oddi ar wefan Llywodraeth Cymru, hyderwn y bydd yn ennyn cefnogaeth y Siambr i gyd.

Fel y mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a'i bartneriaid wedi'i nodi, mae angen inni gynnwys y sector gwirfoddol wrth ddatblygu gwasanaethau ledled Cymru. Nid oes yn rhaid inni ond edrych ar y gwaith arloesol, sy'n cael ei efelychu gan Lywodraeth Cymru, y mae Barnardos yn sir y Fflint yn ei wneud i fynd i'r afael â thlodi plant i weld tystiolaeth o hyn. Mae'n dod â'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector annibynnol at ei gilydd ac yn rhoi'r dinesydd a'r gymuned yn y canol, gan ddarparu model cyflwyno gwasanaeth ar y cyd. Drwy ryddhau'r trydydd sector yng Nghymru a rhoi lle iddo mewn gwaith cynllunio strategol a chyflenwi, gall y sector a ninnau ddatblygu gwasanaethau yn seiliedig ar ganlyniadau yn hytrach nag allbynnau. Fel y mae'r sector wedi'i ddweud,

‘We need smart money, not more money, recognising that it is not your budget, but “ours”.’

As the report states, the pilot nature of Flying Start should be constantly kept in mind—it should not be regarded as a quick fix, but given time to become embedded as part of early years support. It also recommends that the Flying Start budget allocation needs to be kept under review. When I attended a National Childminding Week event in Flintshire in July—Wales’s biggest smallest choir—I heard concern expressed over the uncertainty regarding future Flying Start funding for childcare support providers and child minders, and therefore over employment security for child minders, where current funding arrangements can only run to March 2011. This must focus all our minds as we develop our manifestos for the election next May.

*Gwelliant 4 Peter Black*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn cydnabod bod dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar ardal yn methu helpu cyfran uchel iawn o blant o gartrefi difreintiedig ac yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i roi rhagor o ddisgresiwn i awdurdodau lleol wario arian Dechrau'n Deg mewn ffordd sy'n addas i anghenion eu cymunedau lleol.*

**Jenny Randerson:** I move amendment 4.

This amendment covers the same ground as one of the Conservative amendments, as it refers to the area-based and geographically-based approach of Communities First. What inspired this amendment was the same piece of evidence that Mark has just referred to, which is the evidence that was given to us in committee with regard to the Children and Families (Wales) Measure 2010 by the Joseph Rowntree Foundation, which pointed out that more than half of the children in Wales living in poverty were living outside of Flying Start areas, and that, therefore, a great deal of the money was not reaching the children most in need. The Government has been strict in adhering to this approach,

Arian clyfar sydd ei angen arnom, nid rhagor o arian, a chydabod nad eich cyllideb chi ydyw, ond ein cyllideb ‘ni’.

Fel y dywed yr adroddiad, dylai natur beilot Dechrau'n Deg gael ei gadw mewn cof bob amser—ni ddylai gael ei ystyried yn ateb cyflym, dylai gael amser i ymsefydlu fel rhan o'r cymorth ar gyfer blynyddoedd cynnar. Mae hefyd yn argymhell bod angen parhau i adolygu dyraniad cyllideb Dechrau'n Deg. Ym mis Gorffennaf, bûm mewn digwyddiad a oedd yn rhan o'r Wythnos Genedlaethol Gwarchod Plant yn sir y Fflint—côr lleiaf mwyaf Cymru—ac yno clywais bryderon am yr ansicrwydd ynghylch cyllid Dechrau'n Deg yn y dyfodol ar gyfer darparwyr cymorth gofal plant, ac felly am sicrwydd cyflogaeth gwarchodwyr plant, lle mai dim ond tan fis Mawrth 2011 y gall y trefniadau ariannu presennol barhau. Rhaid i hyn hoelio ein sylw wrth inni lunio ein manifestos ar gyfer yr etholiad fis Mai nesaf.

*Amendment 4 Peter Black*

*Add as new point at end of motion:*

*Recognises that an area-based approach fails to assist a very high proportion of children from deprived homes and calls on the Welsh Assembly Government to allow greater discretion for local authorities to spend Flying Start money in a manner that suits the needs of their local communities.*

**Jenny Randerson:** Cynigiau welliant 4.

Mae'r gwelliant hwn yn cwmpasu'r un meysydd ag un o welliannau'r Ceidwadwyr, gan ei fod yn cyfeirio at ddull gweithredu sy'n canolbwyntio ar ardaloedd ac sy'n seiliedig ar ddaearyddiaeth Cymunedau yn Gyntaf. Yr hyn a ysbrydolodd y gwelliant hwn oedd yr un darn o dystiolaeth y mae Mark newydd gyfeirio ato, sef y dystiolaeth a roddwyd inni yn y pwyllgor ynghylch Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 gan Sefydliad Joseph Rowntree. Roedd y dystiolaeth honno'n tynnu ein sylw at y ffaith bod mwy na hanner y plant yng Nghymru sy'n byw mewn tldi yn byw y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg, gan olygu nad oedd llawer iawn o'r arian yn cyrraedd y

because the Minister will be aware that Wrexham council sought to depart from it and to target its money at the children most in need, rather than at the areas most in need, and was told that it could no longer do that. I think that it is a great pity that the money is not available to the very many children who live outside Communities First areas.

To deal with the report, I note that it refers in a few places to the fact that the approach that the Assembly Government has taken is too prescribed. Now that the pilot stage is over, Minister, please allow a more community-centred approach and local solutions to local problems. Please trust those delivering the services locally to do that in the most effective way. That is not to say that we in the Assembly should abandon an overview of the scheme, or that you as Minister should cease to monitor its effectiveness.

6.10 p.m.

I wish to point to one aspect of the system's effectiveness that needs to be monitored, namely the considerable variation in the administrative costs and the estimated overheads. They are high—26 per cent to 28 per cent in estimation—which is higher than you would normally expect in public services, where anywhere between 10 per cent and 20 per cent is considered normal. If you look at the average allocation to central and evaluation costs, it is 13 per cent. However, the allocations vary between 6 per cent and an astonishing 31 per cent. Minister, in the interests of learning the lessons and learning from good practice, I urge you to take a further look at the variation in these overhead costs and administrative costs so that the highest ones are reduced, and that those areas that are spending a very high percentage on administrative costs can become more efficient to ensure that more of the money gets to the front line to the children and their families, who desperately need this help. I suggest that further work by the Audit Commission might be one way

plant mwyaf anghenus. Mae'r Llywodraeth wedi bod yn glynu'n gaeth at y dull gweithredu hwn. Bydd y Gweinidog yn gwybod bod cyngor Wrecsam wedi ceisio gwyro oddi wrtho a thargeduo ei arian ar y plant mwyaf anghenus, yn hytrach nag ar yr ardaloedd mwyaf anghenus, ond dywedwyd wrtho na fyddai modd iddo wneud hynny rhagor. Rwyf yn meddwl ei fod yn drueni mawr nad yw'r arian ar gael i'r nifer helaeth o blant sy'n byw y tu allan i ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

I ymdrin â'r adroddiad, nodaf ei fod yn cyfeirio mewn ychydig leoedd at y ffaith bod dull gweithredu Llywodraeth y Cynulliad yn rhy ragnodedig. Gan fod y cynnod peilot wedi dod i ben erbyn hyn, Weinidog, a wnewch ganiatáu dull sy'n canolbwyntio ar y gymuned ac atebion lleol i broblemau lleol. Rhowch eich ffydd yn y rheini sy'n cyflwyno'r gwasanaethau yn lleol i wneud hynny yn y ffordd fwyaf effeithiol. Nid yw hynny'n golygu y dylem yn y Cynulliad gefnu ar drosolwg o'r cynllun, nac y dylech fel Gweinidog roi'r gorau i fonitro ei effeithiolrwydd.

Hoffwn dynnu sylw at un elfen o effeithiolrwydd y system y mae angen ei monitro, sef yr amrywiad sylweddol yn y costau gweinyddol a'r costau cyffredinol a amcangyfrifir. Maent yn uchel—amcangyfrifir eu bod rhwng 26 y cant a 28 y cant—sy'n uwch na'r hyn y byddech yn ei ddisgwyl fel arfer mewn gwasanaethau cyhoeddus, lle mae unrhyw ffigur rhwng 10 y cant a 20 y cant yn cael ei ystyried yn arferol. Os ydych yn edrych ar y dyraniad cyfartalog ar gyfer costau canolog a chostau gwerthuso, mae'n 13 y cant. Fodd bynnag, mae'r dyraniadau'n amrywio rhwng 6 y cant a'r ffigur anhygoel o 31 y cant. Weinidog, er mwyn dysgu gwersi a dysgu o arferion da, rwyf yn eich annog i edrych eto ar yr amrywiad yn y costau cyffredinol a'r costau gweinyddol hyn fel bod y rhai uchaf yn cael eu lleihau, a bod yr ardaloedd hynny sy'n gwario canran uchel iawn ar gostau gweinyddol yn gallu bod yn fwy effeithlon i sicrhau bod mwy o'r arian yn cyrraedd y rheng flaen a'r plant a'u teuluoedd y mae dirfawr angen yr help hwn arnynt. Rwyf yn

ahead. However, I would leave it to you to choose your path, but please look at the issue.

**Joyce Watson:** I am grateful for the opportunity to speak during this debate on the Flying Start initiative. I am greatly encouraged by the interim report, which highlights that the scheme has had a promising beginning and that it is important to build on that. Ensuring equality of opportunity is among the primary roles of the Government. This is particularly the case for children. It is patently unfair that a child born in an area of economic and social deprivation should be offered fewer opportunities than any other child in the country. Redressing this balance and working towards equality is one of the major incentives and goals for anyone entering public office. Flying Start is an excellent example of how Government initiatives can do exactly this, and we should all do what we can to ensure that it succeeds.

I wish to focus my speech on how the scheme has successfully joined up services, offering a multi-agency approach that works effectively. This should be an example to other areas of how working together can bring the most positive results. To pick an example from the area that I represent, Penparcau near Aberystwyth has seen a health visitor, a family support worker, a teacher and a manager working together to help local children. The fact that the scheme works is testament to the hard work and co-operation shown by each of these professionals. We all know that we have a vast amount of talented and dedicated staff working across the sector in all parts of Wales, who are rising to the challenge to maximise the benefits of this work through collaboration and communication. We could do a lot worse than follow the examples of the very best examples of the Flying Start initiative.

A further point that I wish to make concerns the emphasis that the scheme places on

awgrymu y gallai gwaith pellach gan y Comisiwn Archwilio fod yn un ffordd ymlaen. Fodd bynnag, byddwn yn gadael i chi ddewis eich llwybr, ond a fyddechystal ag edrych ar y mater os gwelwch yn dda.

**Joyce Watson:** Rwyf yn ddiolchgar am y cyfle i siarad yn y ddadl hon ar y rhaglen Dechrau'n Deg. Rwyf wedi fy nghalonogi'n fawr gan yr adroddiad interim, sy'n tynnu sylw at y ffaith bod y cynllun wedi cael cychwyn addawol, ac mae'n bwysig adeiladu ar hynny. Mae sicrhau cyfle cyfartal ymhlith prif swyddogaethau'r Llywodraeth. Mae hyn yn arbennig o wir am blant. Mae'n gwbl annheg bod plentyn sy'n cael ei eni mewn ardal o amddifadedd economaidd a chymdeithasol yn cael cynnig llai o gyfleoedd nag unrhyw blentyn arall yn y wlad. Mae unioni'r fantol a gweithio i sicrhau cydraddoldeb yn un o'r prif gymhellion ac amcanion ar gyfer unrhyw un mewn swydd gyhoeddus. Mae Dechrau'n Deg yn enghraifft ardderchog o'r modd y gall mentrau'r Llywodraeth wneud hyn, a dylai pob un ohonom wneud ein gorau glas i sicrhau ei fod yn llwyddo.

Yn fy araith, hoffwn ganolbwyntio ar y modd y mae'r cynllun wedi llwyddo i ddod â gwasanaethau at ei gilydd, gan gynnig dull gweithredu aml-asiantaeth sy'n gweithio'n effeithiol. Dylai hyn fod yn esiampl i ardaloedd eraill o'r modd y mae cydweithio yn gallu sicrhau'r canlyniadau mwyaf cadarnhaol. Rwyf wedi dewis enghraifft o'r ardal rwyf fi'n ei chynrychioli. Mae Penparcau ger Aberystwyth wedi gweld ymwelydd iechyd, gweithiwr cefnogi teuluoedd, athro a rheolwr yn gweithio gyda'i gilydd i helpu plant lleol. Mae'r ffaith bod y cynllun yn gweithio yn brawf o waith caled a chydweithrediad pob un o'r gweithwyr proffesiynol hyn. Rydym i gyd yn gwybod bod gennym lawer iawn o staff talentog ac ymroddedig sy'n gweithio ar draws y sector ym mhob rhan o Gymru. Mae'r rheini'n ymateb i'r her i sicrhau'r manteision mwyaf posibl drwy gydweithredu a chyfathrebu. Gallem wneud yn llawer gwaeth na dilyn enghreifftiau o'r enghreifftiau gorau un o'r fenter Dechrau'n Deg.

Rwyf am wneud pwynt arall am y pwyslais y mae'r cynllun yn ei roi ar rieni. Mae bod yn

parents. Being a parent is a tough job, and all parents need a bit of help at some point, particularly during the early years. What is more, the relationship between a child and its parents can have a hugely significant impact on their attitude towards others, towards themselves and towards their environment. I am deeply encouraged that the report highlights that there has been secured improvement towards parental confidence and engagement. If all that comes out of this scheme is that parents across all of the areas affected have increased confidence and engage effectively with their children, we could consider that a success.

It is crucial that the scheme maintains a targeted approach, pinpointing the areas that would most benefit from additional support, coupled with continuing support to address specific needs, such as emotional and social development and language and cognitive development. I believe that this scheme will continue to provide essential support to children and their families.

My final point is that a blanket approach that treats all areas the same would not work for something as complicated as this. The right balance has been struck between putting forward a national framework and leaving enough flexibility for local adjustment. The report makes it clear that this has been successful, and I would go so far as to say that it is probably the reason why the scheme has had such success.

**Mohammad Asghar:** Thank you for the opportunity to contribute to this debate. I am pleased to applaud any successes the programme has had to date and in particular any improvements to the social and cognitive development of children, matters that are touched upon in the interim evaluation report. I was pleased to read in the report examples from Newport, in my region, of young pupils from ethnic minority backgrounds improving their use of English and Welsh as a result of the Flying Start programme.

However, there are issues that need to be addressed, and I am particularly eager to take this opportunity to highlight a problem in

rhiant yn waith caled, ac mae ar bob rhiant angen ychydig o gymorth ar ryw adeg, yn enwedig yn ystod y blynyddoedd cynnar. Yn ogystal â hynny, mae'r berthynas rhwng plentyn a'i rieni yn gallu cael effaith arwyddocaol iawn ar eu hagwedd at eraill, at eu hunain ac at eu hamgylchedd. Mae'n galonogol iawn bod yr adroddiad yn dangos y bu gwelliannau sicr o safbwynt ymgysylltiad a hyder rhieni. Os mai'r unig beth sy'n deillio o'r cynllun hwn yw bod gan rieni ar draws pob un o'r ardaloedd dan sylw fwy o hyder a'u bod yn gallu ymgysylltu â'u plant yn fwy effeithiol, bydd y cynllun wedi llwyddo.

Mae'n hanfodol bod y cynllun yn cynnal dull wedi'i dargedu, sy'n tynnu sylw at y meysydd a fyddai'n elwa fwyaf o gymorth ychwanegol, ynghyd â chymorth parhaus i fynd i'r afael ag anghenion penodol, fel datblygiad emosiynol a chymdeithasol a datblygiad ieithyddol a gwybyddol. Credaf y bydd y cynllun hwn yn parhau i ddarparu cymorth hanfodol i blant a'u teuluoedd.

Fy mhwynt olaf yw na fyddai dull cyffredinol sy'n trin pob ardal yr un fath yn gweithio ar gyfer rhywbeth mor gymhleth â hyn. Rydym wedi cael y cydbwysedd cywir rhwng cyflwyno fframwaith genedlaethol a gadael digon o hyblygrwydd ar gyfer addasu'n lleol. Mae'r adroddiad yn dangos yn glir bod hyn wedi bod yn llwyddiannus, a byddwn yn mynd mor bell â dweud mai dyma'r rheswm pam mae'r cynllun wedi bod mor llwyddiannus.

**Mohammad Asghar:** Diolch yn fawr iawn am y cyfle i gyfrannu at y drafodaeth hon. Rwyf yn falch o gymeradwyo unrhyw lwyddiannau y mae'r rhaglen wedi'u cael hyd yma ac yn benodol unrhyw welliannau i ddatblygiad cymdeithasol a gwybyddol plant, sef materion sy'n cael eu crybwyll yn yr adroddiad gwerthuso interim. Roeddwn yn falch o ddarllen yn yr adroddiad enghreifftiau o Gasnewydd, yn fy rhanbarth, lle'r oedd disgyblion ifanc o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, yn sgîl y rhaglen Dechrau'n Deg, yn dysgu defnyddio Cymraeg a Saesneg yn well.

Fodd bynnag, mae materion y mae angen mynd i'r afael â hwy, ac rwyf yn arbennig o awyddus i fanteisio ar y cyfle hwn i dynnu

South Wales East. On instruction from the Welsh Assembly Government, eligible families for the Flying Start programme were told to withdraw due to high demand. I am told this had an impact on some 489 children. This was despite the fact that Newport City Council was able to give assurances that it could cope with additional demand within its existing budget and deliver adequately on the four strands of the scheme prescribed by the Welsh Assembly Government, which are health visiting, childcare, parenting support and language, and play programmes. Subsequently, in December 2009, Flying Start in Newport started removing families from the programme. However, some time later in August this year, I understand that a u-turn took place and Newport City Council was given approval to provide extended cover.

Although the Welsh Assembly Government's change of tack is to be welcomed, it is worrying that this situation was allowed to develop in the first place, given the excellent way in which Newport was carrying out its Flying Start duties. Newport was managing to deliver all aspects of Flying Start and more in a very cost-effective way, and that should be applauded. Representatives from Flying Start have told me their successes are partly due to their ability to keep management costs down. I believe that the Welsh Assembly Government should look at that and consider how using Newport as an example of best practice could influence Flying Start programmes in other parts of Wales.

As we know, there are issues linked to some partnerships' underspending. In the current financial climate, it is imperative that all budgets are spent effectively. Newport, as I have mentioned, has delivered more within its budget. This is why I would like to see Newport used as an example of cost-effective good practice.

On other issues, it is worrying that children in certain areas cannot access Flying Start

sylw at broblem yn Nwyrain De Cymru. Yn dilyn cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, dywedwyd wrth deuluoedd a oedd yn gymwys ar gyfer y rhaglen Dechrau'n Deg am dynnu'n ôl gan fod y galw'n uchel. Dywedir wrthyf fod hyn wedi effeithio ar 489 o blant. Roedd hyn er gwaethaf y ffaith bod Cyngor Dinas Casnewydd yn gallu sicrhau y gallai ymdopi â'r galw ychwanegol o fewn ei gyllideb a darparu'n ddigonol ar bedair elfen y cynllun a ragnodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, sef gwasanaeth ymwelwyr iechyd, gofal plant, cymorth ym maes magu plant ac iaith, a rhaglenni chwarae. Yn dilyn hynny, ym mis Rhagfyr 2009, dechreuodd Dechrau'n Deg yng Nghasnewydd dynnu teuluoedd oddi ar y rhaglen. Fodd bynnag, beth amser yn ddiweddarach ym mis Awst eleni, bu tro pedol, a rhoddwyd caniatâd i Gyngor Dinas Casnewydd ddarparu gwasanaeth estynedig.

Er ei bod yn rhaid croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi newid ei meddwl, mae'n destun pryder bod y sefyllfa hon wedi cael datblygu yn y lle cyntaf, o ystyried y ffordd ragorol roedd Casnewydd yn cyflawni ei dyletswyddau Dechrau'n Deg. Roedd Casnewydd yn llwyddo i gyflawni pob elfen o Dechrau'n Deg a mwy mewn ffordd gost-effeithiol iawn, ac mae hynny'n destun canmoliaeth. Mae cynrychiolwyr o Dechrau'n Deg wedi dweud wrthyf mai'r ffaith eu bod yn gallu cadw eu costau rheoli'n isel sy'n rhannol gyfrifol am eu llwyddiannau. Credaf y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru edrych ar hynny ac ystyried sut y gallai defnyddio Casnewydd fel enghraifft o arfer gorau ddylanwadu ar raglenni Dechrau'n Deg mewn rhannau eraill o Gymru.

Fel y gwyddom, mae problemau'n gysylltiedig â'r ffaith bod ambell bartneriaeth yn tanwario. Yn yr hinsawdd ariannol bresennol, mae'n hanfodol bod pob cyllideb yn cael ei gwario yn effeithiol. Mae Casnewydd, fel rwyf wedi sôn, wedi cyflawni mwy o fewn y gyllideb. Dyma pam y byddwn yn hoffi gweld Casnewydd yn cael ei defnyddio fel enghraifft o arfer cost-effeithiol da.

O ran materion eraill, mae'n destun pryder nad yw plant mewn ardaloedd penodol yn



